

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

03/02/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[1. Questions to the First Minister](#)

[2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

[2. Business Statement and Announcement](#)

[3. Datganiad: Y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol](#)

[3. Statement: The Local Government White Paper](#)

[4. Datganiad: Ardrethi Busnes](#)

[4. Statement: Business Rates](#)

[5. Datganiad: Gwella Uchelgais a Chyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru](#)

[5. Statement: Raising the Ambitions and Educational Attainment of Children who are Looked After in Wales](#)

[6. Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau](#)

[6. Statement: Update on Joint Working with the Department for Work and Pensions](#)

[7. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Arloesi Meddygol](#)

[7. Legislative Consent Motion on the Medical Innovation Bill](#)

[8. Dadl: Adolygiad o Addasiadau Byw'n Annibynnol](#)

[8. Debate: The Review of Independent Living Adaptations](#)

[9. Cyfnod Pleidleisio](#)

[9. Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Good afternoon. The National Assembly of Wales is now in session.	The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
13:30	1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography The first item this afternoon is questions to the First Minister, and question 1 is from Nick Ramsay.	1. Questions to the First Minister Y Senedd.tv Fideo Video Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma, a daw cwestiwn 1 gan Nick Ramsay.	
	Polisiâu i Wella'r M4	Policies for Improving the M4	
13:30	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography <i>1. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisiau Llywodraeth Cymru i wella'r M4? OAQ(4)2094(FM)</i>	1. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's policies for improving the M4? OAQ(4)2094(FM)	Senedd.tv Fideo Video
13:30	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Yes. As well as our long-term plans for the M4 corridor around Newport, we are carrying out a number of measures along the M4 elsewhere, to increase capacity and tackle pinch points.	Gwnaf. Yn ogystal â'n cynlluniau hirdymor ar gyfer coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd, rydym ni'n cyflawni nifer o fesurau ar hyd yr M4 mewn mannau eraill, er mwyn cynyddu capasiti a mynd i'r afael â mannau cyfyng.	Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. There are, as you will be aware, increasing concerns—from all sides—about the Government's proposed black route solution to the problems of the M4 in south-east Wales surrounding the Brynglas tunnels and, indeed, the process that led to the black route's adoption as the Government's preferred route. Aside from the environmental concerns, the commissioners of Newport docks have said that the bridges over the docks pose a serious threat to the economic wellbeing of the port at Newport. Will you now listen to the Welsh Conservative calls for you to reopen the consultation process around the M4 solution and to put the blue route well and truly on the table for consideration, during this hiatus that your failure to act over the last years has created over the next year?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Fel y byddwch yn ymwybodol, ceir pryderon cynyddol—o bob tu—am ateb llwybr du arfaethedig y Llywodraeth i broblemau'r M4 yn y de-ddwyrain yn ymwneud â thwneli Brynglas ac, yn wir, y broses a arweiniodd at fabwysiadu'r llwybr du fel y llwybr a ffefrir gan y Llywodraeth. Ar wahân i'r pryderon amgylcheddol, mae comisiynwyr dociau Casnewydd wedi dweud bod y pontydd dros y dociau'n fgythiad difrifol i les economaidd y porthladd yng Nghasnewydd. A wnewch chi wrando nawr ar alwadau Ceidwadwyr Cymru i chi ailagor y broses ymgynghori ar ateb yr M4 a chyflwyno'r llwybr glas mewn ffordd ystyrlon ar gyfer ystyriaeth, yn ystod y bwch hwn y mae eich methiant i weithredu dros y blynyddoedd diwethaf wedi ei greu dros y flwyddyn nesaf?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Does anyone follow Twitter, I wonder, on the benches opposite? Because William Graham, you see, said that he supported the black route, at which point, Antoinette Sandbach responded:

'Pity @williamgrahamam not willing to put his vote where his principles allegedly are. I was taught actions speak louder than words.'

'What price principles?', she continued:

'Public inquiry excludes Blue Route, whole point of the motion to get that position reviewed'.

But Byron Davies joined in then, on Twitter. He joined in, saying that, if there was to be a relief road, it didn't have to be a motorway. William Graham responded, saying it should be a motorway, at which point, Byron Davies said to William Graham, 'Could this be a spoof account?':

'Could this be a spoof account? @williamgrahamam I know so well, voted in favour of the Welsh Conservative motion yesterday.'

William Graham replied:

'No conflict between motion and Black Route. Confident Black Route will be chosen at public enquiry.'

Response from Byron Davies:

'Ah—confirmed, definitely a spoof account'.

William Graham later confirmed that his tweets were genuine.

Sometimes, I refer to 'the party opposite'; I should refer to 'the parties opposite'. They don't have a single view on the M4, a single view on transport, a single view on the economy—a rudderless shambles.

A oes unrhyw un yn dilyn Twitter, tybed, ar y meinciau gyferbyn? Oherwydd dywedodd William Graham, 'dych chi'n gweld, ei fod yn cefnogi'r llwybr du, ac yna ymatebodd Antoinette Sandbach:

Trueni nad yw @williamgrahamam yn fodlon cefnogi ei egwyddorion honedig gyda'i bleidlais. Cefais fy nysgu bod gwneud yn well na dweud.

Pa bris egwyddorion?, parhaodd:

Mae'r ymchwiliad cyhoeddus yn eithrio'r Llywybr Glas, holl bwynt y cynnig oedd adolygu'r sefyllfa honno.

Ond ymunodd Byron Davies â'r ddadl wedyn, ar Twitter. Dywedodd pe byddai ffordd liniaru na fyddai'n rhaid iddi fod yn draffordd. Ymatebodd William Graham, gan ddweud y dylai fod yn draffordd, ac yna dywedodd Byron Davies wrth William Graham, 'A allai hwn fod yn gyfrif ffug?':

A allai hwn fod yn gyfrif ffug? Pleidleisiodd yr @williamgrahamam yr wyf yn ei adnabod mor dda o blaid cynnig Ceidwadwyr Cymru ddoe.

Atebodd William Graham:

Dim gwrthdaro rhwng y cynnig a'r Llywybr Du. Rwy'n hyderus y bydd y Llywybr Du yn cael ei ddewis mewn ymchwiliad cyhoeddus.

Ymateb gan Byron Davies:

A—cadarnhad, cyfrif ffug yn bendant.

Cadarnhaodd William Graham yn ddiweddarach bod ei drydar yn ddilys.

Weithiau, rwy'n cyfeirio at 'y blaid gyferbyn'; dylwn gyfeirio at 'y pleidiau gyferbyn'. Nid oes ganddynt un safbwynt ar yr M4, un safbwynt ar drafnidiaeth, un safbwynt ar yr economi—traed moch digyfeiriad.

13:33

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you've actually identified the M4 has pinch points elsewhere, and clearly the overhead section at Port Talbot is one of those pinch points. The trial at junction 41 has been operating now for six months. Will you look at that trial? It's actually come to a point where we want to cease it. We want to look at the operation of the overhead average speed cameras to assess their effectiveness in the pinch point and then take a decision based upon the whole range of outcomes, but the people of Port Talbot have actually suffered congestion at pinch points along the roads in Port Talbot itself, and traders have informed me they've lost business. Is it now time to actually say that time is up on that trial?

Brif Weinidog, rydych chi wedi nodi bod mannau cyfwng ar rannau eraill o'r M4, ac mae'r rhan uwchben ym Mhort Talbot yn amlwg yn un o'r mannau cyfyng hynny. Mae'r prawf ar gyffordd 41 wedi bod ar waith ers chwe mis bellach. A wnewch chi edrych ar y prawf hwnnw? Mae wedi dod i bwynt mewn gwirionedd, lle'r ydym ni eisiau rhoi terfyn arno. Rydym ni eisiau edrych ar weithrediad y camerâu cyflymder cyfartalog uwchben i asesu eu heffeithiolrwydd yn y man cyfyng ac yna gwneud penderfyniad yn seiliedig ar yr ystod gyfan o ganlyniadau, ond mae pobl Port Talbot wedi dioddef tagfeydd mewn mannau cyfyng ar hyd y ffordd ym Mhort Talbot ei hun, ac mae masnachwyr wedi fy hysbysu eu bod wedi colli busnes. A yw bellach yn bryd dweud bod amser y prawf wedi dod i ben?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:33

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I will assure the Member the trial will operate until March. The effect of the peak-time closure will need to be reviewed before taking a decision on the way forward. Public consultation will take place, as part of any plans—if there are plans—for permanent closure. The effect of the average speed camera enforcement will be assessed using data collected from the east-bound carriageway, because there are no junction closures on the west-bound carriageway, and that trial is being monitored. All these things will be taken into account before the next steps are considered.

Wel, gallaf sicrhau'r Aelod y bydd y prawf ar waith tan fis Mawrth. Bydd angen adolygu cau ar yr adegau prysuraf cyn gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal, yn rhan o unrhyw gynlluniau—os oes cynlluniau—ar gyfer cau parhaol. Bydd effaith y gorfodi camera cyflymder cyfartalog yn cael ei hasesu gan ddefnyddio data a gasglwyd o'r lôn gerbydau tua'r dwyrain, gan nad oes unrhyw gyffordd ar gau ar y ffordd gerbydau tua'r gorllewin, ac mae'r prawf hwnnw'n cael ei fonitro. Bydd yr holl bethau hyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth cyn ystyried y camau nesaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:34

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We intend to use £1 billion as a shorthand for the cost of the new black route. There's a suggestion that, already, that price has maybe gone up to £1.2 billion. Would the First Minister also comment on suggestions that a bridge over Newport docks would cost another £200 million to £300 million on top of that, compared, incidentally, with about £100 million for a third crossing across the Menai, which is going to be highly unlikely, I guess, with £1.5 billion spent on that stretch of road in Newport?

Rydym ni'n bwriadu defnyddio £1 biliwn fel ffigur cryno ar gyfer cost y llwybr du newydd. Ceir awgrym, eisoes, bod y pris hwnnw efallai wedi cynyddu i £1.2 biliwn. A wnaiff y Prif Weinidog gynnig sylwadau hefyd ar awgrymiadau y byddai pont dros ddociau Casnewydd yn costio £200 miliwn i £300 miliwn arall ar ben hynny, o'i gymharu, gyda llaw, â thua £100 miliwn ar gyfer trydedd bont ar draws y Fenai, sy'n mynd i fod yn hynod annhebygol, rwy'n tybio, pan fo £1.5 biliwn yn cael ei wario ar y darn hwnnw o'r ffordd yng Nghasnewydd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:34

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, he's pulling figures from thin air, I have to say. I mean, it's not even £1 billion—it's well below that. We've always said very clearly that we would not seek to use the full amount that we were able to borrow to pay entirely for one road project—that's been made very, very clear. The reality is that something must be done to alleviate congestion around Newport. We have made our proposal and now, of course, that proposal is being examined through the various processes. But it is not good enough to say that nothing should happen, because the traffic will continue to build.

Wel, mae'n tynnu ffigyrau o'r awyr, mae'n rhaid i mi ddweud. Hynny yw, nid yw hyd yn oed yn £1 biliwn—mae'n llawer llai na hynny. Rydym ni wedi dweud yn eglur iawn erioed na fyddem ni'n ceisio defnyddio'r holl swm y gallem ni ei fenthyl yn gyfan gwbl i dalu am un prosiect ffyrdd—mae hynny wedi cael ei wneud yn eglur iawn, iawn. Y gwir amdani yw bod yn rhaid gwneud rhywbeth i liniaru tagfeydd o gwmpas Casnewydd. Rydym ni wedi gwneud ein cynnig a nawr, wrth gwrs, mae'r cynnig hwnnw'n cael ei archwilio drwy'r gwahanol brosesau. Ond nid yw'n ddigon da i ddweud na ddylai unrhyw beth ddigwydd, gan y bydd y traffig yn parhau i gynyddu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:35

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one way of improving traffic flow on the M4 is, of course, to encourage people to travel in other ways. With that in mind, I am wondering if you can tell us when the proposed introduction of a direct rail service between Ebbw Vale and Newport will begin.

Brif Weinidog, un ffordd o wella llif y traffig ar yr M4, wrth gwrs, yw annog pobl i ddefnyddio modd arall o deithio. Gyda hynny mewn golwg, rwy'n meddwl tybed a allwch chi ddweud wrthym ni pryd fydd cyflwyniad arfaethedig gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol rhwng Glynebwy a Chasnewydd yn cychwyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That's not going to affect the tunnels, as the traffic coming through the tunnels comes from the Severn bridge going west bound. Whether there is a railway line between Newport and Ebbw Vale isn't going to make a difference. The traffic does not travel through the tunnels to go between Ebbw Vale and Newport. Much of the traffic that comes through is coming through on a weekend. They're travellers, holidaymakers, particularly in the summer. They are going to use their cars. They are not going to go on to the trains because of, quite often, the luggage that they are carrying. The reality is that the situation is not going to be alleviated. There needs to be something done to make sure that the traffic continues to flow so that people aren't sitting in traffic jams with, of course, the effect on the environment with extra carbon dioxide emissions.

Nid yw hynny'n mynd i effeithio ar y twneli, gan fod y traffig sy'n dod drwy'r twneli yn dod o bont Hafren tua'r gorllewin. Nid yw pa un a oes rheilffordd ai peidio rhwng Casnewydd a Glynebwy yn mynd i wneud gwahaniaeth. Nid yw'r traffig yn teithio drwy'r twneli i fynd rhwng Glynebwy a Chasnewydd. Mae llawer o'r traffig sy'n dod drwyddynt yn dod drwyddynt ar y penwythnos. Teithwyr ydyn nhw, pobl ar eu gwyliau, yn enwedig yn yr haf. Maen nhw'n mynd i ddefnyddio eu ceir. Nid ydyn nhw'n mynd i fynd ar y trenau oherwydd, yn aml iawn, nifer y bagiau maen nhw'n eu cario. Y gwir amdani yw nad yw'r sefyllfa yn mynd i wella. Mae angen gwneud rhywbeth i sicrhau bod y traffig yn parhau i lifo fel nad yw pobl yn eistedd mewn tagfeydd traffig yn ogystal, wrth gwrs, â'r effaith ar yr amgylchedd gydag allyriadau carbon deuocsid ychwanegol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before we move on to question 2, I'm sure the Members would like to join me in welcoming a delegation from the Fijian Parliament, led by the speaker. I did assure them that you were very well behaved, so I hope that you're not going to let me down. [Laughter.] I now move to question 2—Rhodri Glyn Thomas.

Cyn i ni symud ymlaen at gwestiwn 2, rwy'n siŵr y byddai'r Aelodau'n hoffi ymuno â mi i groesawu dirprwyiaeth o Senedd Fiji, dan arweiniad y Llefarydd. Fe wnes i eu sicrhau bod eich ymddygiad yn dda iawn, felly rwy'n gobeithio nad ydych chi'n mynd i fy siomi. [Chwerthin.] Symudaf at gwestiwn 2 nawr—Rhodri Glyn Thomas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ad-drefnu Llywodraeth Leol

Local Government Reorganisation

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ad-drefnu llywodraeth leol? OAQ(4)2069(FM)

2. Will the First Minister make a statement on local government reorganisation? OAQ(4)2096(FM)

13:36

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, yn ddiweddarach heddiw, bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud datganiad ar y Papur Gwyn diweddaraf ar ddiwygio llywodraeth leol.

Well, later today, the Minister for Public Services will be making a statement on the latest reforming local government White Paper.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, mae hynny yn ddiddorol iawn, Brif Weinidog. A gaf i'ch atgoffa chi o'r hyn a ddywedoch chi ar 28 Ionawr y llynedd wrth gyflwyno adroddiad comisiwn Williams i ni? Fe ddywedoch fod yn rhaid i ni 'symud ar fyrder ar y mater yma ac fe fyddwn ni'n ymgynghori'n fewnol, ac fe fydd modd i ni fel Llywodraeth ddatgan ein safbwynt swyddogol ni wedi i ni gwblhau'r ymgynghoriad ar ddiwedd mis Mawrth'. Flwyddyn yn ddiweddarach, nid oes gennym y syniad lleiaf lle mae Llywodraeth Cymru'n sefyll. Wedi hynny, rydych wedi gofyn i gynghorau ddod gerbron gyda bwriadau i gyfuno yn wirfoddol. Rydych chi wedi troi'r rheiny lawr, ac, yn awr, mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd i wneud datganiad arall. Rydych chi dros y lle i gyd ar hyn, Brif Weinidog. Nid oes gennym ni'r syniad lleiaf lle rydych yn sefyll ar y mater yma, ac, yn bwysicach na hynny, nid oes gennych chi'r syniad lleiaf lle mae'ch Llywodraeth chi yn sefyll ar y mater.

Well, that's extremely interesting, First Minister. May I remind you of what you said on 28 January of last year in presenting the Williams commission report? You said that, 'We must move as a matter of urgency on this issue and will be consulting internally, and we as a Government will be able to state our official position once we have completed that consultation at the end of March'. A year later, we haven't the slightest idea where the Welsh Government stands. Following that, you've asked councils to come forward with proposals for voluntary merger. You've turned those down, and, now, the Minister for Public Services is going to make another statement. You're all over the place on this issue, First Minister. We don't have the slightest idea where you stand on this issue, and, more importantly, you haven't the slightest idea where your Government stands on this.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, petaem ni'n gwybod lle mae'ch plaid chi yn sefyll, byddai hynny'n damaid bach o help. Rwyf wedi rhoi gwahoddiad i'r pleidiau eraill [Torri ar draws.] Na, na, nid yw'n ddigonol i ddweud nad oes polisi gennych. Gwrandewch nawr reit: rwy'n moyn sicrhau bod cyfle i'r arweinwyr siarad gyda fi a chyda'n gilydd er mwyn dod i ryw fath o gasgliad ynglŷn â sut y dylai'r map edrych. Os nad oes cytuno ar hynny, felly, bydd yna fap yn cael ei gyhoeddi yn yr haf.

Well, knowing where your party stood would be a bit of a help. I've invited the other parties—[Interruption.] No, it's not enough to say that you have no policy. Listen now: I want to ensure that there is an opportunity for the leaders to speak to me and to each other to come to a conclusion about what the map should look like. If there is no agreement on that, a map will be published in the summer.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have seen two local government reorganisations when lines on a map have overridden the importance of service delivery. Will there be a published cost-benefit analysis prior to any local authority merger or will there be an internal rate of return based upon net present value prior to any merger?

Rydym ni wedi gweld dau ad-drefniad llywodraeth leol pan fo llinellau ar fap wedi cymryd blaenoriaeth dros ddarparu gwasanaethau. A fydd dadansoddiad cost a budd yn cael ei gyhoeddi cyn unrhyw achos o uno awdurdodau lleol neu a fydd cyfradd adennill fewnol yn seiliedig ar werth presennol net cyn unrhyw uno?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, there will, of course, be a draft regulatory impact assessment, which will accompany any proposals for a Bill and it, of course, will contain the figures in terms of the costs of such an action.

Wel, bydd, wrth gwrs, asesiad drafft o effaith rheoleiddio, a fydd yn ategu unrhyw gynigion ar gyfer Bil a bydd, wrth gwrs, yn cynnwys y ffigurau o ran costau gweithredu o'r fath.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, last week the Minister for Public Services, Minister No. 3, sent shock waves across not only those authorities whose bids had failed but the wider local government community in Wales. Now, despite previous commitments to the Williams recommendations, last week's actions certainly contradicted this. That left those authorities that had applied feeling that they'd completely been misled by the Minister and this Welsh Government. Now, this was, as you can well imagine, against a very tight financial, challenging sort of settlement and a challenging backdrop.

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, crewyd tonnau ysgytwad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Gweinidog Rhif 3, nid yn unig ymhlith yr awdurdodau hynny y mae eu ceisiadau wedi methu ond y gymuned llywodraeth leol ehangach yng Nghymru. Nawr, er gwaethaf ymrwymadau blaenorol i argymhellion Williams, roedd gweithredoedd yr wythnos diwethaf yn sicr yn gwrth-ddweud hyn. Gadawodd hynny'r awdurdodau hynny a oedd wedi gwneud cais yn teimlo eu bod wedi cael eu camarwain yn llwyr gan y Gweinidog a'r Llywodraeth Cymru hon. Nawr, roedd hyn, fel y gallwch ddychmygu, yn erbyn setliad ariannol tynn iawn a heriol a chefnidir heriol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Are you coming to the question?

A ydych chi'n dod at y cwestiwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:39 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Yes. With such uncertainty, turmoil and demoralisation in our very important level of governance here in Wales, it is time now for you to step up—
 Ydw. Gyda'r fath ansicrwydd, cythrwfl a digalondid yn ein lefel bwysig iawn o lywodraethu yma yng Nghymru, mae'n bryd nawr i chi ymateb—
- 13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Question. Cwestiwn.
- 13:39 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 [Continues.]—to the plate as the First Minister and tell us what is your plan for the blueprint for local government. And also—
 [Yn parhau.]—fel y Prif Weinidog a dweud wrthym beth yw eich cynllun o ran y glasbrint ar gyfer llywodraeth leol. A hefyd—
- 13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I think you've— Rwy'n credu eich bod chi—
- 13:39 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 [Continues.]—are you still committed, are you still committed to the Williams recommendations or do you have a bigger plan for a much smaller number of authorities—[Interruption.]
 [Yn parhau.]—a ydych chi'n dal wedi ymrwymo, a ydych chi'n dal wedi ymrwymo i argymhellion Williams neu a oes gennych chi gynllun mwy ar gyfer nifer lawer llai o awdurdodau— [Torri ar draws.]
- 13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Order. Trefn.
- 13:39 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 [Continues.]—in line with other Members within your own Cabinet?
 [Yn parhau.]—yn unol ag Aelodau eraill yn eich Cabinet eich hun?
- 13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 We're still considering what the map should look like, but what she's suggesting is that the proposals that came forward from the councils should have been rubber-stamped, regardless of any wider context. And the reality is, of course, that only one of the proposals was actually in line with the Williams commission's recommendations in any event. So, clearly, there were difficulties with doing that. I say, once again, that there is an open invitation to the other party leaders to take this forward. I'd prefer to take it forward on the basis of more than one party taking it forward. We know that it was always impossible to bring forward legislation before the election in 2016, and so, instead of shouting, come forward with some constructive proposals. [Interruption.]
 Rydym ni'n dal i ystyried sut y dylai'r map edrych, ond yr hyn y mae hi'n ei awgrymu yw y dylai'r cynigion a wnaed gan y cyngorau fod wedi cael eu cymeradwyo, heb ystyried unrhyw gyd-destun ehangach. A'r gwir yw, wrth gwrs, mai dim ond un o'r cynigion oedd mewn gwirionedd yn cyd-fynd ag argymhellion comisiwn Williams beth bynnag. Felly, yn amlwg, roedd anawsterau o ran gwneud hynny. Rwy'n dweud, unwaith eto, bod gwahoddiad agored i arweinwyr y pleidiau eraill i fwrw ymlaen â hyn. Byddai'n well gennyf fwrw ymlaen ar y sail bod mwy nag un blaid yn bwrw ymlaen ag ef. Rydym ni'n gwybod erioed y byddai'n amhosibl cyflwyno deddfwriaeth cyn yr etholiad yn 2016, ac felly, yn hytrach na gweiddi, dewch ymlaen â chynigion adeiladol. [Torri ar draws.]
- 13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I knew I made a mistake telling the speaker from Fiji that you were well behaved.
 Roeddwn i'n gwybod fy mod i wedi gwneud camgymeriad wrth ddweud wrth y llefarydd o Fiji eich bod yn ymddwyn yn dda.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

- 13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon we have the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.
- Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.
- 13:40 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*
- First Minister, you are very keen to tell us that you are a leader of Welsh Labour. Are you leader of a cult-like mafia that is frightened of free speech and terrified of dissenting voices?
- Brif Weinidog, rydych chi'n awyddus iawn i ddweud wrthym mai chi yw arweinydd Llafur Cymru. A ydych chi'n arweinydd maffia tebyg i gwlt sy'n ofni siarad rhydd ac yn cael eich dychryn gan leisiau sy'n anghytuno?
- 13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- No, I leave him to judge that; he's in a better position than me.
- Nac ydw, gadawaf iddo ef farnu hynny; mae mewn sefyllfa well na mi.
- 13:40 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Obviously, your former employee, Councillor Luke Ellis, seems to think that you are, given his writings and comments over the last couple of days, in that he has highlighted the fact that, you know, Labour today is more like a cult-like mafia and is frightened of free speech and terrified of dissenting voices. Now, I remember full well that, when we talked about the Williams commission last year, you were confident that you would carry your party and you would have a quick decision. Now, what we have 12 months later, First Minister, are two parts of your party refusing to select AMs—Caerphilly and Islwyn—we have councillors walking out in Wrexham, we have a public services Minister who is ripping up the work of his predecessors, and we have a First Minister who is setting no direction at all for local government reorganisation. When are we going to have a road map for what local government is going to look like from your leaderless Government?
- Yn amlwg, mae'n ymddangos bod eich cyn-weithiwr, y Cyngorydd Luke Ellis, yn meddwl eich bod chi, o ystyried yr hyn y mae wedi ei ysgrifennu a'i sylwadau yn ystod y diwrnodau diwethaf, o ran y ffaith ei fod wedi tynnu sylw at y ffaith, wyddoch chi, bod y blaid Lafur heddiw yn debycach i faffia tebyg i gwlt ac yn ofni siarad rhydd ac y mae lleisiau sy'n anghytuno yn ei dychryn. Nawr, rwy'n cofio'n iawn, pan drafodwyd comisiwn Williams gennym y llynedd, eich bod yn hyderus y byddech yn cario eich parti ac y byddech yn cael penderfyniad cyflym. Nawr, yr hyn sydd gennym 12 mis yn ddiweddarach, Brif Weinidog, yw dwy ran o'ch plaid yn gwrthod dewis ACau—Caerffili ac Islwyn—mae gennym ni gynghorwyr yn cerdded allan yn Wrecsam, mae gennym ni Weinidog gwasanaethau cyhoeddus sy'n diystyru gwaith ei ragflaenwyr, ac mae gennym ni Brif Weinidog nad yw'n pennu unrhyw gyfeiriad o gwbl ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol. Pryd ydym ni'n mynd i gael map ffyrdd ar gyfer sut y mae llywodraeth leol yn mynd i edrych gan eich Llywodraeth diarweiniad?
- 13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Can I advise the leader of the opposition to be very careful in terms of quoting Luke Ellis? I give you that very strong advice at this stage, given the things that you may not know. I'll leave it there. Secondly, he talks about leaderlessness. This is a party whose members tweet publicly against each other while he sits there and does nothing. Absolutely nothing. He lets them do it and he thinks it's our party that has been leaderless. The reality is that we are in a situation where we have outlined now the way forward in terms of local government in Wales. There is a White Paper, there is a statement this afternoon, and the Minister will make clear the future direction of local government for Wales.
- A gaf i gynghori arweinydd yr wrthblaid i fod yn ofalus iawn o ran dyfynnu Luke Ellis? Rhoddaf y cyngor cryf iawn hwnnw i chi ar y pwynt hwn, o ystyried y pethau y mae'n bosibl nad ydych chi'n eu gwybod. Nid wyf am ddweud dim mwy. Yn ail, mae'n sôn am ddiffyg arweiniad. Mae hon yn blaid y mae ei haelodau'n trydar yn gyhoeddus yn erbyn ei gilydd tra ei fod ef yn eistedd yn y fan yna ac yn gwneud dim. Dim byd o gwbl. Mae e'n gadael iddyn nhw wneud hynny ac mae'n credu mai ein plaid ni sydd wedi bod yn ddiaarweiniad. Y gwir amdani yw ein bod mewn sefyllfa lle'r ydym ni wedi amlinellu'r ffordd ymlaen bellach o ran llywodraeth leol yng Nghymru. Ceir Papur Gwyn, ceir datganiad y prynhawn yma, a bydd y Gweinidog yn egluro cyfeiriad llywodraeth leol i Gymru yn y dyfodol.

13:42

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, whilst you're very familiar with quoting Twitter, I concentrate on the real issues that people want to focus on, which is what the local government foot map will look like around Wales. Ultimately, what people want to know, and in fairness—[Interruption.] The public services Minister can giggle and laugh, but all he seems to do is go around causing mayhem like he did in education, with very little results. What the public services Minister should concentrate on is supporting councillors in their role, and, in particular, communities getting the services they require in their everyday lives. Last week, we saw from him complete disregard for all the work that has gone on in the last 12 months. I just don't think it's unreasonable, and many other people don't think it's unreasonable, to see a clear set of principles coming from the Government as to what we can expect around local government reorganisation.

Brif Weinidog, er eich bod yn gyfarwydd iawn gyda dyfynnu Twitter, rwyf i'n canolbwyntio ar y materion go iawn y mae pobl eisiau canolbwyntio arnynt, sef sut y bydd y map troed llywodraeth leol yn edrych ar draws Cymru. Yn y pen draw, yr hyn y mae pobl eisiau ei wybod, ac er tegwch—[Torri ar draws.] Gall y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus biffian a chwerthin, ond y cwbl y mae'n ymddangos ei fod e'n ei wneud yw mynd o gwmpas yn achosi anhrefn fel y gwnaeth ym maes addysg, gyda fawr ddim canlyniadau. Yr hyn y dylai'r Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus ei wneud yw canolbwyntio ar gefnogi cynghorwyr yn eu swyddogaethau, ac, yn benodol, cymunedau'n cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn eu bywydau beunyddiol. Yr wythnos diwethaf, gwelsom ddiystyriaeth lwyr ganddo o'r holl waith a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf. Nid wyf yn meddwl ei bod yn afresymol, ac mae llawer o bobl eraill nad ydynt yn meddwl ei bod yn afresymol, i gael gweld cyfres eglur o egwyddorion yn cael eu cyflwyno gan y Llywodraeth ynglŷn â'r hyn y gallwn ei ddisgwyl o ran ad-drefnu llywodraeth leol.

Now, you've talked of a map coming forward this summer. Is that map going to actually come down to six local authorities, as has been talked of by the public services Minister, or is it going to stick to the Williams commission principles, and we're going to see 12 or 13? Can you give us that simple, simple geographical context that the Welsh Government is working to?

Nawr, rydych chi wedi sôn am fap yn cael ei gyflwyno yn ystod yr haf hwn. A yw'r map hwnnw'n mynd i arwain mewn gwirionedd at chwe awdurdod lleol, fel y soniwyd gan y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus, neu a yw'n mynd i gadw at egwyddorion comisiwn Williams, a'n bod yn mynd i weld 12 neu 13? A allwch chi roi'r cyd-destun daearyddol syml, syml hwnnw i ni y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n unol ag ef?

13:43

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I don't believe 13 was a figure in the Williams commission's proposals, but I'm not going to prejudge discussions that I have with other party leaders; that would be discourteous and I'm not prepared to do that. But he mentions education. He's run from that, obviously, this afternoon, despite the fact of running a press conference on this. He's run from the fact that his party in England have failed to build any new schools, run from the fact that they have got rid of the education maintenance allowance, run from the fact that they've trebled, nearly, the amount of money that students in Wales would pay in the future if they had their way—

Nid wyf yn credu bod 13 yn ffigur yng nghynigion comisiwn Williams, ond nid wyf yn mynd i ragfarnu trafodaethau yr wyf i'n eu cael gydag arweinwyr y pleidiau eraill; byddai hynny'n anghwrtais ac nid wyf yn fodlon gwneud hynny. Ond mae'n crybwyll addysg. Mae wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth hynny, yn amlwg, y prynhawn yma, er gwaethaf i gynhadledd i'r wasg gael ei chynnal ar hyn. Mae wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth y ffaith bod ei blaid yn Lloegr wedi methu ag adeiladu unrhyw ysgolion newydd, wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth y ffaith eu bod wedi cael gwared ar y lwfans cynhالياeth addysg, wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth y ffaith eu bod wedi treblu, bron, faint o arian y byddai myfyrwyr yng Nghymru yn ei dalu yn dyfodol pe bydden nhw'n cael eu ffordd—

13:44

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A cult-like mafia.

Maffia tebyg i gwlt.

13:44

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

[Continues.]—run from the fact that education spending in Wales is 8% higher than it is in England—run from that, run from any kind of policy decision, run from the fact that his Prime Minister yesterday trailed the suggestion that schools funding would be ring-fenced in England and then rolled back from it.

[Yn parhau.]—wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth y ffaith bod gwariant ar addysg yng Nghymru 8% yn uwch nag yw yn Lloegr—wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth hynny, wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth unrhyw fath o benderfyniad polisi, wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth y ffaith bod ei Brif Weinidog ddoe wedi gwneud yr awgrym y byddai cyllid ysgolion yn cael ei neilltuo yn Lloegr ac yna wedi newid ei feddwl.

13:44	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography A cult-like mafia. A cult-like mafia.	Maffia tebyg i gwl. Maffia tebyg i gwl.	Senedd.tv Fideo Video
13:44	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> [Continues.]—And worst of all, in a press release the Conservatives sent out only this afternoon, accused the Labour Government of gerrymandering exam results.	[Yn parhau.]—Ac yn waeth na dim, mewn datganiad i'r wasg a anfonwyd gan y Ceidwadwyr y prynhawn yma ddiwethaf, cyhuddwyd y Llywodraeth Lafur o gyffindwylllo canlyniadau arholiadau.	Senedd.tv Fideo Video
13:44	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography A cult-like mafia. A cult-like mafia.	Maffia tebyg i gwl. Maffia tebyg i gwl.	Senedd.tv Fideo Video
13:44	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> [Continues.]—Every single young person who has tried an exam in the past year or two has had that qualification undermined. What kind of a party undermines Welsh students to please their masters in London? The party opposite.	[Yn parhau.]—Tanseiliwyd y cymhwyster hwnnw i bob person ifanc sydd wedi sefyll arholiad yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Pa fath o blaid sy'n tanseilio myfyrwyr Cymru i fodloni eu meistri yn Llundain? Y blaid gyferbyn.	Senedd.tv Fideo Video
13:44	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography A cult-like mafia.	Maffia tebyg i gwl.	Senedd.tv Fideo Video
13:44	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I think you've said that six times.	Rwy'n credu eich bod chi wedi dweud hynna chwe gwaith.	Senedd.tv Fideo Video
13:44	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography I was hoping he'd pick up on it: his ex-employee.	Roeddwn i'n gobeithio y byddai'n ei glywed: ei gyn weithiwr.	Senedd.tv Fideo Video
13:45	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order. Right, we now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.	Trefn. Iawn, symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.	Senedd.tv Fideo Video
13:45	Leanne Wood Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru</i> Diolch, Lywydd. As you know, First Minister, Plaid Cymru has produced detailed, costed proposals that are achievable to employ and train an additional 1,000 doctors for the Welsh NHS. According to Welsh Government estimates, can you tell us how many additional doctors Wales needs?	Diolch, Lywydd. Fel y gwyddoch, Brif Weinidog, mae Plaid Cymru wedi llunio cynigion manwl, wedi'u costio sy'n gyraeddadwy i gyflogi a hyfforddi 1,000 o feddygon ychwanegol ar gyfer y GIG yng Nghymru. Yn ôl amcangyfrifon Llywodraeth Cymru, a allwch chi ddweud wrthym faint o feddygon ychwanegol y mae Cymru eu hangen?	Senedd.tv Fideo Video
13:45	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Well, we know that we have, for example, 11% more GPs, who have been put in place over the past decade. We know that vacancies are low. We know that there are difficulties in recruiting doctors in some specialisms, that much is right. It would help me, for example, if you were to explain how the recruitment of 1,000 doctors is achievable and where they'd come from.	Wel, rydym ni'n gwybod bod gennym, er enghraifft, 11% yn fwy o feddygon teulu, a benodwyd dros y degawd diwethaf. Gwyddom fod nifer y swyddi gwag yn isel. Gwyddom fod anawsterau o ran recriwtio meddygon mewn rhai arbenigeddau, mae cymaint â hynny'n wir. Byddai'n fy helpu i, er enghraifft, pe byddech yn esbonio sut mae recriwtio 1,000 o feddygon yn gyraeddadwy ac o ble y bydden nhw'n dod.	Senedd.tv Fideo Video

13:45

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We've produced detailed proposals on this. There is a paper available. We have plans to recruit doctors in the short term and train them over the long term. First Minister, surely we can all agree that a shortage of GPs, especially in the Valleys and in rural communities, is a ticking time bomb, with so many people due to retire. Now, the number of doctors that we have needs to be addressed now so that we have a new generation of GPs able to meet patients' needs. You announced proposals last week to introduce 1,000 additional medical staff into the Welsh NHS. Can you tell us how many of those would be doctors?

Rydym ni wedi cynhyrchu cynigion manwl ar hyn. Mae papur ar gael. Mae gennym ni gynlluniau i recriwtio meddygon yn y tymor byr a'u hyfforddi nhw yn yr hirdymor. Brif Weinidog, does bosib na allwn ni i gyd gytuno bod prinder meddygon teulu, yn enwedig yn y Cymoedd ac mewn cymunedau gwledig, yn fom sy'n ticio, gyda chymaint o bobl ar fin ymddeol. Nawr, mae angen rhoi sylw i nifer y meddygon sydd gennym ni nawr fel bod gennym ni genhedlaeth newydd o feddygon teulu sy'n gallu diwallu anghenion cleifion. Cyhoeddwyd cynigion gennych yr wythnos diwethaf i gyflwyno 1,000 o aelodau staff meddygol ychwanegol i'r GIG yng Nghymru. A allwch chi ddweud wrthym faint o'r rheini fyddai'n feddygon?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

They would be doctors, nurses, OTs, they would be physiotherapists, and they would be people who are at the front line of healthcare, because we know those figures are achievable. What we don't know, from this mythical paper, which I haven't seen, I have to say, is where you are going to get 1,000 doctors in five years. You can't train them in five years, because it takes more than five years to train a doctor, so that's out of the window. You know that. You would apparently recruit 1,000 extra doctors. I mean, the ambition's fine, I'm not going to argue with you about that, but where on earth would you recruit 1,000 extra doctors in five years? There is no country on the planet that could do that.

Byddent yn feddygon, yn nyrsys, yn therapyddion galwedigaethol, byddent yn ffisiotherapyddion, a byddent yn bobl sydd ar reng flaen gofal iechyd, gan ein bod yn gwybod bod y ffigurau hynny'n gyraeddadwy. Yr hyn nad ydym ni'n ei wybod, o'r papur chwedlonol hwn, nad wyf wedi ei weld, mae'n rhaid i mi ddweud, yw o ble rydych chi'n mynd i gael 1,000 o feddygon mewn pum mlynedd. Ni allwch chi eu hyfforddi mewn pum mlynedd, gan ei bod yn cymryd mwy na phum mlynedd i hyfforddi meddyg, felly gellir diystyru hynny. Rydych chi'n gwybod hynny. Mae'n debyg y byddech chi'n recriwtio 1,000 o feddygon ychwanegol. Hynny yw, mae'r uchelgais yn iawn, nid wyf i'n mynd i ddadlau â chi ynglŷn â hynny, ond ble ar y ddaear fyddech chi'n recriwtio 1,000 o feddygon ychwanegol mewn pum mlynedd? Nid oes unrhyw wlad ar y blaned a allai wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You deliberately misunderstand our policy, First Minister. Our plans include a short-term measure to recruit doctors now and a longer-term plan over two terms of a Plaid Cymru Government to train additional doctors for the Welsh NHS. We propose 1,000 doctors because that's how many doctors we need to bring Wales up to the UK average. That's a reasonable first step as part of a long-term plan for the Welsh NHS. Now, it's concerning to me that you can't specify how many additional doctors the Welsh NHS needs as part of your proposals. It also concerns me that you've linked your proposals to Whitehall's introducing a mansion tax. Now, you've previously said to us, in this Chamber, 'What happens in Westminster happens in Westminster', so where is your plan to train the additional doctors that we need now, irrespective of Whitehall's tax policies?

Rydych chi'n camddeall ein polisi'n fwriadol, Brif Weinidog. Mae ein cynlluniau'n cynnwys mesur tymor byr i recriwtio meddygon nawr a chynllun mwy hirdymor dros ddau dymor o Lywodraeth Plaid Cymru i hyfforddi meddygon ychwanegol ar gyfer y GIG yng Nghymru. Rydym ni'n cynnig 1,000 o feddygon gan mai dyna faint o feddygon sydd eu hangen arnom i ddod â Chymru i fyny at gyfartaledd y DU. Mae hwnnw'n gam cyntaf rhesymol yn rhan o gynllun hirdymor ar gyfer y GIG yng Nghymru. Nawr, mae'n fy mhoeni i na allwch chi nodi faint o feddygon ychwanegol sydd eu hangen ar y GIG yng Nghymru yn rhan o'ch cynigion. Mae hefyd yn fy mhoeni eich bod wedi cysylltu eich cynigion â Whitehall yn cyflwyno treth blastai. Nawr, rydych chi wedi dweud wrthym o'r blaen, yn y Siambr hon bod, 'yr hyn sy'n digwydd yn San Steffan yn digwydd yn San Steffan', felly ble mae eich cynllun i hyfforddi'r meddygon ychwanegol sydd eu hangen arnom ni nawr, waeth beth fo polisiâu treth Whitehall?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We do not know—we know now it's two terms, apparently; that's news to us, but there we are—how many extra doctors you plan to train. We do not know which specialisms you say you would put the doctors in—

Nid ydym yn gwybod—rydym ni'n gwybod nawr ei fod yn ddau dymor, mae'n debyg; mae hynny'n newyddion i ni, ond dyna ni—faint o feddygon ychwanegol ydych chi'n bwriadu eu hyfforddi. Nid ydym yn gwybod ym mha arbenigeddau yr ydych chi'n dweud y byddech chi'n rhoi'r meddygon ynddynt—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:48 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
This is your policy—
- 13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, it's not my policy to recruit 1,000 more doctors. It's perfectly proper for the people of Wales to try to understand where these doctors would come from. I make the point to you: what you suggest is impossible, and any doctor will tell you that, which is why I say the ambition might be fine but the reality is you've not thought through the policy. You accuse us, but frankly, if we get extra money from London, we'll take it, not like you and say, 'We don't want it; we want independence instead'. We're not in the business of saying that we will base the recruitment of 1,000 doctors on making sure that people carry on drinking sugary drinks in order to pay for those doctors. It's a fallacy in terms of the way that you're trying to present the argument. The reality is we have increased the number of doctors, particularly GPs. It's not just about doctors. It's about nurses, it's about OTs, it's about physiotherapists, and it's about speech and language therapists as well. You have no plans to recruit with regard to them, so I'm afraid that she and I will never see eye to eye on this one, clearly. We know what is realistic, we have been recruiting, not the pie in the sky of Plaid.
- Eich polisi chi yw hwn—
- Wel, nid fy mholisi i yw recriwtio 1,000 yn fwy o feddygon. Mae'n gwbl briodol i bobl Cymru geisio deall o ble byddai'r meddygon hyn yn dod. Rwy'n gwneud y pwynt i chi: mae'r hyn yr ydych chi'n ei awgrymu yn amhosibl, a bydd unrhyw feddyg yn dweud hynny wrthyh chi, a dyna pam rwy'n dweud efallai fod yr uchelgais yn iawn ond y gwir yw nad ydych chi wedi meddwl am y polisi'n ddigon gofalus. Rydych chi'n ein cyhuddo ni, ond a dweud y gwir, os byddwn yn cael arian ychwanegol o Lundain, byddwn ni'n ei gymryd, nid fel chi a dweud, 'Dydym ni ddim ei eisiau; rydym ni eisiau annibyniaeth yn hytrach'. Nid ydym ni yn y busnes o ddweud y byddwn yn seilio recriwtio 1,000 o feddygon ar sicrhau bod pobl yn parhau i yfed diodydd llawn siwgr er mwyn talu am y meddygon hynny. Mae'n gamsyniad o ran y ffordd yr ydych chi'n ceisio cyflwyno'r ddadl. Y gwir amdani yw ein bod ni wedi cynyddu nifer y meddygon, yn enwedig meddygon teulu. Nid yw'n ymwneud â meddygon yn unig. Mae'n ymwneud â nyrsys, mae'n ymwneud â therapyddion galwedigaethol, mae'n ymwneud â ffisiotherapyddion, ac mae'n ymwneud â therapyddion lleferydd ac iaith hefyd. Nid oes gennych chi unrhyw gynlluniau i recriwtio o ran y rheini, felly mae gen i ofn na fydd hi a minnau fyth yn gweld llygad yn llygad ar y pwnc hwn, yn amlwg. Rydym ni'n gwybod beth sy'n realistig, rydym ni wedi bod yn recriwtio, nid byd dychmygol Plaid Cymru.
- 13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.
- Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.
- 13:49 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
Thank you, Presiding Officer. First Minister, I note with interest the proposals from the Minister for Public Services to limit councillor terms and terms for cabinet members and leaders. I presume what is good for the goose is also good for the gander, so can I assume that, should those powers be devolved to the National Assembly, you will be introducing term limits for Assembly Members, Cabinet members and, indeed, First Ministers?
- Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, sylwaf gyda diddordeb y cynigion gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfyngu tymhorau cynghorwyr a thymhorau aelodau ac arweinwyr cabinet. Rwy'n tybio bod yr hyn sy'n iawn i'r wydd hefyd yn iawn i'r ceiliagwydd, felly a gaf fi gymryd yn ganiataol, pe byddai'r pwerau hynny'n cael eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, y byddwch chi'n cyflwyno cyfyngiadau tymor i Aelodau'r Cynulliad, aelodau'r Cabinet ac, yn wir, Prif Weinidogion?
- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I'm afraid I can't change an electoral system to make sure the Lib Dems win an election on that basis. I'm afraid you'll have to do that yourselves. The Minister for Public Services will of course outline his proposals in the course of this afternoon's proceedings.
- Rwy'n ofni na allaf newid system etholiadol i sicrhau bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn ennill etholiad ar y sail honno. Rwy'n ofni y bydd yn rhaid i chi wneud hynny eich hunain. Bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn amlinellu, wrth gwrs, ei gynigion yn ystod trafodion y prynhawn yma.

13:50

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you, not surprisingly, didn't answer the question. If it's good enough for the goose, surely it's good enough for the gander. Will your Government be bringing forward proposals to limit the terms of individual Assembly Members, Cabinet members and leaders? Now, I appreciate that Leighton Andrews obviously has a very low opinion of his Labour colleagues in local government, and this is your way of breaking up Labour's old boy clubs and their cosy cabals, but don't you agree that the real way to empower voters is not for the Minister to dictate who can and cannot stand in elections, but to abolish safe seats, party fiefdoms and unopposed council elections by introducing a fair voting system, so people get the representatives they vote for?

Brif Weinidog, ni wnaethoch chi ateb y cwestiwn, ac nid yw hynny'n syndod. Os yw'n iawn i'r wŷydd, does bosib nad yw'n iawn i'r ceiliagwydd. A fydd eich Llywodraeth yn cyflwyno cynigion i gyfyngu tymhorau Aelodau unigol y Cynulliad ac aelodau ac arweinwyr y Cabinet? Nawr, rwy'n gwerthfawrogi bod gan Leighton Andrews yn amlwg farn wael iawn o'i gydweithwyr Llafur mewn llywodraeth leol, ac mai dyma eich ffordd o chwalu clybiau os mêts, mêts Llafur a'u cabalau cartrefol, ond onid ydych chi'n cytuno nad y Gweinidog yn pennu pwy gaiff ac na chaiff sefyll mewn etholiadau yw'r ffordd iawn o ymrymuso pleidleiswyr, ond dileu seddi diogel, maenoriaethau plaid ac etholiadau cyngor diwrthwynebiad trwy gyflwyno system bleidleisio deg, fel bod pobl yn cael y cynrychiolwyr y maen nhw'n pleidleisio drostynt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, a voting system of the kind—not the exact kind—was put to the people of Britain and they rejected it overwhelmingly in a referendum. I don't think that that would gain support. I think people do very much value the fact that they have a local councillor, or councillors, who represent their area. As she is fond of saying to us in terms of health service targets, try and win under the existing systems; you're trying to change it for your advantage.

Wel, cynigiwyd system bleidleisio o'r fath—nid y math honno'n union—i bobl Prydain a gwnaethant ei gwrthod o fwyafrif llethol mewn refferendwm. Nid wyf yn credu y byddai hynny'n cael cefnogaeth. Rwy'n credu bod pobl wir yn gwerthfawrogi'r ffaith bod ganddyn nhw gynghorydd, neu gynghorwyr lleol sy'n cynrychioli eu hardal. Fel y mae hi'n hoff o ddweud wrthym o ran targedau gwasanaeth iechyd, ceisiwch ennill dan y systemau presennol; rydych chi'n ceisio ei newid er mantais i chi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

But, Minister, you're not going to allow local people to vote for the councillors they want to, because you're going to limit who can stand in elections. You're taking power away from the people—taking power away from them—to elect the people they want to represent them.

Now, isn't it the case that the Williams commission was a real missed opportunity to examine in detail what we want county halls to deliver? Now, your Minister will go on to say in his statement this afternoon that you're going to tell local councils what to do in education, social services, economic development, waste and planning. After you take all those things away from local people, what exactly do you expect local government to do?

Ond, Weinidog, nid ydych chi'n mynd i ganiatáu i bobl leol bleidleisio dros y cynghorwyr y maen nhw eu heisiau, gan eich bod yn mynd i gyfyngu ar bwy gaiff sefyll mewn etholiadau. Rydych chi'n cymryd y grym oddi ar y bobl—yn cymryd y grym oddi arnynt—i ethol y bobl y maen nhw eisiau i'w cynrychioli.

Nawr, onid yw'n wir fod comisiwn Williams yn gyfle gwirioneddol a gollwyd i archwilio'n fanwl yr hyn yr ydym ni eisiau i neuaddau sir ei gyflawni? Nawr, bydd eich Gweinidog yn mynd yn ei flaen i ddweud yn ei ddatganiad y prynhawn yma eich bod yn mynd i ddweud wrth gynghorau lleol beth i'w wneud ym myd addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, datblygu economaidd, gwastraff a chynllunio. Ar ôl i chi gymryd yr holl bethau hynny oddi ar bobl leol, beth yn union ydych chi'n ei ddisgwyl i lywodraeth leol ei wneud?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Well, that's nonsense, I have to say, in terms of taking powers away. I've said many times that, when we get the structure of local government right, we can then look at devolving powers to local government, but it's important that those councils are able to use those powers, and bluntly, some of them are not able to use those powers at this moment in time. But I have to say that, first of all, we don't have the powers to change the electoral system of the Assembly—which has come as news to me—and secondly, I do not think it is right to say to people, 'You will not have a councillor representing you in your local area'. It is not right to say that the single transferable vote has to be imposed on councils without, of course, there being support amongst the public, and I do not believe that support is there.</p>	<p>Wel, mae hynny'n nonsens, mae'n rhaid i mi ddweud, o ran cymryd pwerau i ffrwrdd. Rwyf wedi dweud sawl gwaith, pan fyddwn ni'n cael strwythur llywodraeth leol yn iawn, yna gallwn ystyried datganoli pwerau i lywodraeth leol, ond mae'n bwysig bod y cynghorau hynny'n gallu defnyddio'r pwerau hynny, ac i fod yn blwmp ac yn blaen, nid yw rhai ohonynt yn gallu defnyddio'r pwerau hynny ar hyn o bryd. Ond mae'n rhaid i mi ddweud, yn gyntaf oll, nad yw'r pwerau gennym i newid system etholiadol y Cynulliad—sydd wedi bod yn newyddion i mi—ac yn ail, nid wyf yn credu ei bod yn iawn i ddweud wrth bobl, 'Ni fydd gennych chi gynghorydd yn eich cynrychioli yn eich ardal leol'. Nid yw'n iawn i ddweud bod yn rhaid gorfodi'r bleidlais drosglwyddadwy sengl ar gynghorau heb, wrth gwrs, fod cefnogaeth ymhlith y cyhoedd, ac nid wyf yn credu bod y gefnogaeth honno yno.</p>
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000	The Freedom of Information Act 2000	
13:52	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography <i>3. A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000? OAQ(4)2087(FM)</i></p>	<p><i>3. Will the First Minister detail how the Welsh Government complies with the Freedom of Information Act 2000? OAQ(4)2087(FM)</i></p>
13:52	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We comply with the Act itself, and the guidance from the Information Commissioner's Office, of course, is a part of what we consider.</p>	<p>Rydym ni'n cydymffurfio â'r Ddeddf ei hun, ac mae'r canllawiau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, wrth gwrs, yn rhan o'r hyn yr ydym ni'n ei ystyried.</p>
13:52	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you. Well, for the second time, the Welsh Government has been taken to the information rights tribunal in the Llangollen River Lodge case, and for the second time, the Welsh Government has lost. Your Welsh Government classed the request for information to or from you, to or from Edwina Hart, and to or from Jane Hutt as vexatious, but despite appointing top London barristers at huge public cost, the tribunal found that, in all the circumstances, the request was not vexatious.</p> <p>We already know from previous documentation obtained, that the Welsh Government did apply inappropriate political pressure on the health board to locate a health centre in a completely inappropriate place. What else are you trying to cover up?</p>	<p>Diolch yn fawr. Wel, am yr ail dro, aethpwyd â Llywodraeth Cymru i'r tribiwnlys hawliau gwybodaeth yn achos Llangollen River Lodge, ac am yr ail dro, mae Llywodraeth Cymru wedi colli. Dosbarthodd eich Llywodraeth Cymru y cais am wybodaeth i chi neu gennych chi, i Edwina Hart neu ganddi, ac i Jane Hutt neu ganddi, yn faleisus, ond er gwaethaf penodi bargyfreithwyr gorau Llundain am gost enfawr i'r cyhoedd, canfu'r tribiwnlys, dan yr holl amgylchiadau, nad oedd y cais yn faleisus.</p> <p>Rydym ni'n gwybod eisoes o ddogfennau blaenorol a dderbyniwyd, bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwysau gwleidyddol amhriodol ar y bwrdd iechyd i leoli canolfan iechyd mewn man hollol amhriodol. Beth arall ydych chi'n ceisio ei guddio?</p>
13:53	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>So, we know the Conservatives are against the health centre in Llangollen. That's what he's just said. So, we'll note that one.</p>	<p>Felly, rydym ni'n gwybod y Ceidwadwyr yn gwrthwynebu'r ganolfan iechyd yn Llangollen. Dyna'r hyn y mae newydd ei ddweud. Felly, byddwn yn nodi hynny.</p>

The allegations he made are nonsense, of course. Can I remind him of this? Of the requests that we receive, only 0.2% end up with information being released, despite our original position—0.29%, actually. I have to say that, in terms of compliance, our rate is better than the UK Government, far better than Northern Ireland, and streets better than Scotland. So, when it comes to compliance and considering Freedom of Information Act requests, we are in a very good place. There will be occasions such as this, of course, where, despite the Information Commissioner agreeing with us, the tribunal does not agree. That is something, of course, that happens from time to time, in Government.

Mae'r honiadau a wnaeth yn hurt, wrth gwrs. A gaf i ei atgoffa o hyn? O'r ceisiadau yr ydym ni'n eu derbyn, dim ond 0.2% sy'n arwain at wybodaeth yn cael ei rhyddhau, er gwaethaf ein safbwynt gwreiddiol—0.29% a dweud y gwir. Mae'n rhaid i mi ddweud, o ran cydymffurfio, bod ein cyfradd yn well na Llywodraeth y DU, yn llawer gwell na Gogledd Iwerddon, ac yn llawer iawn gwell na'r Alban. Felly, pan ddaw i gydymffurfio ac ystyried ceisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rydym ni mewn sefyllfa dda iawn. Bydd achlysuron fel hyn, wrth gwrs, lle, er gwaethaf y ffaith fod y Comisiynydd Gwybodaeth yn cytuno â ni, nid yw'r tribiwnlys yn cytuno. Mae hynny'n rhywbeth, wrth gwrs, sy'n digwydd o bryd i'w gilydd, mewn Llywodraeth.

13:54 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, having a look over the FOI responses made by your Government this year, I notice that one made in January regarding Neath Port Talbot's bid under the twenty-first century schools programme was made exempt from disclosure, because, and I quote, it:

'would or would be likely to: inhibit...the free and frank exchange of views for the purposes of deliberation or otherwise prejudice the effective conduct of public affairs.'

I don't expect you to reply directly about this, because obviously, it was rejected as an FOI request, but I'm interested to know how you balance such decisions against the need for transparent government. Would it not be possible for you to release some of that information, but with redactions, so that the public could see some of what the discussions were, as opposed to not having any of that information at all?

Brif Weinidog, o gymryd golwg ar yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth a wnaed gan eich Llywodraeth eleni, rwy'n sylwi yr eithriwyd un a wnaed ym mis Ionawr ynghylch cais Castell-nedd Port Talbot dan y rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain rhag cael ei ddatgelu, oherwydd, a dyfynnaf:

y byddai neu y byddai'n debygol o: atal...rhannu safbwyntiau'n rhydd ac agored at ddibenion trafod neu niweidio fel arall y broses o gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol.

Nid wyf yn disgwyl i chi ymateb yn uniongyrchol am hyn, oherwydd yn amlwg, cafodd ei wrthod fel cais Rhyddid Gwybodaeth, ond mae gen i ddiddordeb mewn cael gwybod sut yr ydych chi'n cydbwysu penderfyniadau o'r fath yn erbyn yr angen am lywodraethu tryloyw. Oni fyddai'n bosibl i chi gyhoeddi rhywfaint o'r wybodaeth honno, ond gyda golygiadau, fel y gallai'r cyhoedd weld rhywfaint o beth oedd y trafodaethau, yn hytrach na pheidio cael dim o'r wybodaeth honno o gwbl?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

The assumption will always be that information is released and, where possible, information is released with redactions. Each individual case is considered on its merits, examining that case against what the law says and what the guidance says. Of course, if people are not content with that, there are avenues open to them to take their grievance further.

Y dybiaeth bob amser fydd bod gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi a, phan yn bosibl, bod gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi gyda golygiadau. Caiff pob achos unigol ei ystyried ar sail ei rinweddau, gan archwilio'r achos hwnnw yn erbyn yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud a'r hyn y mae'r canllawiau'n ei ddweud. Wrth gwrs, os nad yw pobl yn fodlon â hynny, ceir llwybrau sydd ar gael iddynt i fwrw ymlaen ymhellach â'u cwynion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Perthnasau Rhyng-gymunedol

Intercommunity Relations

13:55 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi perthnasau rhyng-gymunedol cryf yng Nghymru?
OAQ(4)2099(FM)

4. Will the First Minister make a statement on Welsh Government actions to support strong intercommunity relations in Wales? OAQ(4)2099(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. We published a national community cohesion delivery plan in June of last year, and that plan is supported by eight regional community cohesion co-ordinators. The Minister will be publishing a progress report in the summer.
- 13:55 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that response, First Minister. Last month, of course, we witnessed the horrific events in Paris, where a number of people were brutally murdered by extremist fundamentalists, who perverted the name of one of the world's greatest and most historic religions. Nonetheless, I was heartened by the show of solidarity here on the steps of the Senedd a few days later, when people from different faiths and backgrounds across Wales came together to condemn extremism and terrorism of all kinds. We saw a show of solidarity from leading members of Wales's Muslim and Jewish communities. Would you, therefore, agree with me, First Minister, that the vigil held here in Cardiff bay demonstrates the importance of strong inter-faith relations in Wales, and something that we should use as a basis to help build community cohesion, particularly during times of tension?
- 13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Absolutely. Of course, that cohesion is continued in the work of the faith communities forum—a very useful forum for ensuring that issues of policy are aired, but also to bring people together at a time when the world is experiencing so much strife. So, what we saw on the steps of the Senedd is an illustration of a process of cohesion that continues on a monthly basis through the faith communities forum and through other means as well.
- 13:57 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, Professor Anthony Glees of the University of Buckingham warned recently that Islamic State, IS, so-called in the world, has people who go around schools, campuses and Islamic community centres looking for young people who may be susceptible to radicalisation. Given that strong intercommunity relations are vital in identifying and stopping these recruiters for terrorism, what further measures will the Welsh Government take to strengthen the relations with the Islamic community in Wales?
- 13:58 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, I think the relations are already very, very good. The fact is that the community is represented on the faith communities forum. It's a very civically active community. Of course, where there are difficulties, which arise from time to time, we work very closely with the community to overcome those difficulties. With regard to security issues, those are matters, primarily, that are not devolved, but, of course, we work with the UK authorities in order to make sure that any potential trouble or any potential recruitment is discovered as quickly as possible.
- Gwnaf. Cyhoeddwyd cynllun cyflawni cydlyniant cymunedol cenedlaethol gennym ym mis Mehefin y llynedd, a chefnogir y cynllun hwnnw gan wyth cydgysylltydd cydlyniant cymunedol rhanbarthol. Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi adroddiad o gynnydd yn yr haf.
- Diolch i chi am yr ymateb yna, Brif Weinidog. Y mis diwethaf, wrth gwrs, gwelsom y digwyddiadau erchyll ym Mharis, lle cafodd nifer o bobl eu llofruddio gan ffundamentalwyr eithafol, a wnaeth ddwyn gwarth ar enw un o grefyddau pwysicaf a mwyaf hanesyddol y byd. Serch hynny, cefais fy nghalonogi gan y dangosiad o undod yma ar risiau'r Senedd ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach, pan ddaeth pobl o wahanol grefyddau a chefnidiroedd o bob cwr o Gymru at ei gilydd i gondemnio eithafiaeth a therfysgaeth o bob math. Gwelsom ddangosiad o undod gan aelodau blaenllaw o gymunedau Mwslimaidd ac Iddewig Cymru. A fydddech chi, felly, yn cytuno â mi, Brif Weinidog, bod yr wylnos a gynhaliwyd yma ym mae Caerdydd yn dangos pwysigrwydd cysylltiadau rhyng-ffydd cryf yng Nghymru, a rhywbeth y dylem ni ei ddefnyddio fel sail i helpu i adeiladu cydlyniant cymunedol, yn enwedig yn ystod adegau o densiwn?
- Yn sicr. Wrth gwrs, parheir y cydlyniant hwnnw yng ngwaith y fforwm cymunedau ffydd—fforwm defnyddiol iawn ar gyfer sicrhau bod materion polisi yn cael eu mynegi, ond hefyd i ddod â phobl at ei gilydd ar adeg pan fo cymaint o gythrwfl yn y byd. Felly, mae'r hyn a welsom ar risiau'r Senedd yn enghraifft o broses o gydlyniant sy'n parhau'n fisol drwy'r fforwm cymunedau ffydd a thrwy ffydd eraill hefyd.
- Brif Weinidog, rhybuddiodd yr Athro Anthony Glees o Brifysgol Buckingham yn ddiweddar bod gan y Wladwriaeth Islamaidd, IS, fel y'i gelwir yn y byd, bobl sy'n mynd o gwmpas ysgolion, campysau a chanolfannau cymunedol Islamaidd yn chwilio am bobl ifanc a allai fod yn agored i gael eu radialeiddio. O gofio bod cysylltiadau rhyng-gymuned cryf yn hanfodol er mwyn nodi ac atal y recriwtwyr hyn ar gyfer terfysgaeth, pa fesurau pellach fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau'r cysylltiadau gyda'r gymuned Islamaidd yng Nghymru?
- Wel, rwy'n credu bod y cysylltiadau'n dda iawn, iawn eisoes. Y ffaith amdani yw bod y gymuned yn cael ei chynrychioli ar y fforwm cymunedau ffydd. Mae'n gymuned sy'n weithgar iawn yn ddinesig. Wrth gwrs, lle ceir anawsterau, sy'n codi o bryd i'w gilydd, rydym ni'n gweithio'n agos iawn gyda'r gymuned i oresgyn yr anawsterau hynny. O ran materion diogelwch, mae'r rheini'n faterion nad ydynt wedi'u datganoli ar y cyfan, ond, wrth gwrs, rydym ni'n gweithio gydag awdurdodau yn y DU i sicrhau bod unrhyw drafferth posibl neu unrhyw recriwtio posibl yn cael ei ganfod cyn gynted â phosibl.

13:58 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, there are concerns that arise from permanent residents of an area where there are Gypsy/Travellers present. Quite often, the response from the authorities and from some permanent residents is antipathy from the outset, and this is obviously not desirable. Concerns, we have to recognise, from both sides, when these issues do arise, are, indeed, valid. How are you fostering understanding and dialogue between residents and Traveller communities to encourage both sides to listen, and to reduce tensions?

Weinidog, ceir pryderon sy'n codi gan drigolion parhaol o ardal lle mae Sipsiwn/Teithwyr yn bresennol. Yn aml iawn, gelyniaeth yw'r ymateb gan yr awdurdodau a chan rai trigolion parhaol o'r cychwyn cyntaf, ac nid yw hyn yn ddymunol yn amlwg. Mae pryderon, mae'n rhaid i ni gydnabod, o'r ddwy ochr, pan fydd y materion hyn yn codi, yn ddilys. Sut ydych chi'n meithrin dealltwriaeth a deialog rhwng trigolion a chymunedau Teithwyr i annog y ddwy ochr i wrando, ac i leihau tensiynau?

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, it's the job of the community cohesion co-ordinators to do that. They'll play a key role in enhancing engagement with Gypsy and Traveller communities in order to build that mutual understanding, of course, and in order to build mutual respect across communities. So, that is a role that they will play in order to overcome the difficulties that often arise when different communities come into verbal conflict.

Wel, gwaith y cydgyssylltwyr cydlyniant cymunedol yw gwneud hynny. Byddant yn chwarae rhan allweddol o ran gwella ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr er mwyn datblygu'r gyd-ddealltwriaeth honno, wrth gwrs, ac er mwyn datblygu parch at ei gilydd ar draws cymunedau. Felly, mae honno'n swyddogaeth y byddant yn ei chyflawni er mwyn goresgyn yr anawsterau sy'n aml yn codi pan fo gwahanol gymunedau'n gwrthdaro ar lafar.

Mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc

The Young Farmers' Club Movement

13:59 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o gyfraniad mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc i gymunedau cefn gwlad Cymru? OAQ(4)2085(FM)

5. What assessment has the First Minister made of the contribution of the Young Farmers' Club movement to the communities of rural Wales? OAQ(4)2085(FM)

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, it's the largest rural youth organisation in Wales: 155 local clubs and over 5,000 members. It has always played a valuable role within rural communities and in working alongside government.

Wel, dyma'r mudiad ieuencid gwledig mwyaf yng Nghymru: 155 o glybiau lleol a dros 5,000 o aelodau. Mae wedi chwarae rhan werthfawr mewn cymunedau gwledig erioed, ac wrth weithio ochr yn ochr â llywodraeth.

13:59 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'd like to thank the First Minister for that response and for that endorsement of the important work of young farmers in Wales. One particularly important aspect is the level of volunteering that young farmers' clubs nurture. There are, on average, eight volunteers who support each club, averaging some six hours per week, equating to almost 500,000 volunteer hours per year. The recent loss by the young farmers of three-year funding of some £700,000 from the national voluntary youth organisations fund threatens, many argue, the sustainability and the future prospects for the young farmers continuing their valuable work. In this context, First Minister, what assessment have you made of the potential threat to the future of young farmers in Wales that's brought by this funding reduction?

Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna ac am y gymeradwyaeth honno o waith pwysig ffermwyr ifanc yng Nghymru. Un agwedd arbennig o bwysig yw lefel y gwirfoddoli y mae clybiau ffermwyr ifanc yn ei meithrin. Ar gyfartaledd, ceir wyth o wirfoddolwyr sy'n cefnogi pob clwb, gan weithio cyfartaledd o tua chwe awr yr wythnos, sy'n cyfateb â bron i 500,000 o oriau gwirfoddol y flwyddyn. Mae'r golled ddiweddar i'r ffermwyr ifanc o gyllid tair blynedd gwerth tua £700,000 o'r gronfa sefydliadau ieuencid gwirfoddol genedlaethol yn bygwth, mae llawer yn dadlau, cynaliadwyedd a rhagolygon y ffermwyr ifanc ar gyfer y dyfodol, o ran parhau â'u gwaith gwerthfawr. Yn y cyd-destun hwn, Brif Weinidog, pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o'r bygythiad posibl i ddyfodol ffermwyr ifanc yng Nghymru sy'n deillio o'r gostyngiad hwn i gyllid?

14:00

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I know that there is a meeting planned between young farmers and, I believe, the Minister in the course of the next few days, or at least with officials. In that meeting, it will be possible then for the young farmers' clubs to receive feedback in terms of their financial position.

Wel, rwy'n gwybod bod cyfarfod wedi ei drefnu rhwng ffermwyr ifanc ac, rwy'n credu, y Gweinidog yn ystod y diwrnodau nesaf, neu gyda swyddogion o leiaf. Yn y cyfarfod hwnnw, bydd yn bosibl wedyn i'r clybiau ffermwyr ifanc gael adborth o ran eu sefyllfa ariannol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, mae'n bwysicach nag erioed bod yna ddyfodol diogel i glybiau ffermwyr ifanc yng Nghymru, fel y gallant gefnogi a pharhau i ddatblygu sgiliau pobl ifanc ar draws ein cymunedau gwledig. Rwy'n adleisio barn pobl eraill sydd wedi beirniadu'r gostyngiad yn y cyllid ar eu cyfer oddi wrth eich Llywodraeth chi. O ystyried pwysigrwydd clybiau ffermwyr ifanc ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, pa drafodaethau penodol yr ydych chi wedi cael gyda'r mudiad ynghylch shwt y gallant barhau i ddarparu gwasanaethau pwysig ar gyfer pobl ifanc, a pha ffynonellau cyllid eraill y gall Llywodraeth eu gwneud ar gael i fudiad clybiau'r ffermwyr ifanc i'w helpu i barhau i ddarparu eu gwasanaethau i bobl ifanc?

First Minister, it's more important than ever that there is a secure future for young farmers' clubs in Wales so that they can support and continue to develop the skills of young people across our rural communities. I echo the views of others who have criticised this reduction in their funding from your Government. Bearing in mind the importance of young farmers' clubs for our young people, particularly in rural areas, what specific discussions have you had with the organisation as to how they can continue to provide important services for young people, and what other alternative funding sources can the Welsh Government make available to the young farmers' clubs to help them to continue to provide their services to young people?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, bydd hwn, wrth gwrs, i'w drafod mewn unrhyw gyfarfod a fydd yn cymryd lle. Mae'r Aelod yn dweud taw rhyw fath o benderfyniad gweinidogol oedd hwn. Nid yw hynny cweit yn iawn, wrth gwrs, achos panel ymgynghori wnaeth argymhellion i Weinidog. Fe wnaethon nhw benderfynu, o'r cyrff wnaeth ddodi 'bid' i mewn, taw saith a ddylai gael eu cyllido. O'r saith hynny, mae'n cynnwys cyrff fel Urdd Gobaith Cymru, ScoutsWales a Boys and Girls club. 'So', pwy mae'n e'n dweud y dylai gwympto bant o'r rhestr er mwyn i gyllid gael ei roi i glybiau ffermwyr ifanc. Dyna'r broblem. Beth mae e'n ei ddweud yw y dylai clybiau ffermwyr ifanc gael eu trafod fel rhyw fath o gyrff arbennig, ac nid wyf yn meddwl bod hynny'n deg, wrth gofio'r cyrff eraill sydd wedi cael eu cyllido. Wrth ddweud hynny, wrth gwrs, mae yna gyfle iddyn nhw siarad â swyddogion er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael mwy o gyngor ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

Well, this, of course, will be discussed in any meeting that will take place. The Member said that this was a sort of ministerial decision. Well, that isn't quite right, of course, because it was an advisory panel that made recommendations to the Minister. They decided that, of the organisations that had submitted a bid, seven should be funded, which include such organisations as Urdd Gobaith Cymru, ScoutsWales and Boys and Girls Clubs. So, who does he think should be knocked off that list so that the funding is given to the young farmers' clubs? That's the problem. What he's saying is that the young farmers' clubs should be given special treatment. I don't believe that that's fair when you look at the other organisations that are being funded. Having said that, of course, there is an opportunity for them to speak to officials in order to ensure that they can receive more advice on the way forward.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Hanner y broblem yw bod mudiad mor arwyddocaol—ac rŷch chi wedi cydnabod eich hunan y rôl y maen nhw'n ei chwarae, yn enwedig mewn rhai o'r cymunedau mwyaf ymylol yng Nghymru lle nad oes yna ddim gwasanaethau amgen i bobl ifanc. Rhan o'r broblem yw ei bod nhw'n gorfod mynd o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar gais, ac yn mynd o gais o gais. Nawr, a wnewch chi edrych ar fodel o berthynas rhwng eich Llywodraeth chi a mudiad y ffermwyr ifanc sydd yn delio â nhw yn fwy fel partner cyflenwi—'delivery partner'? Mae'n fodel sy'n cael ei ddefnyddio yn Seland Newydd, er enghraifft, lle mae'r Llywodraeth yn gweld y mudiad fel cyfrwng i hyrwyddo rhaglenni'r Llywodraeth ymhlith y gymuned amaethyddol; i gyflwyno rhaglenni addysgiadol a hyfforddiant; ac i fynd i mewn i ysgolion i sôn wrth ddisgyblion am darddiad bwyd ac yn y blaen. A oes modd troi y sefyllfa anffodus bresennol yn gyfle i sicrhau bod yna berthynas gryfach rhwng y Llywodraeth a'r mudiad o safbwynt 'delivery', ond bod hynny'n cael ei seilio ar gytundebau sydd yn llawer mwy cynaliadwy yn yr hirdymor, yn hytrach na mynd o flwyddyn i flwyddyn?

Half of the problem is that such a significant organisation—and you've acknowledged yourself the role that they play, particularly in the most peripheral communities of Wales where there are no alternative services for young people—Part of the problem is that they have to go from year to year depending on their bid, and to go from one bid to another. Now, will you look at a relationship model between your Government and the young farmers movement that deals with them more as a delivery partner? It's a model used in New Zealand, for example, where the Government sees the organisation as a means to promote Government programmes among the agricultural community; to introduce educational and training programmes; and to go into schools to talk to pupils about the source of their food and so forth. Can we turn this unfortunate position into an opportunity in order to ensure that there is a stronger relationship between the Government and the movement in terms of delivery, but that is based on agreements that are far more sustainable in the long term rather than year on year?

14:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, mewn egwyddor, wrth gwrs, fe fyddai hynny'n iawn. Y broblem yw, wrth gwrs, nad felly y mae'r sefyllfa i ni fel Llywodraeth. Nid ydym ni'n gwybod, yn yr hirdymor, faint o gyllideb y byddwn ni'n ei chael o Lywodraeth y Deyrnas Unedig, felly mae'n anodd dros ben i roi rhyw fath o ymrwymiad hirdymor, heb wybod beth yw'r sefyllfa ariannol i ni. Mae hynny'n rhywbeth sydd wedi cael ei godi sawl gwaith gan sawl corff—a fyddai'n bosib cael rhyw fath o gytundeb hirdymor? Mae'n anodd, wrth gwrs, o gofio taw nid fel hynny y mae'r berthynas rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Well, in principle, of course, that would be fine. The problem, of course, is that that is not the position for us as a Government. We don't know how much long-term funding we will receive from the United Kingdom Government, so it's extremely difficult to give some kind of long-term commitment, without knowing our own financial position. That's something that has been raised a number of times by a number of organisations—whether it would be possible to have some kind of long-term agreement. It is difficult, of course, bearing in mind that that is not the nature of the relationship between Wales and the United Kingdom.

14:04

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I declare an interest—two of my daughters are members of the young farmers' club. First Minister, it's clear now that there's no point revisiting the decision by Lesley Griffiths's department for funding for young farmers, but your Government constantly tells us that the rural development fund is bigger than it has ever been in Wales. Would you agree with me that there is potential for both Rebecca Evans and Carl Sargeant to look to utilise some of the funding from the rural development plan to fund the young farmers' club movement, especially, as you've just said, that they are key partners in working with the Welsh Government. Young farmers' representatives are on many of the stakeholder groups and are expected to contribute to part of the policy-making role that you yourself have as a Government? So, would you agree with me that the rural development fund does offer a brighter future for the young farmers' club movement?

Rwy'n datgan buddiant—mae dwy o fy merched yn aelodau o'r clwb ffermwyr ifanc. Brif Weinidog, mae'n amlwg erbyn hyn nad oes pwynt edrych eto ar y penderfyniad gan adran Lesley Griffiths am gyllid ar gyfer ffermwyr ifanc, ond mae eich Llywodraeth yn dweud wrthym yn gyson bod y gronfa datblygu gwledig yn fwy nag y bu erioed yng Nghymru. A fydddech chi'n cytuno â mi bod potensial i Rebecca Evans a Carl Sargeant ystyried defnyddio rhywfaint o'r cyllid o'r cynllun datblygu gwledig i ariannu'r mudiad ffermwyr ifanc, yn enwedig, fel yr ydych chi newydd ei ddweud, gan eu bod yn bartneriaid allweddol o ran gweithio gyda Llywodraeth Cymru. Mae cynrychiolwyr ffermwyr ifanc yn aelodau o lawer o'r grwpiau rhanddeiliaid a disgwylir iddyn nhw gyfrannu at ran o'r swyddogaeth llunio polisi sydd gennych chi eich hun fel Llywodraeth? Felly, a fydddech chi'n cytuno â mi bod y gronfa datblygu gwledig yn cynnig dyfodol mwy disgrair i fudiad y ffermwyr ifanc?

14:04	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Well, it is right that the rural development plan will offer more money than ever before, thanks to the hard work of Labour Ministers, both behind me. That much is true. In terms of what the future holds for them, there is a meeting on 5 February—forgive me, with senior officials rather than with the Minister—and at that meeting it'll be possible, then, to examine what other options might be available to the YFC in terms of future funding.</p>	<p>Wel, mae'n iawn y bydd y cynllun datblygu gwledig yn cynnig mwy o arian nag erioed o'r blaen, diolch i waith caled Gweinidogion Llafur, sef y ddau y tu ôl i mi. Mae cymaint â hynny'n wir. O ran eu dyfodol, mae cyfarfod ar 5 Chwefror—maddeuwch i mi, gydag uwch swyddogion yn hytrach na gyda'r Gweinidog—a bydd yn bosibl yn y cyfarfod hwnnw, wedyn, i archwilio pa ddewisiadau eraill a allai fod ar gael i'r Clybiau Ffermwyr Ifanc o ran cyllid yn y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Cyrhaeddiad Addysgol Plant yng Nghymru</p>		<p>The Educational Attainment of Children in Wales</p>	
14:05	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography <i>6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyrhaeddiad addysgol plant yng Nghymru? OAQ(4)2083(FM)</i></p>	<p><i>6. Will the First Minister make a statement on the educational attainment of children in Wales? OAQ(4)2083(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae hon wedi bod yn stori gadarnhaol iawn i Gymru dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig canlyniadau perfformiad terfynol 2014. Mae'r canlyniadau arholiadau terfynol yn dangos cynnydd gwirioneddol a pherfformiad gwell.</p>	<p>This has been a very positive story for Wales over the past couple of years, especially the final performance results in 2014. The final examination results demonstrate real progress and improved performance.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>O'r disgyblion yng Nghymru sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim ac sydd yn llwyddo i gael pump TGAU, 28% o'r disgyblion hynny sydd yn llwyddo yng Nghymru. Yn Lloegr, mae'r ffigur tua 38%. Rŵan, ar ôl 15 mlynedd o Weinidogion addysg Llafur a strategaeth wrthdlodi yn cael blaenoriaeth yng Nghymru, pam mae'r ffigurau yn cymharu mor wael?</p>	<p>Of the pupils in Wales who qualify for free school lunches and achieve five GCSEs, 28% of those pupils actually succeed in Wales. In England, the figure is some 38%. Now, after 15 years of Labour education Ministers and an anti-poverty strategy that has been a priority here in Wales, why do the figures compare so poorly?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:06	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Wel, mae'r ffigurau, wrth gwrs, yn fwy positif. Rydym yn gwybod wrth y ffigurau sydd wedi cael eu cyhoeddi yn yr wythnos diwethaf fod y lefel yn codi, ac, wrth gwrs, rydym yn erfyn gweld Schools Challenge Cymru yn gwneud gwahaniaeth dros y blynyddoedd nesaf, a hefyd y grant ynglŷn â myfyrwyr difreintiedig, sydd wedi cael ei rhoi gan y Llywodraeth, gyda chefnogaeth y Rhyddfrydwyr Democraidd.</p>	<p>Well, the figures are, of course, more positive. We know from the figures published last week that the level is rising, and, of course, we wish to see Schools Challenge Cymru making a difference over the next few years, and also the pupil deprivation grant, which has been given by the Government, with the support of the Liberal Democrats.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:06	<p>Christine Chapman Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, at the end of January, Estyn announced that Tŷ Gwyn Education Centre in Glyncoch in my constituency had made sufficient progress to be removed from the list of pupil referral units requiring significant improvement. Will you join with me in applauding the work of the whole-school community in achieving this result, and can you also ensure that any best practice from Tŷ Gwyn is shared with other schools in this much-needed sector so that they can deliver the best for their pupils?</p>	<p>Brif Weinidog, cyhoeddodd Estyn ddiwedd mis Ionawr bod Canolfan Addysg Tŷ Gwyn yng Nglyncoch yn fy etholaeth i wedi gwneud cynnydd digonol i gael ei thynnu oddi ar y rhestr o unedau cyfeirio disgyblion lle y mae angen gwelliant sylweddol. A wnewch chi ymuno â mi i ganmol gwaith y gymuned ysgol gyfan i sicrhau'r canlyniad hwn, ac a allwch chi hefyd sicrhau bod unrhyw arfer gorau o Dŷ Gwyn yn cael ei rannu gydag ysgolion eraill yn y sector hwn y mae wir ei angen fel y gallant ddarparu'r gorau i'w disgyblion?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:07

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Could I join the Member in paying tribute to the work of the Tŷ Gwyn Education Centre? It shows what can be achieved with strong leadership and a shared commitment. I understand that Dr Alec Clarke, who is the executive headteacher at Tŷ Gwyn, will share his vision and ideas for improving pupil referral units at the national conference, which will be hosted by the Welsh Government at the end of this month.

A gaf i ymuno â'r Aelod i dalu teyrnged i waith Canolfan Addysg Tŷ Gwyn? Mae'n dangos yr hyn y gellir ei gyflawni gydag arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad ar y cyd. Rwy'n deall y bydd Dr Alec Clarke, sef y pennaeth gweithredol yn Nhŷ Gwyn, yn rhannu ei weledigaeth a'i syniadau ar gyfer gwella unedau cyfeirio disgyblion yn y gynhadledd genedlaethol, a fydd yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru ddiwedd y mis hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the answer you gave to Alun Ffred Jones on attainment levels was an interesting spin, but completely inaccurate. Children here are still 50% less likely, if they are on free school meals, to achieve five good GCSEs. In England, the Prime Minister is travelling the length and breadth of that country challenging mediocrity in education. Here in Wales, on the back of a 'Sunday Times' article, the Welsh Government has bunkered down and thrown up the drawbridges and tried to slam the lid shut on debate. First Minister, when will you challenge mediocrity in education? When will you agree that these children don't have a right—? It's our duty to provide a good education to them. When will you restore education to the centre of our nation?

Brif Weinidog, roedd yr ateb y roesoch chi i Alun Ffred Jones am lefelau cyrhaeddiad yn safbwynt diddorol, ond cwbl anghywir. Mae plant yma yn dal i fod 50% yn llai tebygol, os ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim, o ennill pum cymhwyster TGAU da. Yn Lloegr, mae Prif Weinidog y DU yn teithio ar hyd a lled y wlad honno yn herio cyffredinedd mewn addysg. Yma yng Nghymru, yn sgil erthygl yn y 'Sunday Times', mae Llywodraeth Cymru wedi cilio i'w bynceri a chodi'r bont godi a cheisio rhoi'r caead ar drafodaeth. Brif Weinidog, pryd wnewch chi herio cyffredinedd mewn addysg? Pryd gwnewch chi gytuno nad oes gan y plant hyn hawl—? Mae'n ddyletswydd arnom i ddarparu addysg dda iddyn nhw. Pryd wnewch chi ddychweyd addysg i fod wrth wraidd ein cenedl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, let's just examine one thing. We have protected schools funding—ring-fenced it. The party opposite won't do it. It won't do it. In fact, their policy is to cut education spending by between 12% and 20%, according to who you believe. Their own leader—not this leader, but the one previous—on 18 November said that the budget that he would put forward would mean cuts in education of around 20%— in education budgets. That's what he said. That was then supported on the same day by a Member on the benches opposite saying, 'Yes, the figure might be 20%, as the leader has identified.' Andrew R.T. Davies is the name of that person who said that 20% figure on 18 November 2010. The reality is the Tories are all over the place. They want us to cut school spending. They want to cut the money for teachers. They want to cut the money for students. They can't be bothered to build new schools—we've seen that in England—and we know that education in England is a complete and utter shambles, whereas in Wales it's improving. No cuts of 20% will come from the party on these benches while we're in Government.

Wel, gadewch i ni edrych ar un peth. Rydym ni wedi diogelu cyllid ysgolion—wedi ei glustnodi. Ni wnaiff y blaid gyferbyn hynny. Ni wnaiff hynny. Yn wir, eu polisi nhw yw torri gwariant ar addysg o rhwng 12% a 20%, yn ôl pwy rydych chi'n ei gredu. Dywedodd eu harweinydd eu hunain—nid yr arweinydd hwn, ond yr un blaenorol—ar 18 Tachwedd y byddai'r gyllideb y byddai'n ei chyflwyno yn golygu toriadau o tua 20% mewn addysg—i gyllidebau addysg. Dyna'r hyn a ddywedodd. Cefnogwyd hynny wedyn ar yr un diwrnod gan Aelod ar y meinciau gyferbyn a ddywedodd, 'Ie, efallai mai 20% fydd y ffigur, fel y mae'r arweinydd wedi ei nodi.' Andrew R.T. Davies yw enw'r unigolyn hwnnw a ddywedodd y ffigur hwnnw o 20% ar 18 Tachwedd 2010. Y gwir amdani yw bod y Toriaid yn draed moch. Maen nhw eisiau i ni dorri gwariant ar ysgolion. Maen nhw eisiau torri'r arian ar gyfer athrawon. Maen nhw eisiau torri'r arian ar gyfer myfyrwyr. Nid ydyn nhw eisiau trafferthu adeiladu ysgolion newydd—rydym ni wedi gweld hynny yn Lloegr—a gwyddom fod addysg yn Lloegr yn draed moch llwyr, ond yn gwella yng Nghymru. Ni fydd unrhyw doriadau o 20% yn dod gan y blaid ar y meinciau hyn tra ein bod ni mewn Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Continuing on that theme, I do believe that the Tory war on Wales is continuing now on the education system, and it seems—[Interruption.] I'm not reading; don't be so stupid. [Interruption.] And it seems, First Minister, that Nicky Morgan, the education Secretary, is now coming round to the thinking of Welsh Labour, by wanting to protect school budgets, which is in contrast, as you've just mentioned, to the 20% that the Tories were thinking of cutting should they have ever got into power here. First Minister, will you continue to support the children, particularly those whom I represent in the Vale of Clwyd from disadvantaged families and who are now enjoying from you an increased budget in schools, and look to help them to obtain what they want to achieve, which may not be five good GCSEs, although that's what they should aim for, but whatever they get by way of a qualification? If they get a good, rounded education, that should be sufficient for everybody.

Gan barhau ar y thema honno, rwyf yn credu bod rhyfel y Torïaid ar Gymru yn parhau nawr ar y system addysg, ac mae'n ymddangos—[Torri ar draws.] Nid wyf yn darllen; peidiwch â bod mor wirion. [Torri ar draws.] Ac mae'n ymddangos, Brif Weinidog, bod Nicky Morgan, yr Ysgrifennydd Addysg, yn dechrau meddwl yr un fath â Llafur Cymru bellach, trwy fod eisiau diogelu cyllidebau ysgolion, sy'n wrthygyferbyniad, fel yr ydych chi newydd sôn, i'r 20% yr oedd y Torïaid yn ystyried ei dorri pe byddent fyth yn cael mewn i rym yma. Brif Weinidog, a wnewch chi barhau i gefnogi'r plant, yn enwedig y rhai rwyf fi'n eu cynrychioli yn Nyffryn Clwyd o deuluoedd difreintiedig ac sydd bellach yn mwynhau cyllideb fwy gennyhych chi mewn ysgolion, a cheisio eu helpu i gyflawni'r hyn y maen nhw'n dymuno ei gyflawni, nad yw efallai yn bum cymhwyster TGAU da, er mai dyna beth ddylai'r nod fod iddyn nhw, ond beth bynnag maen nhw'n ei gael o ran cymhwyster da? Os byddant yn cael, addysg gytbwys dda, dylai hynny fod yn ddigon i bawb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, we know that levels of attainment in Wales are increasing in almost every way. They are going backwards in England, particularly with regard to GCSE results. 'Michael Gove' and 'organisation' don't go together do they, as two words? We've seen the fragmentation of education in England; the cuts. It's so bad in England that the Department for Education can't even produce figures to show how much money it spends on education. That's how bad it is in England, and it has become so opaque. We know from the Treasury's own figures that we spend 8% more on education than is the case in England. We know we kept the education maintenance allowance; we know that the party opposite would impose a tuition fees tax that would take tuition fees up to £9,000 a year for Welsh students while, of course, hammering those at the lower end of the income scale through removing the education maintenance allowance. They cannot get away from the fact that they wish to cut education spending by 20%—or 12%, according to whichever figure they want to come out with today—and that means fewer teachers, fewer opportunities for Welsh pupils and, of course, ensuring that the education system in Wales collapses. That will not happen under us, and that's why we have ring-fenced school spending in Wales. It's a shame that the parties opposite can't do the same.

Wel, rydym ni'n gwybod bod lefelau cyrhaeddiad yng Nghymru yn cynyddu ym mhob ffordd mwy neu lai. Maen nhw'n dirywio yn Lloegr, yn enwedig o ran canlyniadau TGAU. Nid yw 'Michael Gove' a 'threfn' yn mynd gyda'i gilydd fel dau air ydyn nhw? Rydym ni wedi gweld y darnio ym myd addysg yn Lloegr; y toriadau. Mae mor wael yn Lloegr fel na all yr Adran Addysg hyd yn oed gynhyrchu ffigurau i ddangos faint o arian y mae'n ei wario ar addysg. Dyna pa mor wael yw hi yn Lloegr, ac mae mor ddiraidd erbyn hyn. Gwyddom o ffigurau'r Trysorlys ei hun ein bod yn gwario 8% yn fwy ar addysg na'r hyn sy'n wir yn Lloegr. Gwyddom ein bod wedi cadw'r lwfans cynhaliaeth addysg; gwyddom y byddai'r blaid gyferbyn yn gorfodi treth ffioedd dysgu a fyddai'n cynyddu ffioedd dysgu i £9,000 y flwyddyn i fyfyrwyr Cymru gan, wrth gwrs, daro'r rhai ar ben isaf y raddfa incwm trwy gael gwared ar y lwfans cynhaliaeth addysg. Ni allant ddianc rhag y ffaith eu bod eisiau torri gwariant ar addysg o 20%—neu 12%, yn dibynnu ar ba bynnag ffigur y maen nhw eisiau ei gyhoeddi heddiw—ac mae hynny'n golygu llai o athrawon, llai o gyfleoedd i ddisgyblion Cymru ac, wrth gwrs, yn sicrhau bod y system addysg yng Nghymru yn chwalu. Ni fydd hynny'n digwydd oddi tanom ni, a dyna pam yr ydym ni wedi clustnodi gwariant ar ysgolion yng Nghymru. Mae'n drueni na all y pleidiau gyferbyn wneud yr un peth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Prosesau Rheoli'r Gweithlu

Workforce Planning

14:11

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro prosesau rheoli'r gweithlu yn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)2095(FM)

7. Will the First Minister provide an update on how the Welsh Government monitors workforce planning in the NHS in Wales? OAQ(4)2095(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

O dan fframwaith cynllunio y gwasanaeth iechyd gwladol, mae gofyn bod pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru yn cwblhau cynlluniau tymor canolig integredig yn flynyddol. Mae'n rhaid i'r cynlluniau hyn ddangos ystyriaeth lawn o sut y caiff y gweithlu sydd ei angen i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy ei gynnal a'i ddatblygu.

Under the NHS planning framework, all health boards and trusts in Wales are required to complete Integrated medium-term plans on an annual basis. These plans must evidence full consideration of how the workforce necessary to deliver a sustainable service will be maintained and developed.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:12 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ofyn i chi, felly, a ydych chi'n hyderus bod y broses yna yn mynd rhagddi? Mae ffigurau rydym ni wedi'u derbyn oddi wrth Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, er enghraifft, yn dangos eu bod nhw wedi gwario £5.75 miliwn yn ystod yr 11 mis y llynedd, hyd at ddiwedd Tachwedd, ar nyrsys asiantaeth. Ar yr un adeg, maen nhw'n datgan eu bod nhw'n methu agor wardiau mewn ysbytai i ymateb i'r galw cynyddol am welyau, o achos methiant eu polisiau recriwtio nhw. A ydy'r cynlluniau hynny yn cymryd i ystyriaeth y ffaith, o flwyddyn nesaf, y bydd yn rhaid i unrhyw nyrs o du allan i Ewrop—ac mae gan Betsi Cadwaladr nifer o'r Philippines a llefydd felly—os nad ydynt yn ennill mwy na £36,000 y flwyddyn, bydd yn rhaid iddyn nhw fynd yn ôl i'w gwledydd genedigol. Fydd dim hawl gan y gwasanaeth iechyd i'w cyflogi nhw. Felly, a ydy'r cynlluniau yma yn cymryd niferoedd yng ngogledd Cymru sydd o'r cefndiroedd hynny i ystyriaeth?

May I ask you, therefore, whether you are confident that that process is proceeding? The figures that we've obtained from Betsi Cadwaladr University Local Health Board, for example, demonstrate that they spent £5.75 million over 11 months last year, until the end of November, on agency nurses. Simultaneously, they declare that they are unable to open wards in hospitals to respond to increased demands for beds because of the failure of their recruitment policies. Do those plans take into account the fact that, from next year onwards, any nurse from outwith Europe—and Betsi Cadwaladr has many from the Philippines and other similar places—if they don't earn more than £36,000 per annum, will have to return to their country of origin. The health service will not have the right to employ them. So, do those plans take account of the numbers in north Wales who are from those backgrounds?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yn gyntaf, wrth gwrs, mae unrhyw beth sy'n ymwneud â sicrhau bod pobl yn gallu dod i'r wlad hon yn rhywbeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac nid i ni. Mae'n bwysig dros ben bod polisiau twp ddim yn cael eu rhoi yn eu lle sydd yn stopio pobl rhag dod i weithio yma a dod â'u sgiliau i mewn i Gymru ac i mewn i'r Deyrnas Unedig. Mae'n wir i ddweud bod nifer y nyrsys dros dro mewn ysbytai wedi codi. Mae hynny'n wir yn Lloegr—63% yn fwy nawr na phedair blynedd yn ôl. 'So', mae hon yn her i bawb. Rydym yn gwybod bod Betsi Cadwaladr, er enghraifft, wedi bod yn Sbaen er mwyn recriwtio yn Sbaen. Maen nhw hefyd wedi recriwtio yn lleol mewn gwyliau—'nursing fairs'—ac maen nhw hefyd wedi rhoi hysbyseb yn y papurau er mwyn sicrhau eu bod yn recriwtio. 'So', maen nhw yn actif iawn ynglŷn â sicrhau bod yna fwy o nyrsys ar gael yn y dyfodol ym Metsi Cadwaladr. Nid oes neb yn gwybod, wrth gwrs, beth fydd effaith unrhyw Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â chwtogi'r nifer sy'n dod i mewn yn y dyfodol.

Well, first of all, of course, anything appertaining to admission into this country is to do with the United Kingdom Government rather than ourselves. It is important that we ensure that there aren't any stupid policies in place to stop people from coming here to work and from bringing their skills to Wales and the United Kingdom. It is true to say that the number of temporary nurses in hospitals has increased. That is also true of England—an increase of 63% on four years ago. So, this is a challenge for everyone. We know that Betsi Cadwaladr, for example, have been to Spain in order to recruit there. They have also been recruiting locally at nursing fairs, and they have advertised in newspapers in order to ensure that they do recruit. So, they are very active in ensuring that there will be more nurses available in future in Betsi Cadwaladr. Of course, nobody knows what the impact of any future United Kingdom Government policy would be in terms of cutting back on the numbers coming in in future.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:14

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, it is not just nurses that have issues in terms of ensuring that there are sufficient nurses for the Welsh NHS. We also heard at the Health and Social Care Committee last week that the provision of training places for doctors is a problem in Wales, and that has resulted in a crisis, as far as doctor recruitment is concerned, in the country. The Wales Deanery told us that they have recommended, over a number of years, an increase in the training places for doctors—up to 200 or so; around the 200 figure—from the current 136, on a number of occasions to the Welsh Government, and their recommendations have not been acted upon. Can you give us an explanation as to why that is the case?

Wrth gwrs, nid dim ond nyrsys sydd â phroblemau o ran sicrhau bod digon o nyrsys ar gyfer y GIG yng Nghymru. Clywsom hefyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr wythnos diwethaf bod y ddarpariaeth o leoedd hyfforddi ar gyfer meddygon yn broblem yng Nghymru, ac mae hynny wedi arwain at argyfwng, cyn belled ag y mae recriwtio meddygon yn y cwestiwn, yn y wlad. Dywedodd Deoniaeth Cymru wrthym eu bod wedi argymhell, dros nifer o flynyddoedd, cynnydd i'r lleoedd hyfforddi ar gyfer meddygon—i fyny i tua 200; oddeutu 200—o'r 136 ar hyn o bryd, ar sawl achlysur i Lywodraeth Cymru, ac ni weithredwyd ar sail eu hargymhellion. A allwch chi roi esboniad i ni pam mae hynny'n wir?

14:15

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, we made a pledge that we will recruit 1,000 health professionals off the back of the mansion tax, which his party opposes, of course—a redistributive tax that would make money available in order to train more health professionals in Wales. He cannot, on the one hand, say he opposes the mansion tax and then demand we recruit more health professionals when we have said we will use the receipts of that tax in order to train more health professionals in Wales. It's a shame that his party cannot support that revenue source in order to provide the people of Wales with more health professionals.

Wel, gwnaethom addewid y byddwn yn recriwtio 1,000 o weithwyr iechyd proffesiynol yn sgil y dreth plastai, y mae ei blaid yn ei wrthwynebu, wrth gwrs—treth aiddosbarthu a fyddai'n gwneud arian ar gael er mwyn hyfforddi mwy o weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru. Ni all ef, ar y naill law, ddweud ei fod yn gwrthwynebu'r dreth plastai ac yna mynnu ein bod yn recriwtio mwy o weithwyr iechyd proffesiynol pan ein bod ni wedi dweud y byddwn yn defnyddio'r hyn yr ydym ni'n ei dderbyn o'r dreth honno er mwyn hyfforddi mwy o weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru. Mae'n drueni na all ei blaid ef gefnogi'r ffynhonnell refeniw honno er mwyn darparu mwy o weithwyr iechyd proffesiynol i bobl Cymru.

14:15

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae yna un peth mae'n dwy blaid ni'n cytuno arno—bod angen o leiaf 1,000 o weithwyr proffesiynol newydd yn y gwasanaeth iechyd dros y degawd nesaf. Rydym ni'n glir bod 1,000 o'r rheini'n gorfod bod yn feddygon, ac nid ydych chi'n siŵr faint ohonyn nhw ddylai fod yn feddygon. Nawr, heddiw, cyhoeddodd Cydffederasiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol eu 'briefing' nhw ynglŷn â chynllunio gweithlu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ac mae'n dweud yn glir, os pery'r hyfforddiant ar gyfer meddygon teulu ar y lefel ag y mae, mae'n milwriaethu yn llwyr yn erbyn gofal mas o'r ysbytai a gofal yn y gymuned. A fedrwrch chi o leiaf roi ffigur heddiw ar faint o feddygon teulu ychwanegol sydd eu hangen ar y gwasanaeth iechyd dros y degawd nesaf i gyfarfod â gofynion Cydffederasiwn y GIG?

Well, there is one thing that our parties agree on—that we need at least 1,000 additional professionals in the health service over the next decade. We're clear that 1,000 of those should be doctors, and you're not sure how many of them should be doctors. Now, today, the NHS Confederation published their briefing on workforce planning for the NHS in Wales, and it states clearly that if training for GPs continues at the current level, then it militates entirely against care away from hospitals and care in the community. Can you at least give a figure today as to how many additional GPs are required in the health service over the next decade to meet the requirements of the NHS Confederation?

14:16

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, dau beth: mae'n dibynnu ar faint sy'n mynd i ymddeol, ac mae'n dibynnu hefyd ar faint o bobl sy'n defnyddio GPs yn lle mynd at y fferylydd neu, yn lle hynny, nyrs. Rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, fod yna her i recriwtio mwy o bobl, yn enwedig yn y gogledd—y gogledd-orllewin yn enwedig—ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n yn ei ystyried trwy'r rhaglenni recriwtio sydd gyda ni. Rydym ni'n gwybod ei bod hi'n bwysig hyfforddi mwy o ddoctoriaid. Rydym ni'n gwybod ei bod yn bwysig cael mwy, er enghraifft, o feddygon teulu. Beth byddwn i'n ei ddweud wrthyh chi fel plaid yw: os ydych chi'n mynd i recriwtio 1,000—awn ni ddim dros yr hen dir eto—faint o'r rheini a fyddai'n feddygon teulu? Faint o'r rheini a fyddai'n gweithio yn y byd orthopedig? Wel, nid wy'n credu eich bod chi'n gwybod achos un ffigwr sydd gyda chi—ond, dyna fe; rwy'n siŵr y bydd hynny'n rhan o'r ddatl dros—. Nid oes ffigwr gyda chi. [Torri ar draws.] Na, rwy'n gwybod; rydych chi wedi dweud hynny. Wel, bydd hynny'n rhan o'r ddatl, efallai, dros y misoedd nesaf.

Well, two things: it depends on how many will retire, and it also depends on how many people use their GPs rather than visit the pharmacist or, alternatively, the nurse. We know there is a challenge to recruit more staff, particularly in north Wales—north-west Wales in particular—and we are considering that through our current recruitment programmes. We know that it's important to train more doctors. We know that it's important, for example, to train more GPs. What I would say to you as a party is: if you wish to recruit 1,000—we won't go over old ground again—how many of those would be GPs? How many would be working in orthopaedics? I don't believe that you know, because you've just got one round figure—but there you go; I'm sure that that'll be part of the debate for—. You don't have a figure. [Interruption.] No, I know; you've said that. Well, that might be part of the debate over the ensuing months.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 2, which is the business statement. I call on the Minister, Jane Hutt.

2. Business Statement and Announcement

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes. Galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Diolch, Lywydd. I've one change to announce to this week's business: the time allocated to the debate on the Medical Innovation Bill legislative consent motion has been extended to 30 minutes. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Diolch, Lywydd. Mae gennyf un newid i'w gyhoeddi i fusnes yr wythnos hon: mae'r amser a neilltuwyd i'r ddatl ar gynig cydsyniad deddfwriaethol y Mesur Arloesedd Meddygol wedi ei estyn i 30 munud. Bydd busnes y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a'r cyhoeddiad busnes, sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael yn electronig i'r Aelodau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Leader of the house, could we have two statements, please? We've just seen in First Minister's questions that the First Minister referred to the policy of the mansion tax and, in particular, this would fund Welsh Government's ability to hire additional medical staff, I think is the correct term, of about 1,000 in total. Yet messages that are coming from London clearly show that there will not be a Barnett consequential for this. Now, it cannot be right and it cannot be proper that the Welsh Government are modelling all their support for the Welsh NHS about additional staff on a model of income that is clearly not going to be made available to you, and so, I do think that it is quite incumbent on the Welsh Government to come forward with a statement to highlight exactly how they're going to pay for these 1,000 extra clinicians, which we're told are going to ride to the rescue of the Welsh NHS. No-one would deny the Welsh NHS's ability to attract more staff, and we will support the Government in its endeavour, but you can't put false promises before people, and it is vital that the Welsh Government bring forward a statement so they can be scrutinised in this Chamber as to how they're going to pay for this commitment, which clearly, according to the Labour front bench in Westminster, is not going to be made available via a Barnett consequential.

The second statement I would seek off the Government, if possible, please, is around the support for the young farmers movement. In particular, obviously, being the largest youth movement in the countryside, the vital work that they do in promoting the Welsh language and, in particular, aspects of community engagement and coherence that, if the young farmers movement was to lose any of that capacity, would have a massive impact on communities across the whole of rural Wales, but in particular, in my South Wales Central regional area, where we have at least five young farmers clubs—and I do declare an interest, as I'm vice president of one of those clubs. To go from a level of funding that has supported the movement's objectives and abilities to zero overnight really does show an inability for the Government to appreciate the work that the National Federation of Young Farmers Clubs does, and I do think it's incumbent on the Government to come forward and take questions on this specific issue, because you are talking about something that is part of the fabric of rural Wales.

Arweinydd y tŷ, a gawn ni ddau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Rydym newydd weld yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog fod y Prif Weinidog wedi cyfeirio at bolisi'r dreth plastai ac, yn benodol, y byddai hyn yn ariannu gallu Llywodraeth Cymru i gyflogi mwy o staff meddygol, rwyf yn meddwl mai dyna'r term cywir, tua 1,000 i gyd. Ond mae'r negeseuon sy'n dod o Lundain yn dangos yn glir na fydd arian canlyniadol Barnett ar gyfer hyn. Ni all fod yn iawn ac ni all fod yn briodol bod Llywodraeth Cymru'n modelu ei holl gefnogaeth i'r GIG yng Nghymru o ran staff ychwanegol ar fodel o incwm sy'n amlwg ddim yn mynd i fod ar gael ichi, ac felly, rwyf yn meddwl ei bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno datganiad i amlygu'n union sut y bydd yn talu am y 1,000 o glinigwyr ychwanegol y dywedir wrthym eu bod yn mynd i achub y GIG yng Nghymru. Ni fyddai neb yn gwadu gallu GIG Cymru i ddenu mwy o staff, a byddwn yn cefnogi'r Llywodraeth yn ei hymdrech, ond ni allwch roi addewidion ffug i bobl. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n cyflwyno datganiad er mwyn inni allu craffu arni yn y Siambr hon o ran sut y bydd yn talu am yr ymrwymiad hwn, na fydd yn amlwg, yn ôl mainc flaen Llafur yn San Steffan, ar gael drwy arian canlyniadol Barnett.

Mae'r ail ddatganiad yr hoffwn ei gael gan y Llywodraeth, os yw hynny'n bosibl, os gwelwch yn dda, yw yn sy'n ymwneud â'r gefnogaeth i fudiad y ffermwyr ifanc. Yn arbennig, wrth gwrs, fel mudiad ieuencid mwyaf cefn gwlad, y gwaith hanfodol y mae'n ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg ac, yn benodol, agweddau ar ymgysylltu â'r gymuned a chydlyniant. Pe byddai mudiad y ffermwyr ifanc yn colli unrhyw ran o'r gallu hwnnw, byddai'n cael effaith enfawr ar gymunedau ar hyd a lled cefn gwlad Cymru, ond yn arbennig yn ardal fy rhanbarth i, sef Canol De Cymru, lle mae gennym o leiaf bum clwb ffermwyr ifanc—ac rwyf yn datgan buddiant, gan fy mod yn is-lywydd ar un o'r clybiau hynny. Mae mynd o lefel cyllido sydd wedi cefnogi amcanion a galluoedd y mudiad i ddim byd dros nos yn dangos anallu'r Llywodraeth i werthfawrogi'r gwaith y mae Ffederasiwn Cenedlaethol Clybiau'r Ffermwyr Ifanc yn ei wneud. Credaf ei bod yn ddyletswydd ar y Llywodraeth i gymryd cwestiynau ar y mater penodol hwn, oherwydd rydych yn sôn am rywbeth sy'n rhan o wead cefn gwlad Cymru.

Well, I do find it very interesting that the leader of the opposition is so engaged in our plans—the plans of the Labour Party, which will soon be in Government, from next May; the plans of a Labour Government that recognises that investment in our national health service is the key objective that our electorate wants us to see in terms of our investment. Now, I'm very proud of what we have achieved in ensuring that we put over £500,000 more into our Welsh national health service as a result of the Welsh Labour Government's commitment. And, of course, I think people recognise that that is what happens in terms of investment in the health service when Labour is in charge, which it will be in due course, of course, in Westminster.

Wel, rwyf yn credu bod y ffaith bod arweinydd yr wrthblaid yn ymgysylltu i'r fath raddau â'n cynlluniau yn ddiddorol iawn—cynlluniau'r Blaid Lafur, a fydd yn llywodraethu cyn hir, o fis Mai nesaf, cynlluniau Llywodraeth Lafur sy'n cydnabod mai buddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd gwladol yw'r amcan allweddol y mae ein hetholwyr am inni ei weld o ran ein buddsoddi. Yn awr, rwyf yn falch iawn o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi dros £500,000 yn rhagor tuag at ein gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru o ganlyniad i ymrwymiad Llywodraeth Lafur Cymru. Ac, wrth gwrs, credaf fod pobl yn cydnabod mai dyna sy'n digwydd o ran buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd pan fydd Llafur wrth y llyw, fel y bydd maes o law, wrth gwrs, yn San Steffan.

Now, your second question, of course, was raised by Members with the First Minister. I think it is important to recognise that these were applications to the national voluntary youth organisation that were considered by an advisory panel with four external representatives from the youth work field. This is difficult in terms of this being an important funding source for our young people's organisations across Wales, and of course it is clear that, in terms of the decisions that were made, there will be feedback to the young farmers clubs in terms of the meeting that has been arranged for them with the officials of the Minister.

Yn awr, cododd Aelodau eich ail gwestiwn, wrth gwrs, â'r Prif Weinidog. Credaf ei bod yn bwysig cydnabod bod y rhain yn geisiadau i'r sefydliad ieuencid gwirfoddol cenedlaethol a gafodd eu hystyried gan banel ymgynghorol â phedwar cynrychiolydd allanol o faes gwaith ieuencid. Mae hyn yn anodd gan fod hon yn ffynhonnell bwysig o arian i'n sefydliadau pobl ifanc ledled Cymru, ac wrth gwrs mae'n amlwg, o ran y penderfyniadau a wnaed, y bydd adborth i'r clybiau ffermwyr ifanc o ran y cyfarfod sydd wedi'i drefnu ar eu cyfer â swyddogion y Gweinidog.

14:21 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, during health questions last week I raised the importance of promoting emotional resilience amongst children and young people in the care system—a key theme emerging from Action for Children's 'Too much, too young' report. It's an issue we saw highlighted again in last week's Care and Social Services Inspectorate Wales report—one that followed wide-ranging inspections of services for looked-after children across Wales. Given this welcome focus on improving the life chances of looked-after children, and in the light of the Minister for Education and Skills' statement on raising their educational aspirations later this afternoon, can I ask for a statement from the Minister for Health and Social Services on how he intends to ensure that the regulations and codes of practice emerging from the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 address these issues with emotional resilience and ensure that we are delivering for looked-after children?

Weinidog, yn ystod cwestiynau iechyd yr wythnos diwethaf soniais am bwysigrwydd hyrwyddo gwydnwch emosiynol ymysg plant a phobl ifanc yn y system ofal—thema allweddol sy'n deillio o adroddiad Gweithredu dros Blant, 'Too much, too young'. Mae'n fater a amlygwyd eto yn adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru—a ddaeth yn sgil arolygiadau eang o wasanaethau i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. O ystyried y pwyslais hwn ar wella cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal, sy'n dda o beth, ac yng ngoleuni datganiad y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynglŷn â chodi eu dyheadau addysgol yn nes ymlaen brynhawn heddiw, a gaf fi ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â'r ffordd y mae'n bwriadu sicrhau bod y rheoliadau a'r codau ymarfer sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynd i'r afael â'r materion ynglŷn â gwydnwch emosiynol a sicrhau ein bod yn cyflawni ar gyfer plant sy'n derbyn gofal?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:22 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I thank Lynne Neagle, the Member for Torfaen, for this important question, raising the importance of promoting emotional resilience amongst children and young people who are being looked after in care in Wales. Clearly, the wellbeing of children is a major priority. The wellbeing of children in care, in particular, is a major priority for this Government, so regulations and codes of practice concerning looked-after and accommodated children will be consulted on in May as part of implementing the new Social Services and Well-being (Wales) Act that saw Royal Assent last May.

Wel, diolch i Lynne Neagle, yr Aelod dros Dorfaen, am y cwestiwn pwysig hwn, sy'n amlygu pwysigrwydd hyrwyddo gwydnwch emosiynol ymysg plant a phobl ifanc sydd mewn gofal yng Nghymru. Wrth gwrs, mae lles plant yn flaenoriaeth bwysig. Mae lles plant sydd mewn gofal, yn enwedig, yn flaenoriaeth bwysig i'r Llywodraeth hon, felly ymgynghorir ar y rheoliadau a'r codau ymarfer sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael llety ym mis Mai fel rhan o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a gafodd Gydsyniad Brenhinol fis Mai diwethaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:23 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, tybed a fedrwn ni gael datganiad ynglŷn â'ch polisiau i helpu pobl sydd yn ddigartref yng Nghymru? Fel rydych chi'n gwybod, mae Cyrenians Cymru Cyf yn Abertawe yn mynd i ddod i ben ddydd Gwener os nad ydyn nhw'n cael cefnogaeth gan y cyngor neu gennych chi fel Llywodraeth. Rwy'n deall y problemau sydd wedi bod gyda'r mudiad penodol yma, ond maen nhw'n poeni na fydd pobl yn yr ardal yn cael yr help sydd ei angen arny'n nhw ar hyn o bryd os yw Cyrenians yn cau ddydd Gwener.

Minister, I wonder whether we could get a statement on your policy to assist the homeless in Wales. As you know, Cyrenians Cymru Ltd in Swansea are to close on Friday unless they receive support from the council or from you as a Government. I understand the problems that have existed with this particular organisation, but they are concerned that people in the area won't be given the support that they need if Cyrenians do close on Friday.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

And the second statement I'd like to have from you, Minister, if possible, is progress on finding a new chair for the Wales Muscular Dystrophy Network. We were all very thankful—I chair the cross-party group on muscular dystrophy—for the work of Dr Goodall, but since he's left that job, we do not have anybody chairing the network in Wales, and in that time, progress is slow. So, I would like an update on the Government's work in that regard.

A'r ail ddatganiad yr hoffwn ei gael gennych, Weinidog, os yw hynny'n bosibl, yw'r diweddaraaf ynglŷn â dod o hyd i gadeirydd newydd i Rwydwaith Dystroffï'r Cyhyrau Cymru. Rydym i gyd yn ddiolchgar—rwyf yn cadeirio'r grŵp trawsbleidiol ar ddystroffï'r cyhyrau—am waith Dr Goodall, ond ers iddo adael y swydd honno, nid oes neb yn cadeirio'r rhwydwaith yng Nghymru, ac yn y cyfnod hwnnw, mae'r cynnydd yn araf. Felly, hoffwn ddiweddariad ar waith y Llywodraeth yn hynny o beth.

14:24 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Bethan Jenkins for those questions. Of course we regret the closure of Cyrenians Cymru. We remain in close contact with the City and County of Swansea Council and all interested groups to safeguard services to vulnerable people where possible, working with partners, and South Wales Police, of course, to ensure that all public funds that have been received can be accounted for in full. Just again to say: since 1999, Cyrenians Cymru has received around £2.7 million of Welsh Government funding and around £8.3 million of EU funds, and also the charity has received nearly £1.5 million of Welsh Government funding via the City and County of Swansea since 2012. Of course, this is a situation that we are very, very closely engaged in in terms of serving those vulnerable people, particularly in the Swansea community. I will, of course, ask the Minister about the future of the network and I am sure he will respond accordingly.

Diolch i Bethan Jenkins am y cwestiynau. Wrth gwrs mae'n ofid inni fod Cyrenians Cymru wedi cau. Rydym yn dal i fod mewn cysylltiad agos â Dinas a Sir Abertawe a'r holl grwpiau sydd â diddordeb mewn diogelu gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed lle y bo modd, gan weithio gyda phartneriaid, a Heddlu De Cymru, wrth gwrs, i sicrhau y gellir rhoi cyfrif llawn am yr holl arian cyhoeddus sydd wedi ei dderbyn. Dim ond dweud eto: ers 1999, mae Cyrenians Cymru wedi derbyn tua £2.7 miliwn gan Lywodraeth Cymru ac oddeutu £8.3 miliwn gan yr UE, ac mae'r elusen hefyd wedi derbyn bron i £1.5 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru trwy Ddinas a Sir Abertawe ers 2012. Wrth gwrs, mae hon yn sefyllfa yr ydym yn ei dilyn yn agos iawn, iawn o ran gwasanaethu'r bobl hynny sy'n agored i niwed, yn enwedig yng nghymuned Abertawe. Byddaf, wrth gwrs, yn holi'r Gweinidog ynglŷn â dyfodol y rhwydwaith ac rwyf yn siŵr y bydd yn ymateb yn briodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I've asked you before for a statement from the education Minister as regards the rolling out of the Schools Challenge Cymru plan. In answer to written questions, the Minister has confirmed that the minority of those schools receiving assistance under that programme find themselves either in special measures or as classified in need of significant improvement. Yet, there are schools the length and breadth of Wales and high schools in my own constituency—two of them that are regarded as requiring special measures—that do not receive any assistance out of this fund. Please could you impress upon the Minister the need to have a statement on the methodology of choosing which schools are getting additional support and which ones are not and what plans he has to ensure that those schools that are placed in special measures that do not fall into the Schools Challenge Cymru plan get the additional help, resources and support they need to improve outcomes for the pupils at those schools?

Weinidog, rwyf wedi gofyn ichi o'r blaen am ddatganiad gan y Gweinidog Addysg ynglŷn â chyflwyno cynllun Her Ysgolion Cymru. Wrth ateb cwestiynau ysgrifenedig, mae'r Gweinidog wedi cadarnhau bod lleiafrif yr ysgolion hynny sy'n derbyn cymorth o dan y rhaglen honno naill ai mewn mesurau arbennig neu mae angen iddynt wella'n sylweddol. Eto i gyd, mae ysgolion ar hyd a lled Cymru ac ysgolion uwchradd yn fy etholaeth innau—dwy ohonynt yn rhai yr ystyrir bod angen mesurau arbennig arnynt—nad ydynt yn cael dim cymorth gan y gronfa hon. A wnewch chi bwysleisio wrth y Gweinidog yr angen i gael datganiad ar y fethodoleg ar gyfer dewis pa ysgolion sy'n cael cymorth ychwanegol a pha rai nad ydynt a pha gynlluniau sydd ganddo i sicrhau bod yr ysgolion hynny y mae angen mesurau arbennig arnynt ac nad ydynt yn dod o fewn cynllun Her Ysgolion Cymru yn cael y cymorth, yr adnoddau a'r gefnogaeth ychwanegol sydd eu hangen arnynt i wella canlyniadau i ddisgyblion yn yr ysgolion hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Kirsty Williams for that question. Indeed, this is an important point in terms of the ways in which we have and always do respond to those schools that do find themselves in special measures, in terms of the response in developing action plans, the monitoring arrangements and, of course, then the re-inspection as a result of that important role of Estyn. Of course, this is a clear responsibility in terms of the consortia to make sure that those schools provide the support that they need. I think, obviously, clearly, the Minister has outlined the criteria that have led to the selection of those schools that are eligible for Schools Challenge Cymru. Indeed now, also, we have the important development of the national schools categorisation in terms of recognition of development and needs of schools in Wales. But, clearly, this is a point that the Member has raised and which I respect.

Diolch i Kirsty Williams am y cwestiwn hwnnw. Mae hwn yn bwynt pwysig yn wir o ran y ffyrdd yr ydym wedi ymateb i'r ysgolion hynny y mae angen mesurau arbennig arnynt, a'r ffyrdd yr ydym bob amser yn gwneud hynny, o ran yr ymateb wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu, y trefniadau monitro ac yna, wrth gwrs, ailrolygu o ganlyniad i rôl bwysig Estyn. Wrth gwrs, mae hwn yn gyfrifoldeb clir o ran y consortia i wneud yn siŵr bod yr ysgolion hynny'n darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt. Credaf, yn amlwg iawn, fod y Gweinidog wedi amlinellu'r meini prawf sydd wedi arwain at ddewis yr ysgolion hynny sy'n gymwys ar gyfer Her Ysgolion Cymru. Yn wir, erbyn hyn, hefyd, gwelwyd datblygiad pwysig categoreiddio ysgolion yn genedlaethol o ran cydnabod datblygiad ac anghenion ysgolion Cymru. Ond, wrth gwrs, mae hwn yn bwynt y mae'r Aelod wedi ei godi ac yr wyf yn ei barchu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to bring to the attention of the Assembly, and request an urgent debate on, please Minister, the cockle industry of south and west Wales. The problems have been besetting cocklers and their families now for the past 15 years. During this time, the cockle death rates in Burry inlet and Loughor estuary have all but annihilated the once-thriving industry worth many millions of pounds to the region. In fact, people are being driven out of the industry after generations of families having worked in it—they can no longer afford to wait for an upturn in its fortunes. Average incomes have dropped below £10,000. Natural Resources Wales have agreed that research into sewage outflow and a parasitology investigation into the causes of cockle mortality would be welcome. But, of course, they cannot finance it without help from Government. Last month, the cocklers came to Cardiff—in fact, they are here today—and asked to meet with the Minister, who refused. Not even civil servants would meet with them. So, it was left for me to take a letter to the Minister's office and that really is not good enough. I really do think that it's about time these people had their way and had some sort of recognition of this problem. I would ask for an urgent debate on it, please.

Hoffwn dynnu sylw'r Cynulliad at ddiwydiant cocos de a gorllewin Cymru, a gofyn am ddaul frys arno, os gwelwch yn dda Weinidog. Mae'r problemau hyn bellach yn poeni casglwyr cocos a'u teuluoedd ers 15 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cyfraddau marwolaethau cocos ym Mhorth Gilfach ac aber Llŵchwr wedi dinistrio bron yn llwyr ddiwydiant a arferai ffynnu, ac sy'n werth miliynau lawer o bunnoedd i'r rhanbarth. Yn wir, mae pobl yn cael eu gorfodi allan o'r diwydiant ar ôl i genedlaethau o'u teuluoedd fod yn gweithio ynddo—nid ydynt yn gallu fforddio aros mwyach i bethau wella. Mae'r incwm cyfartalog wedi gostwng yn is na £10,000. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno y byddai ymchwil i all-lif carthion ac ymchwiliad parasitoleg i achosion marwolaethau cocos yn dda o beth. Ond, wrth gwrs, nid oes modd ariannu hynny heb gymorth gan y Llywodraeth. Y mis diwethaf, daeth y casglwyr cocos i Gaerdydd—yn wir, maent yma heddiw—a gofyn am gael cwrdd â'r Gweinidog, a gwrthododd. Gwrthododd y gweision sifil hyd yn oed gwrdd â hwy. Felly, bu'n rhaid i mi fynd â llythyr i swyddfa'r Gweinidog ac nid yw hynny'n ddigon da. Credaf ei bod yn hen bryd i'r bobl hyn gael eu ffordd a chael rhyw fath o gydnabyddiaeth i'r broblem hon. Gofynnaf am ddaul frys ar hyn, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Byron Davies has raised an issue and a question, which of course the Minister and the Government is well aware of in terms of the support we have given to the very important cockle industry. Of course, it is important that you have represented your constituencies and brought forward a letter, which I don't believe the Minister has yet seen. But, of course, as part of your role, I'm sure you'll make sure that the Minister will have sight of that and then, of course, we can respond. But, I think you already, in your questions, recognise the action we have already taken in terms of the role and work of Natural Resources Wales. That is going to be critical in terms of the outcome of that work, in terms of future prospects.

Mae Byron Davies wedi codi mater a chwestiwn y mae'r Gweinidog a'r Llywodraeth yn ymwybodol iawn ohonynt wrth gwrs o ran y gefnogaeth yr ydym wedi ei rhoi i'r diwydiant cocos, sydd mor bwysig. Wrth gwrs, mae'n bwysig eich bod wedi cynrychioli eich etholaethau a chyflwyno llythyr, ac nid wyf yn credu bod y Gweinidog wedi ei weld eto. Ond, wrth gwrs, fel rhan o'ch swyddogaeth, rwyf yn siŵr y byddwch yn gwneud yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cael ei weld, ac yna, wrth gwrs, gallwn ymateb. Ond credaf eich bod eisoes, yn eich cwestiynau, yn cydnabod y camau yr ydym eisoes wedi eu cymryd o ran swyddogaeth a gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hynny'n hanfodol o ran canlyniad y gwaith hwnnw, a'r rhagolygon at y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ofyn a yw'n bosibl, gan y Llywodraeth, i gael dau ddatganiad, ac, yn gyntaf oll, un ynglŷn â'r economi yn ne sir Benfro? Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi cyhoeddi llythyr i Aelodau'r Cynulliad ynglŷn â threthi busnes, ac estyn ardal fenter y Daugleddau ar gyfer trethi busnes oherwydd, wrth gwrs, colli swyddi yn Murco. Ond, rydym hefyd wedi clywed na fydd yr orsaf bŵer yn South Hook yn bwrw ymlaen â'r cynlluniau, ar hyn o bryd, ac felly mae yna, yn amlwg, broblemau economaidd dybryd yn mynd i effeithio ar economi'r penrhyn o hyn ymlaen. Felly, byddai cael rhyw asesiad gan y Llywodraeth o oblygiadau rhai o'r penderfyniadau hyn, ac unrhyw ymyrraeth bellach gan y Llywodraeth sydd yn bosib, yn rhywbeth o werth.

Can I ask whether it's possible to have two statements from the Government, with the first being on the economy of southern Pembrokeshire? I welcome the fact that the Minister has published a letter to Assembly Members on business rates, and extending the Milford Haven enterprise zone for business rates because of the loss of jobs at Murco. But, we have also heard that the power station in South Hook won't proceed with plans at present either, and, therefore, clearly there are very serious economic problems that are going to have an impact on the economy of that area. So, having some assessment from Government of the implications of some of these decisions, and any further intervention by Government that may be possible, would be valuable.

Yr ail ddatganiad yr hoffwn i ofyn amdano yw un sy'n rhagweld yr hyn y mae'r Gweinidog, Leighton Andrews, ar fin ei ddweud, gan ei fod i gyd yn y wasg beth bynnag, sef bwriad y Llywodraeth i edrych ar gyflogau uchel y tu fewn i'r sector awdurdodau lleol. Rwy'n gofyn i'r Llywodraeth a ydy hi'n fwrriad estyn yr egwyddor yma i mewn i sectorau eraill, lle mae arian cyhoeddus yn cynnal y sectorau hynny. Rwy'n cyfeirio'n benodol at y sector addysg bellach, lle mae pennaeth Coleg y Cymoedd newydd gael codiad cyflog o bron 50%, tra bod yr holl weithwyr a darlithwyr tu fewn i'r coleg hwnnw wedi aros ar 0% o gynnyg. A ydy hi felly'n fwrriad gan y Llywodraeth i fynd â'r un egwyddor o reoli cyflogau uchel o'r sector awdurdodau lleol—lle roedd y colegau addysg bellach unwaith yn gorwedd, wrth gwrs—draw i'r sector addysg bellach? Achos, pan basiwyd y Mesur sydd yn rhyddhau addysg bellach o hualau'r Llywodraeth, yn y lle hwn, tua dwy flynedd yn ôl, fe ddywedwyd yn glir fod y sector yn un aeddfed a fyddai'n gallu ymdrin â chyfrifoldeb tuag at ei gofynion cyhoeddus.

The second statement I would request is anticipating what the Minister, Leighton Andrews, is about to say, because it's been all over the press already, namely the Government's intention to look at high salaries within local authorities. I ask the Government whether it's their intention to extend this principle into other sectors where public funding maintains those sectors. I refer specifically to the further education sector, where the principal of Coleg y Cymoedd has just been given a pay rise of almost 50%, while the rest of the workforce, including lecturers, within that college have stayed on an offer of 0%. So, is it then the Government's intention to take the same principle of managing senior salaries from the local authorities—where the FE colleges once sat, of course—into the FE sector? Because, when the Measure that releases FE from the Government's control was passed in this place, some two years ago, it was clearly stated that the sector was mature, and could deal with responsibilities in terms of its public requirements.

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you to Simon Thomas for his questions. I'm glad that you have recognised the action of the Minister for Economy, Science and Transport in terms of the economy and the needs of west Wales, particularly by extending the Milford Haven enterprise zone, and by recognising her close engagement, as Minister, in economic pressures and issues that are arising in that important part of Wales, which you have acknowledged today.

Diolch i Simon Thomas am ei gwestiynau. Rwyf yn falch eich bod wedi cydnabod y camau a gymerwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o ran yr economi ac anghenion gorllewin Cymru, yn enwedig drwy estyn parth menter Aberdaugleddau, a thrwy gydnabod ei hymgyssylltiad agos, fel Gweinidog, â phwysau economaidd a'r materion sy'n codi yn y rhan bwysig honno o Gymru, yr ydych wedi eu cydnabod heddiw.

Now, I think it's not surprising at all you raise a question, if not a comment, in terms of the news today in terms of salaries in other parts of the public sector. But, I think it's for this afternoon that we look particularly in terms of the statement that's being made by the Minister for Public Services in relation to local government, which of course is key to business today.

Yn awr, nid yw'n syndod i mi o gwbl eich bod yn gofyn cwestiwn, os nad yn gwneud sylw, ynglŷn â newyddion heddiw am gyflogau mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus. Ond, credaf y dylem ddisgwyl yn arbennig y prynhawn yma ddatganiad sy'n cael ei wneud gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â llywodraeth leol, sydd wrth gwrs yn allweddol i fusnes heddiw.

14:32

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The final provisions of the Offender Rehabilitation Act 2014 came into effect over the weekend, on 1 February, which means that the integrated public service we knew as the probation service has been broken up, with some offenders assigned to Working Links in Wales. This has been done, against all advice, by the coalition Government in Westminster, and there is a great deal of concern as to what the result will be in Wales. Could we have a debate about how the changes in the probation service will affect the services that we have responsibility for in Wales, for example, mental health services, social services, drug and alcohol services—all those services that are integral to working with offenders, to help rehabilitation?

Daeth darpariaethau terfynol Deddf Adsefydlu Troseddwy 2014 i rym dros y penwythnos, ar 1 Chwefror, sy'n golygu bod y gwasanaeth cyhoeddus integredig yr oeddem yn ei adnabod fel y gwasanaeth prawf wedi ei rannu, a rhai troseddwy yn cael eu trosglwyddo i Working Links yng Nghymru. Mae hyn wedi ei wneud, yn erbyn pob cyngor, gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan, ac mae llawer iawn o bryder ynghylch y canlyniad yng Nghymru. A gawn ni drafodaeth ynghylch sut y bydd y newidiadau yn y gwasanaeth prawf yn effeithio ar y gwasanaethau yr ydym yn gyfrifol amdanynt yng Nghymru, er enghraifft, gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol—yr holl wasanaethau hynny sy'n rhan annatod o weithio gyda throseddwy, i'w helpu i adsefydlu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for that question, because I think all of us, I'm sure, across this Chamber, are aware of the major concerns about the break-up of the probation service. Of course, that break-up has been brought about by the UK Government, and although it is non-devolved in terms of the responsibility for the National Offender Management Service, which deliver the probation services—they're responsible, of course, on an England and Wales basis—we have to ensure that this does not adversely impact, as you say, in terms of the vulnerability that so many people who depend on these services may experience. So, I mean, this is a matter that we will have to keep a very close watch on, and I'm sure there will be further opportunities to scrutinise and question the impact of this regrettable change.

Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn, oherwydd credaf ein bod i gyd yn y Siambr hon yn ymwybodol o'r pryderon mawr ynghylch chwalu'r gwasanaeth prawf. Wrth gwrs, Llywodraeth y DU sydd wedi achosi'r chwalfa honno, ac er nad yw hyn wedi ei ddatganoli o ran cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Rheoli Troseddwy Cenedlaethol, sy'n darparu'r gwasanaethau prawf—hwy sy'n gyfrifol, wrth gwrs, ar lefel Cymru a Lloegr—mae'n rhaid inni sicrhau nad yw hyn yn effeithio er gwaeth, fel y dywedwch, ar y sefyllfa fregus y mae cynifer o bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn ynnddi. Felly mae hwn yn fater y bydd yn rhaid cadw llygad barcud arno, ac rwyf yn siŵr y bydd rhagor o gyfleoedd i graffu ar effaith y newid anffodus hwn a holi cwestiynau amdani.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, may I ask for a debate in Government time about the threat to the good inter-community relations in Wales posed by Islamic radicalisation? The recent terrorist attacks in Paris have heightened tensions between communities in Wales. Also, Wales has not been immune to young Muslims being radicalised by the extremists and, in some cases, going abroad to fight for Islamic State. The people—the children—who have gone from Cardiff to Syria actually live only 100m or a couple of 100m from here. I think if we think that it happens in England or that it's not a devolved power or anything like that, we should get our own house in order and protect ourselves, together with the United Kingdom. Can we have a debate on this issue so that we can fully explore the means of tackling radicalisation in the interest of better inter-community relationships in Wales, please?

Weinidog, a gaf fi ofyn am ddadl yn amser y Llywodraeth ynglŷn â bygythiad radicaleiddio Islamaidd o ran y cysylltiadau da rhwng cymunedau yng Nghymru? Mae'r ymosodiadau terfysgol diweddar ym Mharis wedi dwysáu tensiynau rhwng cymunedau yng Nghymru. Nid yw Cymru ychwaith wedi ei hynysu rhag radicaleiddio Mwslimiaid ifanc gan eithafwyr ac, mewn rhai achosion, maent yn mynd dramor i ymladd dros y Wladwriaeth Islamaidd. Mae'r bobl—y plant—sydd wedi mynd o Gaerdydd i Syria yn byw 100m neu 200m o'r fan hon mewn gwirionedd. Os ydym yn meddwl ei fod yn digwydd yn Lloegr neu nad yw'n bŵer datganoledig neu rywbeth o'r fath, credaf y dylem gael trefn ar ein tŷ ein hunain a'n hamddiffyn ein hunain, ynghyd â'r Deyrnas Unedig. A gawn ni ddadl ar y mater hwn er mwyn inni allu edrych yn llawn ar ffyrdd o ymdrin â radicaleiddio er mwyn gwella'r cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I welcome the fact that Mohammad Asghar has raised this question again and, indeed, it was raised during First Minister's questions, and to point out the concerns, which are shared across this Chamber, I know, in terms of the impact of radicalisation. Also, of course, the First Minister drew attention to the importance of the inter-faith forum, which he chairs, and, of course, there are many opportunities, which I know Members are taking advantage of, to engage with the faith communities. But, of course, this is something that we take very seriously as a Welsh Government and look to every opportunity to raise awareness and understanding of the issue.

Wel, rwyf yn croesawu'r ffaith bod Mohammad Asghar wedi codi'r cwestiwn hwn eto ac, yn wir, fe'i codwyd yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, ac wedi tynnu sylw at y pryderon y mae pawb yn y Siambr hon yn eu rhannu, fe wn, ynglŷn ag effaith y radialeiddio hwn. Hefyd, wrth gwrs, tynnodd y Prif Weinidog sylw at bwysigrwydd y fforwm rhyng-ffydd, y mae'n ei gadeirio ac, wrth gwrs, mae llawer o gyfleoedd i ymgysylltu â'r cymunedau ffydd, a gwn fod yr Aelodau'n manteisio arnynt. Ond, wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei gymryd o ddifrif yn Llywodraeth Cymru ac rydym yn ceisio manteisio ar bob cyfle i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r mater.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:36 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I request a statement from the health Minister setting out his expectations within what time frame health boards should respond to correspondence? I sit on the National Assembly for Wales's Petitions Committee and we wrote to Hywel Dda Local Health Board in March, and got a reply six months later; Cardiff and Vale University Local Health Board, we wrote to in March and we're still awaiting a reply; and Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, we wrote to and got a reply several months later, following a chase-up letter. Now, if health boards can't respond to Assembly committees in a timely fashion, what hope have the members of the public got? I hope the Minister would agree with me and take some action.

A gaf fi ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd yn nodi ei ddisgwyliadau o ran yr amserlen y dylai byrddau iechyd gadw ati wrth ymateb i ohebiaeth? Rwyf yn eistedd ar Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac ysgrifenasom at Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ym mis Mawrth, a chael ateb chwe mis yn ddiweddarach; Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ysgrifenasom atynt ym mis Mawrth ac rydym yn dal i aros am ateb; a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ysgrifenasom atynt a chael ateb sawl mis yn ddiweddarach, ar ôl inni anfon llythyr dilynol. Yn awr, os na all byrddau iechyd ymateb i bwyllgorau'r Cynulliad mewn modd amserol, pa obaith sydd i'r cyhoedd? Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi ac yn gweithredu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Russell George, of course, is talking about a very specific area where, of course, there will be correspondence as a result of representations that have been made, and I am sure that the health boards will take note of the points made today.

Wel, mae Russell George, wrth gwrs, yn sôn am ardal benodol iawn lle bydd gohebiaeth o ganlyniad i'r sylwadau sydd wedi'u gwneud, ac rwyf yn sicr y bydd y byrddau iechyd yn cymryd sylw o'r pwyntiau a wnaed heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I call for two statements from the Minister for Health and Social Services, please? The first is on the sub-regional neonatal intensive care centre proposals for north Wales. There was obviously an announcement made last year by the First Minister regarding proposals to develop such a centre at Ysbyty Glan Clwyd in Bodelwyddan. But, very little appears to have happened since then in terms of making progress against the Welsh Government's wishes, and I think it would be helpful if the Minister could provide an update in a statement to Assembly Members.

A gaf fi alw am ddau ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, os gwelwch yn dda? Mae'r cyntaf ar y cynigion ar gyfer canolfan gofal newyddenedigol dwys is-ranbarthol i ogledd Cymru. Cafwyd cyhoeddiad y llynedd gan y Prif Weinidog, wrth gwrs, ynghylch cynigion i ddatblygu canolfan o'r fath yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan. Ond ymddengys mai ychydig iawn sydd wedi digwydd ers hynny o ran symud ymlaen yn unol â dymuniadau Llywodraeth Cymru. Credaf y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog roi diweddariad mewn datganiad i Aelodau'r Cynulliad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, can I ask for a statement on war disablement pensions? It's come to my attention, through the Royal British Legion, that there are some concerns about the difference in treatment for the war disablement income that's given to veterans. Those, apparently, that are on the war pension scheme and have been given an award prior to April 2005 have the whole of their war disablement pension completely disregarded for social services purposes and, yet, those post April 2005, under the new armed forces compensation scheme, appear to have only the first £10 of that income. Both are obviously in relation to any injury or loss that people have suffered as a result of their time in the armed forces. I think it is important that there's a level playing field for people, regardless of the date on which they were awarded their war disablement income. So, I would appreciate it if we could have a statement from the Minister, in his capacity as Minister for social services, in respect of that. Just for information purposes, their research seems to suggest that only two of the 22 local authorities in Wales treat people on the same basis regardless of the date of their injury and I think that is very, very disappointing.

Yn ail, a gaf fi ofyn am ddatganiad ar bensiynau anabledl rhyfel? Rwyf ar ddeall, drwy'r Llenng Brydeinig Frenhinol, fod rhai pryderon ynglŷn â'r gwahaniaeth yn y driniaeth o ran incwm anabledl rhyfel a roddir i gyn-filwyr. Mae pensiwn anabledl rhyfel y rhai sydd ar y cynllun pensiwn rhyfel ac wedi cael dyfarniad cyn Ebrill 2005 mae'n debyg yn cael ei ddiystyru'n llwyr at ddibenion y gwasanaethau cymdeithasol, ac eto, dim ond £10 cyntaf yr incwm hwnnw y mae'r rhai ar ôl Ebrill 2005 yn ei gael, o dan gynllun iawndal newydd y lluoedd arfog. Mae'r ddau yn amlwg yn ymwneud ag unrhyw anafiadau neu golledion y mae pobl wedi eu dioddef o ganlyniad i'w cyfnod yn y lluoedd arfog. Credaf ei bod yn bwysig rhoi chwarae teg i bobl, waeth pa ddyddiad y dyfarnwyd eu hincwm anabledl rhyfel. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi pe gellid cael datganiad gan y Gweinidog, yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog gwasanaethau cymdeithasol, am hynny. Er gwybodaeth yn unig, mae'n ymddangos bod eu hymchwil yn awgrymu mai dim ond dau o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n trin pobl yn gyfartal waeth beth oedd dyddiad eu hanaf a chredaf fod hynny'n siomedig iawn, iawn.

14:39 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On the two questions that you raise, Darren Millar, on the first one, I know the health and social services Minister will be responding as will have been planned in terms of consideration of the neonatal services in north Wales. He will, as I say, respond as he indicated when this was raised last year. On your second point, this is a matter where it's unclear to me from your point and question whose responsibility this would be in terms of the war disablement income criteria and eligibility, but I will certainly look into this in terms of our powers, and indeed those of local government and the UK Government.

Ynghylch y ddau gwestiwn yr ydych yn eu codi, Darren Millar, o ran y cyntaf, gwn y bydd y Gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ymateb yn unol â'r bwriad o ran ystyried y gwasanaethau newyddenedigol yng ngogledd Cymru. Fel y dywedais, bydd yn ymateb fel y nododd pan gafodd hyn ei godi y llynedd. O ran eich ail bwynt, nid yw'n glir imi o'ch pwynt a'ch cwestiwn pwy fyddai'n gyfrifol am y meini prawf a'r cymhwysra i gael incwm anabledl rhyfel, ond yn sicr edrychaf ar hyn o safbwynt ein pwerau ni, ac yn wir o safbwynt pwerau llywodraeth leol a Llywodraeth y DU.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:40 **3. Datganiad: Y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is a statement by the Minister for Public Services on the local government White Paper. I call on the Minister, Leighton Andrews.

3. Statement: The Local Government White Paper

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Papur Gwyn ar lywodraeth leol. Galwaf ar y Gweinidog, Leighton Andrews.

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:40 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Thank you, Llywydd. Today, I published our White Paper on local government reform, 'Power to Local People.' The White Paper sets out our vision for local government in Wales, based on activist councils engaged in delivering modern, accessible, high-quality public services with their local communities; local authorities that act as community leaders and agents of change, with leadership that focuses on excellence, and councils committed to looking outwards at their place-shaping role, and on building community capacity and resilience.

Diolch, Lywydd. Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi ein Papur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol, 'Grym i Bobl Leol.' Mae'r Papur Gwyn yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, yn seiliedig ar gynghorau gweithredol sy'n ymgysylltu â'u cymunedau lleol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus modern, hygyrch o ansawdd uchel; awdurdodau lleol sy'n gweithredu fel arweinwyr cymunedol ac asiantau ar gyfer newid, gydag arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar ragoriaeth, a chynghorau sydd wedi ymrwymo i edrych tuag allan ar eu swyddogaeth o lunio lleoedd, ac ar ddatblygu gallu cymunedol a chydnerthedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The White Paper delivers a new deal for local government, which recasts the relationship between Welsh Government and local government, with a new framework for public service delivery, based on the principles of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. Priorities will be set by Welsh Government in a small number of key national priority areas, for example, education, social services, economic development, waste and planning, leaving local government to set the bulk of its priorities with local people. Local authorities and eligible community councils would be granted a general power of competence. We will establish clarity on the roles of leaders and their cabinets and elected members, distinct from the roles of chief executives and council staff. Our proposals would reduce the cost of politics and management in local government.

There will be a review of the remuneration of councillors, leaders and cabinet members to bring the overall cost down in line with other parts of the UK. There will be a reduction in full-time cabinet roles. There will be tight controls on the remuneration of chief executives and other chief officers. We propose chief executives will be recruited through a national recruitment process, and the role and responsibilities of the chief executive in local authorities would be defined in legislation. We will consult on whether there should be term limits on chief executives.

The role of our public service workforce will be supported through the public services staff commission. We want local authorities that reflect the diversity of our communities in Wales. We propose placing a legal duty on council leaders to ensure diversity amongst elected members and senior council staff. The White Paper proposes term limits on councillors and leaders, and a possible recall mechanism. We also believe that no-one should be allowed to hold posts as a councillor and Assembly Member at the same time. We will review barriers to council staff standing for election. We propose that people standing for election as independents should be required to declare any party affiliation.

Leaders will also have explicit duties in respect of standards of behaviour, including bullying and harassment of councillors and staff. Our proposals will require local authorities to take greater responsibility for performance. We want chief executives to have a statutory duty to drive performance improvement. We want to see a culture in which audit and inspection are the last lines of defence of quality public services, not the first. We want councillors to act as community champions, leading local initiatives to improve service delivery. We want backbench elected members to have a stronger role, working with community organisations to shape their communities and local services. We will open up new opportunities for communities to own and manage local services where this is appropriate, looking to the Welsh tradition of co-operatives and mutuals.

Mae'r Papur Gwyn yn darparu bargaen newydd ar gyfer llywodraeth leol, sy'n ail-ffurfio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, gyda fframwaith newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn seiliedig ar egwyddorion Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd blaenoriaethau yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru mewn nifer fechan o feysydd blaenoriaeth cenedlaethol allweddol, er enghraifft, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, datblygiad economaidd, gwastraff a chynllunio, gan adael llywodraeth leol i osod y rhan fwyaf o'i blaenoriaethau gyda phobl leol. Byddai awdurdodau lleol a chynghorau cymuned cymwys yn cael pŵer cymhwysedd cyffredinol. Byddwn yn sefydlu eglurder o ran swyddogaethau'r arweinwyr a'u cabinetau a'u haelodau etholedig, ar wahân i swyddogaethau prif weithredwyr a staff cynghorau. Byddai ein cynigion yn lleihau cost gwleidyddiaeth a rheolaeth mewn llywodraeth leol.

Byddwn yn cynnal adolygiad o dâl cynghorwyr, arweinwyr ac aelodau cabinet er mwyn dod â'r gost gyffredinol i lawr yn unol â rhannau eraill o'r DU. Bydd gostyngiad yn nifer y swyddi cabinet llawn amser. Bydd mesurau rheoli llym ar dâl prif weithredwyr a phrif swyddogion eraill. Rydym yn cynnig y bydd prif weithredwyr yn cael eu recriwtio drwy broses recriwtio genedlaethol, a byddai swyddogaeth a chyfrifoldebau'r prif weithredwr mewn awdurdodau lleol yn cael eu diffinio mewn deddfwriaeth. Byddwn yn ymgynghori ynghylch pa un a ddylid cyfyngu ar dymor prif weithredwyr.

Bydd swyddogaeth ein gweithlu gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei gefnogi drwy gomisiwn staff y gwasanaethau cyhoeddus. Ein dymuniad yw bod awdurdodau lleol yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau yng Nghymru. Rydym yn cynnig gosod dyletswydd gyfreithiol ar arweinwyr cynghorau i sicrhau amrywiaeth ymhlith aelodau etholedig ac uwch staff y cynghorau. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig terfynau o ran tymor cynghorwyr ac arweinwyr, a dull posibl o adalw. Rydym hefyd yn credu na ddylid caniatáu unrhyw un i fod yn gynghorydd ac yn Aelod Cynulliad ar yr un pryd. Byddwn yn adolygu'r rhwystrau i staff cyngor sefyll mewn etholiad. Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i bobl sy'n sefyll mewn etholiad fel ymgeiswyr annibynnol ddatgan unrhyw ymlyniad i blaid.

Bydd gan arweinwyr hefyd ddyletswyddau penodol o ran safonau ymddygiad, gan gynnwys bwlio ac aflonyddu ar gynghorwyr a staff. Bydd ein cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd mwy o gyfrifoldeb dros berfformiad. Rydym eisiau i brif weithredwyr fod â dyletswydd statudol i sbarduno gwelliant mewn perfformiad. Rydym eisiau gweld diwylliant lle mai archwilio ac arolygu yw cam olaf diogelu gwasanaethau cyhoeddus o safon, nid y cam cyntaf. Rydym am i gynghorwyr weithredu fel hyrwyddwyr cymunedol, gan arwain mentrau lleol i wella darpariaeth gwasanaeth. Rydym eisiau gweld aelodau etholedig y meinciau cefn yn cael swyddogaeth gryfach, gan weithio gyda sefydliadau cymunedol i lunio eu cymunedau a'u gwasanaethau lleol. Byddwn yn creu cyfleoedd newydd i gymunedau fod yn berchen ar wasanaethau lleol a'u rheoli pan fo hynny'n briodol, gan ddilyn y traddodiad Cymreig o sefydliadau cydweithredol a chydfuddiannol.

Responsibility for ensuring consistency amongst community councils will lie with principal local authorities, and we will expect them to hold a review of town and community councils in their areas. Activist councils should lead in the development of new forms of community control of services, including mutuals and co-operatives, establishing new community rights to be involved in the improvement of services, to initiate the transfer of land and other assets from local government to community groups, and a first refusal to buy assets of community value. The Welsh Government will support local authorities in the development of new skills to create this cultural change.

We expect local authorities to be open and transparent. Each local authority will be expected to produce a plain English or 'Cymraeg clir' constitution that reflects the principles under which it will operate and its relationship with the public. We will strengthen provisions with regard to the broadcasting of proceedings and the rights of the public to engage in proceedings. We will develop a new improvement system, with local authorities required to undertake an annual self-assessment process supported by biennial peer reviews.

We will repeal Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009, removing the requirement upon local authorities to produce annual improvement plans. There will be a strengthened role for audit committees, with an independent chair, and a requirement to consider the local authorities' self-assessment peer review and whole-system assessment reports. We will have more decisive intervention powers for Welsh Ministers to intervene in the event of corporate or service failure. Local authorities will be required to prepare a corporate plan. They will be required to publish comparative service performance, based on real-time data. We expect local authorities to embrace digital technology to improve services to local people. Local authorities will be required to establish an online complaints process.

We will strengthen the relationship between internal scrutiny and external audit, inspection and regulation. We want local scrutiny committees to provide the public and community-based bodies with opportunities to engage with scrutiny. We'll strengthen the relationship between external review bodies, requiring them jointly to assess individual local authorities and produce a combined annual assessment of local government in Wales. In the longer term, we will review the mechanisms for funding local authorities, with changes to the framework of financial governance required to enable and support these reforms. We will now consult on this White Paper, and I commend it to the Chamber.

Y prif awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am sicrhau cysondeb ymhlith cyngorau cymuned, a byddwn yn disgwyl iddynt gynnal adolygiad o gyngorau tref a chynghorau cymuned yn eu hardaloedd. Dylai cyngorau gweithredol arwain wrth ddatblygu dulliau newydd i'r gymuned reoli gwasanaethau, gan gynnwys sefydliadau cyfuddiannol a chydweithredol, gan sefydlu hawliau cymunedol newydd i fod yn rhan o'r gwaith o wella gwasanaethau, i ddechrau trosglwyddo tir ac asedau eraill o lywodraeth leol i grwpiau cymunedol, a'r cynnig cyntaf i brynu asedau sydd o werth cymunedol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu sgiliau newydd i greu'r newid diwylliannol hwn.

Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol fod yn agored ac yn dryloyw. Bydd disgwyl i bob awdurdod lleol lunio cyfansoddiad mewn Saesneg plaen neu 'Gymraeg clir' a fydd yn nodi'r egwyddorion y bydd yn eu gweithredu a'i berthynas â'r cyhoedd. Byddwn yn cryfhau darpariaethau ynglŷn â darlledu trafodion a hawliau'r cyhoedd i gymryd rhan yn y trafodion. Byddwn yn datblygu system newydd ar gyfer gwella, a bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal proses hunanasesu blynyddol a gefnogir gan adolygiadau cymheiriaid bob dwy flynedd.

Byddwn yn diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, gan ddileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i gynhyrchu cynlluniau gwella blynyddol. Bydd swyddogaeth gryfach ar gyfer pwyllgorau archwilio, gyda chadeirydd annibynnol, a gofyniad i ystyried hunanasesiad, adolygiad gan gymheiriaid ac adroddiadau asesu system gyfan awdurdodau lleol. Bydd gennym bwerau ymyrraeth mwy pendant i Weinidogion Cymru ymyrryd pan geir methiant corfforaethol neu o ran gwasanaeth. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi cynllun corfforaethol. Bydd yn ofynnol iddynt gyhoeddi data cymharol ar berfformiad gwasanaethau, yn seiliedig ar ddata amser real. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio technoleg ddigidol i wella gwasanaethau i bobl leol. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu proses gwyno ar-lein.

Byddwn yn cryfhau'r berthynas rhwng craffu mewnol ac archwilio, arolygu a rheoleiddio allanol. Rydym eisiau i bwyllgorau craffu lleol roi cyfleoedd i gyrff cyhoeddus a chymunedol gymryd rhan yn y gwaith o graffu. Byddwn yn cryfhau'r berthynas rhwng cyrff adolygu allanol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt asesu awdurdodau lleol unigol gyda'i gilydd a llunio asesiad blynyddol ar y cyd o lywodraeth leol yng Nghymru. Yn y tymor hwy, byddwn yn adolygu'r dulliau ar gyfer ariannu awdurdodau lleol, gyda newidiadau i'r fframwaith llywodraethu ariannol sy'n ofynnol ar gyfer galluogi a chefnogi'r diwygiadau hyn. Byddwn yn awr yn ymgynghori ar y Papur Gwyn hwn, ac fe'i cymeradwyaf i'r Siambr.

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Today's White Paper is one that touches on many of the fundamentals facing local government in Wales and comes during a period of huge uncertainty for those employed in and charged with running our authorities across Wales. If implemented, I actually do welcome many of the proposals, and they're not before time. The White Paper talks about delivering a new deal for local government and recasting the relationship between Welsh Government and local government, and I know many authorities will not disagree with those principles; it is certainly very long overdue. However, after last week's u-turn by yourself in terms of the voluntary merger process and the First Minister's vague response, there is no doubt now a current ethos and a lack of trust, confidence and respect for this Welsh Government in this regard and so you have got to overcome those.

Over many years, we have seen so many reforms, diktat and bureaucracy thrown in the direction of our local authorities in Wales by the Welsh Labour Government, leaving many feeling that it was more about justifying their own existence as a Government and the Minister rather than being seen as to be leading, guiding and working with our local authorities in the main. This has culminated in the need for a massive and swift change of direction if those very valuable, vital services, so often required for some of the most vulnerable, are to be realised and protected. There is much rhetoric about the need to reduce the cost of politics and management in local government, to include the remuneration of councillors, leaders and cabinet members, in line with other parts of the UK, and we cannot argue with that. Tough talk on the remuneration and appointment of chief executives and other senior officers—I don't argue with that. I would ask the Minister for some commitment that you will eradicate the constant internal recruitment process so often rife within local authorities.

Of course, it was the Welsh Conservatives who tabled amendments in this vein for the independent remuneration panel to cover all senior officers, because some of the senior officer pay is eye-watering across Wales. But it was sad that, at that time, and it was not that long ago—certainly in this term—it was voted down by Welsh Labour, Plaid Cymru and the Liberal Democrats here—

Mae Papur Gwyn heddiw yn un sy'n cyffwrdd â llawer o'r hanfodion sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru ac mae'n dod yn ystod cyfnod o ansicrwydd enfawr ar gyfer y rhai a gyflogir mewn awdurdodau ledled Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am eu gweithredu. Os cânt eu gweithredu, rwyf wir yn croesawu llawer o'r cynigion, ac mae'n hen bryd iddynt ddod i'r amlwg. Mae'r Papur Gwyn yn sôn am ddarparu borgen newydd ar gyfer llywodraeth leol ac ail-ffurfio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, a gwn na fydd llawer o awdurdodau yn anghytuno â'r egwyddorion hynny; mae'n sicr yn hen bryd i hynny ddigwydd. Fodd bynnag, ar ôl y tro pedol yr wythnos diwethaf gennyh chi o ran y broses uno gwirfoddol ac ymateb amwys y Prif Weinidog, nid oes amheuaeth bellach fod ethos cyfredol o ddiffyg ymddiriedaeth, hyder a pharch tuag at y Llywodraeth Cymru hon yn hyn o beth ac felly mae'n rhaid i chi oresgyn hynny.

Dros flynyddoedd lawer, rydym wedi gweld cymaint o ddiwygiadau, dictad a biwrocratiaeth yn cael eu taflu i gyfeiriad ein hawdurdodau lleol yng Nghymru gan Lywodraeth Lafur Cymru, gan adael llawer yn teimlo ei fod yn fwy o fater o gyfiawnhau eu bodolaeth eu hunain fel Llywodraeth ac fel Gweinidog, yn hytrach na chael eu gweld yn arwain, tywys a gweithio gyda'n hawdurdodau lleol yn bennaf. Mae hyn wedi arwain at yr angen am newid cyfeiriad enfawr a chyflym os yw'r gwasanaethau gwerthfawr a hanfodol iawn hynny, y mae eu hangen mor aml gan rai o'r bobl fwyaf agored i niwed, am gael eu gwireddu a'u diogelu. Ceir llawer o rethreg am yr angen i leihau cost gwleidyddiaeth a rheolaeth mewn llywodraeth leol, gan gynnwys tâl cynghorwyr, arweinwyr ac aelodau cabinet, yn unol â rhannau eraill o'r DU, ac ni allwn ddadlau â hynny. Nid wyf yn dadlau â geiriau llym ar dâl a phenodiadau prif weithredwyr ac uwch swyddogion eraill. Rwyf yn gofyn i'r Gweinidog am rywfaint o ymrwymiad y byddwch yn dileu'r broses recriwtio fewnol gyson sydd mor aml yn rhemp mewn awdurdodau lleol.

Wrth gwrs, Ceidwadwyr Cymru gyflwynodd y gwelliannau ynglŷn â hyn er mwyn i'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol gynnwys yr holl uwch swyddogion, oherwydd bod cyflogau rhai o'r uwch swyddogion ledled Cymru yn dod â dŵr i'r llygaid. Ond roedd yn drist, ar yr adeg honno, ac nid oedd mor bell â hynny yn ôl—yn sicr yn ystod y tymor hwn—bod Llafur Cymru, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi pleidleisio yn erbyn hynny yma —

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I'm sorry, can we stick to the report that's before us today and come to some questions?

Trefn. Mae'n ddrwg gen i, a gawn ni gadw at yr adroddiad sydd ger ein bron heddiw a dod at rai cwestiynau?

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. Better late than never, as they say, but, given the financial challenge we face, it did not require a new White Paper, it needed strong leadership. Mention of the public services staff commission persuades me to ask the Minister for his absolute assurance that the appointment to this commission will be fair, transparent and equitable and will not be driven by individuals within Welsh Labour in some other guise? There are many good people working in public bodies across Wales of all colours and none. True diversity must form the basis for any such commission.

I'm particularly keen that this White Paper addresses the need for greater diversity within our local authorities, because it is a fact that local government resonates with the wider public much more than the Welsh Government itself, and it is essential that all views, beliefs and backgrounds are represented at both officer and member level.

Now, independents, Minister: I'd like you to go one stage further. Currently, if an independent is elected to some local authorities, they are only allowed to sit on council; they cannot actually be part of any committee unless they join a registered political party. So, some authorities get round this by having an independent political party of that particular authority. I reckon that's misleading the electorate, if they stand as an independent and then become part of another political party.

I certainly relish the direction of travel as regards the community rights agenda, and, again, it proves just how well the Localism Act 2011 is working in the UK.

The pay in terms of chief executives: currently there are the policy pay statements in place, which should be implemented and led by yourselves more.

The White Paper mentions transparency and the use of digital technology and how that should contribute to better public engagement—Monmouthshire County Council being a great example of that already happening.

And then finally, Minister, the complaints process, online or otherwise: we want to see a complaints process that, again, is transparent, is accountable and that actually does recognise the complaints brought by members of the community at the time. Thank you and I really look forward, with my group, to scrutinising this Bill.

Cawn. Gwell hwyr na hwyrach, fel y dywedir, ond, o ystyried yr her ariannol sy'n ein hwynebu, nid oedd angen Papur Gwyn newydd, arweinyddiaeth gref oedd ei hangen. Mae clywed sôn am gomisiwn staff y gwasanaethau cyhoeddus yn dwyn perswâd arnaf i ofyn i'r Gweinidog am ei sicrhad pendant y bydd y penodi i'r comisiwn hwn yn deg, yn dryloyw ac yn gyfartal ac na fydd yn cael ei sbarduno gan unigolion o fewn Llafur Cymru ar ryw ffurf arall? Mae llawer o bobl dda yn gweithio mewn cyrff cyhoeddus ledled Cymru o bob lliw a dim lliw. Mae'n rhaid i amrywiaeth wirioneddol fod yn sail ar gyfer unrhyw gomisiwn o'r fath.

Rwyf yn arbennig o awyddus bod y Papur Gwyn hwn yn mynd i'r afael â'r angen am fwy o amrywiaeth o fewn ein hawdurdodau lleol, oherwydd mae'n ffaith bod llywodraeth leol yn ymwneud llawer mwy â'r cyhoedd ehangach na Llywodraeth Cymru ei hun, ac mae'n hanfodol bod pob barn, credo a chefnidir yn cael eu cynrychioli ar lefel swyddogion ac ar lefel aelodau.

Nawr, cynghorwyr annibynnol, Weinidog: Rwyf am i chi fynd gam ymhellach. Ar hyn o bryd, os yw unigolyn annibynnol yn cael ei ethol i rai awdurdodau lleol, dim ond cael eistedd ar y cyngor y mae; ni chaiff mewn gwirionedd fod yn rhan o unrhyw bwyllgor oni bai ei fod yn ymuno â phlaid wleidyddol gofrestredig. Felly, mae rhai awdurdodau yn osgoi hyn drwy gael plaid wleidyddol annibynnol yn yr awdurdod penodol hwnnw. Rwy'n credu bod hynny'n camarwain yr etholwyr, os yw pobl yn sefyll fel ymgeisydd annibynnol ac yna'n dod yn rhan o blaid wleidyddol arall.

Rwyf yn sicr yn cefnogi cyfeiriad y teithio o ran yr agenda hawliau cymunedol, ac, unwaith eto, mae'n profi pa mor dda y mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gweithio yn y DU.

O ran tâl prif weithredwyr: ar hyn o bryd mae datganiadau polisi tâl wedi eu sefydlu, a ddylai gael eu gweithredu a'u harwain yn fwy gennych chi.

Mae'r Papur Gwyn yn sôn am dryloywder a'r defnydd o dechnoleg ddigidol a sut y dylai hynny gyfrannu at well ymgysylltiad cyhoeddus—mae Cyngor Sir Fynwy yn enghraifft wych o hynny yn digwydd eisoes.

Ac yna yn olaf, Weinidog, y broses gwyno, ar-lein neu fel arall: rydym eisiau gweld proses gwynion sydd, unwaith eto, yn dryloyw, yn atebol ac sydd mewn gwirionedd yn cydnabod y cwynion a gyflwynwyd gan aelodau o'r gymuned ar y pryd. Diolch i chi ac rwyf wir yn edrych ymlaen, gyda fy ngrŵp, at gael craffu ar y Bil hwn.

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Llywydd, I don't think the opposition spokesperson disagreed with anything I said, which must be a first and also worries me slightly, I must admit.

Let me just run through some of the issues that were raised in her contribution. She welcomed the new deal and the recasting of the relationship with local government. I thank her for that.

Wel, Lywydd, nid wyf yn credu bod llefyrydd yr wrthblaid wedi anghytuno ag unrhyw beth a ddywedais, ac mae'n rhaid mai dyna'r tro cyntaf i hynny ddigwydd ac mae'n peri rhywfaint o bryder i mi hefyd, mae'n rhaid i mi gyfaddef.

Gadewch i mi fynd trwy rai o'r materion a godwyd yn ei chyfraniad. Croesawodd y fargen newydd ac ail-lunio'r berthynas â llywodraeth leol. Rwyf yn diolch iddi am hynny.

She welcomed what we're saying in respect of the review of remuneration of councillors, cabinet members and also chief officers. She made the case for the external recruitment of chief officers, and certainly the proposals we outline in respect of a potential staff appointments commission would address those issues. I can tell her that there will be an open appointment process to the statutory public services staff commission when that is established.

She supported what we're doing on diversity, and I welcome that. And I don't disagree with her in respect of what she had to say about complaints, and I think there is good practice in Welsh public service, not least in parts of the health service, that we can learn from in respect of that.

She had some observations on independents as members of groups and I'm not sure I was entirely in accord with her. But I think the actions that we want to take to ensure that anybody who stands for election and declares themselves as an independent should have to declare if they hold any party affiliation would do much, I think, to strengthen transparency across local government in Wales.

So, I'm very pleased to have her support for the programme that we've outlined as a Government, and I look forward to her voting for it in every particular.

Croesawodd yr hyn yr ydym ni'n ei ddweud ynglŷn â'r adolygiad o gydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr, aelodau cabinet a hefyd prif swyddogion. Roedd hi'n cefnogi recriwtio prif swyddogion o'r tu allan, ac yn sicr, byddai'r cynigion yr ydym yn eu hamlinellu ynglŷn â chomisiwn penodi staff arfaethedig yn mynd i'r afael â'r materion hynny. Gallaf ddweud wrthi y bydd proses benodi agored i'r comisiwn staff gwasanaethau cyhoeddus statudol pan fydd hwnnw'n cael ei sefydlu.

Roedd hi'n cefnogi'r hyn yr ydym yn ei wneud ar amrywiaeth, a chroesawaf hynny. Ac nid wyf yn anghytuno â hi o ran yr hyn a oedd ganddi i'w ddweud am gwynion, ac rwyf yn credu y ceir arferion da mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig mewn rhannau o'r gwasanaeth iechyd, y gallwn ddysgu oddi wrthynt yn hynny o beth.

Roedd ganddi rai sylwadau ar gynghorwyr annibynnol fel aelodau o grwpiau a dydw i ddim yn siŵr fy mod yn cytuno'n llwyr â hi. Ond rwy'n credu y byddai'r camau gweithredu yr ydym yn dymuno eu cymryd i sicrhau bod unrhyw un sy'n sefyll i gael ei ethol, ac sy'n datgan ei hun fel bod yn ymgeisydd annibynnol, yn gorfod datgan os oes ganddo ymlyniad i unrhyw blaid, yn gwneud llawer, yn fy marn i, i gryfhau tryloywder ar draws llywodraeth leol yng Nghymru.

Felly, rwy'n falch iawn o gael ei chefnogaeth ar gyfer y rhaglen yr ydym wedi ei hamlinellu fel Llywodraeth, ac edrychaf ymlaen at ei gweld yn pleidleisio o blaid yr holl fanylion.

14:53

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I couldn't start without commending the Minister on his use of the example of the Gwent Archives and by describing the work of Aneurin Bevan and the Tredegar Medical Aid Society in describing the role that local government could play in our lives. I'm particularly pleased that he's used, and he's used it this afternoon as well as in the White Paper, the term 'activist council'. I welcome very much, and I think many people will welcome, the general power of competence that he is proposing to give to local government, together with reducing some of the burdens of administration and performance regulations.

I hope, and my question to you, Minister, is this: how will he and the Welsh Government provide support to chief officers, to local authorities and to the leaders of local government in achieving these ambitions? I believe that this is a very ambitious White Paper, which sets out a profoundly important role for local government in the future, which will strengthen local government and will equip local government with the tools that it needs to deliver excellence in public services across Wales. But I hope the Minister will agree that that is a partnership between this Government and local government to achieve that for the people of Wales.

Ni allwn ddechrau heb ganmol y Gweinidog ar ei ddefnydd o'r esiampl o Archifau Gwent a chan ddisgrifio gwaith Aneurin Bevan a Chymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar wrth ddisgrifio'r rhan y gallai llywodraeth leol ei chwarae yn ein bywydau. Rwy'n arbennig o falch ei fod wedi defnyddio, ac mae wedi ei ddefnyddio y prynhawn yma, yn ogystal ag yn y Papur Gwyn, y term 'cyngor gweithredol'. Rwyf yn croesawu'n fawr iawn, ac rwy'n credu y bydd llawer o bobl yn croesawu, y pŵer cymhwysedd cyffredinol y mae'n cynnig ei roi i lywodraeth leol, ynghyd â lleihau rhai o'r beichiau gweinyddol a rheoliadau perfformiad.

Rwyf yn gobeithio, a fy nghwestiwn i chi, Weinidog, yw hwn: sut y bydd ef a Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i brif swyddogion, i awdurdodau lleol ac i arweinwyr llywodraeth leol o ran cyflawni'r uchelgeisiau hyn? Credaf fod hwn yn Bapur Gwyn uchelgeisiol iawn, sy'n nodi swyddogaeth hynod bwysig ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol, a fydd yn cryfhau llywodraeth leol ac a fydd yn arfogi llywodraeth leol â'r arfau y mae eu hangen i sicrhau rhagoriaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Ond rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn cytuno mai partneriaeth rhwng y Llywodraeth hon a llywodraeth leol fydd yn cyflawni hynny i bobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank my colleague, the Member for Blaenau Gwent? And I have to say I enjoyed my visit to his constituency this morning and to the Gwent Archives, which I've been associated with ever since I was the Deputy Minister for Regeneration, when we took the decision to invest in the general offices in Ebbw Vale to ensure that the Gwent Archives could actually be housed in Gwent rather than being housed in Cardiff. And, of course, they contain much historic information that is valuable and interesting, and I was able to view there today proceedings of the Tredegar working men's medical aid committee and the work there of Councillor Aneurin Bevan. He is right to draw attention to what we say in the White Paper about the changing role of local government over time. In the initial sections of the White Paper, we talk about the history of the development of local government in Wales and the different responsibilities that have been held at different times. And what we want to see, obviously, is a system of local government in Wales that is fit for the digital age and fit for the delivery of modern high-quality public services, not just for local people but working with local people to develop those.

I'm glad he welcomes the general power of competence that we want to give to local authorities, and I'm glad he sees our proposals as ambitious and aiming at excellence. In terms of how we would support the development of chief executives and indeed leaders and cabinets going forward, he raises there an important point, because I do think leadership is critical to this. I think there is a role there for our public service academy in developing the relevant courses to support leadership development, both at a political level and at executive level within local government, and I look forward to taking that work forward.

A gaf fi ddiolch i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Flaenau Gwent? Ac mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi mwynhau fy ymweliad â'i etholaeth y bore yma ac ag Archifdy Gwent, yr wyf wedi bod yn gysylltiedig ag ef byth ers i mi fod y Dirprwy Weinidog dros Adfywio, pan benderfynasom fuddsoddi yn y swyddfeydd cyffredinol yng Nglyn Ebwy i sicrhau y gallai Archifau Gwent gael eu cadw yng Ngwent mewn gwirionedd yn hytrach nag yng Nghaerdydd. Ac, wrth gwrs, maen nhw'n cynnwys llawer o wybodaeth hanesyddol sydd yn werthfawr a diddorol, ac roeddwn yn gallu gweld yno heddiw drafodion y pwyllgor cymorth meddygol i weithwyr yn Nhredgar a gwaith y Cyngorydd Aneurin Bevan yno. Mae'n iawn i dynnu sylw at yr hyn a ddywedwn yn y Papur Gwyn am swyddogaeth newidiol llywodraeth leol dros gyfnod o amser. Yn adrannau cychwynnol y Papur Gwyn, rydym yn sôn am hanes datblygiad llywodraeth leol yng Nghymru a'r gwahanol gyfrifoldebau ar wahanol adegau. A'r hyn yr ydym eisiau ei weld, yn amlwg, yw system o lywodraeth leol yng Nghymru sy'n addas ar gyfer yr oes ddigidol ac sy'n addas ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus cyfoes o ansawdd uchel, nid yn unig ar gyfer pobl leol ond drwy weithio gyda phobl leol i'w datblygu.

Rwy'n falch ei fod yn croesawu'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yr ydym am ei roi i awdurdodau lleol, ac rwy'n falch ei fod yn ystyried ein cynigion yn rhai uchelgeisiol sydd â'r nod o ragoriaeth. O ran sut y byddem yn cefnogi datblygiad prif weithredwyr ac yn wir arweinyddion a chabinetau wrth symud ymlaen, mae'n codi pwynt pwysig yn y fan yna, oherwydd rwyf yn credu bod arweinyddiaeth yn hanfodol ar gyfer hyn. Rwy'n credu bod swyddogaeth yno ar gyfer ein hacademi gwasanaethau cyhoeddus wrth ddatblygu'r cyrsiau perthnasol i gefnogi datblygiad arweinyddion, ar lefel wleidyddol ac ar lefel weithredol mewn llywodraeth leol, ac edrychaf ymlaen at fwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw.

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i groesawu yn fawr iawn y datganiad yma y prynhawn yma, Weinidog, a hefyd croesawu'r egwyddorion sydd yn cael eu hamlinellu yn y Papur Gwyn? Mae'n ddrwg gennyf os yw hynny'n ychwanegu at eich pryderon chi, ond mae'r datganiad yma a'r Papur Gwyn yn hir ddisgwyliedig, a'r unig drueni yw na chawsom ni'r datganiad yma a'r Papur Gwyn flwyddyn yn ôl neu hyd yn oed ddwy flynedd yn ôl. Yna, ni fyddem wedi cael y cyfnod yma o ansicrwydd ac na fyddai awdurdodau lleol ac arweinwyr awdurdodau lleol wedi bod mewn sefyllfa lle maen nhw'n wynebu toriadau sylweddol i'w cyllideb nhw heb wybod bwriadau'r Llywodraeth Cymru ar eu cyfer nhw.

May I very much welcome the statement this afternoon, Minister, and also welcome the principles that have been outlined in the White Paper? I'm sorry if that adds to your concerns, but this statement and the White Paper are long awaited, and the only shame is that we didn't have the statement and the White Paper a year ago or even two years ago. Then we wouldn't have had this period of uncertainty and the local authorities and local authority leaders wouldn't have been in a position where they are facing significant cuts to their budget without knowing fully the intentions of Welsh Government for them.

A gaf i yn y lle cyntaf goesawu'r camau y mae'r Papur Gwyn yn eu cymryd i fynd i'r afael â thaliadau a chyflogau prif swyddogion a swyddogion hŷn llywodraeth leol? Rwyf wedi dweud hyn wrthoch chi o'r blaen, Weinidog: fod yn rhaid i ni edrych nid yn unig at y taliadau sydd yn cael eu gwneud, ond sicrhau bod cysondeb rhwng y taliadau uchaf a'r taliadau isaf o fewn awdurdodau lleol. Mae awdurdodau sydd wedi cael eu harwain gan Blaid Cymru wedi gwneud camau bras iawn i sicrhau bod y cysondeb hwnnw yn ei le, ond wedyn maen nhw'n wynebu anawsterau pan maent yn trio recriwtio staff, oherwydd y mae awdurdodau eraill yn barod i dalu llawer iawn yn uwch. Sut ydych yn mynd i fynd i'r afael â'r broblem honno, Weinidog? Hefyd, mae yna broblem lle mae awdurdodau lleol yn mynd i benodi, yn awr, brif weithredwyr, lle fyddai cyflogau y prif weithredwyr hynny yn is na rhai o'r swyddogion hŷn sydd eisoes yn eu lle. Mae cyngor sir Benfro yn wynebu'r broblem honno ar hyn o bryd. Sut ydych chi fel Gweinidog yn awgrymu y dylai yr awdurdodau hynny fynd i'r afael â hynny? Rwy'n croesawu yn fawr iawn yr hyn yr ydych yn ei ddweud ynglŷn â recriwtio prif weithredwyr a swyddogion hŷn. Fe sonioch chi am academi. A ddylem fod yn edrych ar academi, coleg, neu sefydliad arall a fyddai'n gwneud y gwaith yma? Mae comisiwn Williams yn cyfeirio at hyn ac yn sôn am ganolfan datblygu. Fe fyddwn yn falch iawn o glywed mwy am hyn gan y Gweinidog.

Un o'r pethau yr ydych yn cyfeirio ato fe, ond eto nid ydych yn gwneud unrhyw argymhelliad arno, yw'r taliadau y mae prif weithredwyr gan fwyaf, ond uwch-swyddogion weithiau, yn eu derbyn fel swyddogion etholiadol. A ydych yn derbyn fod Abertawe wedi dangos yn glir iawn yr hyn a ddylai ddigwydd yn y sefyllfa yma, a bod hynny'n rhan annatod o gyfrifoldebau'r prif weithredwr—i'w dirprwyo, os yw'n dymuno, ond rhan annatod o'i swyddogaeth—ac ni ddylai fod yna dâl ychwanegol ar gyfer hynny?

Rwy'n gwrando'n astud ar yr hyn rŷch chi'n ei ddweud am gyfnodau penodol ar gyfer aelodau etholedig i awdurdodau lleol. Fe wnaeth Kirsty Williams, rwy'n meddwl, godi cwestiwn perthnasol iawn yn y fan hyn gyda'r Prif Weinidog: os ydych chi'n mynd i wneud hynny ar un lefel o aelodau etholedig, onid oes rhaid inni edrych ar bob lefel? Sut y gallwn ni gyfiawnhau gwneud hynny ar un lefel heb ei wneud ar lefelau eraill sydd o fewn ein gallu ni i wneud? Nid wy'n anghytuno o reidrydd. Rwy'n meddwl bod y cyfnod o 25 mlynedd yn ddigon rhesymol ac rwy'n barod i wrando ymhellach ar hynny.

Rŷch chi'n sôn hefyd am leihau'r lwfansau hyn i aelodau etholedig sydd gennym ar bob lefel o fewn awdurdodau lleol. A ydych chi'n ystyried bod yna berygl yn y fan honno na fyddwn ni ddim yn gallu denu pobl o bob math o gefndiroedd o wneud hynny, a'i fod yn bwysig bod y taliad yma y mae aelodau etholedig yn ei gael ar y lefel honno yn sicrhau ein bod ni yn cael yr amrywiaeth hynny o bobl yn gallu ymgeisio am y swyddi hynny? Yn sicr, rwy'n derbyn yn glir iawn yr hyn rŷch chi'n ei ddweud ynglŷn â sgrwtini ac atebolrwydd, a'r tryloywder yma, ac mae angen inni weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod hynny'n digwydd. Rwy'n croesawu hyn yn fawr iawn, Weinidog. Os yw e'n dangos un peth, mae'n dangos eich bod chi wedi bod yn gwrando'n astud iawn ar yr hyn rwyf wedi bod yn ei ddweud dros y blynyddoedd diwethaf, oherwydd rŷch chi wedi ymgorffori llawer iawn o fy awgrymiadau i o fewn eich papur chi. [Chwerthin.]

May I in the first place welcome the steps the White Paper takes in addressing senior salaries and senior officers' payments? I've told you before, Minister, that we must look not only to the payments made, but ensure that there is consistency between the highest payments made and the lowest payments made within local authorities. Authorities that are Plaid Cymru-led have taken very great steps to ensure that that consistency is in place, but then they are facing difficulties when they endeavour to recruit staff because other authorities are willing to pay very much more. So, how will you address that problem, Minister? Also, there is a problem where local authorities are, now, going to appoint chief executives, where the salaries of those chief executives will be lower than some of the senior officers already in place. Pembrokeshire council are facing this problem at present. How will you as a Minister suggest that those authorities should address that issue? I very much welcome what you say about the recruitment of chief executives and senior officers. You mentioned an academy. Should we be looking at an academy, a college or another institution that would do this work? The Williams commission alludes to this and talks about a development centre. I would be very pleased to hear more about that subject from the Minister.

One of the other issues you referred to, but do not make a recommendation on, is the payments that the chief executives, mostly, but sometimes senior officers, receive as electoral officers. Do you accept that Swansea has very clearly demonstrated what should happen in this situation, and that that's an integral part of the chief executive's role—which can be delegated, if he or she so wishes, but it's an integral part of his or her function—and there shouldn't be an additional payment for it?

I listened very carefully to what you are saying about specific periods of office for the elected members of local authorities. Kirsty Williams raised, I think, a very relevant and pertinent question to the First Minister here: if you're going to do that with one level of elected members, shouldn't you look at every other level, too? How can we justify doing so on one level without doing it other levels within our ability to do so? Of course, I don't necessarily disagree. I think the period of 25 years is reasonable enough, and I'm willing to listen to what more you might have to say on that.

You also talked about reducing the allowances that elected members receive on every level within local authorities. Do you consider there might be a risk that we won't be able to attract people from all sorts of backgrounds by doing that, and that it's important that this payment that elected members receive on that level ensure that we attract a range of people to apply for those jobs, and stand for election? Certainly, I accept very clearly what you say about scrutiny and accountability, and transparency, and we need to collaborate and co-operate in order to make that happen. I really welcome what you say, Minister. If it shows anything, it demonstrates that you've been listening very intently to what I've been saying over the past few years, because you've incorporated many of my suggestions in your paper. [Laughter.]

Wel, a gaf i ddweud diolch wrtho am ei gefnogaeth?

Well, may I first of all thank the Member for his support?

He's welcomed the statement; he's welcomed the principles underlying the statement, and I'm very grateful to him for that. He referred to this in the context of the Williams commission review. He may recall that, when the Williams commission review came out and I was on the back benches—in what I like to call my 'gap year' from the Government—I did say myself at the time that I felt that one of the things that was lacking from the Williams commission review was a vision for local government. I think what we've tried to do in this White Paper today is to supply some of that vision for the future of local government.

Mae wedi croesawu'r datganiad; mae wedi croesawu'r egwyddorion sy'n sail i'r datganiad, ac rwyf yn ddiolchgar iawn iddo am hynny. Cyfeiriodd at hyn yng nghyd-destun adolygiad comisiwn Williams. Efallai ei fod yn cofio, pan gyhoeddwyd adolygiad comisiwn Williams roeddwn i ar y meinciau cefn—yn ystod yr hyn yr wyf yn hoffi ei alw yn fy 'mlwyddyn i ffwrdd' o'r Llywodraeth—dywedais fy hunan ar y pryd fy mod yn teimlo mai un o'r pethau nad oedd yn adolygiad comisiwn Williams oedd gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol. Rwyf yn credu mai'r hyn yr ydym wedi ceisio ei wneud yn y Papur Gwyn heddiw yw cyflenwi rhywfaint o'r weledigaeth honno ar gyfer dyfodol llywodraeth leol.

I think he makes an important point in respect of senior salaries, and in respect of the relationship between the salaries of the highest paid and the lowest paid within local government. That's something I'd like to explore further and give more thought to. He is right to raise the role played by the independent review board in respect of chief executives' salaries, and I am grateful for the fact that they recommended to Pembrokeshire County Council that they should go for a lower salary for the replacement of their chief executive than they were themselves planning to do. Now, I know that there is a meeting in Pembrokeshire this afternoon that is going to be looking at that, and I look forward to the outcome of that meeting with great interest.

Rwyf yn credu ei fod yn gwneud pwynt pwysig o ran cyflogau uwch swyddogion, ac am y berthynas rhwng y cyflogau uchaf a delir a'r isaf a delir mewn llywodraeth leol. Mae hynny'n rhywbeth yr hoffwn ei archwilio ymhellach a rhoi mwy o ystyriaeth iddo. Mae'n iawn i godi'r swyddogaeth sydd gan y bwrdd adolygu annibynnol o ran cyflogau prif weithredwyr, ac rwyf yn ddiolchgar am y ffaith ei fod wedi argymhell i Gyngor Sir Penfro y dylai gynnig cyflog is ar gyfer ei brif weithredwr newydd nag yr oedd y cyngor ei hun yn bwriadu ei wneud. Nawr, rwyf yn gwybod bod yna gyfarfod yn Sir Benfro y prynhawn yma sydd yn mynd i fod yn edrych ar hynny, ac edrychaf ymlaen at ganlyniad y cyfarfod hwnnw gyda chryn ddiddordeb.

I do think, in terms of recruitment of senior officers, we need to look across the whole of Great Britain to see what kinds of salaries are being paid. I think, in respect of some of the salaries in Wales, they have clearly got vastly out of kilter with the responsibilities bearing on specific local authorities in Wales when you compare them with authorities of a much bigger size elsewhere in Great Britain.

Rwyf yn credu, o ran recriwtio uwch swyddogion, bod angen i ni edrych ar hyd a lled Prydain Fawr i weld pa fath o gyflogau sy'n cael eu talu. Rwy'n credu, o ran rhai o'r cyflogau yng Nghymru, ei bod yn amlwg nad ydynt yn cyd-fynd â'r cyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol penodol yng Nghymru o'u cymharu ag awdurdodau llawer mwy eu maint mewn rhannau eraill o Brydain Fawr.

In respect of our academy, we already have our public service academy, and it is referred to, of course, in the Williams commission report. I have taken over responsibility for that in the last couple of months, and I'm quite excited, in fact, by what they have been able to do in respect of leadership development in public services in Wales. I do think, however—and I've had this conversation with them, and I said something about this in a speech a couple of weeks ago—that we need to look at how they're working alongside higher education institutions in Wales, and some of the courses that they have on offer that could be relevant to leadership development within our public services, including within local authorities.

O ran ein hacademi, mae gennym eisoes ein hacademi gwasanaethau cyhoeddus, a chyfeirir ati, wrth gwrs, yn adroddiad comisiwn Williams. Rwyf wedi cymryd drosodd y cyfrifoldeb am hynny yn y mis neu ddau diwethaf, ac rwyf yn teimlo ei fod yn eithaf cyffrous, mewn gwirionedd, yr hyn y mae wedi gallu ei wneud ynglŷn â datblygu arweinyddiaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rwyf yn credu, fodd bynnag—ac rwyf wedi cael y sgwrs hon â'r academi, ac rwyf wedi dweud rhywbeth am hyn mewn araith wythnos neu ddwy yn ôl—bod angen i ni edrych ar sut y mae'n gweithio ochr yn ochr â sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a gallai rhai o'r cysiau y mae'n eu cynnig fod yn berthnasol i ddatblygu arweinyddiaeth yn ein gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys mewn awdurdodau lleol.

He raised again the point about the role of the chief executive in respect of elections and additional payments and so on. That area is covered within the White Paper, and I urge him to have a look at that section.

Cododd eto y pwynt am swyddogaeth y prif weithredwr o ran etholiadau a thaliadau ychwanegol ac yn y blaen. Mae'r maes hwn wedi ei gynnwys yn y Papur Gwyn, ac rwyf yn ei annog i gael golwg ar yr adran honno.

He raised the question of term limits on councillors, and I'm very pleased to be starting that debate today with the publication of the White Paper. I think the question of whether there should be term limits in other areas would, of course, depend on the responsibilities that we have, in respect of elections to this place. That's an important factor in the future. I know that there are proposals, of course, for reform of one of the institutions in Westminster, which have incorporated in the past proposals for term limits, as well. So, it's not as though this is a debate that is happening in just one sphere, but I think it is important to start that debate. I do think if we're going to create greater diversity in local government, then we do have to open up a proper look at whether being a councillor is a full-time job, whether it is a job for life, or whether it is actually something that people see as giving a service back to their community and is entered into on that basis. I think that's an important part of the cultural change that we are seeking to create with the debate around this White Paper.

He also spoke about the question of allowances. If you look at the allowances paid to backbench councillors in Wales, compared with, say, England or Scotland, they are not overly generous, except that councillors in Wales generally represent fewer electors than councillors in England or Scotland. However, when it comes to salaries of cabinet members and leaders, I think they do look on the generous side, compared with councils of similar sizes elsewhere. I do think, therefore, we need to look at that in more detail with a view to an overall reduction.

Cododd y cwestiwn am gyfyngu ar dymor cynghorwyr, ac rwy'n falch iawn o fod yn cychwyn y ddaidl honno heddiw yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn. Rwy'n meddwl bod y cwestiwn o ba un a ddylid cyfyngu ar dymor mewn meysydd eraill, yn dibynnu, wrth gwrs, ar y cyfrifoldebau sydd gennym, o ran etholiadau i'r lle hwn. Mae hwnnw'n ffactor pwysig ar gyfer y dyfodol. Gwn fod cynigion, wrth gwrs, ar gyfer diwygio un o'r sefydliadau yn San Steffan, sydd hefyd wedi cynnwys cynigion yn y gorffennol ar gyfer cyfyngu ar dymor. Felly, nid yw hon yn ddaid sy'n digwydd mewn un maes yn unig, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig dechrau'r ddaid honno. Rwyf o'r farn, os ydym am greu mwy o amrywiaeth mewn llywodraeth leol, yna mae angen i ni ystyried o ddifrif a yw bod yn gynghorydd yn swydd llawn-amser, pa un a yw'n swydd am oes, neu a yw mewn gwirionedd yn rhywbeth y mae pobl yn ei ystyried fel rhoi gwasanaeth yn ôl i'w cymuned a'u bod yn ymgymryd â'r gwaith ar y sail honno. Rwy'n credu bod hyn yn rhan bwysig o'r newid diwylliannol yr ydym yn ceisio ei greu gyda'r drafodaeth ynghylch y Papur Gwyn hwn.

Soniodd hefyd am y cwestiwn o lwfansau. Os edrychwch chi ar y lwfansau a delir i gynghorwyr meinciau cefn yng Nghymru, o'i gymharu â, dyweder, Lloegr neu'r Alban, nid ydynt yn rhy hael, heblaw am y ffaith fod cynghorwyr yng Nghymru yn gyffredinol yn cynrychioli llai o etholwyr na chynghorwyr yn Lloegr neu'r Alban. Fodd bynnag, pan ddaw i gyflogau aelodau cabinet ac arweinwyr, rwyf yn credu eu bod braidd yn rhy hael, o'i gymharu â chynghorau o feintiau tebyg mewn mannau eraill. Rwyf o'r farn felly, bod angen inni edrych ar hynny yn fanylach gyda'r bwriad o'u gostwng yn gyffredinol.

15:06

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, Aneurin Bevan said that the purpose of achieving power is to give it away, and I see this statement very much within the vein of a further stage of devolution, decentralising power, but requiring, obviously, the clarification of the roles between the Assembly and also of councils themselves. I was very pleased particularly with the statement that activist councils should lead in the development of new forms of community control of services, including mutuals, co-operatives and establishing new community rights. You will be aware of my particular interest in the role of community councils, because I see community councils as perhaps playing an enhanced democratic role. With the transfer of further rights down to community groups, that may be a role they play there, as well.

Whilst the consultation is taking place, though, there is, of course, legislation going through in the forms of the Planning (Wales) Bill and the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, which is dealing with certain aspects of community council powers. There is also consideration, as you know, by the Welsh Government of the issue of assets of community value and transfers, which is also under way. What steps will you be taking during the consultation to ensure, I suppose, one, that decisions aren't being pre-empted, but also that there is consistency across legislation that has already taken place and Welsh Government work that has already taken place within these areas that you describe within your statement?

Weinidog, dywedodd Aneurin Bevan mai diben cyflawni pŵer yw ei roi i ffwrdd, ac rwyf yn cefnogi'r datganiad hwn yn fawr iawn yng nghyd-destun cam arall o ddatganioli, datganioli pŵer, ond gan fynnu, yn amlwg, bod swyddogaethau rhwng y Cynulliad a hefyd y cynghorau eu hunain yn cael eu hegluro. Roeddwn yn falch iawn yn benodol â'r datganiad y dylai cynghorau gweithredol arwain wrth ddatblygu mathau newydd o reoli gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys sefydliadau cydfuddiannol, cydweithredol a sefydlu hawliau cymunedol newydd. Byddwch yn ymwybodol o fy niddordeb arbennig mewn swyddogaeth cynghorau cymuned, gan fy mod i'n gweld cynghorau cymuned efallai yn chwarae mwy o ran ddemocrataidd. Drwy drosglwyddo hawliau ychwanegol i lawr i grwpiau cymunedol, gallai honno fod yn rhan y byddant yn ei chwarae yno hefyd.

Tra bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal, fodd bynnag, mae yna, wrth gwrs, ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ar ffurf Bil Cynllunio (Cymru) a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n ymdrin â rhai agweddau ar bwerau cynghorau cymuned. Mae ystyriaeth hefyd, fel y gwyddoch, gan Llywodraeth Cymru i fater asedau sydd o werth cymunedol a throsglwyddiadau, sydd hefyd ar y gweill. Pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd yn ystod yr ymgynghoriad i sicrhau, am wn i, un, nad yw penderfyniadau'n cael eu gwneud ymlaen llaw, a hefyd bod cysondeb ym mhob deddfwriaeth sydd eisoes wedi digwydd a gwaith Llywodraeth Cymru sydd eisoes wedi ei wneud yn y meysydd hyn yr ydych yn eu disgrifio yn eich datganiad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague, the Member from Pontypridd, started with a quote from Aneurin Bevan, and, of course, one of the other things Aneurin Bevan said was that he stood for the council because he was told that was where the power was. Then he was told, 'Well, no, the power's all gone to the county council' so he stood for that. Then, he found the power had gone away from there as well. So, there are many Aneurin Bevan quotes we can find to talk about the development of power in local government over the last century.

In respect of what he had specifically to say on policy, I am glad he recognises that this is very much about decentralising power within Wales. I particularly welcome the support he's given for what we have had to say about the development of community mutuals and co-operatives. Obviously, we want to build on the work of the Welsh Co-operative and Mutuals Commission, which my colleague, the Minister for Economy, Science and Transport, developed under the chairmanship of Professor Andrew Davies.

He also drew attention to his long-standing support for community councils, and, obviously, my colleague has produced a report on the functioning of town and community councils. Although his constituency and mine are in the same local authority area, he has community councils throughout his constituency; I have none in my constituency. So, one of the issues I think we need to address—and this is why we've said this needs to be addressed within local authorities—is the issue of consistency around the provision of town and community councils within principal local authority areas.

He also drew attention to other legislation that's currently going through the Assembly: the planning Bill and future generations Bill. Obviously, I've had the opportunity of conversations with my colleagues in other parts of Government, and my colleague, the Minister for Natural Resources, in particular, over the role of public service boards, which are delineated within the future generations Bill. I think the principles of the future generations Bill, as I said in my statement, will be central to governing our future objectives for activist local councils in Wales.

Dechreuodd fy nghydweithiwr, yr Aelod o Bontypridd, gyda dyfyniad gan Aneurin Bevan, ac, wrth gwrs, un o'r pethau eraill a ddywedodd Aneurin Bevan oedd ei fod wedi sefyll i fynd ar y cyngor oherwydd y dywedwyd wrtho mai yno oedd y pŵer. Yna dywedwyd wrtho, 'Wel, na, mae'r pŵer i gyd wedi mynd i'r cyngor sir' felly safodd i fynd ar hwnnw. Yna, sylweddolodd bod y pŵer wedi mynd oddi yno hefyd. Felly, mae llawer o ddyfyniadau Aneurin Bevan y gallwn ddod o hyd iddynt i siarad am ddatblygiad pŵer mewn llywodraeth leol dros y ganrif ddiwethaf.

O ran yr hyn a oedd ganddo i'w ddweud yn benodol ar bolisi, rwyf yn falch ei fod yn cydnabod bod hyn yn ymwneud yn fawr iawn â datganoli pŵer yng Nghymru. Croesawaf yn arbennig y gefnogaeth y mae wedi'i rhoi i'r hyn yr ydym wedi ei ddweud am ddatblygiad sefydliadau cydfuddiannol a chydweithredol cymunedol. Yn amlwg, rydym yn dymuno adeiladu ar waith Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru, a ddatblygwyd gan fy nghyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Andrew Davies.

Tynnodd sylw hefyd at ei gefnogaeth hirsefydlog i gynghorau cymuned, ac, yn amlwg, mae fy nghydweithiwr wedi llunio adroddiad ar weithrediad cynghorau tref a chynghorau cymuned. Er bod ei etholaeth ef a fy un innau yn yr un ardal awdurdod lleol, mae ganddo ef gynghorau cymuned ym mhob rhan o'i etholaeth; nid oes gennyf i yr un yn fy etholaeth i. Felly, un o'r materion yr wyf o'r farn bod angen i ni fynd i'r afael ag ef—a dyma pam yr ydym wedi dweud bod angen mynd i'r afael â hyn o fewn awdurdodau lleol—yw mater y cysondeb o ran darparu cynghorau tref a chynghorau cymuned mewn ardaloedd prif awdurdodau lleol.

Tynnodd sylw hefyd at ddeddfwriaeth arall sy'n mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd: y Bil cynllunio a Bil cenedlaethau'r dyfodol. Yn amlwg, rwyf wedi cael y cyfle i sgwrsio gyda fy nghydweithwyr mewn rhannau eraill o'r Llywodraeth, a fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, yn arbennig, am swyddogaeth y byrddau gwasanaethau cyhoeddus, a amlinellir yn y Bil cenedlaethau'r dyfodol. Rwyf o'r farn bod egwyddorion Bil cenedlaethau'r dyfodol, fel y dywedais yn fy natganiad, yn ganolog i lywodraethu ein hamcanion i'r dyfodol ar gyfer cynghorau lleol gweithredol yng Nghymru.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I start by saying I think this paper has a useful contribution to make? I think there are some very interesting proposals in there, which require some more detailed scrutiny in terms of improvement and in terms of scrutiny, finance, performance, governance and community ownership, all of which, I think, do have potential to transform the way that local government approaches its role and empowering local people in that respect. I'm happy to engage with that and to look at that.

A gaf fi ddechrau drwy ddweud fy mod i o'r farn bod gan y papur hwn gyfraniad defnyddiol i'w wneud? Rwyf yn credu bod rhai cynigion diddorol iawn ynddo, sydd angen rhywfaint o graffu manylach o ran gwelliant ac o ran craffu, cyllid, perfformiad, llywodraethu a pherchnogaeth gymunedol, pob un ohonynt, yn fy marn i, â'r potensial i newid y modd y mae llywodraeth leol yn ystyried ei swyddogaeth a grymuso pobl leol yn hynny o beth. Rwy'n hapus i ymgysylltu â hynny ac i edrych ar hynny.

At the risk of destroying the cosy consensus that seems to be building in this Chamber between Labour, the Conservatives and Plaid Cymru, I do feel that some of the proposals in this paper effectively amount to a blueprint for the emasculation of local councils. I'm surprised, in fact, that the Minister has not just proposed abolishing local elections altogether and suggesting that he appoints the councillors himself, because I think that is the level of control freakery that I think is in place in some of these proposals. I think if the Minister is serious about empowering local people and introducing diversity into local government, I'm surprised he's not proposed a system of proportional representation for local government, which I think would go a long way to actually delivering on that particular objective.

I think one of the concerns I have in terms of the term limits is that local government is going through a very difficult period at the moment, not just in terms of the cuts that he's having to make with regard to the resources available to it and the services, but also obviously in terms of reorganisation and the whole range of other proposals that have been put up. I think, in that regard, experienced councillors do provide stability and support for those less experienced councillors in coping with that, and also, I think, in terms of the transition from the 22 councils we have now to the 10 or 12 that Williams has proposed, but the Minister has not yet indicated his preference in respect of that. So, I think the Minister needs to think again in terms of those term limits.

I think my colleague, Kirsty Williams, has of course highlighted the other obvious question: you know, if we are having term limits on councillors, and chief executives as well, then why haven't we got term limits on MPs, AMs, and a whole host of other elected officials as well? Clearly, it does seem to me that singling out one group of people is certainly not an equitable way to go forward. Can I ask the Minister, in respect of your proposal for term limits for chief executives and councillors, do you propose those term limits should be retrospective, or are you proposing that they actually take effect from the first election of that person? I think it's useful to be clear on that.

Will you also stop councillors from becoming peers or MPs as well? You seem to have just singled out AMs. We shouldn't be just stuck on AMs. Are you looking at other groups as well you wish to stop councillors from being? Why do you feel it's necessary to take away from local people the right to elect a representative who they choose to want—and who they choose in terms of any respect—and also in terms of what party they want? You're trying to, I think, undermine as well the role of the independent local government, which I think is an important one in this regard.

Er fy mod mewn perygl o ddiristrio'r consensws agos sy'n datblygu yn y Siambur hon rhwng Llafur, y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru, rwyf o'r farn bod rhai o'r cynigion yn y papur hwn yn gyfystyr â glasbrint ar gyfer dirymu cynghorau lleol. Rwy'n synnu, mewn gwirionedd, nad yw'r Gweinidog wedi cynnig diddymu etholiadau lleol yn gyfan gwbl ac awgrymu ei fod yn penodi'r cynghorwyr ei hun, oherwydd credaf mai dyna lefel y gor-reolaeth sydd ar waith yn rhai o'r cynigion hyn. Fy marn i yw, os yw'r Gweinidog o ddifrif am ymrymuso pobl leol a chyflwyno amrywiaeth i lywodraeth leol, rwy'n synnu nad yw wedi cynnig system o gynrychiolaeth gyfrannol i lywodraeth leol, a fyddai, yn fy marn i, yn gam sylweddol tuag at gyflawni'r amcan penodol hwnnw.

Rwy'n credu mai un o'r pryderon sydd gennyf o ran cyfyngu ar dymor yw bod llywodraeth leol yn mynd trwy gyfnod anodd iawn ar hyn o bryd, nid yn unig o ran y toriadau y mae'n gorfod eu gwneud i'r adnoddau sydd ar gael iddi ac i'r gwasanaethau, ond hefyd yn amlwg o ran ad-drefnu a'r ystod gyfan o gynigion eraill sydd wedi eu cyflwyno. Rwyf yn credu, yn hynny o beth, bod cynghorwyr profiadol yn darparu sefydlogrwydd a chefnogaeth ar gyfer y cynghorwyr llai profiadol wrth ymdopi â hynny, a hefyd, o ran y pontio o'r 22 o gynghorau sydd gennym ar hyn o bryd i'r 10 neu 12 y mae Williams wedi eu cynnig, ond nid yw'r Gweinidog wedi nodi hyd yma ei ddewis ynglŷn â hynny. Felly, rwyf o'r farn bod angen i'r Gweinidog feddwl eto o ran y cyfyngiadau hynny o ran tymor.

Rwy'n credu bod fy nghyd-Aelod, Kirsty Williams, wrth gwrs, wedi tynnu sylw at y cwestiwn amlwg arall: wyddoch chi, os ydym yn mynd i gael cyfyngiadau ar dymor cynghorwyr, a phrif weithredwyr hefyd, yna pam nad oes gennym gyfyngiadau ar dymor ASau, ACau, a llu o swyddogion etholedig eraill hefyd? Yn amlwg, mae'n ymddangos yn bendant i mi nad yw rhoi sylw penodol i un grŵp o bobl yn ffordd deg o symud ymlaen. A gaf fi ofyn i'r Gweinidog, o ran eich cynnig ar gyfer cyfyngu ar dymor prif weithredwyr a chynghorwyr, pa un a ydych yn bwriadu i'r cyfyngiadau tymor hynny fod yn rhai ôl-weithredol, neu a ydych chi'n cynnig eu bod mewn gwirionedd yn dod i rym o'r adeg yr etholir yn unigolyn hwnnw am y tro cyntaf? Rwy'n credu ei bod yn ddefnyddiol i fod yn eglur ynghylch hynny.

A fyddwch yn ogystal yn atal cynghorwyr rhag cael ei hethol i Dŷ'r Arglwyddi neu bod yn ASau hefyd? Mae'n ymddangos eich bod chi wedi canolbwyntio ar ACau yn unig. Ni ddylem fod yn sôn am ACau yn unig. A ydych chi hefyd yn edrych ar grwpiau eraill yr ydych yn dymuno atal cynghorwyr rhag bod yn aelodau ohonynt? Pam ydych chi o'r farn ei bod yn angenrheidiol i ddileu hawl pobl leol i ethol cynrychiolydd o'u dewis—a phwy y maent yn ei ddewis am unrhyw reswm—a hefyd o ran pa blaid y maent ei heisiau? Yn fy marn i, rydych yn ceisio tansellio hefyd swyddogaeth llywodraeth leol annibynnol, yr wyf yn ei hystyried yn bwysig yn hyn o beth.

How will your proposed new duties for leaders fit in with the current code of conduct for councillors? I think that'd be interesting to see, if you could explain that. What mechanism will be available to principal councils to ensure consistency among community councils? You've already referred to wanting to have a consistent approach for the provision of community councils. Are you therefore proposing that areas that aren't currently—I was going to say 'subject'—that don't currently have community councils should have community councils imposed on them? Are you proposing to change the current arrangements whereby local people can have public meetings to either create a community council or to abolish a community council, or is that now going to be a matter in future for the Minister to determine, to try and ensure that consistency?

Finally, what other measures do you propose to reform community councils? I think we all agreed, as a result of the Williams commission, that although Williams approached the reform of principal councils, there was a huge gap in his proposals in terms of how community councils operate and how viable some of those community councils are. Are you proposing to broach that subject as you develop these proposals? Thank you.

15:14

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I, again, start by thanking the Liberal Democrat spokesperson for his initial support for much of the White Paper? He did say that he thought it had the potential to be transformative in terms of the overall culture of local government, and particularly in respect of performance. He then went on to suggest that we were going to emasculate local councils, although he didn't actually spend any time telling us precisely how he thought local councils were going to be reduced in power. I don't think there are any proposals to reduce the powers of local government. I think what we're doing here is recognising the reality that we currently set some national priorities in service areas like education and social services, but what we're actually suggesting, of course, is that there should be fewer centrally imposed targets on local government overall.

He asked about the issue of term limits, and I think I dealt with the key point in response to the earlier question from the Plaid Cymru spokesperson in respect of term limits on this place. He asked about why councillors should be prohibited from being members of this place but not be prohibited from being members of the House of Commons or the House of Lords. I don't think I actually have powers to stop them being members of the House of Commons or the House of Lords. I certainly wouldn't want to inhibit his career progress in any shape or form. You know, I am sorry that the proposals I bring forward may end his time as a councillor in Swansea, or he could just choose to stay in Swansea if he wished. But, on the other hand, the electorate might bring in a term limit for Liberal Democrats at the next election in any case.

Sut y bydd eich dyletswyddau newydd arfaethedig ar gyfer arweinwyr yn cyd-fynd â'r cod ymddygiad presennol i gynghorwyr? Rwy'n credu y byddai'n ddiddorol gweld hynny, pe gallech esbonio hynny. Pa ddulliau fydd ar gael i brif gynghorau sicrhau cysondeb ymhlith cynghorau cymuned? Rydych eisoes wedi cyfeirio at fod eisiau cael dull cyson ar gyfer darparu cynghorau cymuned. A ydych chi, felly, yn cynnig bod ardaloedd nad ydynt ar hyn o bryd—roeddwn yn mynd i ddweud 'yn ddarostyngedig'—nad oes ganddynt gynghorau cymuned ar hyn o bryd yn cael cynghorau cymuned wedi eu gorfodi arnynt? A ydych chi'n bwriadu newid y trefniadau presennol lle gall pobl leol gael cyfarfodydd cyhoeddus naill ai i greu cyngor cymuned neu i ddiddymu cyngor cymuned, neu a yw hynny bellach yn mynd i fod yn fater yn y dyfodol i'r Gweinidog benderfynu arno, er mwyn ceisio sicrhau'r cysondeb hwnnw?

Yn olaf, pa fesurau eraill ydych chi'n eu cynnig i ddiwygio cynghorau cymuned? Rwy'n credu ein bod i gyd wedi cytuno, yn sgil comisiwn Williams, er bod Williams wedi ystyried diwygio prif gynghorau, bod bwlch enfawr yn ei gynigion o ran sut y mae cynghorau cymuned yn gweithredu a pha mor ymarferol yw rhai o'r cynghorau cymuned hynny. A ydych chi'n bwriadu codi'r pwnc hwnnw wrth i chi ddatblygu'r cynigion hyn? Diolch yn fawr.

A gaf fi, unwaith eto, ddechrau drwy ddiolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei gefnogaeth gychwynnol i lawer o'r Papur Gwyn? Roedd yn dweud ei fod o'r farn bod ganddo'r potensial i fod yn weddnewidiol o ran diwylliant cyffredinol llywodraeth leol, ac yn enwedig o ran perfformiad. Yna, aeth yn ei flaen i awgrymu ein bod yn mynd i ddirymu cynghorau lleol, er na threuliodd unrhyw amser mewn gwirionedd yn dweud wrthym yn union sut yr oedd yn meddwl bod cynghorau lleol yn mynd i gael llai o bŵer. Nid wyf yn credu bod unrhyw gynigion i leihau pwerau llywodraeth leol. Rwyf yn meddwl mai'r hyn yr ydym yn ei wneud yma yw cydnabod y gwirionedd ein bod ar hyn o bryd yn gosod rhai blaenoriaethau cenedlaethol mewn meysydd gwasanaeth megis addysg a gwasanaethau cymdeithasol, ond yr hyn yr ydym yn ei awgrymu mewn gwirionedd, wrth gwrs, yw y dylid cael llai o dargedau a osodir yn ganolog ar lywodraeth leol yn gyffredinol.

Gofynnodd am y mater o gyfyngu ar dymor, ac rwyf yn meddwl fy mod wedi ymdrin â'r pwynt allweddol hwnnw mewn ymateb i'r cwestiwn blaenorol gan lefarydd Plaid Cymru ynglŷn â chyfyngu ar dymor yn y lle hwn. Gofynnodd pam y dylai cynghorwyr gael eu gwahardd rhag bod yn aelodau o'r lle hwn ond heb fod wedi eu gwahardd rhag bod yn aelodau o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi. Nid wyf yn credu bod gennyf, mewn gwirionedd, bwerau i'w hatal rhag bod yn aelodau o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi. Yn sicr, ni fyddwn yn dymuno atal datblygiad ei yrfa mewn unrhyw fodd. Mae'n ddrwg gennyf y bydd y cynigion yr wyf yn eu cyflwyno yn dod â'i gyfnod fel cynghorydd yn Abertawe i ben, neu gallai ddewis aros yn Abertawe yn unig pe dymunai. Ond, ar y llaw arall, efallai y bydd yr etholwyr yn cyflwyno cyfyngiad ar dymor ar gyfer Democratiaid Rhyddfrydol yn yr etholiad nesaf beth bynnag.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am interested by the way that the Liberal Democrats appear to be so opposed to term limits when, in fact, for their own internal party elections, they have term limits in place. I understand they have someone who is a president of their party who is subject to term limits. Just a quick Google helped me find that out earlier on today.

Can I just move on to the—? He asked me why we're not bringing forward a proposal for proportional representation. It's very straightforward: we have a manifesto commitment against that, so we're not bringing it forward.

In respect of diversity, I look forward to any suggestions he may wish to bring forward as to how we can improve the diversity of local government. We've set out a number of proposals in the White Paper. I do think that this has to be led, and the political parties have a role in this. My party has already given commitments in respect of the percentages of women standing for local elected office, and we look forward to other parties joining us in that commitment. He asked about how we would reconcile new duties with the councillor code of conduct. Well, clearly, we will have to ensure that any duties that are being developed would be compatible with any new code of conduct. He asked also about the consistency of community councils across principal local authority areas. We make it clear in the White Paper that we see this as a job for the principal local authorities to work through with their local communities. It is not for the Welsh Government or Ministers to determine what that consistency should look like.

Mae'n ddiddorol ei bod yn ymddangos bod y Democratiaid Rhyddfrydol mor wrthwynebus i gyfyngiadau ar dymor pan, mewn gwirionedd, ar gyfer eu hetholiadau plaid mewnol eu hunain, mae cyfyngiadau ar dymor wedi eu sefydlu ganddynt. Rwyf yn deall bod ganddynt rywun sy'n llywydd ar eu plaid sy'n destun cyfyngiadau tymor. Dim ond trwy edrych yn gyflym ar Google yn gynharach heddiw y cefais y wybodaeth honno.

A gaf fi symud ymlaen i'r—? Gofynnodd i mi pam nad ydym yn cyflwyno cynnig ar gyfer cynrychiolaeth gyfrannol. Mae'n syml iawn: mae gennym ymrwymiad manifffesto yn erbyn hynny, felly nid ydym yn ei gyflwyno.

O ran amrywiaeth, edrychaf ymlaen at unrhyw awgrymiadau y mae'n dymuno eu cyflwyno ynghylch sut y gallwn wella amrywiaeth llywodraeth leol. Rydym wedi nodi nifer o gynigion yn y Papur Gwyn. Rwyf yn credu bod yn rhaid i hyn gael ei arwain, ac mae gan y pleidiau gwleidyddol ran yn hyn. Mae fy mhlaid i eisoes wedi rhoi ymrwymadau o ran y canrannau o fenywod sy'n sefyll am swydd etholedig leol, ac rydym yn edrych ymlaen at weld pleidiau eraill yn ymuno â ni yn yr ymrwymiad hwnnw. Gofynnodd sut y byddem yn cysoni dyletswyddau newydd gyda'r cod ymddygiad cynghorwyr. Wel, yn amlwg, bydd yn rhaid inni sicrhau y byddai unrhyw ddyletswyddau sy'n cael eu datblygu yn cyd-fynd ag unrhyw god ymddygiad newydd. Gofynnodd hefyd am gysondeb cynghorau cymuned ar draws ardaloedd prif awdurdodau lleol. Rydym yn ei gwneud yn glir yn y Papur Gwyn ein bod yn ystyried hyn fel gwaith i'r prif awdurdodau lleol weithio arno gyda'u cymunedau lleol. Nid mater i Lywodraeth Cymru na Gweinidogion yw penderfynu beth fyddai'r cysondeb hwnnw.

15:17

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome many of the points in the Minister's statement today and I particularly welcome his commitment to bring about more diversity in local government, because I think that the ambitions in his statement will not be achieved unless we have councillors and officers who really represent the communities where they come from. Certainly in Wales, the number of women councillors, it's well known, is only at about 30%, and I think that, for black minority ethnic councillors, I doubt if it's at more than 1%. So, I think there is obviously a big task ahead, and I know that, in the document, he does say he'll put an equality duty on the leaders of councils to ensure that councillors and seniors officers are diverse. Could he expand on how he thinks it will be possible to do that and how, in fact, we will bring about the change that we've all been talking about for so many years?

Rwyf yn croesawu llawer o'r pwyntiau yn natganiad y Gweinidog heddiw, ac rwyf yn croesawu'n arbennig ei ymrwymiad i sicrhau mwy o amrywiaeth mewn llywodraeth leol, oherwydd rwyf yn credu na fydd yr uchelgeisiau yn ei ddatganiad yn cael eu cyflawni oni bai bod gennym gynghorwyr a swyddogion sydd wir yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn dod ohonynt. Yn sicr yng Nghymru, dim ond tua 30% o nifer y cynghorwyr sy'n fenywod, ac o ran nifer y cynghorwyr o leiafrifoedd ethnig du, rwyf yn amau a yw'n fwy nag 1%. Felly, mae'n amlwg bod tasg fawr o'n blaenau, a gwn ei fod, yn y ddogfen, yn dweud y bydd yn gosod dyletswydd cydraddoldeb ar arweinwyr cynghorau i sicrhau bod cynghorwyr ac uwch swyddogion yn amrywiol. A wnaiff ef ymhelaethu ar sut y mae'n meddwl y bydd yn bosibl gwneud hynny a sut, mewn gwirionedd, y byddwn yn sicrhau'r newid yr ydym i gyd wedi bod yn ei drafod ers cynifer o flynyddoedd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague the Member for Cardiff North is absolutely right to draw attention to the very low level of female councillors that we have in Wales—it is, as she says, only at around 30%—and, indeed, also the low number that we have of black minority ethnic councillors. We could say the same of disabled councillors as well. So, these are issues that we are seeking to tackle. She will be aware, I think, of the report that we commissioned of a group chaired by Professor Laura McAllister—the diversity in democracy report, which came forward with a number of recommendations that we are now implementing. I'm pleased that all local authorities have appointed diversity champions, and I think that is important. But, those diversity champions need to be supported by their leaders and by their chief executives within local authorities as well, and that's where, I think, the duty comes in. I think what we need to do is to explore what is available to us within the context of the public sector equality duty to make that a meaningful responsibility on local authority leaders.

Then, of course, having duties is one thing—it is also important that those duties are re-enforced, that behaviours in councils are welcoming to people coming into a council environment and are not off-putting, that meetings are held at times that are appropriate to people of different backgrounds, not just, say, to people who are retired and therefore have more flexibility in their ability to attend meetings. And, I do think that there is an issue sometimes about behaviour in local authority chambers. That has been raised with us, and we touch on that also within the section on diversity. This is something I am determined to drive forward myself. We held a very useful discussion with a group of younger councillors, former councillors, including several from different ethnic minority backgrounds, recently, as an ideas forum, really, to look at some of the issues that we needed to take forward. I think that this is something that is genuinely of interest across the political parties, and I look forward to support from across the Chamber on that agenda.

Mae fy nghydweithiwr yr Aelod dros Ogledd Caerdydd yn gwbl gywir i dynnu sylw at lefel isel iawn y cynghorwyr benywaidd sydd gennym yng Nghymru—dim ond, fel y mae'n dweud, tua 30% ydyw—ac, yn wir, hefyd nifer isel y cynghorwyr duon ac o leiafrifoedd ethnig sydd gennym. Gallem ddweud yr un peth am gynghorwyr anabl yn ogystal. Felly, mae'r rhain yn faterion yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Bydd yn ymwybodol o'r adroddiad a gomisiynwyd gennym gan grŵp dan gadeiryddiaeth yr Athro Laura McAllister—yr adroddiad amrywiaeth mewn democratiaeth, a gyflwynodd nifer o argymhellion yr ydym bellach yn eu gweithredu. Rwy'n falch bod pob awdurdod lleol wedi penodi hyrwyddwyr amrywiaeth, a chredaf fod hynny'n bwysig. Ond, mae angen i'r hyrwyddwyr amrywiaeth hynny gael eu cefnogi gan eu harweinwyr a chan eu prif weithredwyr mewn awdurdodau lleol hefyd, a dyna lle, yn fy marn i, y mae'r ddyletswydd yn berthnasol. Rwy'n credu mai'r hyn y mae angen inni ei wneud yw archwilio beth sydd ar gael i ni o fewn cydestun y ddyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus i wneud hwnnw'n gyfrifoldeb ystyrlon ar arweinwyr awdurdodau lleol.

Wrth gwrs, un peth yw cael dyletswyddau—mae hefyd yn bwysig bod y dyletswyddau hynny'n cael eu hatgyferthu, bod ymddygiad mewn cynghorau yn groesawu i bobl sy'n dod i amgylchedd y cyngor ac nad ydynt yn cael profiad annymunol, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar adegau sy'n briodol i bobl o wahanol gefndiroedd, nid dim ond, dyweder, pobl sydd wedi ymddeol ac sydd felly yn fwy hyblyg o ran eu gallu i fynychu cyfarfodydd. Ac, rwyf yn credu bod problem weithiau o ran ymddygiad mewn siambrau awdurdod lleol. Mae hynny wedi ei godi gyda ni, ac rydym yn cyffwrdd â hynny hefyd yn yr adran ar amrywiaeth. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn benderfynol o fwrw ymlaen ag ef fy hun. Cynhaliwyd trafodaeth ddefnyddiol iawn gyda grŵp o gynghorwyr iau, cyn-gynghorwyr, gan gynnwys pobl o nifer o wahanol gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn ddiweddar, fel fforwm syniadau, mewn gwirionedd, i ystyried rhai o'r materion yr oedd angen i ni fwrw ymlaen â nhw. Credaf fod hyn yn rhywbeth sydd o wir ddiddordeb i bob un o'r pleidiau gwleidyddol, ac edrychaf ymlaen at gael cefnogaeth o bob rhan o'r Siambur ar yr agenda honno.

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am a strong supporter of local government. The vast majority of councillors of all parties, and none, work incredibly hard for their own communities. Also, the vast majority of council employees are committed to providing a high-quality service to the public. We all benefit from the quality of service that is being provided. Can I welcome the proposal to bring in general power of competence? Local authorities have been asking for this for decades. It is something that is desperately needed, and I think that it will be welcomed right away across local authorities.

Rwyf yn gefnogwr brwd o lywodraeth leol. Mae'r mwyafrif helaeth o gynghorwyr o bob plaid, a dim plaid, yn gweithio'n hynod o galed dros eu cymunedau eu hunain. Hefyd, mae'r mwyafrif llethol o weithwyr cynghorau yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r cyhoedd. Rydym ni i gyd yn elwa ar ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. A gaf fi groesawu'r cynnig i gyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol? Mae awdurdodau lleol wedi bod yn gofyn am hyn ers degawdau. Mae'n rhywbeth y mae dirfawr angen amdano, a chredaf y bydd yn cael ei groesawu ar unwaith ym mhob un o'r awdurdodau lleol.

On independence, yes, they should be required to declare a party affiliation if they've got one. One of the things that always amazes me is how you can have an independent group and how you can then have an independent group in coalition with other political parties. I think that the word 'independent'—. We did have one in Swansea who was an independent independent, who actually refused to belong to any one of the groups, and he actually called himself an independent independent. The idea of having an independent group—. It is well known that a number of people who are in independent groups are members—and active members—of political parties. In fact, back in the 1960s, the Neath parliamentary candidate for the Conservative Party was also the ratepayer candidate in a council election, pretending to be in independent. Obviously, he was not that independent if he was a parliamentary candidate for a political party.

I have two questions. Does the proposal tighten control of the remuneration of chief executives and other chief officers—something that I very strongly support? Does that mean that we will be returning to something like the joint negotiating committee-style of chief officer bandings for our salaries? Unless that happens, the moving of salaries up, which has taken place over the years—. I agree entirely with Rhodri Glyn Thomas: a job is a job; you can't get an extra £30,000 for doing another part of it. Like him, I commend Swansea for their action.

I also welcome the proposal of not having people serving in the Assembly and in local authorities. I would ask that you look at having people allowed to serve their time out on a local authority, so that they won't be resigning from the authority. At least three of us in this Chamber did that—we saw our time out. We saved the local authority substantial sums in terms of having a by-election, and I think it is sensible. But, I don't think that anybody should ever stand again, and I think that that is the direction we ought to be moving in.

15:23

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague, the Member for Swansea East, obviously has considerable experience of local government and has given us the benefit of that this afternoon, and, I think, has brought forward a number of very valuable suggestions. Can I start by endorsing what he has said? People who go into local government, from whatever political party, I think, go into it to make a difference, to do the best they can for their local communities. We should honour that commitment, support that commitment and, indeed, make it easier for more people to take up those kinds of roles. I think it's also worth saying at this point that I don't think anyone went into local government wanting to cut and shut, and I do accept that this is a very difficult time for people in local government, just as it is a difficult time for people in all parts of the public services, given the austerity policies to which we are subject from the Conservative-led coalition at Westminster.

Ynglŷn ag annibyniaeth, ie, dylai fod yn ofynnol iddynt ddatgan ymlyniad i blaid os mai dyna'r sefyllfa. Un o'r pethau sy'n fy rhyfeddu bob amser yw sut y gallwch gael grŵp annibynnol a sut y gallwch yna gael grŵp annibynnol mewn clymblaid â phleidiau gwleidyddol eraill. Credaf fod y gair 'annibynnol'—. Roedd gennym un yn Abertawe a oedd yn annibynnol annibynnol, a oedd yn gwrthod bod yn perthyn i unrhyw un o'r grwpiau, ac roedd wir yn galw ei hun yn annibynnol annibynnol. Mae'r syniad o gael grŵp annibynnol—. Mae'n hysbys bod nifer o bobl sydd mewn grwpiau annibynnol yn aelodau—yn aelodau gweithredol—o bleidiau gwleidyddol. Yn wir, yn ôl yn y 1960au, roedd ymgeisydd seneddol Castell-nedd y Blaid Geidwadol hefyd yn ymgeisydd trethdalwyr mewn etholiad cyngor, gan esgus bod yn annibynnol. Yn amlwg, nid oedd mor annibynnol â hynny os oedd yn ymgeisydd seneddol ar gyfer plaid wleidyddol.

Mae gennyf ddau gwestiwn. A yw'r cynnig yn tynhau rheolaeth dros dâl prif weithredwyr a phrif swyddogion eraill—rhywbeth yr wyf yn ei gefnogi'n gryf iawn? A yw hynny'n golygu y byddwn yn dychwelyd at rywbeth tebyg i'r trafod ar y cyd ar ffurf pwyllgor ar gyfer penderfynu ar fanciau cyflog prif swyddogion? Oni bai bod hynny'n digwydd, mae'r codiad mewn cyflogau, sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd—. Rwy'n cytuno'n llwyr â Rhodri Glyn Thomas: swydd yw swydd; chewch chi ddim £30,000 ychwanegol am wneud rhan arall ohoni. Fel yntau, rwyf yn cymeradwyo Abertawe am y camau a gymerwyd.

Rwyf hefyd yn croesawu'r cynnig o beidio â chael pobl yn gwasanaethu yn y Cynulliad ac mewn awdurdodau lleol. Byddwn yn gofyn i chi ystyried caniatáu i bobl gwblhau gweddill eu tymor ar awdurdod lleol, fel na fyddant yn ymddiswyddo o'r awdurdod. Mae o leiaf tri ohonom yn y Siambr hon wedi gwneud hynny—cwlblhau gweddill ein tymor. Gwnaethom arbed symiau sylweddol i'r awdurdod lleol o ran gorfod cael isetholiad, ac rwyf yn credu bod hynny'n gwneud synnwyr. Ond, nid wyf yn credu y dylai unrhyw un sefyll byth eto, ac rwyf o'r farn mai dyna'r cyfeiriad y dylem fod yn symud iddo.

Mae'n amlwg bod gan fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, brofiad helaeth o lywodraeth leol ac mae hynny wedi bod o fantais i ni y prynhawn yma, ac rwyf yn credu ei fod wedi cyflwyno nifer o awgrymiadau gwerthfawr iawn. A gaf fi ddechrau drwy ategu yr hyn y mae wedi'i ddweud? Mae pobl sy'n mynd i mewn i lywodraeth leol, o ba bynnag blaid wleidyddol, yn fy marn i, yn gwneud hynny er mwyn gwneud gwahaniaeth, i wneud eu gorau dros eu cymunedau lleol. Dylem gadw at yr ymrwymiad hwnnw, cefnogi'r ymrwymiad hwnnw ac, yn wir, ei gwneud yn haws i fwy o bobl wneud y mathau hynny o swyddi. Rwy'n credu ei bod hefyd yn werth dweud ar y pwynt hwn nad wyf o'r farn bod unrhyw un wedi mynd i mewn i lywodraeth leol i dwyllo, ac rwyf yn derbyn bod hwn yn gyfnod anodd iawn i bobl mewn llywodraeth leol, yn union fel y mae'n gyfnod anodd i bobl ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus, o ystyried y polisiau cyni cyllidol yr ydym yn ddarostyngedig iddynt gan y glymblaid a arweinir gan y Ceidwadwyr yn San Steffan.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

He is absolutely right also to endorse the hard work of council officers across Wales. That is something that is being recognised, I think, by the trades unions in our proposals to establish a statutory public sector staff commission. I would like to thank him for his welcome for the general power of competence. I think that that will be a significant boost to local government as it moves forward. I very much welcome what he had to say about our proposals in respect of independent councillors. I am certainly open to exploring with him further the question of what is the most practical way to ensure tight controls on the remuneration of chief executives' salaries—whether that is necessarily a return to a previous structure through the JNC, well, that's one proposal, but I'm sure there will be others and, as I say, I'd like to explore those discussions with him in due course.

Can I say to him finally, in respect of the prevention of future double jobbing between Members of the Assembly and members of local government, certainly, it would be our intention, if someone who was a sitting councillor was elected to this place, that they could of course serve out that term. The question would be that they shouldn't then subsequently stand for re-election.

Mae yn llygad ei le hefyd i gymeradwyo gwaith caled swyddogion cynghorau ledled Cymru. Mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei gydnabod, yn fy marn i, gan yr undebau llafur yn ein cynigion i sefydlu comisiwn staff sector cyhoeddus statudol. Hoffwn ddiolch iddo am ei groeso i'r pŵer cymhwysedd cyffredinol. Rwy'n credu y bydd hynny'n hwb sylweddol i lywodraeth leol wrth symud ymlaen. Croesawaf yn fawr yr hyn yr oedd ganddo i'w ddweud am ein cynigion ynglŷn â chynghorwyr annibynnol. Rwyf yn sicr yn fodlon archwilio gydag ef ymhellach y cwestiwn o beth yw'r ffordd fwyaf ymarferol i sicrhau bod rheolaeth dynn ar gydnabyddiaeth ariannol prif weithredwyr—boed hynny o reidrwydd yn dychwelyd i strwythur blaenorol drwy'r Cyd-bwyllgor Trafod Telerau wel, dyna un cynnig, ond rwy'n siŵr y bydd rhai eraill ac, fel y dywedais, hoffwn archwilio'r trafodaethau hynny gydag ef maes o law.

A gaf fi ddweud wrtho yn olaf, ynglŷn ag atal pobl rhag cael dwy swydd yn y dyfodol, o ran bod yn Aelodau Cynulliad ac yn aelodau llywodraeth leol, ein bwriad, yn sicr, pe byddai rhywun a oedd yn gynghorydd presennol yn cael ei ethol i'r lle hwn, y caent wrth gwrs gwblhau gweddill y tymor hwnnw. Y cwestiwn fyddai na ddylent sefyll ar ôl hynny i gael eu hail-ethol.

15:25

4. Datganiad: Ardrethi Busnes

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move on to the next item, which is a statement by the Minister for Economy, Science and Transport on business rates. I call on the Minister, Edwina Hart.

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you, Presiding Officer. I'm very pleased to update Members today on the latest developments in regard of business rates. We're approaching a significant moment with the full devolution of business rates in April 2015. This is an important opportunity to consider the right regime for Wales. That is why I set up the business rates panel in October last year with a very clear remit to examine the recommendations I have received over the last few years and make proposals for a strategic approach following devolution.

4. Statement: Business Rates

Rydym bellach yn symud ymlaen at yr eitem nesaf, sef datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar ardrethi busnes. Galwaf ar y Gweinidog, Edwina Hart.

Diolch, Lywydd. Rwy'n falch iawn o ddiweddarau'r Aelodau heddiw am y datblygiadau diweddaraf o ran ardrethi busnes. Rydym yn agosáu at foment arwyddocaol pan gaiff ardrethi busnes eu datganoli'n llawn ym mis Ebrill 2015. Mae hwn yn gyfle pwysig i ystyried y drefn iawn i Gymru. Dyna pam y sefydlais i'r panel ardrethi busnes ym mis Hydref y llynedd gyda chylch gorchwyl clir iawn i edrych ar yr argymhellion yr wyf wedi'u derbyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a gwneud cynigion ar gyfer ymagwedd strategol yn dilyn datganoli.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The panel, chaired by Chris Sutton, includes a range of expertise across its membership. I would like to place on record my thanks to Chris and the panel members for their efforts over recent weeks in preparing this body of work. The panel has made a number of important observations and recommendations. They have placed an overriding emphasis on stability in the short term in the business rates regime. Their view is that a smooth transition and transfer of business rates to Wales is fundamental to ensure that confidence is maintained in Wales as a place to do business. In their view, the radical reform in the short term should be avoided, and variations to better reflect the needs of Wales should be introduced in the medium term. This point is amplified by the panel because of the close business links with England. We've often raised issues related to the interconnected economy and the porous border in this Chamber. We must remain mindful of this in any variation of the business rates regime. On that advice, I'm pleased to announce that we will extend the small business rates relief scheme again for the next financial year, 2015-16, and match the proposal for England. This scheme benefits over three quarters of businesses in Wales, reducing their business rates or taking them out of them altogether.

I will not be introducing any variation for the next financial year. This is in response to calls for stability from the panel, but also due to technical reasons that impede variation by April 2015. The fine details of arrangements for full devolution of business rates from April remain to be finalised and will not be formalised with the UK Government until the March budget. Also, small business rates relief entitlement is automatic, and there would be insufficient time for amendments to be made to the billing systems to reflect any changes.

Going forward, however, I'm committed to looking at how the small business rate relief scheme can best meet the needs of the Welsh economy, while also taking into account the impact of tax reliefs on funding available for public services. Although the report challenges the impact of small business rate relief, I think all parties in the Chamber would like to see some variation to better reflect the Welsh business base. The panel have costed a number of enhancements to this relief—some of these changes will be extremely expensive, and we need to balance the costs of any increase against the impact of reduced funding for critical public services. The least expensive option identified in the report would require an additional £14 million. To match the Scottish scheme would require an additional £34 million, rising to an extra £47 million if that were a tapered scheme. There are, of course, other options and proposals, and I'm more than open to hearing those.

Mae gan aelodau'r panel, dan gadeiryddiaeth Chris Sutton, ystod eang o arbenigedd. Hoffwn gofnodi fy niolch i Chris ac aelodau'r panel am eu hymdrechion dros yr wythnosau diwethaf i baratoi'r corff hwn o waith. Mae'r panel wedi gwneud nifer o sylwadau ac argymhellion pwysig. Maent wedi rhoi'r pwyslais pennaf ar sefydlogrwydd y drefn ardrethi busnes yn y tymor byr. Eu barn nhw yw bod pontio a throsglwyddo ardrethi busnes i Gymru mewn modd didrafferth yn hanfodol i sicrhau y cedwir hyder yng Nghymru fel lle i wneud busnes. Yn eu barn hwy, dylid osgoi diwygio sylfaenol yn y tymor byr, a dylid cyflwyno amrywiadau i adlewyrchu anghenion Cymru'n well yn y tymor canolog. Mae'r panel yn pwysleisio'r pwynt hwn oherwydd y cysylltiadau busnes agos â Lloegr. Rydym yn aml wedi codi materion yn ymwneud â'r economi ryng-gysylltiedig a'r ffin fân-dyllog yn y Siambr hon. Mae'n rhaid inni gadw hyn mewn cof mewn unrhyw amrywiad o'r gyfundrefn ardrethi busnes. O ran y cyngor hwnnw, rwy'n falch o gyhoeddi y byddwn yn ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach unwaith eto ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, 2015-16, ac yn cyd-fynd â'r cynnig ar gyfer Lloegr. Bydd dros dri chwarter busnesau Cymru'n elwa ar y cynllun hwn, drwy iddo leihau eu hardrethi busnes neu olygu nad oes rhaid iddynt eu talu o gwbl.

Ni fyddaf yn cyflwyno unrhyw amrywiad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn mewn ymateb i alwadau am sefydlogrwydd gan y panel, ond hefyd oherwydd rhesymau technegol sy'n rhwystro amrywiad erbyn Ebrill 2015. Nid yw manylion trefniadau ar gyfer datganoli ardrethi busnes yn llawn o fis Ebrill ymlaen wedi'u cwblhau hyd yn hyn, ac ni chânt eu ffurfioli gyda Llywodraeth y DU tan gyllideb mis Mawrth. Hefyd, mae hawl i ryddhad ardrethi i fusnesau bach yn awtomatig, ac ni fyddai digon o amser i wneud diwygiadau i'r systemau bilio i adlewyrchu unrhyw newidiadau.

Wrth symud ymlaen, fodd bynnag, rwy'n ymrwymedig i edrych ar sut y gall y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach ddiwallu anghenion economi Cymru orau, gan ystyried hefyd effaith rhyddhad treth ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Er bod yr adroddiad yn herio effaith rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, rwyf yn meddwl y byddai pob plaid yn y Siambr yn hoffi gweld rhywfaint o amrywiaeth i roi gwell adlewyrchiad o'r sylfaen busnes yng Nghymru. Mae'r panel wedi prisio nifer o welliannau i'r rhyddhad hwn—bydd rhai o'r newidiadau hyn yn gostus dros ben, ac mae angen inni daro cydbwysedd rhwng costau unrhyw gynnydd ac effaith y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Byddai'r dewis lleiaf drud a nodwyd yn yr adroddiad yn gofyn am £14 miliwn ychwanegol. Byddai angen £34 miliwn ychwanegol i gyd-fynd â chynllun yr Alban, gan godi i £47 miliwn ychwanegol pe byddai hwnnw'n gynllun lleihau'n raddol. Mae, wrth gwrs, dewisiadau a chynigion eraill ar gael, ac rwy'n fwy na pharod i glywed amdanynt.

The panel has made a number of recommendations on the issue of whether business rates are a lever for economic growth. They've made some important medium-term recommendations, such as having more frequent revaluations, changing the index to the consumer price index, and recommending local retention. I'm broadly supportive of the panel's aims to use business rates to support economic growth and would welcome Members' views on this. I'll also be taking a discussion on this to my ministerial colleagues and the UK Government.

The panel are clear that future changes to reliefs and exemptions should be fully considered and evidenced as we go forward, and that these should be in line with economic policy. This could lead to a divergence from the regime operating elsewhere in the UK when there is clear evidence to do so, and I welcome the Members' views on this. The report also makes a number of observations about the administration of business rates, and I will be discussing these with the Minister for Public Services. In addition, there are important reviews being undertaken by the UK Government into the administration structure of business rates. Our expertise and experience in Wales should be taken account of, and the body of evidence that we have produced over the last three years considered as part of that process. I wrote to the Chancellor at the end of last year to make that offer; I have yet to receive a response.

We've taken many steps to support business over the last three years, through business rates relief and schemes. We've launched a number of schemes to encourage construction, support the occupation of empty properties, provide relief to retail, food and drink sectors, and support businesses in our enterprise zones. For example, today, I have announced an enhancement to the boundary of the Haven Waterway Enterprise Zone. As a consequence of this, more businesses will be able to apply for, and benefit from, business rate relief. This is just one of the measures to help mitigate the effects of the closure of the Murco refinery on the local economy.

I appreciate everyone will need time to consider this report, and I'm keen that Members also have the opportunity to share their views on its findings. The report will be available online this afternoon, and I will be attending a scrutiny session on business rates at the Enterprise and Business Committee on 11 March. I look forward to a more comprehensive discussion then, and to Members providing me with their views in more detail, and I will make a further statement following that to Plenary.

15:31

William Graham [Bywgraffiad Biography](#)

I'm most grateful to the Minister for her statement today, and particularly for making available to party spokesmen the short interview we had with Chris Sutton, who has been instrumental in forming many of the views the Minister introduced today.

Mae'r panel wedi gwneud nifer o argymhellion ynghylch y cwestiwn o ba un a yw ardrethi busnes yn ysgogi twf economaidd. Mae wedi gwneud rhai argymhellion tymor canolig pwysig, fel cael ailbrisiadau'n amlach, gan newid y mynegai i'r mynegai prisiau defnyddwyr, ac argymhell cadw lleol. Rwy'n gyffredinol gefnogol i amcanion y panel i ddefnyddio ardrethi busnes i gefnogi twf economaidd a byddwn yn croesawu barn yr Aelodau am hyn. Byddaf hefyd yn cynnal trafodaeth ar hyn â fy nghyd-Weinidogion a Llywodraeth y DU.

Mae'r panel yn glir y dylai newidiadau yn y dyfodol i ostyngiadau ac eithriadau gael eu hystyried yn llawn gyda thystiolaeth wrth inni symud ymlaen, ac y dylai'r rhain fod yn unol â pholisi economaidd. Gallai hyn arwain at wahanu oddi wrth y gyfundrefn sydd ar waith mewn mannau eraill yn y DU pan fydd tystiolaeth glir o blaid gwneud hynny, ac rwyf yn croesawu barn yr Aelodau am hyn. Mae'r adroddiad hefyd yn gwneud nifer o sylwadau ynglŷn â gweinyddu ardrethi busnes, a byddaf yn trafod y rhain gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Hefyd, mae Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiadau pwysig o strwythur gweinyddu ardrethi busnes. Dylid ystyried ein harbenigedd a'n profiad yng Nghymru, yn ogystal â'r corff o dystiolaeth yr ydym wedi'i gynhyrchu yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn rhan o'r broses honno. Ysgrifennais at y Canghellor ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf i wneud y cynnig hwnnw; nid wyf wedi cael ymateb hyd yma.

Rydym wedi cymryd llawer o gamau i gefnogi busnesau yn ystod y tair blynedd diwethaf, drwy gyfrwng cynlluniau a rhyddhad ardrethi busnes. Rydym wedi lansio nifer o gynlluniau i annog adeiladu, cefnogi meddiannu eiddo gwag, darparu rhyddhad i'r sectorau manwerthu, bywyd a diod, a chefnogi busnesau yn ein hardaloedd menter. Er enghraifft, heddiw, rwyf wedi cyhoeddi gwelliant i ffin Ardal Fenter Dyfrffordd Aberdaugleddau. O ganlyniad i hyn, bydd mwy o fusnesau'n gallu gwneud cais am ryddhad ardrethi busnes ac elwa ar hynny. Dim ond un yw hwn o'r mesurau i helpu i liniaru effeithiau cau purfa Murco ar yr economi leol.

Rwyf yn sylweddoli y bydd angen amser ar bawb i ystyried yr adroddiad hwn, ac rwy'n awyddus i'r Aelodau hefyd gael cyfle i rannu eu barn am ei ganfyddiadau. Bydd yr adroddiad ar gael ar-lein y prynhawn yma, a byddaf yn bresennol mewn sesiwn graffu ar ardrethi busnes yn y Pwyllgor Menter a Busnes ar 11 Mawrth. Edrychaf ymlaen at drafodaeth fwy cynhwysfawr bryd hynny, ac at yr Aelodau yn rhoi barn fwy manwl i mi, a byddaf yn gwneud datganiad pellach ar ôl hynny i'r Cyfarfod Llawn.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw, ac yn arbennig am ofalu bod y cyfweiliad byr a gawsom gyda Chris Sutton, sydd wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ffurfio llawer o'r safbwyntiau a gyflwynodd y Gweinidog heddiw, ar gael i lefarwyr y pleidiau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

One would say this particular form of taxation is proved and tested since 1598, so it's not exactly something that we will alter quickly. However, I would have preferred to have seen a more radical solution—I think, probably, the Minister also—but we have to be bounded by the amount of devolution powers that actually come to us. Business tax is fundamental to economic growth, and devolving this would be seen as the lever for such economic growth, not just as a stable source of revenue.

Businesses supported devolution, as it stimulates growth, jobs and investment, but expects evidence that the Welsh Government is focused upon these aims. It is vital for Wales, given the strong interconnection between the Welsh and English economies. But, currently, just over 100,000 properties in Wales are liable for business rates, and produce nearly £1 billion per annum. And it is a stable form of taxation. I would ask the Minister for some clarification about whether there are any EU state aid issues, resulting from the charging of different taxes in various parts of the country. Transition, of course, must be smooth and promote stability, both transparent and predictable.

We aim for a stability of investment, but we don't want investments to be penalised. I've asked the Minister again, and it would be interesting here to note she touches slightly on administration. Now, that really is a vital part of this scheme. Appeals—though they're not technically known as appeals—must be shown to be fair. At the moment, from the figures presently available, there are 5,120 appeals in Wales outstanding from the 2010 actual revaluation, and there are 130 outstanding from the 2005 revaluation.

The frequency of the valuation is really the key to this entire policy. In England, it is now for seven years, and, therefore, as we know well, the rents that were pertinent in 2010 are not the rents that are pertinent now. So, we would look to the Minister to reduce that term, and not simply be influenced by what is happening in England. It is Wales's interest that should be paramount. The stability of the taxation is important, the frequency of the valuation is vitally important. I would seek the Minister's views on that.

Gallai rhywun ddweud bod y math arbennig hwn o drethiant wedi'i brofi ers 1598, felly nid yw mewn gwirionedd yn rhywbeth y byddwn yn ei newid yn gyflym. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn well gennyf weld datrysiaid mwy radical—rwyf yn credu, yn ôl pob tebyg, byddai'r Gweinidog hefyd—ond mae'n rhaid inni fod o fewn terfynau'r pwerau datganoli a ddaw inni mewn gwirionedd. Mae treth fusnes yn sylfaenol i dwf economaidd, a chât datganoli hyn ei ystyried yn ysgogiad ar gyfer twf economaidd o'r fath, nid dim ond fel ffynhonnell sefydlog o refeniw.

Roedd busnesau o blaid datganoli, gan ei fod yn ysgogi twf, swyddi a buddsoddiad, ond maent yn disgwyl tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar y nodau hyn. Mae'n hanfodol i Gymru, ac ystyried y rhyng-gysylltiad cryf rhwng economïau Cymru a Lloegr. Ond, ar hyn o bryd, mae ychydig dros 100,000 o eiddo yng Nghymru yn atebol i dalu ardrethi busnes, ac yn cynhyrchu bron i £1 biliwn y flwyddyn. Ac mae'n ffurf sefydlog o drethiant. Rwyf am ofyn i'r Gweinidog am rywfaint o eglurhad ynghylch a oes unrhyw faterion yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol yr UE, o ganlyniad i godi gwahanol drethi mewn gwahanol rannau o'r wlad. Mae'n rhaid i'r pontio, wrth gwrs, fod yn ddidrafferth ac yn hybu sefydlogrwydd, mewn modd tryloyw a rhagweladwy.

Ein nod yw buddsoddiad sefydlog, ond nid ydym yn dymuno i fuddsoddiadau gael eu cosbi. Rwyf wedi gofyn i'r Gweinidog unwaith eto, a byddai'n ddiddorol yma nodi ei bod yn sôn ychydig am weinyddu. Nawr, mae hynny'n rhan wirioneddol hanfodol o'r cynllun hwn. Mae'n rhaid dangos bod apelïadau—er nad ydynt yn dechnegol yn cael eu galw'n apelïadau—yn deg. Ar hyn o bryd, o'r ffigurau sydd ar gael ar yr adeg hon, mae 5,120 o apelïadau yng Nghymru heb dderbyn sylw ers ailbrisiad gwirioneddol 2010, ac mae 130 heb dderbyn sylw ers ailbrisiad 2005.

Amllder y prisiad sy'n allweddol i'r holl bolisi hwn mewn gwirionedd. Yn Lloegr, mae bellach am saith mlynedd, ac, felly, fel y gwyddom yn iawn, nid y rhenti a oedd yn berthnasol yn 2010 yw'r rhenti sy'n berthnasol erbyn hyn. Felly, byddem yn gobethio y byddai'r Gweinidog yn lleihau'r tymor hwnnw, ac nid dim ond yn dilyn dylanwad yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Budd Cymru a ddylai fod yn brif ystyriaeth. Mae sefydlogrwydd y trethi'n bwysig, mae amllder y prisiad yn hanfodol bwysig. Hoffwn glywed barn y Gweinidog am hynny.

15:34

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank William Graham for his contribution today, because he is quite right: it's a proven, tested form of taxation? And even though I, like him, would like to look for some more radical, Wales-specific solutions, I find myself in a difficult position—we haven't finally agreed the arrangements in terms of devolution, we've got to look very carefully at the financial settlement, and, of course, I am very wary of the review that's going on across my border, and the impact on the porous border. But, that doesn't mean, after I've made this statement today, and given evidence to the committee, that we can't collectively think of the ways we need to go forward after this, ready, I think, for 2016.

A gaf fi ddiolch i William Graham am ei gyfraniad heddiw, oherwydd mae'n hollol iawn: mae'n fath o drethiant sydd wedi'i brofi? Ac er yr hoffwn i, fel yntau, chwilio am atebion mwy radical, sy'n benodol i Gymru, rwyf yn canfod fy hun mewn sefyllfa anodd—nid ydym wedi cytuno'n derfynol ar y trefniadau datganoli, mae'n rhaid inni edrych yn ofalus iawn ar y setliad ariannol, ac, wrth gwrs, rwyf yn wiliadwrs iawn o'r adolygiad sy'n mynd ymlaen ar draws fy ffin, a'r effaith ar y ffin fân-dyllog. Ond, nid yw hynny'n golygu, ar ôl imi wneud y datganiad hwn heddiw, a rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor, na allwn feddwl gyda'n gilydd am y ffyrdd y mae angen inni fwrw ymlaen ar ôl hyn, yn barod, rwyf yn meddwl, ar gyfer 2016.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Can I say that business rates are there as a lever for economic growth, and I think that it's very important that they are utilised properly? I will certainly ask my officials to look at—I'm not aware of any state aid issues—what will happen if there's greater diversification between England and Wales. And I also think it's very important that I do look at some of the administrative issues that you've raised. I've indicated that I'll be discussing these matters with my colleague who's in charge of public services. But we've also got to make sure, if we do introduce a system that has more frequent revaluation, how that'll be administered. Who's going to undertake it? Who's going to do it? Is it going to be worthwhile doing it? There are all these very difficult issues in here.

But I do agree that frequency is one of the issues that is raised by small businesses, because they are in the absolutely ludicrous position of having a valuation done one day and, by the time it comes on board, the whole economy can have changed and they are under enormous amounts of pressure. I also feel as well that it's important that we look at some of the key indicators that we've got—the key things that we like to look at as well. We should look at what we do on new developments if that encourages economic growth. I certainly think we need to look more carefully at some of the other measures we've introduced, to see if they can stimulate more.

Now, I think this is subject of an ongoing discussion and I very much look forward to scrutiny in the committee and the ideas of all Assembly Members, because I think, across parties, we will get commonly agreed areas that we want to take forward in terms of the reform of business rates.

A gaf fi ddweud bod ardrethi busnes yno fel ysgogiad ar gyfer twf economaidd, a fy mod yn meddwl ei bod yn bwysig iawn eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol? Byddaf yn sicr yn gofyn i fy swyddogion edrych ar—nid wyf yn ymwybodol o unrhyw faterion cymorth gwladwriaethol—beth fydd yn digwydd os bydd mwy o arallgyfeirio rhwng Cymru a Lloegr. Ac rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig iawn fy mod yn edrych ar rai o'r materion gweinyddol yr ydych wedi'u codi. Rwyf wedi nodi y byddaf yn trafod y materion hyn gyda fy nghydweithiwr sydd â gofal am y gwasanaethau cyhoeddus. Ond mae'n rhaid inni hefyd wneud yn siŵr, os ydym yn cyflwyno system sy'n ailbrisio'n amlach, sut y caiff honno ei gweinyddu. Pwy fydd yn ymgymryd â hynny? Pwy fydd yn gwneud hynny? A fydd yn werth chweil gwneud hynny? Mae'r rhain i gyd yn faterion anodd iawn i mewn yma.

Ond rwyf yn cytuno bod amllder yn un o'r materion a godir gan fusnesau bach, oherwydd maent yn y sefyllfa gwbl chwerthinlyd o gael prisiaid wedi ei wneud un diwrnod ac, erbyn iddo ddod i rym, efallai y bydd yr holl economi wedi newid gan eu rhoi dan bwysau enfawr. Rwyf hefyd yn teimlo, yn ogystal, ei bod yn bwysig ein bod yn edrych ar rai o'r dangosyddion allweddol sydd gennym—y pethau allweddol yr ydym yn hoff o edrych arnynt hefyd. Dylem edrych ar yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ddatblygiadau newydd os yw hynny'n annog twf economaidd. Rwy'n sicr yn credu bod angen inni edrych yn fwy gofalus ar rai o'r mesurau eraill yr ydym wedi'u cyflwyno, i weld a allant ysgogi mwy.

Nawr, rwyf yn credu bod hyn yn destun trafodaeth barhaus ac rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at graffu yn y pwyllgor ac at syniadau holl Aelodau'r Cynulliad, oherwydd credaf, ar draws y pleidiau, y byddwn yn cytuno ar feysydd cyffredin yr hoffem fwrw ymlaen â hwy o ran diwygio ardrethi busnes.

15:36

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad? A gaf i groesawu'r ffaith bod y cynllun rhyddhad ardrethi busnes presennol yn cael ei ymestyn? Ond y gwir amdani, wrth gwrs, ydy mai dyna'r lleiaf y gallai'r Llywodraeth fod wedi ei wneud heddiw. Ar wahân i hynny, rhyw ddiweddariad sydd gennym heddiw. Rydym wedi cael cyfres o adolygiadau ac ymchwiliadau yn ddiweddar. Y diweddaraf, wrth gwrs, oedd sefydlu'r panel sy'n gyfrifol am yr adroddiad yma yn ôl yn yr hydref, i bwysu a mesur cyfres o argymhellion oedd wedi cael eu gwneud dros y blynyddoedd diwethaf gan baneli eraill. Felly, rydym angen symud ymlaen. Mwy o oedi sydd yma. Rwy'n gwybod, er bod penderfyniad gwleidyddol wedi cael ei wneud i ddatganoli'r cyfrifoldeb am ardrethi, dydy'r penderfyniad ynglŷn â chyllid i fynd efo hynny ddim wedi cael ei wneud eto. Felly, wrth gwrs bod yna gyfyngiadau ar fanylion all gael eu cyhoeddi rwan ond dydyn ni ddim yn gwbl glir ynglŷn ag egwyddorion y Llywodraeth, heb sôn am fanylion gweithredu.

Can I thank the Minister for that statement? Can I welcome the fact that the current business rates relief scheme will be extended? But the truth, of course, is that it is the least that the Government could have done today. Apart from that, what we have today is some sort of update. We have had a series of reviews and inquiries recently. The most recent, of course, was the establishment of the panel responsible for this report back in the autumn, to weigh up a series of recommendations that had been made over previous years by other panels. So, we now do need to move forward. What we have here is further delays. I know that, although a political decision has been made to devolve responsibility for rates, the decision about funding to go with that has not yet been made. So, of course there are limitations in terms of the details that can be published now, but we're not entirely clear about the Government's principles, let alone the details of implementation.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ar wahân i ymestyn y cynllun presennol, mae'r Gweinidog yn dweud nad ydy hi am gyflwyno newidiadau sylweddol eraill o'r math rydym ni wedi galw amdany'n nhw—dim newid i'r trothwy er mwyn cynnwys rhagor o fusnesau, er enghraifft. Mae hynny'n rhannol, meddai'r Gweinidog, oherwydd argymhellion y panel, ond yn rhannol oherwydd problemau technegol. Wel, os mai un o'r problemau technegol ydy ei bod hi'n rhy hwyr yn y flwyddyn ariannol i newid y trothwy ar gyfer mis Ebrill, a gaf i atgoffa'r Gweinidog mai oedi gan y Llywodraeth yn dod i benderfyniad sydd wedi golygu ein bod ni mor hwyr yn y flwyddyn ariannol yn cael y cyhoeddiad yma heddiw?

Wel, mae yna nifer o opsiynau'n cael eu rhestru ynglŷn â newidiadau technegol. Rwy'n gwybod bod ein hargymhelliad ni fel plaid yn un o'r rheini: argymhelliad a fyddai'n tynnu rhyw 70,000 o fusnesau allan o ardrethi busnes yn gyfan gwbl. Rydym ni eisiau rhoi pob cyfle i fusnesau fuddsoddi mewn twf. Mae'r Gweinidog yn dweud wrthym ni hefyd mai sefydlogrwydd—cadw'r ddysgl yn wastad—ydy ei blaenoriaeth hi rŵan: peidio â mentro, rhag effeithio ar y balans rhwng busnesau'r naill ochr i Glawdd Offa ac ati. Rwy'n deall y sentiment, ond mae'n heconomi ni angen pob hwb rŵan.

Mae'r Gweinidog yn gwahodd awgrymiadau ac argymhellion am y ffordd ymlaen. Mi wnawn ni ymateb, yn sicr, i'r cais yna. Rydym ni wedi hen arfer gwneud argymhellion yn y maes penodol hwn ac mi wnawn ni gario ymlaen i drio perswadio'r Llywodraeth o'r angen i ddefnyddio'r grymoedd newydd fel arf economaidd go iawn. Mi wnawn ni gario ymlaen i annog codi'r trothwy i helpu mwy o fusnesau, i gyflwyno lluosydd newydd, i sefydlu swyddfa neu asiantaeth werthuso i Gymru er mwyn datblygu system ail-werthuso sy'n gweithio i Gymru. Felly, mwy o oedi sydd yma heddiw. Mae rheoli risg yn un peth; mae peidio â gwneud penderfyniadau sylweddol yn fater arall.

Apart from extending the current scheme, the Minister said that she does not want to introduce other significant changes of the kind that we have called for—no change to the threshold so as to include more businesses, for example. That is partly, the Minister said, because of the panel's recommendations, but partly because of technical problems. Well, if one of the technical problems is that it is too late in the financial year to change the threshold for April, may I remind the Minister that it was a delay by the Government in coming to a decision that has meant that we are so late in the financial year in hearing this announcement today?

Well, there are a number of options listed on technical changes. I know that our recommendation as a party was one of those: a recommendation that would bring some 70,000 businesses out of business rates entirely. We want to give every opportunity for businesses to invest in growth. The Minister also told us that stability—keeping a balance—is her priority now: not doing anything too extreme, in order to retain the balance between businesses here and those across the border and so on. I understand the sentiment, but our economy needs every assistance now.

The Minister is inviting suggestions and recommendations for the way forward. We'll respond, certainly, to that request. We are well used to making recommendations in this particular area and we'll continue to try to persuade the Government of the need to use these new powers as a real economic driver. We'll continue to encourage raising the threshold to help more businesses, to introduce a new multiplier, to establish a valuation office or agency for Wales in order to develop a revaluation system that works for Wales. So, we are seeing more and more delays here today. Risk management is one thing; not making significant decisions is an entirely different matter.

15:39

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. I do have to provide stability, I do have to make decisions and I've got to be conscious of what budget I have. This is the difficult position I find myself in. Oh, that I could make a decision that would please everybody and please the business community. I would be more than happy to do so, because I do think it's important that we look at how we help and assist small businesses. I think it's very important that we look at a variety of things that are going on, but that will be dependent on how we manage our budgets, in terms of what cash we have from the UK Government in the final settlement, how we then intend to look at our budget across the piece.

I think it's important to recognise as well that we are between a rock and a hard place in this discussion. We wanted business rates, because we did want to look at it differently, we wanted to look at the right economic levers within our economy, but also then, of course, we've got the position of the UK Government about how they deal with those matters. So, I do understand why you feel the way that you do, and I'm sure I'm going to have further criticism on this agenda about not acting any quicker in certain areas.

Diolch yn fawr iawn. Mae'n rhaid imi ddarparu sefydlogrwydd, mae'n rhaid imi wneud penderfyniadau ac mae'n rhaid imi fod yn ymwybodol o'r gyllideb sydd gennyf. Dyma'r sefyllfa anodd sy'n fy wynebu. O, am allu gwneud penderfyniad a fyddai'n plesio pawb ac yn plesio'r gymuned fusnes. Byddwn wrth fy modd yn gwneud hynny, gan fy modd yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn edrych ar sut yr ydym yn helpu ac yn cynorthwyo busnesau bach. Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn edrych ar amryw o bethau sy'n digwydd, ond bydd hynny'n dibynnu ar sut yr ydym yn rheoli ein cyllidebau, o ran faint o arian a gawn gan Lywodraeth y DU yn y setliad terfynol, sut yr ydym yna'n bwriadu edrych ar ein cyllideb yn gyffredinol.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod hefyd ein bod mewn sefyllfa anodd iawn yn y drafodaeth hon. Roedd arnom eisiau ardrethi busnes, oherwydd roeddem yn dymuno edrych ar y peth yn wahanol, roeddem yn awyddus i edrych ar yr ysgogiadau economaidd cywir yn ein heconomi, ond hefyd, wrth gwrs, mae gennym safbwynt Llywodraeth y DU ynghylch sut y maen nhw'n ymdrin â'r materion hynny. Felly, rwyf yn deall pam yr ydych yn teimlo fel yr ydych, ac rwy'n siŵr y caf fi fwy o feirniadaeth ar yr agenda hon am beidio â gweithredu'n gyflymach mewn rhai meysydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have to say that I do share your disappointment that I can't go further, but I do think that we have to recognise that we've had to have all these reports done because we've had to have a consensus developing. And this final report that Chris Sutton has done I think indicates where everybody will feel confident about where we are in the short term; what he's suggesting for the medium term I think is good, in terms of going for better revaluation, but there are a lot of issues around that that we need to flesh out. The only thing that I can say to you today is that I will try and flesh out these issues quickly in terms of policy when I have your views in, so if we are in a position financially to have a discussion about what more money and resource can go in—although I can't see that it's going to be like that when you look at the cuts that are coming from the UK Government and how we have to manage our budgets very carefully—we will certainly have that discussion to see if we can get any elements of consensus.

I share disappointment that I couldn't, in many ways, be more radical because I do have my own views about what we should do specifically on business rates, but I do have to be guided by our budget settlement and what is sensible in terms of the advice I'm getting from business, which is stability at the moment and then take forward things in bite-size chunks.

Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn rhannu eich siom na allaf fynd ymhellach, ond rwyf yn meddwl bod yn rhaid inni gydnabod ein bod wedi gorfod llunio'r holl adroddiadau hyn oherwydd ein bod wedi gorfod datblygu consensws. Ac rwyf yn meddwl bod yr adroddiad terfynol hwn gan Chris Sutton yn dangos lle y bydd pawb yn teimlo'n hyderus am ein sefyllfa yn y tymor byr; mae'r hyn y mae'n ei awgrymu ar gyfer y tymor canolig yn dda, yn fy marn i, o ran mynd am well ailbriso, ond mae angen inni roi cnaud ar esgryn llawer o faterion sy'n gysylltiedig â hynny. Yr unig beth y gallaf ei ddweud wrthyh heddiw yw y byddaf yn ceisio rhoi cnaud ar esgryn y materion hyn yn gyflym o ran polisi pan fyddaf wedi cael eich barn chi, felly os byddwn mewn sefyllfa ariannol i gael trafodaeth am roi mwy o arian ac adnoddau i mewn—er na allaf weld mai dyna sut y bydd pethau pan eich bod yn edrych ar y toriadau sy'n dod gan Lywodraeth y DU a sut y mae'n rhaid inni reoli ein cyllidebau yn ofalus iawn—byddwn yn sicr yn cael y drafodaeth honno i weld a allwn gael unrhyw elfennau o gonsensws.

Rwy'n rhannu'r siom nad allwn, mewn llawer ffordd, fod yn fwy radical oherwydd mae gennyf fy safbwyntiau fy hun am yr hyn y dylem ei wneud yn benodol ar ardrethi busnes, ond mae'n rhaid imi ddilyn arweiniad ein setliad cyllideb a'r hyn sy'n gwneud synnwyr o ran y cyngor yr wyf yn ei gael o fyd busnes, sef sefydlogrwydd ar hyn o bryd ac yna bwrw ymlaen â phethau un cam ar y tro.

15:41

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I read the report of the panel reviewing the report of the task and finish group, and the two subsequent reports of that task and finish group in response to the consultation to the original report, with great interest. My thanks, I think, to the panel on a very helpful piece of work in guiding us through all of those consultative processes, and obviously, things have moved forward since then. The fundamental question remains though: do we look on business rates as a stable form of finance for the Welsh Government, or do we look on business rates as a real lever for economic growth? Stasis is only really excusable if you view it as the former. Stability in the short-term—you say it is important; of course it is. I agree that a smooth transfer of powers is very important because businesses need a stable environment in which to operate. One of the most important things a Government can do is to limit the uncertainty and the churn in that environment.

Diolch, Weinidog. Darllenais adroddiad y panel a oedd yn adolygu adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen, a dau adroddiad dilynol y grŵp gorchwyl a gorffen hwnnw mewn ymateb i'r ymgynghoriad am yr adroddiad gwreiddiol, gyda diddordeb mawr. Hoffwn ddiolch, rwyf yn credu, i'r panel am ddarn defnyddiol iawn o waith i'n harwain drwy'r holl brosesau ymgynghorol hynny, ac yn amlwg, mae pethau wedi symud ymlaen ers hynny. Fodd bynnag, y cwestiwn sylfaenol o hyd yw: a ydym yn edrych ar ardrethi busnes fel ffurf sefydlog o gyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru, ynteu a ydym yn edrych ar ardrethi busnes fel ysgogiad gwirioneddol ar gyfer twf economaidd? Yr unig ffordd o esgusodi diffyg gweithredu mewn gwirionedd yw drwy edrych arno fel y cyntaf. Sefydlogrwydd yn y tymor byr—rydych yn dweud bod hynny'n bwysig; wrth gwrs ei fod. Rwy'n cytuno bod trosglwyddo pŵerau'n ddidrafferth yn bwysig iawn oherwydd mae angen amgylchedd sefydlog i gynnal busnesau. Un o'r pethau pwysicaf y gall Llywodraeth ei wneud yw cyfyngu ar yr ansicrwydd a'r corddi yn yr amgylchedd hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, there is an issue about to what extent we benefit by staying the same. I agree that retaining the current small business rate relief scheme, for example, in the next year is very wise, as the report says, though because of the structure of the Welsh economy, that costs money. We have very many more businesses that are underneath the threshold for small business rate relief as a proportion of our economy than England does, and that means that, in order to just extend the current regime without making any alterations, after the devolution of business rates, it will cost us an extra £24.1 million in a single year, according to the estimates in the report. So, my question is: what discussions have you had with the UK Government over that? Is there any undertaking from them that they will be making a transitional arrangement to enable you to maintain that, because it is, essentially, double the cost of what any consequential through the Barnett formula would allow?

I also very strongly agree on the frequency of the revaluations. We do need more frequent revaluation so that we can iron out any of these very sudden peaks and troughs. And I think that there is an important thing that we can look at in the short term, regardless of what England are doing and the major piece of work that they're doing to reorganise their system—and that's have a look at ways in which we could create an interim valuation system in between major revaluations. Are there ways in which we can look at a proxy value, looking at the average rents in particular areas? Is there a way in which we can make that revaluation process more responsive to the actual market? I wonder—you talk about it being something to look at in the medium term; can you tell us, in time terms, what the medium term actually is?

As I say, whilst I support the extension of the existing reliefs in the short-term, I think you have to be honest and say that where you have a complex package of tax reliefs to overcome the perceived inequities in a system, it suggests to me that, fundamentally, the design of that tax system isn't quite right, and more radical reform is going to be necessary in the long term. I think that it would be right to point out that this report, and, indeed, other reports previously, are lukewarm at best on the value of extending tax reliefs over a long period of time. In particular, one of the things that is the cause for concern is that it costs money to implement these, but if they're not targeted at specific interventions, then they don't have an economic benefit. Similarly, if we are looking at a system of rate reliefs that are renewed on an annual basis, and, on this occasion, only seven weeks in advance of the next financial year, that in itself is a cause of uncertainty and instability in the taxation regime. If we're going to be designing a system for Wales, it doesn't have to be limited to a system of tax relief. It can be a system that is fundamentally different to the one that we have inherited.

Fodd bynnag, mae problem ynghylch i ba raddau yr ydym yn elwa drwy aros yr un fath. Rwyf yn cytuno bod cadw'r cynllun rhyddhad ardrethi presennol i fusnesau bach, er enghraifft, yn y flwyddyn nesaf yn ddoeth iawn, fel y dywed yr adroddiad, er bod hynny'n costio arian oherwydd strwythur economi Cymru. Mae gennym lawer iawn mwy o fusnesau sydd o dan y trothwy ar gyfer rhyddhad ardrethi busnesau bach fel cyfran o'n heconomi nag sydd gan Loegr, ac mae hynny'n golygu, er mwyn ymestyn y drefn bresennol yn unig heb wneud dim newidiadau, ar ôl datganoli trethi busnes, y bydd yn costio £24.1 miliwn yn ychwanegol inni mewn un flwyddyn, yn ôl yr amcangyfrifon yn yr adroddiad. Felly, fy nghwestiwn yw: pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â hynny? A oes unrhyw ymrwymiad ganddynt y byddant yn gwneud trefniant pontio i'ch galluogi i gynnal hynny, oherwydd mae, yn ei hanfod, yn ddwbl cost unrhyw swm canlyniadol y byddai fformiwla Barnett yn ei ganiatáu?

Rwyf hefyd yn cytuno yn gryf iawn am amllder yr ailbrisiadau. Mae arnom angen ailbriso'n amlach er mwyn inni allu cael gwared ar yr uchafbwyntiau ac isafbwyntiau sydyn iawn hyn. Ac rwyf yn meddwl bod rhywbeth pwysig y gallwn edrych arno yn y tymor byr, ni waeth beth mae Lloegr yn ei wneud a'r darn mawr o waith y maent yn ei wneud i ad-drefnu eu system nhw—sef edrych ar ffyrdd y gallem greu system brisio dros dro rhwng prif ailbrisiadau. A oes ffyrdd y gallwn edrych ar werth amcangyfrif, gan edrych ar y rhenti cyfartalog mewn ardaloedd penodol? A oes ffordd y gallwn wneud y broses ailbriso honno'n fwy ymatebol i'r farchnad wirioneddol? Tybed—rydych yn sôn amdano fel rhywbeth i edrych arno yn y tymor canolig; a allwch ddweud wrthym, o ran amser, beth yw'r tymor canolig mewn gwirionedd?

Fel yr wyf yn dweud, er fy mod o blaid ymestyn y rhyddhad presennol yn y tymor byr, rwyf yn meddwl bod yn rhaid ichi fod yn onest a dweud, os oes gennych becyn cymhleth o ostyngiadau treth i oresgyn annhegwch canfyddedig mewn system, mae'n awgrymu i mi, yn y bôn, nad yw dyluniad y system dreth honno yn hollol iawn, ac y bydd angen diwygio mwy radical yn y tymor hir. Rwyf yn meddwl y byddai'n deg nodi bod yr adroddiad hwn, ac, yn wir, adroddiadau eraill o'i flaen, yn llugoe'r ar y gorau ynglŷn â gwerth ymestyn rhyddhad treth dros gyfnod hir. Yn benodol, un o'r pethau sy'n achosi pryder yw ei bod yn costio arian i roi'r rhain ar waith, ond os nad ydynt wedi'u targedu at ymyraethau penodol, nid oes ganddynt fudd economaidd. Yn yr un modd, os ydym yn edrych ar system o ryddhad ardrethi sy'n cael eu hadnewyddu'n flynyddol, ac, ar yr achlysur hwn, dim ond saith wythnos cyn y flwyddyn ariannol nesaf, mae hynny ynddo'i hun yn achosi ansicrwydd ac ansefydlogrwydd yn y gyfundrefn dreth. Os ydym yn mynd i fod yn cynllunio system i Gymru, nid oes yn rhaid iddi fod yn gyfyngedig i system o ostyngiadau treth. Gall fod yn system sy'n sylfaenol wahanol i'r un yr ydym wedi'i hetifeddu.

I think we have to be honest here: the devolution of business rates is a risk. It will cost money if we don't get it right, but it's a risk that is worth taking if we're prepared to use the powers that we are being given with the financial responsibility radically to incentivise economic growth, because the current system punishes people who invest in their property; it punishes people who put plant and equipment on their property and create wealth for this country; it requires a suite of reliefs to try and make it fair, but still fails to be fair; and it will cost Wales millions of pounds just to keep pace with England, even if we don't aspire to be even better. So, I think business rates as usual just won't do, and we do need to set out a timetable for more radical reform that this report does in fact say, in the long term, is possible.

Rwy'n credu bod yn rhaid inni fod yn onest yma: mae datganoli ardrethi busnes yn risg. Bydd yn costio arian os nad ydym yn gwneud pethau'n iawn, ond mae'n risg sy'n werth ei gymryd os ydym yn barod i ddefnyddio'r pwerau yr ydym yn eu cael eu rhoi, gyda'r cyfrifoldeb ariannol, mewn modd radical i gymell twf economaidd, oherwydd mae'r system bresennol yn cosbi pobl sy'n buddsoddi yn eu heiddo; mae'n cosbi pobl sy'n rhoi offer a chyfarpar ar eu heiddo ac yn creu cyfoeth i'r wlad hon; mae angen cyfres o ostyngiadau i geisio ei gwneud yn deg, ond mae'n dal i fethu â bod yn deg; a bydd yn costio miliynau o bunnoedd i Gymru dim ond i geisio aros yn gyfartal â Lloegr, hyd yn oed os nad ydym â'r nod o fod hyd yn oed yn well. Felly, nid wyf yn meddwl y bydd ardrethi busnes fel arfer yn gwneud y tro, ac mae angen inni nodi amserlen ar gyfer y diwygio mwy radical y mae'r adroddiad hwn mewn gwirionedd yn dweud sydd, yn y tymor hir, yn bosibl.

15:46

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank Eluned Parrott for her comments? I do think I'd be more than happy to set out a timetable when we've had further dialogue on this issue, the views of Members and, of course, my scrutiny at committee, because my medium term is really some discussions, I have to say, in the summer of this year, about trying to get some blueprint into action about the areas that we actually need to look at, because you are absolutely correct that we've got to be realistic in what we've had in terms of the devolution of business rates. We've got to get things right because there is risk associated with it, and it would be very important that we do get the risks right.

I also think it's very useful to look at the Scottish and Northern Ireland situation, where they've had business rates for a while, and they haven't made immediate changes to the regime; they've actually gradually decided what they need to do and how they've dealt with it. We've made changes, even with our very small areas of what we've dealt with, because we have the new business rate scheme, we have the capping of the multiplier, we've had small business rate relief, and of course it's important that we give better guidance and information to businesses as part of business relief. But, we've got to be honest, I think, because we need to recognise that there are some tough decisions around about the finances on this, because if we are to provide additional support through a non-domestic rates regime, there's that balance, because of the support for critical public services, and that particular balance.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:47.

A gaf fi ddiolch i Eluned Parrott am ei sylwadau? Rwyf yn meddwl y byddwn yn fwy na pharod i nodi amserlen pan fyddwn wedi cael trafodaethau pellach am y mater, barn yr Aelodau ac, wrth gwrs, fy nghraffu yn y pwyllgor, oherwydd fy nhymor canolig i mewn gwirionedd yw rhai trafodaethau, mae'n rhaid imi ddweud, yn ystod haf eleni, ynglŷn â cheisio cael rhyw fath o lasbrint ar waith o ran y meysydd y mae gwir angen inni edrych arnynt, oherwydd rydych yn hollol gywir bod yn rhaid inni fod yn realistig yn yr hyn yr ydym wedi'i gael o ran datganoli trethi busnes. Mae'n rhaid inni wneud pethau'n iawn oherwydd mae risg yn gysylltiedig â'r peth, a byddai'n bwysig iawn ein bod yn cael y risgiau'n gywir.

Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn ddefnyddiol iawn edrych ar y sefyllfa yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle mae ardrethi busnes wedi bodoli ers tipyn, ac nid ydynt wedi gwneud newidiadau ar unwaith i'r drefn; maent wedi penderfynu'n raddol yr hyn y mae angen iddynt ei wneud a sut y maent wedi ymdrin ag ef. Rydym ni wedi gwneud newidiadau, hyd yn oed yn y meysydd bach iawn yr ydym wedi ymdrin â hwy, oherwydd mae gennym y cynllun ardrethi busnes newydd, mae gennym gapio'r lluosydd, rydym wedi cael rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, ac wrth gwrs mae'n bwysig ein bod yn rhoi gwell arweiniad a gwybodaeth i fusnesau yn rhan o ryddhad i fusnesau. Ond, mae'n rhaid inni fod yn onest, rwy'n credu, oherwydd mae angen inni gydnabod bod rhai penderfyniadau anodd ynglŷn â'r cyllid ar gyfer hyn, oherwydd os ydym am ddarparu cymorth ychwanegol drwy gyfrwng cyfundrefn ardrethi annomestig, bod gennym y cydbwysedd hwnnw, oherwydd y gefnogaeth i wasanaethau cyhoeddus hanfodol, a'r cydbwysedd penodol hwnnw.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:47.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I say, in terms of the issues about the transfer and the settlement, those are matters that have been dealt with by my colleague Jane Hutt, so I will certainly be updated on those issues ready for committee in terms of discussion? You are right about targeting, because, in my mind, if you are investing in something and you are a business investing, you're actually bearing extra costs, so how you incentivise investment is, I think, a key issue, and how you use business rates in that context. But it's not just about business rates; it's about the whole range of policies. I have very much sympathy with the issues that you've raised with me today, and I hope that we keep this dialogue going forward to ensure that we can actually make progress on business rates to get a system that's fit for purpose.

What I like about this particular report—I know I've had loads of reports, and I'm criticised for it, but I tell you one thing: we've got 60 very educated Assembly Members here now on what business rates are as a result of the report—is that this report is quite solid about the short term, the medium and where we can go in the long term, and that's the first time I think I've had that clearly spelt out in terms of what stages we can go. I think that suits all the parties in the Chamber.

A gaf fi ddweud, o ran y materion ynghylch y trosglwyddiad a'r setliad, bod y materion hynny wedi cael sylw gan fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, felly byddaf yn sicr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y materion hynny yn barod am y pwyllgor o ran trafodaeth? Rydych yn gywir ynglŷn â thargeddu, oherwydd, yn fy marn i, os ydych yn buddsoddi mewn rhywbeth a'ch bod yn fusnes yn buddsoddi, rydych mewn gwirionedd yn dwyn costau ychwanegol, felly mae'r ffordd yr ydych yn cymell buddsoddiad, rwyf yn meddwl, yn fater allweddol, a sut yr ydych yn defnyddio ardrethi busnes yn y cyd-destun hwnnw. Ond nid dim ond mater o ardrethi busnes yw hwn; mae'n ymwneud â'r holl ystod o bolisiau. Mae gennyf lawer iawn o gydymdeimlad â'r materion yr ydych wedi'u codi gyda mi heddiw, ac rwyf yn gobeithio y byddwn yn cadw'r ddeialog hon i symud ymlaen yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn gallu gwneud cynnydd gwirioneddol ar ardrethi busnes i gael system sy'n addas i'w diben.

Yr hyn yr wyf yn ei hoffi am yr adroddiad penodol hwn—rwyf yn gwybod fy mod wedi cael llwythi o adroddiadau, a fy mod yn cael fy meirniadu am hynny, ond dewch imi ddweud un peth wrthyf: mae gennym 60 Aelod Cynulliad yma nawr sy'n hyddysg iawn ynghylch beth yw ardrethi busnes o ganlyniad i'r adroddiad—yw bod yr adroddiad hwn yn eithaf cadarn am y tymor byr, y tymor canolig a beth y gallwn fynd yn y tymor hir, ac rwyf yn meddwl mai dyna'r tro cyntaf yr wyf wedi cael hynny wedi'i nodi'n glir o ran y camau y gallwn eu cymryd. Rwy'n credu bod hynny'n bodloni'r holl bleidiau yn y Siambr.

15:48

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I also welcome your statement this afternoon that you're extending the small business rate relief scheme again for the financial year 2015-16 and matching the proposals in England. I also note that you have written to the UK Government, outlining the expertise and experience in Wales over the last three years, and that's still awaiting a response. You said that you broadly supported the panel's aim to use business rates to support economic growth. I was pleased to see recently that, when Labour wins the next general election, it will cut business rates in 2015, freeze them in 2016, and then devolve £30 billion of business rates to back local economic growth. I hope, Minister, that you will discuss these proposals with the incoming Labour Government so that Wales can benefit from such funding.

Weinidog, rwyf finnau'n croesawu eich datganiad y prynhawn yma eich bod yn ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach unwaith eto ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 ac yn cyfateb i'r cynigion yn Lloegr. Sylwaf hefyd eich bod wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU, i amlinellu'r arbenigedd a'r profiad yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf, a bod hynny'n dal i aros am ymateb. Dywedasoeh eich bod yn gyffredinol yn cefnogi nod y panel i ddefnyddio ardrethi busnes i gefnogi twf economaidd. Roeddwn yn falch o weld yn ddiweddar, pan fydd Llafur yn ennill yr etholiad cyffredinol nesaf, y bydd yn torri trethi busnes yn 2015, yn eu rhewi yn 2016, ac yna'n datganoli £30 biliwn o ardrethi busnes i gefnogi twf economaidd lleol. Rwyf yn gobeithio, Weinidog, y byddwch yn trafod y cynigion hyn gyda'r Llywodraeth Lafur sy'n dod i mewn fel y gall Cymru elwa ar gyllid o'r fath.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:49

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, thank you for the welcome for my statement. I think it's important to recognise we do have the opportunities now, with the devolution of business rates, and also we are going to have to have a discussion about the local retention of business rates to help and assist, perhaps, in local areas. But when you see the gaps that there are between what business rates are taken, for instance, by the city and county of Cardiff and you compare that with somewhere like Ynys Môn, and if you then look at some local authorities that are reliant on just one big contributor, like Neath Port Talbot and Tata, you recognise that even when we look at local retention issues that we're going to have to be very careful that we don't just disproportionately benefit parts of Wales. We know our responsibility is to the whole of Wales and their opportunities for economic development.

Yn amlwg, diolch ichi am y croeso i fy natganiad. Rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod bod gennym y cyfleoedd yn awr, wrth i ni gael datganoli ardrethi busnes, a hefyd bydd yn rhaid inni gael trafodaeth ynghylch cadw trethi busnes yn lleol i helpu a chynorthwyo, efallai, mewn ardaloedd lleol. Ond pan welwch y bylchau sydd rhwng yr ardrethi busnes sy'n cael eu cymryd, er enghraifft, gan ddinas a sir Caerdydd a chymharu hynny â rhywle fel Ynys Môn, ac os edrychwch yna ar rai awdurdodau lleol sy'n dibynnu ar un cyfrannwr mawr, fel Castell-nedd Port Talbot a Tata, rydych yn sylweddoli, hyd yn oed pan fyddwn yn edrych ar faterion cadw lleol, y bydd yn rhaid inni fod yn ofalus iawn nad ydym yn creu budd anghymesur i rai rhannau o Gymru. Rydym yn gwybod bod gennym gyfrifoldeb dros bob rhan o Gymru a'u cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:50

5. Datganiad: Gwella Uchelgais a Chyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyngofal yng Nghymru

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5 is a statement by the Minister for Education and Skills on raising the ambitions and educational attainment of looked-after children in Wales. I call on the Minister, Huw Lewis.

5. Statement: Raising the Ambitions and Educational Attainment of Children who are Looked After in Wales

Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yw eitem 5, ar godi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Galwaf ar y Gweinidog, Huw Lewis.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:50

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to take this opportunity to update Members on very important work being taken forward by the Welsh Government to support the education of children who are looked after in Wales. We would, I am sure, all agree that every child in Wales, including those who are looked after, has the right to expect an excellent education regardless of their circumstances. This should be a fact and not just an aspiration. To ensure that we accomplish this, the Minister for Health and Social Services and I have issued for consultation a joint strategy entitled 'Raising the ambitions and educational attainment of children who are looked after in Wales'.

In March 2014, there were more than 5,700 children looked after in Wales. Decisions to take children into care are not taken lightly, but once children do become looked after we must use that opportunity to improve their life chances. Developing their potential and ambitions to achieve in education and in life must be paramount. But, all too often, this is not the case. The educational performance of children who are looked after is significantly lower, below that of other mainstream pupils at all key stages.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith pwysig iawn sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Byddem i gyd, rwyf yn sicr, yn cytuno bod gan bob plentyn yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal, yr hawl i ddisgwyl addysg ardderchog ni waeth beth yw ei amgylchiadau. Dylai hyn fod yn ffaith ac nid dim ond dyhead. I sicrhau ein bod yn cyflawni hyn, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau wedi cyhoeddi strategaeth ar y cyd ar gyfer ymgynghoriad o'r enw 'Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru'.

Ym mis Mawrth 2014, roedd mwy na 5,700 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru. Nid yw penderfyniadau i fynd â phlant i mewn i ofal yn cael eu gwneud yn ddifeddwl, ond ar ôl i blant ddod yn blant sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid inni ddefnyddio'r cyfle hwnnw i wella eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae datblygu eu potensial a'u uchelgeisiau i gyflawni mewn addysg ac mewn bywyd yn gorfod bod yn hollbwysig. Ond, yn rhy aml, nid yw hyn yn wir. Mae perfformiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn sylweddol is, yn is na disgyblion prif ffrwd eraill ym mhob cyfnod allweddol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

For example, in key stage 4, in summer 2013, 53% of pupils achieved level 2 inclusive. The equivalent figure for children who are looked after was just 13%. This is typical of performance across all key stages. Too many children who are looked after will leave compulsory education with few or no qualifications. In 2014, some 45% of 19-year-old care leavers were not in education, employment or training. From 2007 to 2010, that figure stood at 51%. So, that does show improvement, but it is still at an unacceptable level.

We need to use this opportunity to build greater momentum. Children who enter the care system come from a background perhaps of family upheaval or breakdown. Abuse or neglect can often be a factor and can have long-term and debilitating impacts. These circumstances inevitably affect the child's ability to learn effectively and progress is hindered through school and beyond. As a consequence, children invariably need additional help and support. We cannot change their past, but we have to work harder to change their future. The local authority, as the corporate parent, has a key responsibility to safeguard and promote the welfare of the child, which includes of course their educational achievement.

Both the health Minister and I are absolutely clear. The improved educational attainment of looked-after children is essential. It will, though, only be possible if education, social services and others collaborate effectively. There has to be seamless integration that starts at the highest level of the Welsh Government and reaches right into the classroom to ensure that each and every looked-after child receives effective help and support.

The draft strategy sets out a range of actions at every level of the system with a strategic focus on action to promote better leadership, partnership and collaboration, and effective teaching and learning. It is essential that all those whose work responsibilities and lives bring them into contact with children who are looked after contribute to this national conversation and identify actions to better support these learners. We recognise that the voice of the child is critical to properly understand how the actions we take impact upon their lives. We are working with the third sector organisation, Voices from Care, to explore better ways of getting looked-after children engaged in the consultation and in decisions that affect them.

Decisions on the care aspects of the life of a child who is looked after have a fundamental impact on the child's ability to achieve in education. We will also commission research this year to inform the final strategy. This will engage directly with looked after and former looked-after children to help us better understand the challenges they face on a daily basis.

Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 4, yn ystod haf 2013, cyflawnodd 53% o ddisgyblion lefel 2 yn gynhwysol. Dim ond 13% oedd y ffigur cyfatebol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn nodweddiadol o berfformiad ar draws pob cyfnod allweddol. Bydd gormod o blant sy'n derbyn gofal yn gadael addysg orfodol gydag ychydig neu ddim cymwysterau. Yn 2014, roedd tua 45% o bobl ifanc 19 mlwydd oed a oedd yn gadael gofal nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. O 2007 i 2010 roedd y ffigur hwnnw'n 51%. Felly, mae hynny'n dangos gwelliant, ond mae'n dal i fod ar lefel annerbyniol.

Mae angen inni ddefnyddio'r cyfle hwn i adeiladu mwy o fomentwm. Mae plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal yn dod o gefndir efallai o gynnwrf neu chwalu teuluol. Mae cam-drin neu esgeuluso'n aml yn gallu bod yn ffactor ac mae'r rhain yn gallu achosi effeithiau hirdymor a gwanychol. Mae'r amgylchiadau hyn yn anochel yn effeithio ar allu'r plentyn i ddysgu'n effeithiol ac yn llesteirio cynnydd drwy'r ysgol a thu hwnt. O ganlyniad, yn ddiethriad mae angen help a chymorth ychwanegol ar y plant. Ni allwn newid eu gorffennol, ond mae'n rhaid inni weithio'n galetach i newid eu dyfodol. Mae gan yr awdurdod lleol, fel y rhiant corfforaethol, gyfrifoldeb allweddol i ddiogelu a hybu lles y plentyn, sy'n cynnwys, wrth gwrs, cyflawniad addysgol.

Mae'r Gweinidog Iechyd a minnau'n gwbl glir. Mae'n hanfodol gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, ni fydd hynny'n bosibl oni bai bod addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill yn cydweithio'n effeithiol. Mae'n rhaid cael integreiddio di-dor sy'n dechrau ar lefel uchaf Llywodraeth Cymru ac yn cyrraedd yr holl ffordd i mewn i'r ystafell ddosbarth er mwyn sicrhau bod pob un plentyn sy'n derbyn gofal yn cael cymorth a chefnogaeth effeithiol.

Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi amrywiaeth o gamau gweithredu ar bob lefel o'r system gyda phwyslais strategol ar gamau i hyrwyddo gwell arweinyddiaeth, partneriaeth a chydweithredu, ac addysgu a dysgu effeithiol. Mae'n hanfodol bod pawb y mae eu cyfrifoldebau gwaith a bywyd yn dod â hwy i gysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal yn cyfrannu at y sgwrs genedlaethol hon ac yn nodi camau gweithredu i gefnogi'r dysgwyr hyn yn well. Rydym yn cydnabod bod llais y plentyn yn hanfodol er mwyn deall yn iawn sut y mae'r camau a gymerwn yn effeithio ar eu bywydau. Rydym yn gweithio gyda'r sefydliad trydydd sector, Voices from Care, i archwilio gwell ffyrdd o gynnwys plant sy'n derbyn gofal yn yr ymgynghoriad ac mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae penderfyniadau am agweddau gofal bywyd plentyn sy'n derbyn gofal yn cael effaith sylfaenol ar allu'r plentyn i gyflawni mewn addysg. Byddwn hefyd yn comisiynu gwaith ymchwil eleni i lywio'r strategaeth derfynol. Bydd hyn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant sy'n derbyn gofal a rhai sydd wedi derbyn gofal i'n helpu i ddeall yn well yr heriau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd.

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 comes into force in April 2016. This legislation provides a real opportunity to tackle issues such as stability in the lives of children who are looked after by strengthening the support that we offer. We will ensure that the work taken forward in implementing the Act is consistent with the aims of the education strategy. Regulations and codes of practice will help to strengthen links between education and social services to ensure they work together collaboratively to improve both the educational and the wellbeing outcomes for these children.

We are already clear about some areas that need to be addressed through the strategy. The current arrangements for providing support for children who are looked after through the pupil deprivation grant are ineffective in delivering evidence of improved outcomes for learners. From April, we will place responsibility for this funding with the regional educational consortia. Working with local authorities and schools, their task will be to ensure the delivery of strategic and coherent support, which makes a real and evidence-based impact on the education of children who are looked after.

We are also aware that the complex issues that impact on the looked-after child's ability to achieve in education often continue once they are adopted. To ensure continuity of support regardless of placement changes or school moves, we are building flexibility into the terms and conditions of the grant arrangements to enable consortia to support interventions aimed at former looked-after children who have been adopted.

We will be working with key stakeholders in the coming weeks to ensure the smooth implementation of the new arrangements. I'm sure that everyone would join me and the Minister for Health and Social Services in recognising the importance of this work. I do not underestimate the challenge, but we must not shirk from it. All our young people must reach their full potential, and we cannot accept that children who are looked after achieve less than we would wish and hope for our own children. I will update Members on the progress of this work following the consultation.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn dod i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi cyfle gwirioneddol i ymdrin â materion megis sefydlogrwydd ym mywydau plant sy'n derbyn gofal drwy gryfhau'r gefnogaeth yr ydym yn ei chynnig. Byddwn yn sicrhau bod y gwaith a wneir wrth roi'r Ddeddf ar waith yn gyson ag amcanion y strategaeth addysg. Bydd rheoliadau a chodau ymarfer yn helpu i gryfhau'r cysylltiadau rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn cydweithio i wella canlyniadau addysgol a lles i'r plant hyn.

Rydym eisoes yn glir am rai meysydd y mae angen i'r strategaeth ymdrin â hwy. Mae'r trefniadau presennol i ddarparu cymorth i blant sy'n derbyn gofal drwy'r grant amddifadedd disgyblion yn aneffeithiol o ran cyflawni tystiolaeth o well canlyniadau i ddysgwyr. O fis Ebrill ymlaen, byddwn yn rhoi'r cyfrifoldeb am y cyllid hwn i'r consortia addysgol rhanbarthol. Byddant yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion, a'u tasg fydd sicrhau bod cefnogaeth strategol a chydlynol yn cael ei darparu, sy'n cael effaith wirioneddol a seiliedig ar dystiolaeth ar addysg plant sy'n derbyn gofal.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod y materion cymhleth sy'n effeithio ar allu plant sy'n derbyn gofal i gyflawni mewn addysg yn aml yn parhau ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu. Er mwyn sicrhau parhad y gefnogaeth yn annibynnol ar newid lleoliad neu symud ysgol, rydym yn ymgorffori hyblygrwydd yn nhelerau ac amodau'r trefniadau grant i alluogi consortia i gefnogi ymyraethau sydd â'r nod o gynorthwyo plant a oedd yn arfer derbyn gofal ac sydd wedi cael eu mabwysiadu.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn yr wythnosau nesaf i sicrhau bod y trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith yn ddiraffferth. Rwy'n siŵr y byddai pawb yn ymuno â mi a'r Gweinidog Lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn. Nid wyf yn bychanu'r her, ond mae'n rhaid inni beidio â'i hosgoi ychwaith. Mae'n rhaid i'n holl bobl ifanc gyrraedd eu llawn botensial, ac ni allwn dderbyn bod plant sy'n derbyn gofal yn cyflawni llai nag y byddem yn ei ddyddmuno ac yn gobeithio amdano i'n plant ein hunain. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynt y gwaith hwn ar ôl yr ymgynghoriad.

15:58

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, good afternoon. I would like to thank you for your statement, because, as you say yourself, this is such a vitally important area. I do have some questions springing from the statement. Whilst I welcome the proposal for a joint strategy, I would ask you if you are convinced or content that you have the capacity to handle that consultation. You've got four large consultations currently running; there's been 18 in the past year that are still really being processed. On the time to consult, process, produce and implement from that consultation, given that we're entering into the last year and a bit of this current Assembly, are you content that you'll have the time to do that and to be able to implement it and see it through? I would like to say for the record that the Welsh Conservatives will be contributing to this consultation. As you know, we always do on the larger ones that you bring forward.

Weinidog, prynhawn da. Hoffwn ddiolch ichi am eich datganiad, oherwydd, fel y dywedwch eich hun, mae hwn yn faes mor hanfodol bwysig. Mae gennyf rai cwestiynau sy'n deillio o'r datganiad. Er fy mod yn croesawu'r cynnig am strategaeth ar y cyd, byddwn yn gofyn ichi a ydych yn argyhoeddedig neu'n fodlon bod gennych y gallu i ymdopi â'r ymgynghoriad hwnnw. Mae gennych bedwar ymgynghoriad mawr ar waith ar hyn o bryd; bu 18 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n dal i gael eu prosesu mewn gwirionedd. O ran yr amser i ymgynghori, prosesu, cynhyrchu a gweithredu o'r ymgynghoriad hwnnw, o gofio ein bod yn mynd i mewn i ychydig dros flwyddyn olaf y Cynulliad presennol hwn, a ydych yn fodlon y bydd gennych yr amser i wneud hynny ac i allu ei roi ar waith yn llwyr? Hoffwn ddweud ar gyfer y cofnod y bydd Ceidwadwyr Cymru'n cyfrannu at yr ymgynghoriad hwn. Fel y gwyddoch, rydym bob amser yn gwneud hynny ar y rhai mwyaf y byddwch yn eu cyflwyno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The statistics that you have in your statement are absolutely salutary, but I think you should also add the fact that the average external qualifications point score for looked-after children improved to 262 in 2013 from 221, which is very welcome; however, it is an average score of 262 versus 501, which is achieved by all the pupils in Wales. So, we do agree with you that this is an area in which we need to move forward at pace. But, talking about the pace, one of the concerns that I have is that, in 2011, the Children's Commissioner for Wales did his review, 'Missing Voices', which I know you'll be familiar with, but there seems to be an awful lot of evidence out there in the public domain as to what we could do and should do, and there is a very clear opinion from the children and young people themselves who are being looked after as to what they want. And I worry that we might be in a situation where we are yet again asking the same groups of people what it is they want, and, actually, what they really want is for someone to listen to what they've always been saying they want and to get on and do it. How will you be able to make sure that we can drive forward this change, because this party will support you in this area?

The Children, Young People and Education Committee has produced an awful lot of work on this area, and we did a very large study into children who were put up for adoption. Again, we looked in part there at some of the looked-after children issues and the problems that looked-after children and adopted children have post-adoption in gaining that educational support and being able to move forward. So, again, Minister, we all know what that problem is; it's been around an awfully long time. We are years down the road and it's still a problem. So, how will you be able to assure us that we can really move forward in this last sort of year and a bit to achieve a concrete change there?

You talk about the funding arrangements and that the pupil deprivation grant isn't being provided for, or the assessment of it isn't accurate, and you want to put it into the hands of the regional consortia. Now, you know I've a bit of a problem with the regional consortia, and, on 3 December, to the Children, Young People and Education Committee you also said that, having met each consortium, you accept that each one of the four is at a different stage of development—and these regional consortia have now been around for some two and a half years. Can you assure us that, if this funding is put under their control, and also the ability to implement a lot of this is put under their control from April, you believe that those regional consortia are all up to the task and will be able to deliver this for the children of Wales?

Mae'r ystadegau sydd gennych yn eich datganiad yn gwbl llesol, ond rwyf yn meddwl y dylech hefyd ychwanegu'r ffaith bod sgôr pwyntiau cymwysterau allanol cyfartalog plant sy'n derbyn gofal wedi gwella i 262 yn 2013 o 221, sydd i'w groesawu'n fawr; fodd bynnag, mae'n sgôr cyfartalog o 262 yn erbyn 501, sy'n cael ei gyflawni gan holl ddisgyblion Cymru. Felly, rydym yn cytuno â chi bod hwn yn faes lle mae angen inni symud ymlaen yn gyflym. Ond, a sôn am gyflymder, un o'r pryderon sydd gennych yw bod Comisiynydd Plant Cymru, yn 2011, wedi gwneud ei adolygiad, 'Lleisiau Coll', a gwn y byddwch yn gyfarwydd ag ef, ond mae'n ymddangos bod llawer iawn o dystiolaeth ar gael yn gyhoeddus o ran yr hyn y gallem ei wneud ac y dylem ei wneud, ac mae barn glir iawn gan y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal eu hunain o ran yr hyn sydd ei eisiau arnynt. Ac rwyf yn poeni y gallem mewn sefyllfa lle'r ydym unwaith eto'n gofyn i'r un grwpiau o bobl beth sydd ei eisiau arnynt, ac, mewn gwirionedd, yr hyn sydd ei eisiau arnynt mewn gwirionedd yw i rywun wrando ar yr hyn y maent wedi bod yn ei ddweud sydd ei eisiau arnynt erioed a gwneud rhywbeth am y peth. Sut y gallwch chi wneud yn siŵr ein bod yn gallu cyflawni'r newid hwn, oherwydd bydd y blaid hon yn eich cefnogi yn y maes hwn?

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cynhyrchu llawer iawn o waith yn y maes hwn, ac fe wnaethom astudiaeth fawr iawn ar blant a gafodd eu rhoi i'w mabwysiadu. Unwaith eto, buom yn edrych yn rhannol yno ar rai o'r materion sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a'r problemau sy'n wynebu plant sy'n derbyn gofal a phlant a fabwysiadwyd o ran cael y cymorth addysgol hwnnw a gallu symud ymlaen. Felly, unwaith eto, Weinidog, rydym i gyd yn gwybod beth yw'r broblem; mae wedi bod o gwmpas ers amser hir iawn. Rydym flynyddoedd i lawr y ffordd ac mae'n dal i fod yn broblem. Felly, sut y gallwch chi ein sicrhau y gallwn wir symud ymlaen yn y flwyddyn ac ychydig olaf hon i sicrhau newid pendant yn hynny o beth?

Rydych yn sôn am y trefniadau ariannu ac na ddarperir ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion, neu nad yw'r asesiad ohono'n gywir, ac rydych eisiau ei roi yn nwylo'r consortia rhanbarthol. Nawr, rydych yn gwybod fy mod wedi cael tipyn o broblem gyda'r consortia rhanbarthol, ac, ar 3 Rhagfyr, dywedasoich wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hefyd, ar ôl cwrdd â phob consortiwm, eich bod yn derbyn bod pob un o'r pedwar ar gam datblygiad gwahanol—ac mae'r consortia rhanbarthol hyn bellach wedi bod o gwmpas ers tua dwy flynedd a hanner. A allwch chi roi sicrwydd inni, os cânt gyfrifoldeb am reoli'r cyllid hwn, ac os cânt gyfrifoldeb hefyd am y gallu i weithredu llawer o hyn o fis Ebrill ymlaen, eich bod yn credu bod y consortia rhanbarthol hynny i gyd yn ddigon cymwys i wneud y dasg ac y gallant gyflawni hyn ar gyfer plant Cymru?

My final comment, Minister, is that the 'Missing Voices' report talked very clearly about Wales as being on an advocacy journey for over 10 years following publication of the Waterhouse report, and yet it still finds itself without a clear set of checks and balances to ensure that all children with an entitlement to advocacy have a genuine opportunity to access it. And I know that, when we were the Committee on Equality of Opportunity, we looked very long and hard at advocacy, particularly for young children. Will you please reflect, if you may, for a few moments on how we really will make sure that this is what the young people want?

Thank you. We will, as I said earlier, respond to the consultation and we will work with you on this tricky area, because these are definitely amongst some of the most disadvantaged young people in Wales, and we would like to see them have that opportunity to achieve the 501 that most pupils in Wales can achieve post-qualification.

16:03

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Deputy Presiding Officer, I thank Angela Burns for those comments and those thoughtful and constructive points.

I have no concerns around the capacity of the Welsh Government, working with our partners, to handle the consultation. I would say, and you might expect me to say, that I believe consultation is imperative at this point in time, and that this is a priority area for consultation. This is the way we do business in Wales, and I'll go on later in my comments to explain why I think this is a particularly important point in time to commit the resources for consultation.

She's very right to say that there have been some measurable improvements in terms of the educational outcomes for looked-after children across Wales, but they are marginal at best. And what is absolutely stark is that we have an enormous distance to travel if we are to fulfil our aspirations for where looked-after children should be in terms of their educational attainment. As part of my work within this period of consultation, I will also be taking a look—not necessarily travelling myself, but taking a look—at systems across Europe where there are very interesting models that we need to learn from, I think, in terms of better outcomes for looked-after children in other countries in the European Union. There have also been developments in Scotland recently that we may be able to learn from.

Fy sylw olaf, Weinidog, yw bod yr adroddiad 'Lleisiau Coll' yn dweud yn glir iawn bod Cymru wedi bod ar daith eiriolaeth ers dros 10 mlynedd ar ôl cyhoeddi adroddiad Waterhouse, ac eto mae'n dal i fod heb gyfres glir o archwiliadau a gwrthbwsiau i sicrhau bod pob plentyn sydd â hawl i eiriolaeth yn cael cyfle gwirioneddol i gael gafael ar eiriolaeth. Ac rwyf yn gwybod, pan oeddem yn Bwyllgor Cyfle Cyfartal, ein bod wedi edrych yn fanwl iawn ar eiriolaeth, yn enwedig ar gyfer plant ifanc. A wnewch chi os gwelwch yn dda fyfyrrio, os cewch chi, am ychydig eiliadau ar sut y byddwn mewn gwirionedd yn gwneud yn siŵr mai dyma y mae'r bobl ifanc ei eisiau?

Diolch. Byddwn, fel y dywedais yn gynharach, yn ymateb i'r ymgynghoriad a byddwn yn gweithio gyda chi ar y maes anodd hwn, oherwydd y rhain yn bendant yw rhai o'r bobl ifanc mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a byddem yn hoffi eu gweld yn cael y cyfle i gyflawni'r 501 y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng Nghymru'n gallu ei gyflawni ar ôl cymhwyso.

Wel, Ddirprwy Lywydd, hoffwn ddiolch i Angela Burns am y sylwadau yna a'r pwyntiau ystyriol ac adeiladol yna.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch gallu Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â'n partneriaid, i ymdopi â'r ymgynghoriad. Byddwn yn dweud, ac efallai y byddwch yn disgwyl imi ddweud, fy mod yn credu bod ymgynghori'n hanfodol ar hyn o bryd, a bod hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer ymgynghori. Dyma sut yr ydym yn cynnal busnes yng Nghymru, ac af ymlaen yn ddiweddarach yn fy sylwadau i egluro pam yr wyf yn credu bod hon yn adeg arbennig o bwysig i ymrwymo'r adnoddau ar gyfer ymgynghori.

Mae hi yn llygad ei lle i ddweud y bu rhai gwelliannau mesuradwy o ran canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru, ond maent yn ymylol ar y gorau. A'r ffaith hollol blaen yw bod gennym bellter enfawr i'w deithio os ydym am gyflawni ein dyheadau ar gyfer ble y dylai plant sy'n derbyn gofal fod o ran eu cyrhaeddiad addysgol. Yn rhan o fy ngwaith yn y cyfnod ymgynghori hwn, byddaf hefyd yn edrych—nid o reidrydd yn teithio fy hun, ond yn edrych—ar systemau ledled Ewrop lle ceir modelau diddorol iawn y mae angen inni ddysgu oddi wrthynt, yn fy marn i, o ran gwell canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal mewn gwledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd. Bu datblygiadau hefyd yn yr Alban yn ddiweddar y mae'n bosibl y gallem ddysgu oddi wrthynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I echo Angela Burns's concerns around being clear about the views of young people. Yes, we have talked about these issues with young people before, and this comes back to this point around the need for consultation just now. I think that, particularly in a legislative context, this is an important point in time. We have the coming of the new social services legislation, but we also are just beginning to talk about the additional learning needs legislation coming through on the education side. Now, there is considerable overlap in terms of the statistics. I believe that almost exactly two thirds of looked-after children also have some kind of special educational need. So, there needs to be consideration within the construction of that legislation of these issues in an attempt to get that legislation right for this group of young people. I take on board the points about the committee's past work. We do need to recognise that and not for one moment set it aside. There has been a lot of thought put into some of these issues prior to this point. I recognise that absolutely.

She raises concerns over the capacity of the consortia. Well, the consortia—the four of them—I've met with each and every one through what we've called challenge and review events. I have every confidence, actually, that we're in a position where this item of work would be carried through properly by them. The consortia really have travelled a considerable distance in a very short time, and I am confident that we will be in a better situation should the PDG flow through them. The simple fact of the matter is that, at present, PDG for looked-after children flowing to schools is falling foul continually of the sheer mobility of this group of young people. Quite often, by the time the PDG investment has arrived with a headteacher, that child has moved on, their placement has changed, or they've moved to another school—something has changed in their lives. I think taking this to a regional level will give us a more strategic view and allow us to make sure that the resource actually does reach the child.

Ategap bryderon Angela Burns ynglŷn â bod yn glir ynghylch barn pobl ifanc. Ydym, rydym wedi siarad am y materion hyn gyda phobl ifanc o'r blaen, ac mae hyn yn dod yn ôl at y pwynt hwn ynghylch yr angen i ymgynghori nawr. Credaf, yn enwedig mewn cyd-destun deddfwriaethol, fod hon yn adeg bwysig. Mae'r ddeddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol newydd yn dod, ond rydym hefyd yn dechrau siarad am y ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol sy'n dod ym maes addysg. Nawr, mae cryn dipyn o orgyffwrdd o ran yr ystadegau. Credaf fod gan bron yn union ddwy ran o dair o blant sy'n derbyn gofal hefyd ryw fath o angen addysgol arbennig. Felly, wrth adeiladu'r ddeddfwriaeth honno, mae angen ystyried y materion hyn er mwyn ceisio sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn iawn i'r grŵp hwn o bobl ifanc. Rwyf yn derbyn y pwyntiau am waith y pwyllgor yn y gorffennol. Mae angen inni gydnabod hynny ac nid ei osod o'r neilltu am un eiliad. Mae llawer o feddwl wedi ei roi i rai o'r materion hyn yn flaenorol. Rwy'n cydnabod hynny'n llwyr.

Mae hi'n codi pryderon ynghylch gallu'r consortia. Wel, mae'r consortia—y pedwar ohonynt—rwyf wedi cyfarfod â phob un drwy'r hyn yr ydym wedi'i alw'n ddigwyddiadau herio ac adolygu. Mae gennyf bob ffydd, mewn gwirionedd, ein bod mewn sefyllfa lle byddent yn gwneud y darn hwn o waith yn briodol. Mae'r consortia wedi teithio cryn bellter mewn amser byr iawn, ac rwy'n hyderus y byddwn mewn gwell sefyllfa pe byddai'r grant amddifadedd disgyblion yn llifo drwyddynt. Y ffaith syml amdani yw, ar hyn o bryd, bod grant amddifadedd disgyblion i blant sy'n derbyn gofal sy'n llifo i ysgolion yn methu'n barhaus oherwydd symudedd pur y grŵp hwn o bobl ifanc. Yn aml iawn, erbyn i fuddsoddiad y grant amddifadedd disgyblion gyrraedd y pennaeth, mae'r plentyn wedi symud ymlaen, mae ei leoliad wedi newid, neu mae wedi symud i ysgol arall—mae rhywbeth wedi newid yn ei fywyd. Rwy'n credu y bydd symud hyn i lefel ranbarthol yn rhoi darlun mwy strategol inni ac yn ein galluogi i wneud yn siŵr bod yr adnodd yn gyrraedd y plentyn mewn gwirionedd.

16:07

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that very important statement, Minister. Do you agree that any strategy to improve the educational attainment of looked-after children must have due regard to the recently published Care and Social Services Inspectorate Wales report, which says that urgent action is needed to give children in and leaving care the emotional and psychological support they need? This report, which was mentioned earlier this afternoon by Lynne Neagle AM, follows the CSSIW inspection of how authorities fulfil their corporate parenting role. It concludes that agencies need to work together more effectively to deliver important and ambitious outcomes for children in care. I'm sure you will also welcome, along with me, the response of council leaders that said that the findings of this report will help them to improve outcomes for looked-after children.

Diolch am y datganiad pwysig iawn yna, Weinidog. A ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw strategaeth i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal roi sylw dyledus i adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, sy'n dweud bod angen gweithredu ar frys i roi'r cymorth emosiynol a seicolegol sydd ei angen ar blant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal? Mae'r adroddiad hwn, y soniodd Lynne Neagle AC amdano'n gynharach y prynhawn yma, yn dilyn arolygiad AGGCC o sut y mae awdurdodau'n cyflawni eu swyddogaeth rhianta corfforaethol. Mae'n dod i'r casgliad bod angen i asiantaethau gydweithio'n fwy effeithiol i gyflawni canlyniadau pwysig ac uchelgeisiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Rwy'n siŵr y byddwch hefyd yn croesawu, ynghyd â mi, ymateb arweinwyr cynghorau a ddywedodd y bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn eu helpu i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I thank Gwenda Thomas for those insights? And I agree, of course, that we have to have due regard to all the needs of children who are looked after and those who have left care. And that's one of the reasons, of course, for having this joint draft strategy between myself and the Minister for Health and Social Services to ensure that we encompass as holistically as is possible the subject matter that we need to grapple with here. It's very clear, I think, to everyone that only by ensuring effective multi-agency support can we improve this situation. I am aware of the recent CSSIW report, and my officials will be discussing the outcome of that work with CSSIW throughout the consultation period.

A gaf fi ddiolch i Gwenda Thomas am y dirnadaethau yna? Ac rwyf yn cytuno, wrth gwrs, bod yn rhaid inni roi sylw dyledus i holl anghenion plant sy'n derbyn gofal a rhai sydd wedi gadael gofal. A dyna un o'r rhesymau, wrth gwrs, dros gael y strategaeth ddrafft hon ar y cyd rhyngof fi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau ein bod yn cwmpasu'r pwnc y mae angen inni ymdrin ag ef yma mewn modd mor gyfannol â phosibl. Mae'n glir iawn, rwyf yn credu, i bawb mai'r unig ffordd y gallwn wella'r sefyllfa hon yw drwy sicrhau cefnogaeth amlasiantaeth effeithiol. Rwyf yn ymwybodol o adroddiad diweddar AGGCC, a bydd fy swyddogion yn trafod canlyniad y gwaith hwnnw gydag AGGCC drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn i ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Mae'n bwysig ac yn briodol bod y Cynulliad yn trafod y grŵp yma o blant sydd, mewn sawl ffordd, o dan fantais yn gymdeithasol ac yn addysgiadol yn ein cenedl ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, nid oedd yna lawer yn natganiad y Gweinidog. Yr hyn a oedd yno, rwy'n ei groesawu, ond mae'n amlwg bydd yn rhaid inni aros I weld beth sydd yn deillio o'r ymgynghoriad cyn y gallem roi mwy o gig ar rai o'r syniadau sydd gan y Gweinidog.

I would like to thank the Minister for his statement this afternoon. It's appropriate and important that this Assembly does discuss this group of children, who are disadvantaged in many ways, both socially and educationally, in our nation at the moment. Having said that, there wasn't a great deal of content in the Minister's statement. What there was, I welcome, but, clearly, we will have to wait to see what emerges from the consultation before we can put more meat on the bones in terms of the ideas that the Minister's put forward.

Yn y cyd-destun yr ydym ni heddiw yn trafod y mater yma, rwy'n meddwl y dylem hefyd gresynu'r methiant, dros y blynyddoedd, i ddarparu'n briodol ac yn ddigonol, yn enwedig yn addysgiadol, ar gyfer y grŵp yma o blant sy'n derbyn gofal, ac ein bod wedi methu fel rhieni cenedlaethol, fel petai, i'r grŵp yma o bobl ifanc. Ond mae yna rai adroddiadau digon clir yn y gorffennol diweddar sydd wedi dangos y ffordd ymlaen, a hoffwn ofyn i'r Gweinidog ambell i gwestiwn yn seiliedig ar yr hyn y mae'n disgwyl i'r ymgynghoriad ei wneud a'r hyn sydd wedi cael ei argymhell hefyd yn ddiweddar.

In the context in which we are discussing this matter today, I think we should also regret the failure, over the years, to provide adequately and sufficiently, particularly in educational terms, for this group of looked-after children, and that we as corporate parents, as it were, have failed this group of young people. But there are a number of quite clear reports in the recent past that have shown the way forward, and I would like to ask the Minister just a few questions based on what he expects the consultation to do and what has also been recommended recently.

Yn gyntaf oll, fe roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi adrodd tua dwy flynedd yn ôl, ac yn gofyn yn arbennig i weld mwy o gydweithio rhwng y Llywodraeth a rhwng gwahanol adrannau'r Llywodraeth wrth edrych ar ôl plant sy'n derbyn gofal. Rwy'n derbyn bod hwn yn ymgynghoriad a datganiad ar y cyd heddiw, ond hoffwn hefyd wybod pa adrannau eraill o'r Llywodraeth sydd yn rhan o'r broses yma, yn enwedig wrth symud i mewn i'r gwaith gwrthdodi sydd gan y Llywodraeth a gwaith tebyg cymunedol arall. Rwy'n meddwl ei fod yn hynod bwysig ein bod yn gweld bod y Llywodraeth ei hunain yn gwneud yr hyn y mae'n gofyn i bobl eraill ei wneud, sef gweithio'n llawer mwy ar draws y sbectrwm.

First of all, the Wales Audit Office reported some two years ago, and requested particularly more collaboration between Government and different Government departments in taking care of looked-after children. I accept that this is a consultation and a joint statement today, but I would also like to know which other departments of Government are part of this process, particularly as we move into the anti-poverty work carried out by Government and similar community work. I think it's very important that we see the Government itself doing what it is asking others to do, namely to work across the spectrum much more.

Rwyf innau'n rhannu rhai o'r pryderon ynglŷn â symud y gefnogaeth a'r cyllid oddi ar yr ysgol i'r consortia. Nid wyf yn rhannu'r hyder a'r ffydd sydd gan y Gweinidog yn y consortia. Mae yna welliant—oes—ond maen nhw'n dal yn dameidiog iawn ac mae'n dal yn wir, yn fy marn i, fod gan y consortia o hyd dipyn o daith i fynd cyn eu bod yn cyflawni'r hyn y maen nhw i fod i gyflawni, heb sôn am efallai gofyn iddynt wneud y gwaith arbenigol yma, lle y byddwn i'n meddwl bod ysgolion—rwy'n derbyn y pwynt bod plant sy'n derbyn gofal yn symud yn aml iawn—o leiaf yn llawer nes at y bobl ifanc hyn ac yn gwybod yn iawn am y cefndir sydd y tu ôl iddynt.

Yn y cyd-destun hwnnw, wrth gwrs, er bod y Gweinidog yn dweud ei fod yn symud at y lefel consortia, un o'r llefydd lle mae angen gwella yn yr ysgol efallai yw trwy hyfforddiant cychwynnol athrawon a hyfforddiant datblygu proffesiynol athrawon er mwyn adnabod plant sy'n derbyn gofal ac i fod yn gefnogol iddynt ac yn gwybod sut i gefnogi nhw yn gymdeithasol, yn gymunedol, yn emosïynol ac yn addysgiadol, fel maent yn mynd trwy eu taith.

Roeddwn i'n falch o glywed y Gweinidog yn dweud nawr ei fod yn mynd i chwilio am enghreifftiau o arfer da mewn llefydd eraill. Mae hefyd i'w weld yn yr ymgynghoriad, wrth gwrs. Soniodd e am drwy Ewrop—mae hynny'n beth braf i weld—ond soniodd yn benodol am yr Alban, ac, wrth gwrs, mae'r Alban wedi cymryd cam go arbenigol yn y cyd-destun yma, yn enwedig o ran eiriolaeth i blant sy'n derbyn gofal, trwy sicrhau bod yna unigolyn wedi ei enwi a'i ddynodi i bob un plentyn o enedigaeth i 18 yn y cyd-destun hwnnw. Mae hyn wedi arwain at dipyn o drafod yn yr Alban ynglŷn ag ymyrraeth y wladwriaeth, fel petai, ond mae'n sicr yn gwneud yn dda i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal rhywun pendant i fynd ato o ran mynegi unrhyw bryder, neu o ran cael cefnogaeth, neu o ran eiriolaeth yn fwy cyffredinol.

Felly, rwy'n gobeithio y byddai'r Gweinidog yn edrych ar y patrwm yna yn yr Alban ac, yn wir, ymateb heddiw ar ba fath o syniadau sydd yn apelio ato fe, fel petai.

Y peth olaf i ddweud yn y cyd-destun ynglŷn â chonsortia yw: a yw'n teimlo bod angen unrhyw beth pellach o ran y canllawiau, neu gefnogaeth, neu anogaeth benodol yn awr, i sicrhau bod yr elfen yma o'r grant amddifadedd plant yn cael ei weithredu'n llawn ac yn iawn mewn modd efallai nad yw wedi cael ei gyflawni yn y gorffennol?

I also share some of the concerns about shifting the support and funding from the schools to the consortia. I don't share the Minister's confidence in the consortia. There has been improvement—yes—but it's still very patchy and it remains true, in my view, that the consortia still have some way to go before they achieve what they are supposed to achieve, never mind asking them to take on this expert role, where I would have thought that schools—I accept the point that looked-after children move frequently—are at least much closer to these young people and know exactly what their backgrounds are.

In that context, of course, although the Minister has said that he's moving towards the consortia level, one of the areas where we need improvement in schools perhaps is in initial teacher training and continuing professional development for teachers in order to identify looked-after children and to provide support to them and to know how to support them socially, on a community basis, emotionally, and educationally, as they proceed through education.

I was pleased to hear the Minister say now that he is going to seek examples of best practice elsewhere. It is also included in the consultation, of course. He mentioned throughout Europe—which is great to see—but mentioned specifically Scotland, and, of course, Scotland has taken a particular step forward in this area, particularly in terms of advocacy for looked-after children, by ensuring that there are designated named individuals for each and every child from birth to the age of 18 in that context. That's led to a great deal of discussion in Scotland about state intervention, as it were, but certainly it does go some way towards ensuring that looked-after children and young people have an individual they can approach in terms of expressing concerns, seeking support, or in terms of advocacy more generally.

So, I hope that the Minister will look at the Scottish model and, indeed, respond today on the kind of ideas that he favours, perhaps.

The final thing to say in the context of the consortia is: does he feel that anything else is needed in terms of guidance, or support, or specific encouragement now, to ensure that this element of the pupil deprivation grant is fully implemented and properly implemented in a way that hasn't perhaps been achieved in the past?

I thank Simon Thomas for those comments. I think, Deputy Presiding Officer, he's a little unfair in terms of criticising the content. This is, after all, an invitation to others to express their views. I could have filled the document with proposed content and run all over it with my tackety boots as a Minister. I do have enthusiasms and proposals that I would like to see discussed, but this document sparks a consultation that is, of course, for everyone. It is clear, and I think I'm right in saying, that this is probably the first time that we'll have a national conversation on the issue of a specific focus on the education of looked-after children. We will follow through in terms of this strategy by producing an action plan, which we will then get on with. We will be holding agencies to account in terms of how they address their role in delivering better outcomes for these young people. It is, from the outset, a commitment to a holistic, systematic approach.

In terms of some of the other points that Simon Thomas has raised, I will, perhaps, have to be drawn into some of my own views and suggestions for consideration on one or two points. He mentions the Wales Audit Office report. Yes, of course, we have to have a mind to the beam in our own eye in terms of cross-Governmental co-operation, and the Minister for Health and Social Services and I will be working very hard at that.

But he is quite right also to say that there are implications here and, indeed, good practice to learn from and build on in terms of some of the work that's gone on through the IFSS working and the team-around-the-family type set-ups that are out there in communities at the moment and go beyond local government and social services into voluntary sector action, too. So, there is a role, he is quite right, for the anti-poverty agenda, and there is stuff to learn from the way the anti-poverty agenda has progressed.

I don't share his concerns around the consortia in terms of the flow of the PDG. This is not a question of the consortia having to develop expertise in the issues surrounding looked-after children. Their job will be to get the money to the child. What we have at the moment is a system whereby children are moving, very regularly and often, and an individual school does not have an overview of that child's movement, and they're receiving a PDG payment for a child who may have moved on in the middle of the previous term. The consortia, having a regional view, will be able to much better, I believe, keep track of those young people and, working with the local authorities, make sure that they don't miss out on the extra resource that is their due.

Diolch i Simon Thomas am y sylwadau yna. Rwyf yn meddwl, Ddirprwy Lywydd, ei fod ychydig yn annheg o safbwynt beirniadu'r cynnwys. Wedi'r cyfan, gwahoddiad yw hwn i bobl eraill i fynegi eu barn. Gallwn fod wedi llenwi'r ddogfen gyda chynnwys arfaethedig a rhedeg drosti gyda fy esgidiau hoelion mawr fel Gweinidog. Rwyf yn frwdfrydig am rai pethau ac mae gennyf gynigion yr hoffwn iddynt gael eu trafod, ond mae'r ddogfen hon yn sbarduno ymgynghoriad sydd, wrth gwrs, i bawb. Mae'n glir, ac rwyf yn meddwl fy mod yn gywir i ddweud, mai dyma yn ôl pob tebyg yw'r tro cyntaf y cawn sgwrs genedlaethol am bwyslais penodol ar addysg i blant sy'n derbyn gofal. Byddwn yn dilyn y strategaeth hon drwy gynhyrchu cynllun gweithredu, y byddwn yna'n bwrw ymlaen ag ef. Byddwn yn dwyn asiantaethau i gyfrif ynglŷn â sut y maent yn cyflawni eu swyddogaeth o ran darparu gwell canlyniadau i'r bobl ifanc hyn. Mae, o'r cychwyn cyntaf, yn ymrwymiad i ddull cyfannol, systematig.

O ran rhai o'r pwyntiau eraill a gododd Simon Thomas, efallai y bydd yn rhaid imi gyfeirio at rai o fy sylwadau ac awgrymiadau i'w hystyried fy hun ar un neu ddau o bwyntiau. Mae'n sôn am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Oes, wrth gwrs, mae'n rhaid inni gadw golwg ar y trawst yn ein llygad ein hunain o ran cydweithio trawslywodraethol, a bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau'n gweithio'n galed iawn ar hynny.

Ond mae'n hollol gywir hefyd i ddweud bod goblygiadau yma ac, yn wir, arfer da i ddysgu oddi wrtho ac adeiladu arno o ran rhywfaint o'r gwaith sydd wedi'i wneud drwy waith y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r cynlluniau math tîm o gwmpas y teulu sydd ar gael mewn cymunedau ar hyn o bryd ac sy'n mynd y tu hwnt i lywodraeth leol a gwasanaethau cymdeithasol i weithredu gan y sector gwirfoddol, hefyd. Felly, mae yna le, mae'n hollol iawn, i'r agenda gwrthloddi, ac mae pethau i'w dysgu o'r ffordd y mae'r agenda gwrthloddi wedi symud ymlaen.

Nid wyf yn rhannu ei bryderon ynghylch y consortia o ran llif y grant amddifadedd disgyblion. Ni fydd yn rhaid i'r consortia ddatblygu arbenigedd mewn materion sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Eu gwaith nhw fydd sicrhau bod yr arian yn cyrraedd y plentyn. Yr hyn sydd gennym ar hyn o bryd yw system lle mae plant yn symud, yn rheolaidd iawn ac yn aml, ac nid oes gan ysgol unigol drosolwg o symudiad y plentyn hwnnw, ac mae'n yn cael taliad grant amddifadedd disgyblion ar gyfer plentyn a allai fod wedi symud ymlaen yng nghanol y tymor blaenorol. Bydd y consortia, drwy gymryd golwg rhanbarthol, mewn sefyllfa lawer gwell, yn fy marn i, i wybod ble mae'r bobl ifanc hynny a, drwy gydweithio ag awdurdodau lleol, gwneud yn siŵr nad ydynt yn colli'r adnodd ychwanegol sy'n ddyledus iddynt.

He is absolutely right to be concerned about initial teacher training and continuing professional development. This is, again, an area that is very timely. We will soon have John Furlong's report into ITT. I don't want to steal his thunder, but it will signal a fundamental shift in terms of what we expect from teacher training in Wales. We also, almost simultaneously, have the opening up of the debate around the new curriculum through Graham Donaldson's report, and I don't think I'm giving any hostages to fortune if I say that, as part of that, there will need to be, for instance, a complete reworking of personal, social, health and economic education in schools, and a rethink about pastoral support of all kinds as it's delivered by schools—and there is an issue. There is an issue in terms of the skills of the teaching workforce in these areas, which can be very involved and can be multifaceted. There is quite often in a school no designated person with expertise in a particular area to lock the actions of the school into the wider package around, in this instance, a looked-after child, although there are various groups of children for whom you could say the same. I think that needs an overhaul. I think we need to rethink how we deliver pastoral support in schools and that we need to tie that in from the very beginning with our overhaul of initial teacher training.

Mae yn llygad ei le i bryderu am hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hwn, unwaith eto, yn faes sy'n amserol iawn. Cyn bo hir, bydd gennym adroddiad John Furlong ar HCA. Nid wyf am ddwyn ei glodydd, ond bydd yn arwydd o newid sylfaenol o ran yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan hyfforddiant athrawon yng Nghymru. Rydym hefyd, bron ar yr un pryd, yn gweld dechrau'r ddadl ynglŷn â'r cwricwlwm newydd drwy adroddiad Graham Donaldson, ac nid wyf yn meddwl fy mod yn creu unrhyw wystl ffawd drwy ddweud, yn rhan o hynny, y bydd angen, er enghraifft, aildrefnu addysg bersonol, gymdeithasol, iechyd ac economaidd mewn ysgolion yn llwyr, ac ailfeddwl ynghylch cymorth bugeiliol o bob math fel y caiff ei ddarparu gan ysgolion—ac mae yna broblem. Mae yna broblem o ran sgiliau'r gweithlu addysgu yn y meysydd hyn, sy'n gallu bod yn ddwys iawn ac yn amlochrog. Yn aml iawn, ni fydd gan ysgol unigolyn penodedig ag arbenigedd mewn maes penodol i gloi gweithredoedd yr ysgol i mewn i'r pecyn ehangach o gwmpas hynny, yn yr achos hwn, plentyn sy'n derbyn gofal, er y gallech ddweud yr un peth am amryw o grwpiau o blant. Credaf fod angen ailwampio hynny. Rwy'n credu bod angen inni ailfeddwl sut yr ydym yn darparu cymorth bugeiliol mewn ysgolion a bod angen inni sicrhau bod hynny'n cyd-fynd o'r cychwyn cyntaf â'n hailwampiad o hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

- 16:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Aled Roberts. Aled Roberts.
- 16:20 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I beg your pardon. Mae'n ddrwg gennyf.
- 16:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You still continue. Go on. Chi sydd i barhau. Ewch ymlaen.
- 16:20 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Just very briefly. Yes, of course we'll take a look at the Scottish case, although I understand the designated person debate was rather lively and wasn't without issues. Of course, in terms of the pupil deprivation grant, at all stages, in all strands of the pupil deprivation grant, I am very keen to ensure that it goes where it is meant to go and does what it is meant to do. Dim ond am gyfnod byr iawn. Gwnawn, wrth gwrs y gwnawn edrych ar achos yr Alban, er fy mod ar ddeall bod y ddadl person penodedig braidd yn fywiog ac nad oedd heb broblemau. Wrth gwrs, o ran y grant amddifadedd disgyblion, ar bob cam, ym mhob elfen o'r grant amddifadedd disgyblion, rwyf yn awyddus iawn i sicrhau ei fod yn mynd i ble y bwriedir iddo fynd ac yn gwneud yr hyn y bwriedir iddo ei wneud.
- 16:20 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
A gaf i ddweud, wrth agor, nad wy'n meddwl bod yr un Aelod Cynulliad yma sy'n gwrthwynebu yr uchelgais? Rwy'n meddwl bod pob un ohonom ni yn meddwl bod pob plentyn yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sydd mewn gofal, yn haeddu yr addysg orau. Wrth gwrs, un pwynt rwyf eisiau ei wneud ydy bod yna strategaeth flaenorol wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2007. Felly, beth rwy'n gofyn ydy a oes yna ddadansoddiad wedi cymryd lle cyn ichi agor yr ymgynghoriad yma ynglŷn â methiant y strategaeth yn 2007, 'Towards a Stable Life and a Brighter Future'? Os ydym ni yma ymhen rhyw wyth mlynedd eto, efo'r un problemau, yr un uchelgais wedi methu, y plant yna yn ystod yr wyth mlynedd fydd wedi dioddef. Felly, rwy'n rhannu ac yn cefnogi pob gair sydd yn y datganiad, ond rwy'n gofyn a oes yna unrhyw ddadansoddiad ynglŷn â methiant y strategaeth flaenorol. May I say, in opening, that I don't think that there's one Assembly Member here who opposes this ambition? I think that all of us believe that every child in Wales, including those who are looked after, deserves the best education. However, one point that I do wish to make is that a previous strategy was published by the Welsh Government in 2007. What I'm asking is whether any analysis was carried out before you went out to consultation of the failure of that 2007 strategy, 'Towards a Stable Life and a Brighter Future'? If we are still here in some eight years' time with the same problems, and the same ambition having failed, it will be those children during those eight years who will have suffered. Therefore, I share and support every word within the statement, but I do ask whether there has been any analysis of the failure of the previous strategy.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith eich bod chi wedi mynegi y prynhawn yma fod 60% o blant mewn gofal hefyd efo anghenion addysg arbennig. Wrth gwrs, bydd yna raid inni adlewyrchu'r strategaeth newydd yma a'r dadansoddiad newydd yma yn y ddeddfwriaeth. A gaf i hefyd ofyn i chi ynglŷn â rhai o'r adroddiadau rwyf wedi'u darllen gan yr arolygaeth gwasanaethau cymdeithasol? Mae yna thema gyffredin ymron i bob un o'r arolygon sydd wedi cael eu cyhoeddi gan yr arolygaeth. Mae'n dweud ei bod hi'n amhosib inni wella cyrhaeddiad plant mewn gofal heblaw ein bod ni yn y lle cyntaf yn delio â'u hanawsterau emosïynol nhw a rhai o'r problemau iechyd meddwl. Felly, wrth ystyried beth rŷm ni wedi bod yn ei drafod y prynhawn yma ynglŷn â'r drafodaeth yn y pwyllgor plant, rŷch chi'n ymwybodol bod nifer ohonom ni'n pryderu ynglŷn â'r gwasanaeth CAMHS. Rwy'n gofyn i chi fanylu ar ba wella y bydd yna ar y gwasanaeth yna cyn inni ddisgwyl i'r ysgolion wella cyrhaeddiad plant.

Rwyf hefyd yn meddwl bod yna bryderon ynglŷn â rhai o'r canlyniadau yn yr adroddiadau yma ynglŷn â'r ffaith mewn bron pob cyngor sydd wedi cael ei arolygu, rŷm ni'n gweld sefyllfa lle mae y cyfrifoldebau rhiant corfforaethol yn cael eu cyfyngu i wasanaethau cymdeithasol o fewn y cyngorau yna. Rwy'n meddwl bod yna beryg wrth ichi newid y gyfundrefn i'r rhanbarthau a'r consortia, o achos yn y pen draw rŷch chi'n newid y cyfrifoldeb i gorff sydd jest yn ymwneud ag addysg, wrth gofio bod y strwythur i gyd o ran cydlynnyddion corfforaethol, cydlynnyddion plant mewn gofal yn aros yn y cyngorau lleol. Felly, rwy'n gweld bod yna angen i'r arian symud, a bod yna angen inni gael rhyw fath o drosolwg strategol o ran y plant yma, ond rwy'n meddwl bod yna ddiffyg o ran y gwahaniaethu rhwng y cyngorau a'r consortia rhanbarthol. Rwy'n gobeithio nad dyna fydd yr achos, o achos mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bod y newidiadau yma'n dod i rym o fis Ebrill ymlaen.

Wrth orffen, a gaf i jest ofyn i chi ynglŷn â sut ydych chi'n mynd i fonitro? Mae'r papur ymgynghorol yn gyffredin iawn yn dweud ein bod yn gobeithio—'we expect'—ond wrth gwrs, mae'r strategaeth flaenorol yn llawn o eiriau fel 'we expect'. Yn y pen draw, rŷm ni yma, wyth mlynedd ar ôl hynny, ac mae'r gobeithion yna wedi'u chwalu.

Felly, rwy'n gofyn i chi sut ydych chi'n mynd i fonitro'r gwelliant o ran perfformiad yr ydych chi'n awyddus i'w weld? A gaf i hefyd jest ofyn un cwestiwn olaf ynglŷn â'r paragraff ar y tudalen olaf sydd yn sôn am ymestyn y grant amddifadedd ar gyfer plant sydd yn mynd y tu draw i'r gyfundrefn gofal ac sydd wedi cael eu mabwysiadu? A fydddech chi'n rhoi arian ychwanegol i mewn i'r grant amddifadedd, felly, os ydych chi'n dweud eich bod chi'n awyddus i weld—? Mae'n dweud yma:

'we are building flexibility into the terms and conditions of the grant arrangements to enable consortia to support interventions aimed at former looked after children who have been adopted.'

Felly, rydych chi'n ymestyn nifer y plant sydd yn dod o dan reolaeth y grant amddifadedd.

I also welcome the fact that you've expressed this afternoon that 60% of looked-after children also have special educational needs. We will, of course, have to reflect this new strategy and this new analysis in the legislation coming forward. May I also ask you about some of the reports that I have read by the social services inspectorate? There is a common theme in almost every one of the inspection reports that have been published by the inspectorate. It states that it's impossible for us to improve the attainment of looked-after children unless we, in the first instance, deal with their emotional difficulties and some of the mental health issues. So, in considering what we've been discussing this afternoon in terms of the discussion in the children's committee, you'll be aware that many of us are concerned about the CAMHS service. I do ask you to elaborate on what improvement there will be to that service before we can expect schools to improve children's attainment.

I also think that there are concerns in terms of some of the outcomes in those reports relating to the fact that in almost every council that has been inspected, we're seeing a situation where the corporate parental responsibilities are restricted to the social services departments within those councils. I think that there is a in changing the system to one of regions and consortia in that, ultimately, you are changing that responsibility to a body that deals only with education, bearing in mind that the entire structure in terms of corporate co-ordinators and co-ordinators of looked-after children remains within the local councils. So, I see that there is a need for the funding to move, and that there is a need for us to take some kind of strategic overview for these children, but I do think that there is a deficiency in terms of the differentiation between the councils and the regional consortia. I do hope that that will not be the case because the Welsh Government has decided that these changes will take place from April onwards.

In concluding, may I just ask how you are going to do the monitoring? The consultation paper states, in very general terms, 'we expect', but of course the previous strategy is full of words like 'we expect'. Ultimately, we are here eight years hence and those hopes have been destroyed.

So, I'm just asking you how you're going to monitor the improvement in terms of the performance that you are keen to see? May I also just ask one final question about the paragraph on the final page that talks about extending the pupil deprivation grant for children who are outwith the care system and who have been adopted? Will you be putting additional funding into the PDG, therefore, if you say that you're eager to see—? It says here:

'rydym yn ymgorffori hyblygrwydd yn nhelerau ac amodau'r trefniadau grant i alluogi consortia i gefnogi ymyraethau sydd â'r nod o gynorthwyo plant a oedd yn arfer derbyn gofal ac sydd wedi cael eu mabwysiadu.'

So, you're extending the number of children who fall under the auspices of the PDG.

Deputy Presiding Officer, I thank Aled for those points. We haven't forgotten about the strategy of 2007 and, indeed, it took us forward. I have described, and so have others here this afternoon, that there have been improvements since then, although I think everyone would share the disappointment at just how great those improvements were. All I can say is that I reiterate we are at a point in time where we have opportunities now to grapple with issues that perhaps we could not have done in 2007, not least the legal implications of the landscape around the additional learning needs Bill and what is expected in law. We are also about to embark, as I say, on a profound overhaul of teacher training and curriculum reform, as well as that ALN Bill. So, there are multiple forces coming together at this point, which make this a very important point in time to get these issues right for this group of young people.

He's right to talk about the importance of emotional and mental health. The link with CAMHS is going to be absolutely critical to all this. But, you know, I repeat that I think, within schools themselves, we need a greater reservoir of expertise in terms of teaching professionals understanding these issues and being able to link in properly with the wider support network that needs to be there around the child.

In terms of the regional consortia, I'm hoping very much there's been a misunderstanding here in terms of the role of the regional consortia. All I am asking the regional consortia to do is channel the PDG for looked-after children. I am not asking them to strategise or deliver anything complex. They are simply a delivery mechanism to get the PDG to the right school. What we're finding at the moment is that, because so many of these children move across local authority boundaries, local authorities are losing them, or at least the school is losing them, and the money is not flowing quickly enough and not actually reaching the headteacher for that child. So, it's no more than that. I'm not taking any of local government's responsibilities as corporate parent away from them. In fact, we need to better describe their role as corporate parent and be much more rigorous, in my view, about what is expected.

Of course there will be monitoring. That's part of the consultation. We need to make sure that this system hangs together, and that the right people are held to account. We may need to talk, as the consultation unfolds, about targets, and, of course, I've already mentioned changes in law and in guidance, which will no doubt arise as recommendations for the action plan that will follow the strategy.

Oh, and the final point—yes, on adopted children, I will ensure the resource is there.

Ddirprwy Lywydd, diolchaf i Aled am y pwyntiau yna. Nid ydym wedi anghofio am strategaeth 2007 ac, yn wir, aeth â ni yn ein blaenau. Rwyf wedi disgrifio, fel eraill yma y prynhawn yma, y bu gwelliannau ers hynny, er fy mod yn credu y byddai pawb yn rhannu'r siom wrth yn union pa mor fawr oedd y gwelliannau hynny. Y cyfan y gallaf ei ddweud yw fy mod yn ailadrodd ein bod ar adeg lle mae gennym gyfleoedd nawr i ymdrin â materion na fyddem o bosibl wedi gallu ymdrin â hwy yn 2007, yn anad dim goblygiadau cyfreithiol y dirwedd o amgylch y Bil anghenion dysgu ychwanegol a'r hyn a ddisgwyllir yn ôl y gyfraith. Rydym hefyd ar fin dechrau, fel y dywedais, ailwampiad trwyadl o hyfforddiant athrawon a diwygiad o'r cwricwlwm, yn ogystal â'r Bil ADY hwnnw. Felly, mae llawer o rymoedd yn dod at ei gilydd yn y fan hon, sy'n gwneud hon yn adeg bwysig iawn i gael y materion hyn yn iawn i'r grŵp hwn o bobl ifanc.

Mae'n iawn i sôn am bwysigrwydd iechyd emosiynol a meddyliol. Mae'r cyswllt gyda CAMHS yn mynd i fod yn gwbl allweddol i hyn i gyd. Ond, wyddoch chi, dywedaf eto fy mod yn credu, o fewn ysgolion eu hunain, bod arnom angen cronfa fwy o arbenigedd o ran gweithwyr addysgu proffesiynol sy'n deall y materion hyn ac sy'n gallu cysylltu'n briodol â'r rhwydwaith cymorth ehangach sydd ei angen o amgylch y plentyn.

O ran y consortia rhanbarthol, rwy'n gobeithio'n fawr iawn bod camddealltwriaeth wedi bod yma o ran swyddogaeth y consortia rhanbarthol. Y cyfan yr wyf yn gofyn i'r consortia rhanbarthol ei wneud yw sianelu'r grant amddifadedd disgyblion i blant sy'n derbyn gofal. Nid wyf yn gofyn iddynt lunio strategaethau na chyflawni unrhyw beth cymhleth. Dim ond mecanwaith cyflawni ydynt er mwyn i'r grant amddifadedd disgyblion gyrraedd yr ysgol gywir. Yr hyn yr ydym yn ei weld ar hyn o bryd yw, oherwydd bod llawer o'r plant hyn yn symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol, bod awdurdodau lleol yn eu colli, neu o leiaf mae'r ysgol yn eu colli, ac nad yw'r arian yn llifo'n ddigon cyflym ac nad yw'n cyrraedd pennaeth y plentyn hwnnw mewn gwirionedd. Felly, nid yw'n ddim mwy na hynny. Nid wyf yn cymryd unrhyw gyfrifoldebau llywodraeth leol fel rhiant corfforaethol i oddi arnynt. Yn wir, mae angen inni ddisgrifio'n well eu swyddogaeth fel rhiant corfforaethol a bod yn llawer mwy trwyadl, yn fy marn i, am yr hyn a ddisgwyllir.

Wrth gwrs fe fydd monitro. Mae hynny'n rhan o'r ymgynghoriad. Mae angen inni wneud yn siŵr bod pob rhan o'r system hon yn gweithio gyda'i gilydd, a bod y bobl iawn yn cael eu dwyn i gyfrif. Efallai y bydd angen inni siarad, wrth i'r ymgynghoriad fynd yn ei flaen, am dargedau, ac, wrth gwrs, rwyf eisoes wedi sôn am newidiadau i'r gyfraith ac i ganllawiau, a fydd yn siŵr o godi fel argymhellion i'r cynllun gweithredu a fydd yn dilyn y strategaeth.

O, a'r pwynt olaf—gwnaif, ar blant sy'n cael eu mabwysiadu, fe wnaf sicrhau bod yr adnodd ar gael.

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Just a few quick points. I think it's very good that this is a joint statement, because it's absolutely essential that all the needs of the children who are being looked after are taken into account. I think we all know that, for all children, the links between home and school are usually a key to academic success in particular. So, when children are moving around in the way that we've heard described here this afternoon, it's absolutely essential that we do have those links.

I just want to make a few points. I wondered whether you could respond to the fact that many older children may not wish to be identified as being children who are looked after, because there is still a stigma in many people's minds about being looked after—amongst many children's minds. I wondered how you would deal with that sort of issue, or whether you had thought about that. I know that the issue of children who have got special learning needs or other special needs has been raised here this afternoon. But I also wanted to raise the issue of, you know—. Cardiff Council has responsibility for quite a high number of unaccompanied asylum-seekers, who are additionally vulnerable. Although I think the CSSIW report said that those children had good support in schools, there was often a problem when they went on beyond the schools to further or higher education. This was identified by the young people themselves. Finally, the point that has come over, I think, very clearly is that it is the voices of the children that must be listened to.

Dim ond ambell bwynt cyflym. Rwy'n credu ei bod yn dda iawn mai datganiad ar y cyd yw hwn, oherwydd mae'n gwbl hanfodol bod holl anghenion y plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hystyried. Rwy'n credu ein bod i gyd yn gwybod, i bob plentyn, bod y cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol fel arfer yn allweddol i lwyddiant academaidd yn arbennig. Felly, pan fydd plant yn symud o gwmpas yn y ffordd yr ydym wedi'i chlywed yn cael ei disgrifio yma y prynhawn yma, mae'n gwbl hanfodol bod gennym y cysylltiadau hynny.

Hoffwn wneud rhai pwyntiau. Roeddwn yn meddwl tybed a allech ymateb i'r ffaith bod llawer o blant hŷn efallai nad ydynt yn dymuno cael eu henwi fel plant sy'n derbyn gofal, oherwydd mae stigma ym meddyliau llawer o bobl o hyd am dderbyn gofal—ymhlith meddyliau llawer o blant. Roeddwn yn meddwl tybed sut y byddech yn ymdrin â'r math hwnnw o beth, neu ba un a oeddech wedi meddwl am hynny. Gwn fod mater plant sydd ag anghenion dysgu arbennig neu anghenion arbennig eraill wedi cael ei godi yma y prynhawn yma. Ond roedd arnaf hefyd eisiau codi mater, wyddoch chi—. Mae Cyngor Caerdydd yn gyfrifol am nifer eithaf uchel o geiswyr lloches digwmni, sydd hefyd yn agored i niwed. Er fy mod yn meddwl bod adroddiad AGGCC yn dweud bod y plant hynny'n cael cefnogaeth dda mewn ysgolion, roedd problem yn aml yn codi wrth iddynt fynd ymlaen y tu hwnt i'r ysgolion i addysg bellach neu uwch. Cafodd hyn ei nodi gan y bobl ifanc eu hunain. Yn olaf, y pwynt sydd wedi dod yn amlwg, rwyf yn meddwl, yn glir iawn yw mai ar leisiau'r plant y mae'n rhaid gwranddo.

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, on that final point, of course, Julie Morgan is quite right. We will all need to be on our guard throughout this process to put the voice of the young person at the centre of our thinking. She's right to stress the home-school link as being absolutely central, and, of course, the upheaval that many of these young people have faced can have these devastating impacts, as we know, on their future prospects.

In terms of identification of older children, in particular, it should be the case already, of course, that there are good practices in place to ensure that young people are not being stigmatised as looked-after children. But, I would be very interested to talk about ways, during the consultation, in which we can make that clearer, if it needs to be made clearer, or tighten up procedures around that issue of stigma.

In terms of unaccompanied asylum seekers, here is a particular group that we will need to consider as part of the consultation. I know it is the case that higher education in Wales has moved forward—well, it has made great strides in terms of support for formerly looked-after children now approaching adulthood or who are adults. The Buttle charter mark has been achieved by every single HE institution in Wales. FE, on the other hand, has a little way to go yet, and we need to have a conversation as part of this consultation about how we accelerate things in further education. I have already spoken about the recognition that I have that capacity in schools needs to be boosted too.

Wel, ar y pwynt olaf, wrth gwrs, mae Julie Morgan yn llygad ei lle. Bydd angen i bob un ohonom fod yn wylidwrs drwy gydol y broses hon i sicrhau bod llais y person ifanc wrth wraidd ein ffordd o feddwl. Mae hi'n iawn i bwysleisio'r cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol fel un hollol ganolog, ac, wrth gwrs, mae'r cynnwrf y mae llawer o'r bobl ifanc hyn wedi'i wynebu'n gallu cael yr effeithiau dinistriol hyn, fel y gwyddom, ar eu rhagolygon yn y dyfodol.

O ran adnabod plant hŷn, yn enwedig, dylai fod yn wir eisoes, wrth gwrs, bod arferion da ar waith i sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu stigmateiddio fel plant sy'n derbyn gofal. Ond, byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn siarad am ffyrdd, yn ystod yr ymgynghoriad, y gallwn wneud hynny'n gliriach, os oes angen ei wneud yn gliriach, neu dynhau'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r mater stigma hwnnw.

O ran ceiswyr lloches digwmni, dyma grŵp penodol y bydd angen inni ei ystyried yn rhan o'r ymgynghoriad. Rwyf yn gwybod ei bod yn wir bod addysg uwch yng Nghymru wedi symud ymlaen—wel, mae wedi cymryd camau mawr o ran cymorth i blant a oedd yn arfer derbyn gofal ac sydd nawr yn oedolion, neu bron â bod yn oedolion. Mae pob un sefydliad AU yng Nghymru wedi cyflawni marc siarter Buttle. Mae gan AB, ar y llaw arall, ychydig o ffordd i fynd eto, ac mae angen inni gael sgwrs yn rhan o'r ymgynghoriad hwn am sut y byddwn yn cyflymu pethau ym maes addysg bellach. Rwyf eisoes wedi siarad am y ffaith fy mod yn cydnabod bod angen hybu'r gallu hwn mewn ysgolion hefyd.

16:33	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	And last, but certainly not least, Ann Jones. Ac yn olaf, ond yn sicr nid yn lleiaf, Ann Jones.	
16:33	Ann Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Deputy Presiding Officer, most of the points that I was going to make have been covered by the excellent members of my Children, Young People and Education Committee. So, I will defer and take some points into the consultation. Ddirprwy Lywydd, mae'r rhan fwyaf o'r pwyntiau yr oeddwn yn mynd i'w gwneud wedi cael sylw gan aelodau ardderchog fy Mhwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Felly, gohiriaf ac af â rhai o'r pwyntiau i mewn i'r ymgynghoriad.	
16:33	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Thank you. Thank you, Minister. Diolch i chi. Diolch, Weinidog.	
16:33	6. Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau	6. Statement: Update on Joint Working with the Department for Work and Pensions Y Senedd.tv Fideo Video
	Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	
	We move then to item 6, which is a statement by the Deputy Minister for Skills and Technology—an update on joint working with the Department for Work and Pensions. I call Julie James.	Symbudwn ymlaen felly at eitem 6, sef datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg—y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Galwaf Julie James.
16:33	Julie James Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology</i>	
	Thank you, Deputy Presiding Officer. I very much welcome the opportunity to provide an update on the work currently being undertaken between the Welsh Government and the UK Government to better align the employment and skills services that support job-seekers in Wales. As a substantial policy area devolved to the Welsh Government, skills have a major impact on both the economic and social wellbeing of Wales. Together with policy action to support the employability of individuals, skills provide a strong lever for tackling poverty and strengthening the creation of jobs and growth. Despite this, one of the key challenges we continue to face is the fact that a number of employment policy matters remain the responsibility of central Government, through the Department for Work and Pensions. In order to be fully effective, we must clearly take action to join up our devolved responsibilities with those reserved at the UK level. As many of you are no doubt keenly aware, this challenge has been crystallised since the introduction of the Department for Work and Pensions' flagship employment initiative, the Work Programme.	Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyd-drefnu'n well y gwasanaethau cyflogaeth a sgiliau i gynorthwyo ceiswyr swyddi yng Nghymru. Mae hwn yn faes polisi sylweddol sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ac mae sgiliau'n cael effaith fawr ar les economaidd a chymdeithasol Cymru. Yngghyd â chymau polisi i gefnogi cyflogadwyedd unigolion, mae sgiliau'n ysgogiad cryf i drechu tlodi ac atgyfnerthu creu swyddi a thwf. Er gwaethaf hyn, un o'r heriau allweddol yr ydym yn dal i'w hwynebu yw'r ffaith bod Llywodraeth ganolog yn dal i fod yn gyfrifol am nifer o faterion polisi cyflogaeth, drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau. Er mwyn bod yn gwbl effeithiol, mae'n rhaid inni gymryd camau clir i gydgyssylltu ein cyfrifoldebau datganoledig â'r rhai a gadwyd ar lefel y DU. Fel yr wyf yn siŵr y mae llawer ohonoch yn gwybod yn iawn, mae'r her hon wedi ei chrisialu ers cyflwyno menter gyflogaeth flaenllaw'r Adran Gwaith a Phensiynau, y Rhaglen Waith.
	The ongoing challenge relates primarily to the need to demonstrate added value for Welsh Government in European social fund-funded skills provision, and ensure there is no overlap or duplication in funding coming into the system from different Governments. We have a common aim with the DWP, to support individuals in Wales who are seeking work and to fulfil their ambition of gaining sustained employment. We want to ensure jobseekers in Wales have access to the widest range of help available, and we therefore need to work with the DWP to simplify access to respective employment and skills programmes.	Mae hon yn her sy'n parhau, ac yn un sy'n ymwneud yn bennaf â'r angen i ddangos gwerth ychwanegol i Lywodraeth Cymru o ran darpariaeth sgiliau a ariennir gan gronfa gymdeithasol Ewrop, a sicrhau nad oes dim gorgyffwrdd neu ddyblygu cyllid yn dod yn rhan o'r system o du gwahanol Lywodraethau. Mae gennym nod yn gyffredin â'r Adran Gwaith a Phensiynau, i gefnogi unigolion yng Nghymru sy'n chwilio am waith ac i gyflawni eu huchelgais o gael gwaith cyson. Rydym am sicrhau bod yr ystod fwyaf o gymorth ar gael i geiswyr gwaith yng Nghymru, ac felly mae angen inni weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i symleiddio mynediad i raglenni cyflogaeth a sgiliau perthnasol.

In November 2013, the Welsh Affairs Committee published a report focusing on the operation of the Work Programme in Wales and made several recommendations that required active collaboration between the DWP and the Welsh Government. In response to these recommendations, which focused quite clearly around the issue of access to Welsh Government and ESF-funded provision for Work Programme participants, my predecessor and the Minister of State for Employment jointly agreed to establish a working group that would be charged with seeking practical solutions to the problem. The access to employment working group has met on several occasions to discuss this and a number of other related issues. The engagement has been extremely positive and some significant agreements have already been reached, including the introduction of the skills conditionality project, which has been designed to further test mandation for jobseekers with an identified essential skill need, and provide Welsh Ministers with additional evidence to make a definitive decision in relation to skills conditionality provision in Wales. We have also affirmed access to apprenticeship opportunities for Work Programme participants within the eligible age range and provided the working group the opportunity to influence issues such as the Welsh Government's footprint for European social fund delivery and the development of our new adult employability programme, which will operate from September this year.

Despite these positive moves, we remain challenged by the nature of the Work Programme contracts and our inability to determine where we can demonstrate added value through integration with our own programmes and investment. The Welsh Government has persistently sought greater clarity from the DWP around the nature of the delivery within the Work Programme to understand whether there are opportunities to better align the support available. I'm very pleased, therefore, to announce today that, following the DWP's recent announcement to extend the Work Programme to 2017, Welsh Government and DWP officials will be working together on a solution to enable Work Programme participants in Wales access to appropriate ESF programmes from April 2015. This will involve varying the current contracts to allow greater clarity around what we expect Work Programme providers to deliver and be paid for, thereby opening up opportunities for Welsh Government or ESF-funded schemes to provide additional support where required. It is expected that this work will be concluded by 31 March 2015.

This is by no means the end of the story. The DWP may have extended Work Programme contracts for an additional year, but they are already considering their approach to the next round of Work Programme contracting. It is imperative that we avoid any of the issues we've experienced to date, and I will therefore be strongly advocating Welsh Government involvement in every stage of the commissioning process for the next contract. I understand this will gather some momentum following the UK elections.

Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig adroddiad yn canolbwyntio ar weithrediad y Rhaglen Waith yng Nghymru a gwnaeth nifer o argymhellion a oedd yn gofyn am gydweithredu gweithredol rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb i'r argymhellion hyn, a oedd yn canolbwyntio'n eithaf clir ar fynediad i ddarpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Waith, cytunodd fy rhagflaenydd a'r Gweinidog Gwladol dros Gyflogaeth gyda'i gilydd i sefydlu gweithgor a fyddai'n gyfrifol am ddod o hyd i atebion ymarferol i'r broblem. Mae'r gweithgor mynediad i gyflogaeth wedi cwrrd sawl gwaith i drafod hyn a nifer o faterion eraill cysylltiedig. Mae'r ymgysylltu wedi bod yn hynod gadarnhaol a chafwyd rhai cytundebau arwyddocaol eisoes, gan gynnwys cyflwyno'r prosiect amodoldeb sgiliau, y bwriedir iddo roi prawf pellach ar fandadu i geiswyr gwaith a chanddynt angen a nodwyd o ran sgiliau hanfodol, a darparu tystiolaeth ychwanegol i Weinidogion Cymru i wneud penderfyniad terfynol ynglŷn â darpariaeth amodoldeb sgiliau yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cadarnhau mynediad i gyfleoedd prentisiaeth i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Waith o fewn yr ystod oedran cymwys ac wedi rhoi cyfle i'r gweithgor i ddylanwadu ar faterion megis ôl troed Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi cronfa gymdeithasol Ewrop ar waith a datblygu ein rhaglen gyflogadwyedd newydd i oedolion, a fydd yn weithredol o fis Medi eleni.

Er gwaethaf y camau cadarnhaol hyn, mae natur contractau'r Rhaglen Waith yn dal i fod yn her inni, ynghyd â'n hanallu i bennu ymhle y gallwn ddangos gwerth ychwanegol drwy integreiddio â'n rhaglenni a'n buddsoddiadau ni ein hunain. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio mwy o eglurder dro ar ôl tro gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch natur y ddarpariaeth yn y Rhaglen Waith er mwyn deall a oes cyfleoedd i gyd-drefnu'r cymorth sydd ar gael yn well. Rwyf yn falch iawn, felly, o gyhoeddi heddiw y bydd Llywodraeth Cymru a swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn dilyn cyhoeddiad diweddar yr Adran Gwaith a Phensiynau i estyn y Rhaglen Waith at 2017, yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ateb a fydd yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Waith yng Nghymru i fanteisio ar raglenni priodol Cronfa Gymdeithasol Ewrop o fis Ebrill 2015. Bydd hyn yn golygu amrywio'r contractau presennol er mwyn caniatáu mwy o eglurder ynghylch yr hyn yr ydym yn disgwyl i ddarparwyr y Rhaglen Waith ei ddarparu a chael eu talu amdano, a thrwy hynny gynnig cyfleoedd i gynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru neu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ddarparu cymorth ychwanegol lle y bo'i angen. Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn dod i ben erbyn 31 Mawrth 2015.

Nid dyna ddiwedd arni o bell ffordd. Efallai'n wir fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi estyn contractau'r Rhaglen Waith am flwyddyn arall, ond mae eisoes yn ystyried ei hymagwedd tuag at gylich contractio nesaf y Rhaglen Waith. Mae'n hollbwysig osgoi'r problemau yr ydym wedi'u gweld hyd yma, a byddaf felly'n eiriol iawn dros gynnwys Llywodraeth Cymru ym mhob cam o'r broses gomisiynu ar gyfer y contract nesaf. Rwyf yn deall y bydd hyn yn magu momentwm ar ôl etholiadau'r DU.

Further to these specific actions, and as a final point, the Welsh Government continues to develop and refine our own response to the challenges facing the skills system in Wales, as we aim to move towards a better integrated and more responsive system that offers better value for the limited resources available to us. This is not only our responsibility, but a joint one across the whole skills system, whether it is nationally led or more regionally or locally focused. Our skills policy statement and its accompanying implementation plan, along with our ongoing developments to establish programmes that provide relevant, flexible and cost-effective support to both businesses and individuals, are all testament to this joint ambition. Our ongoing relationship with the DWP as one of our key partners is vital therefore if we are to realise his ambition, and I look forward to continuing to lead on our collaboration in this very challenging area.

Yn ogystal â'r camau penodol hyn, a dyma fy mhwynt olaf, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddatblygu ac i fireinio ein hymateb ninnau i'r heriau sy'n wynebu'r system sgiliau yng Nghymru, wrth inni anelu at symud tuag at system fwy integredig a mwy ymatebol sy'n cynnig gwell gwerth am yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael inni. Nid dim ond ni sy'n gyfrifol am hyn; mae'n gyfrifoldeb ar y cyd ar draws y system sgiliau gyfan, boed yn cael ei arwain yn genedlaethol neu â phwyslais mwy rhanbarthol neu leol. Mae ein datganiad polisi sgiliau a'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â hynny, ynghyd â'n datblygiadau parhaus i sefydlu rhaglenni sy'n darparu cymorth perthnasol, hyblyg a chost effeithiol i fusnesau ac i unigolion, i gyd yn tystio i'r uchelgais hon ar y cyd. Mae ein perthynas sy'n parhau â'r Adran Gwaith a Phensiynau fel un o'n partneriaid allweddol yn hanfodol, felly, os ydym am wireddu'r uchelgais hon, ac edrychaf ymlaen at barhau i arwain ein cydweithrediad yn y maes heriol iawn hwn.

16:38

William Graham [Bywgraffiad Biography](#)

May I thank the Minister for her statement this afternoon? The Welsh Conservatives acknowledge and support all measures that ensure jobseekers in Wales have access to the widest assistance to fulfil their ambition of gaining a sustained employment. We understand that, although this is a substantially devolved policy area, there is a requirement for effective working together to realise these objectives. Welsh Conservatives note that the United Kingdom Government held the UK Investment Summit Wales 2014 at the Celtic Manor, which gave a very clear indication of their wish to create further job opportunities and economic investment in Wales. Further, the Conservative-led coalition Government, by extending this programme, is the most important element in the extension of the Work Programme to 2017, and the joint working to ensure that Welsh participants are able to access ESF programmes from April this year. We also recognise the need to address concerns with regard to the levels of youth unemployment and the number of people living in workless households. This is clearly a key issue in increasing employment opportunities to all people in Wales.

We greatly support the Deputy Minister's statement that we must move towards a better integrated and more responsive system that offers better value for the limited resources available to us. We agree that this is not only our responsibility, but a joint one across the whole skills system, whether it is nationally led or more regionally or locally focused. Can I ask the Deputy Minister how she feels this can best be achieved in Wales? Clearly, we welcome today's statement and her undertaking to provide future statements on progress in realising developments outlined today.

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma? Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod ac yn cefnogi pob mesur sy'n sicrhau bod y cymorth ehangaf posibl ar gael i geiswyr gwaith yng Nghymru i gyflawni eu huchelgais o gael cyflogaeth gyson. Rydym yn deall, er bod hwn yn faes polisi sydd wedi'i ddatganoli i raddau helaeth, fod yn rhaid wrth gydweithio effeithiol i wireddu'r amcanion hyn. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn nodi bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynnal Uwchgynhadledd Buddsoddi'r DU Cymru 2014 yn y Celtic Manor, a ddangosodd yn glir iawn ei dymuniad i greu rhagor o gyfleoedd gwaith a buddsoddi economaidd yng Nghymru. Hefyd, y Llywodraeth glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr, drwy estyn y rhaglen hon, yw'r elfen bwysicaf o ran estyn y Rhaglen Waith hyd at 2017, a'r cydweithio i sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan yng Nghymru'n gallu manteisio ar raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop o fis Ebrill eleni. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â phryderon o ran lefelau diweithdra ymhlith pobl ifanc a nifer y bobl sy'n byw ar aelwydydd di-waith. Mae hwn wrth gwrs yn fater allweddol er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd cyflogaeth i bawb yng Nghymru.

Rydym yn cefnogi'n fawr ddatganiad y Dirprwy Weinidog fod yn rhaid inni symud tuag at system fwy integredig a mwy ymatebol sy'n cynnig gwerth gwell am yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael inni. Rydym yn cytuno bod hwn nid yn unig yn gyfrifoldeb arnom ni, ond yn un a rennir ar draws y system sgiliau gyfan, p'un a yw'n cael ei arwain yn genedlaethol neu â phwyslais mwy rhanbarthol neu leol. A gaf fi ofyn i'r Dirprwy Weinidog sut y mae hi'n meddwl y gellir cyflawni hyn orau yng Nghymru? Wrth gwrs, rydym yn croesawu'r datganiad heddiw a'i hymrwymiad i ddarparu datganiadau yn y dyfodol ar y cynnydd o ran gwireddu'r datblygiadau a amlinellwyd heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Julie James [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for that very important question. As I said, we've been doing a lot of work in this area. I absolutely agree that it needs to be integrated across the piece. It's essential that we get the best help to the people who need it the most, and, to that end, we've done a lot of work in terms of what is contained within the Work Programme, because the real issue has always been additionality, as those of us who are familiar with European programmes will know. But unfortunately, officials, particularly in the DWP, were not all that familiar, I think, with that concept.

The Work Programme is a black box contracting system, in the sense that the Government doesn't mandate anything within it, so the problem we've always had is that we're not able to show additionality if we don't know what's already contained within the contract. So, an enormous amount of work by the officials has gone forward as a result of various reports that have been made, and we are confident now that we have a way forward. That's not to say that we're completely satisfied with where we are with the Work Programme; it continues to have a number of problems as far as we're concerned, but we continue to work very well with colleagues in the DWP.

Diolch am y cwestiwn pwysig iawn hwnnw. Fel y dywedais, rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith yn y maes hwn. Cytunaf yn llwyr fod angen ei integreiddio drwyddi draw. Mae'n hollbwysig ein bod yn cael y cymorth gorau i'r bobl sydd ei angen fwyaf, ac, i'r perwyl hwnnw, rydym wedi gwneud llawer o waith o ran yr hyn sydd yn y Rhaglen Waith, oherwydd yr hyn sydd bob amser wedi bod yn bwnc trafod mewn gwirionedd yw ychwanegedd, fel y bydd y rhai ohonom sy'n gyfarwydd â'r rhaglenni Ewropeaidd yn gwybod. Ond yn anffodus, nid oedd swyddogion, yn enwedig yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn gyfarwydd iawn â'r cysyniad hwnnw.

Mae'r Rhaglen Waith yn system gontractio blwch du, yn yr ystyr nad yw'r Llywodraeth yn mandadu dim sydd ynddo, felly y broblem yr ydym bob amser wedi'i chael yw nad ydym yn gallu dangos ychwanegedd os nad ydym yn gwybod beth sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y contract. Felly, mae'r swyddogion wedi gwneud llawer iawn o waith yn sgil amrywiol adroddiadau a wnaed, ac rydym yn hyderus yn awr fod genym ffordd ymlaen. Nid yw hynny'n golygu ein bod yn gwbl fodlon â'r sefyllfa o ran y Rhaglen Waith; mae nifer o broblemau ynghlwm â hi o hyd o'n rhan ni, ond rydym yn parhau i weithio'n dda iawn â chydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

Deputy Minister, I very much welcome your statement, and I'd just like to ask you about a couple of aspects of it on matters that I know we have raised and discussed before. The first thing is the actual contradictions that exist between the UK Government's programme and Jobs Growth Wales, and in particular the inability to be able to transfer from one to another, particularly when the interests of a young person actually securing employment or training should be the main priority. I'd be grateful if you could perhaps clarify how that may be resolved and what the consequence of any discussions has been so far on that particular issue.

The second one is in respect of our response to the significant construction jobs growth within Wales and the training opportunities that actually arise from that. As you know, Wales is experiencing probably the highest level of construction jobs growth in the whole of the UK—I think it's around 2% in England and around 7% in Wales. Are we satisfied that our training programmes are actually ensuring that we are maximising opportunities for training and apprenticeships in that area?

May I ask you one other point on a rather disturbing comment that came from the Secretary of State for Wales, Stephen Crabb? When talking about apprenticeships, he said:

'It is why we have rescued apprenticeships from the scrapheap of the education sector...I believe Wales needs this kind of focus'.

Ddirprwy Weinidog, croesawaf eich datganiad yn fawr iawn, ac rwyf am eich holi am un neu ddwy o agweddau arno ar faterion y gwn ein bod wedi'u codi a'u trafod o'r blaen. Y peth cyntaf yw'r anghysondebau gwirioneddol sydd rhwng rhaglen Llywodraeth y DU a Twf Swyddi Cymru, ac yn arbennig yr anallu i drosglwyddo o'r naill i'r llall, yn enwedig pan ddylid rhoi blaenoriaeth mewn gwirionedd i fuddiannau'r person ifanc o ran sicrhau cyflogaeth neu hyfforddiant. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech efallai egluro sut y gellir datrys hynny a beth oedd canlyniad unrhyw drafodaethau hyd yma ar y mater penodol hwnnw.

Mae'r ail yn ymwneud â'n hymateb i'r twf sylweddol mewn swyddi adeiladu yng Nghymru a'r cyfleoedd hyfforddi sy'n codi o hynny. Fel y gwyddoch, yng Nghymru yn ôl pob tebyg y mae swyddi adeiladu yn tyfu fwyaf yn y DU gyfan—credaf fod y twf oddeutu 2% yn Lloegr ac oddeutu 7% yng Nghymru. A ydym yn fodlon bod ein rhaglenni hyfforddi mewn gwirionedd yn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o ran hyfforddiant a phrentisiaethau yn y maes hwnnw?

A gaf fi godi un pwynt arall â chi ynghlwm â sylw braidd yn annifyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Stephen Crabb? Wrth sôn am brentisiaethau, dywedodd:

Dyna pam yr ydym wedi achub prentisiaethau o domen sbwriel y sector addysg ... credaf fod angen y math hwn o ffocus ar Gymru.

Do you recognise that sort of criticism, and, if not, will you draw the Secretary of State's attention to this misinformed mischief and get him to focus on apprenticeship creation rather than trying to attack the apprenticeship programme in Wales?

16:43

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those questions, Mick Antoniw. On the first one, the contradictions, we are hopeful that we have ironed out some of those problems. Much will depend on what is contained within the Work Programme after its new contract period goes ahead, because what we've agreed with them in Wales is that it will be less of a black box effect and so we will, I hope, be able to show that an individual is not getting an additional benefit by transferring onto one of our ESF-funded programmes. So, that's the crux of the matter that is under discussion. We aren't there yet, but we are hopeful that we will get there, although there are some difficulties around the way that it interacts with the welfare system, which I'll come onto in a moment.

In terms of construction growth, I meet constantly with companies that really have inspiring growth programmes. I'll combine that with your fourth question, because I frankly don't recognise the description of Wales that Stephen Crabb unfortunately put forward this morning and, actually, over the weekend. I think it's most unfortunate because we've actually worked very well up to now with the Secretary of State for Wales, and he's descended into a political arena for no reason other than doing the bidding of his masters in London, I fear, and not to the benefit of the people of Wales, because—and I'll tell you this—actually, we've had very constructive conversations with the DWP about our apprenticeship programmes, which are recognised as excellent. We've had very constructive conversations with people right across the UK Government about our traineeships and our Jobs Growth Wales programmes, which are the envy of everybody who runs the Work Programme. We have 82% success on sustainable jobs with our programmes; they have 19.1% in Wales on theirs. They absolutely are envious to their back teeth of what we've been able to achieve. Actually, that's why they're so anxious to understand what we're doing and tailor their Work Programme accordingly, which we applaud. We've been working in the spirit of co-operation with them right up until we've descended into this ridiculous political football. Frankly, I'm disappointed in Stephen Crabb, who I thought was an honourable individual until this unwarranted attack on us.

A ydych yn cydnabod y math hwnnw o feirniadaeth, ac, os nad ydych, a wnewch chi dynnu sylw'r Ysgrifennydd Gwladol at y drygioni camarweiniol hwn a sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar greu prentisiaethau yn hytrach na cheisio ymosod ar y rhaglen brentisiaethau yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch am y cwestiynau hynny, Mick Antoniw. O ran y cyntaf, yr anghysondebau, rydym yn gobeithio ein bod wedi datrys rhai o'r problemau hynny. Bydd llawer yn dibynnu ar yr hyn sydd yn y Rhaglen Waith ar ôl i gyfnod y contractau newydd ddechrau, oherwydd yr hyn yr ydym wedi'i gytuno â hwy yng Nghymru yw y bydd llai o effaith blwch du ac felly byddwn, rwyf yn gobeithio, yn gallu dangos nad yw unigolyn yn cael budd ychwanegol drwy drosglwyddo i un o'n rhaglenni a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Felly, dyna sy'n ganolog i'r mater sy'n cael ei drafod. Nid ydym yno eto, ond rydym yn gobeithio y cyrhaeddwn yno, er bod rhai anawsterau ynghylch y ffordd y mae'n ymadweithio â'r system les, a dof at hynny mewn munud.

O ran twf adeiladu, rwyf yn cwrdd yn gyson â chwmnïau a chanddynt raglenni twf ysbrydoledig. Rwyf am gyfuno hynny â'ch pedwerydd cwestiwn, oherwydd a dweud y gwir nid wyf yn adnabod y disgrifiad o Gymru a roddodd Stephen Crabb y bore yma ac, mewn gwirionedd, dros y penwythnos. Credaf fod hyn yn anffodus iawn, oherwydd rydym mewn gwirionedd wedi gweithio'n dda iawn hyd yma gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac mae wedi suddo i arena wleidyddol am ddim rheswm heblaw ufuddhau i'w feistri yn Llundain, mae arnaf ofn, ac nid er budd pobl Cymru, oherwydd—a dywedaf hyn wrthyhych—mewn gwirionedd, rydym wedi cael sgysiau adeiladol iawn â'r Adran Gwaith a Phensiynau am ein rhaglenni prentisiaeth, sy'n cael eu cydnabod fel rhai rhagorol. Rydym wedi cael sgysiau adeiladol iawn â phobl ar draws Llywodraeth y DU am ein swyddi dan hyfforddiant a'n rhaglenni Twf Swyddi Cymru, sy'n destun eiddgedd i bawb sy'n rhedeg y Rhaglen Waith. Mae gennym gyfradd lwyddiant o 82% ar swyddi cynaliadwy gyda'n rhaglenni; mae ganddynt hwythau 19.1% yng Nghymru ar eu rhai hwy. Maent yn gwbl genfigennus o'r hyn yr ydym wedi gallu ei gyflawni. A dweud y gwir, dyna pam y maent mor awyddus i ddeall yr hyn yr ydym yn ei wneud ac i deilwra eu Rhaglen Waith yn unol â hynny, ac rydym yn cymeradwyo hynny. Rydym wedi bod yn gweithio mewn ysbryd o gydweithredu â hwy hyd nes inni ddisgyn i mewn i'r gêm bêl-droed wleidyddol chwerthinllyd hon. A dweud y gwir, rwyf wedi cael siom yn Stephen Crabb, oherwydd roeddwn yn meddwl ei fod yn unigolyn anrhydeddus hyd nes iddo ymosod mor ddiangen arnom.

Going back to the good message of construction growth and training, we've done excellent work through our procurement policies with getting our trainees in place in all of our construction contracts. I've worked very closely with the Minister for Economy, Science and Transport to ensure that our skills pipelines are lined up with what we know about our construction industry growth. We've had a number of meetings over the past few weeks, which have been extremely positive. We are working very hard to get a construction college under way as soon as we possibly can, aligned to the employer needs. And, here in Wales, absolutely crucially, we've kept our apprenticeship standard. We have not removed all Government funding as they have in the Department for Business, Innovation and Skills. We have not descended into employer-led-only training schemes. We have maintained that Government funding should give you a portable, credible qualification, useful to you on your CV as well as useful only to a single employer.

A mynd yn ôl at y newyddion da ynghylch twf adeiladu a hyfforddiant, rydym wedi gwneud gwaith rhagorol drwy ein polisiau caffael o ran cael ein hyfforddeion yn eu lle ym mhob un o'n contractau adeiladu. Rwyf wedi gweithio'n agos iawn gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i sicrhau bod ein piblinellau sgiliau'n cyd-fynd â'r hyn a wyddom am dwf ein diwydiant adeiladu. Rydym wedi cael nifer o gyfarfodydd yn ystod yr wythnosau diwethaf, sydd wedi bod yn hynod gadarnhaol. Rydym yn gweithio'n galed iawn i sefydlu coleg adeiladu cyn gynted ag y gallwn, i gyd-fynd ag anghenion cyflogwyr. Ac yma yng Nghymru, yn gwbl hanfodol, rydym wedi cadw safon ein prentisiaethau. Nid ydym wedi cael gwared ar yr holl arian gan y Llywodraeth fel y maent yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Nid ydym wedi disgyn i gynlluniau hyfforddi a arweinir gan gyflogwyr yn unig. Rydym wedi mynnu y dylai cyllid y Llywodraeth roi cymhwyster cludadwy, credadwy ichi, a fydd yn ddefnyddiol ichi ar eich CV, yn ogystal ag i un cyflogwr.

16:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I commend the Deputy Minister's balanced approach, but the Secretary of State most certainly is an honourable Member of another House.

Rwyf yn cymeradwyo ymagwedd gytbwys y Dirprwy Weinidog, ond mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn sicr yn Aelod anrhydeddus o Dŷ arall.

16:46 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I concur entirely.

Rwyf yn cytuno'n llwyr.

16:46 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Deputy Minister, thank you for your statement. However, it still remains a very confused and complex picture regarding the interface between Welsh Government programmes and the UK Government's Work Programme. It would be much easier if it were all devolved, Deputy Minister, which of course is precisely what Labour in Scotland are proposing—that the Work Programme and, indeed, the benefits regime should now be devolved, in something that's now called 'home rule plus', or 'vow plus'. Now we are very clear that that is being proposed for Scotland, can you say a little more about the enticing promise in your statement that things will improve after the general election? Is that because Welsh Labour is going to secure the devolution of the Work Programme and Job Centre Plus to Wales? If that were to be the case, then I could accept the enthusiasm and optimistic language in your statement. However, I have it on good authority that certain Members of the Labour Party are not so keen on such devolution. [Interruption.] I would like a response; that is a genuine question to you, Deputy Minister. So, I hope you will respond on that.

Ddirprwy Weinidog, diolch ichi am eich datganiad. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn ddarlun dryslyd a chymhleth iawn ynghylch y rhyngwyneb rhwng rhaglenni Llywodraeth Cymru a Rhaglen Waith Llywodraeth y DU. Byddai'n llawer haws pe byddai'r cwbl yn ddatganoledig, Ddirprwy Weinidog, sef wrth gwrs yn union yr hyn y mae Llafur yn yr Alban yn ei gynnig—y dylai'r Rhaglen Waith ac, yn wir, y gyfundrefn fudd-daliadau gael eu datganoli, yn rhywbeth sydd bellach yn cael ei alw'n 'ymreolaeth plws', neu 'adduned plws'. Yn awr rydym yn glir iawn fod hynny'n cael ei gynnig i'r Alban, ond a allwch ddweud ychydig mwy am yr addewid deniadol yn eich datganiad y bydd pethau'n gwella ar ôl yr etholiad cyffredinol? A yw hynny am fod Llafur Cymru'n mynd i sicrhau bod y Rhaglen Waith a'r Ganolfan Byd Gwaith yn cael eu datganoli i Gymru? Pe bai hynny'n wir, yna gallwn dderbyn y brwdfrydedd a'r iaith optimistaidd yn eich datganiad. Fodd bynnag, rwyf wedi clywed o le da nad yw rhai aelodau o'r Blaid Lafur mor awyddus i weld datganoli o'r fath. [Torri ar draws.] Hoffwn ymateb; mae hwnnw'n gwestiwn go iawn ichi, Ddirprwy Weinidog. Felly, rwyf yn gobeithio y byddwch yn ymateb ynghylch hynny.

To return, however, to some of the details of your statement, I am struck by the optimistic language there, but it's not backed up by firm proposals or firm solutions. You talk of working together on a solution for the employment working group. So, we still—18 months, two years down the line—don't have that solution, apart from enticing thoughts of opening up black boxes and peering inside and being able to better match what we do in Wales with what the UK Government is doing. So, in addition to what you have already said, are you at all confident that we will get that solution—that there will be a better way for those seeking jobs in Wales to move from things like Jobs Growth Wales into and out of the Work Programme, and a better match between the two?

In the same way, you talk about, in positive language, the apprenticeships scheme in Wales. However, I was not clear from what you said whether it is now the case that all applicants are able to access apprenticeships as a valid employment outcome as part of what you've agreed with the Work Programme officials. I'd like confirmation on that.

Can you say a little more about what your discussions with the Work Programme and UK officials have turned around—essential skills and mapping those essential skills, analysis of what the Work Programme providers are actually providing in terms of skills in Wales and, therefore, the nature of any unmet demand that we may need to pick up in terms of slack or, indeed, work with the Work Programme on ensuring? Do you have any further proposals for other skills development, particularly going forward that might succeed Jobs Growth Wales, which I think was a reasonable response to particular economic circumstances? But, I would suggest its days in its current form are coming to an end, and it needs to be rethought and reprogrammed to better match what is going on elsewhere in the UK and, indeed, better match some of the issues here in Wales. We have already heard a little bit, for example, around the construction industry.

Your statement, made today, comes before the end of the trial that you have announced previously on mandation, which I suppose is due to end, I think, in March. However, I would be grateful if you could say something about mandation at the moment. The Welsh Government, in the past, has opposed the conditionality regime and has opposed mandation; it has allowed a trial to go ahead in Wales, but I don't know what you can say about the information that that trial has given you and what further steps might be taken in that regard, and whether, indeed, your position on mandation and the conditionality regime is one of principle or simply one of actual practicalities here in Wales.

A throi yn ôl, fodd bynnag, at rai o fanylion eich datganiad, fe'm trawyd gan yr iaith optimistaidd yno, ond nid oes cynigion cadarn nac atebion pendant i ategu hynny. Rydych yn sôn am gydweithio i ddod o hyd i ateb i'r gweithgor cyflogaeth. Felly, nid ydym eto—18 mis, ddwy flynedd yn ddiweddarach—wedi dod o hyd i'r ateb hwnnw, ar wahân i feddwl am agor blychau du a gweld beth sydd y tu mewn a gallu cyd-drefnu'n well yr hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru a'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud. Felly, yn ychwanegol at yr hyn yr ydych wedi'i ddweud eisoes, a ydych yn hyderus o gwbl y cawn yr ateb hwnnw—y bydd ffordd well i'r rhai sy'n chwilio am swyddi yng Nghymru i symud o bethau fel Twf Swyddi Cymru i mewn ac allan o'r Rhaglen Waith, a chyd-drefnu gwell rhwng y ddau?

Yn yr un modd, rydych yn sôn, mewn iaith gadarnhaol, am y cynllun prentisiaethau yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oedd yn glir o'r hyn a ddywedasoch a yw bellach yn wir bod pob ymgeisydd yn gallu cael prentisiaethau fel canlyniad cyflogaeth dilys yn rhan o'r hyn yr ydych chi wedi'i gytuno â swyddogion y Rhaglen Waith. Hoffwn gadarnhad o hynny.

A wnewch chi ddweud ychydig yn rhagor am yr hyn y buoch yn ei drafod â swyddogion y Rhaglen Waith a'r DU—sgiliau hanfodol a mapio'r sgiliau hanfodol hynny, dadansoddi'r hyn y mae darparwyr y Rhaglen Waith yn ei ddarparu mewn gwirionedd o ran sgiliau yng Nghymru ac, felly, natur unrhyw alw heb ei ddiwallu y gallai fod angen inni ei godi o ran cadw'r slac yn dynn neu, yn wir, weithio gyda'r Rhaglen Waith ar sicrhau hynny? A oes gennych unrhyw gynigion pellach ar gyfer datblygu sgiliau eraill, yn enwedig yn y dyfodol o ran yr hyn a allai ddilyn Twf Swyddi Cymru, a oedd yn fy marn i yn ymateb rhesymol i amgylchiadau economaidd penodol? Ond byddwn yn awgrymu bod ei ddyddiau ar ei ffurf bresennol yn dod i ben, ac mae angen ei ailystyried a'i ailraglennu i gyd-fynd yn well â'r hyn sy'n digwydd mewn manau eraill yn y Deyrnas Unedig ac, yn wir, i gyd-fynd yn well â rhai o'r materion yma yng Nghymru. Yr ydym eisoes wedi clywed rhyw ychydig, er enghraifft, am y diwydiant adeiladu.

Mae eich datganiad, a wnaed heddiw, yn dod cyn diwedd y cynllun treialu a gyhoeddwyd gennych o'r blaen ar fandadu, sydd i fod i ddod i ben, rwyf yn meddwl, ym mis Mawrth. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud gair am fandadu ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru, yn y gorffennol, wedi gwrthwynebu'r drefn amodoldeb ac wedi gwrthwynebu mandadu; mae wedi caniatáu i'r cynllun treialu fynd rhagddo yng Nghymru, ond nid wyf yn gwybod beth y gallwch ei ddweud am y wybodaeth y mae'r cynllun treialu hwnnw wedi'i rhoi ichi a pha gamau pellach y gellid eu cymryd yn hynny o beth, ac, yn wir, a yw eich safbwynt ar fandadu a'r drefn amodoldeb yn un o egwyddor ynteu'n fater o ymarferoldeb gwirioneddol yma yng Nghymru.

We all want to see a skilled workforce in Wales, we want to see people supported to acquire those skills and we want to see that done, as I think you've just alluded to, in a way that isn't just linked to individual jobs, but is linked to creating a workforce that is skilled and able to become lifelong learners themselves. However, it does seem to me that, in this statement, despite the more optimistic language that you've used, there's still an awful lot to agree with the UK Government and the Work Programme, and still an awful lot for the Welsh Government itself to achieve in this regard.

Rydym i gyd am weld gweithlu medrus yng Nghymru, rydym am weld pobl yn cael eu cefnogi i ddysgu'r sgiliau hynny ac rydym am weld hynny'n cael ei wneud, fel yr ydych newydd ei grybwyll rwyf yn credu, mewn ffordd nad yw'n gysylltiedig â swyddi unigol yn unig, ond yn gysylltiedig â chreu gweithlu sy'n fedrus ac yn gallu dod yn ddysgwyr gydol oes eu hunain. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i mi, yn y datganiad hwn, er gwaethaf yr iaith fwy optimistaidd yr ydych wedi'i defnyddio, fod llawer iawn yn dal i'w gytuno â Llywodraeth y DU a'r Rhaglen Waith, a bod llawer iawn o hyd i Lywodraeth Cymru hithau ei gyflawni yn hyn o beth.

16:51

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'll start by agreeing with your last couple of sentences. I agree that there's still an awful long way to go, however, I think that doesn't take away from the distance we've travelled already. So, I would say that we've come a very long way. We've got a lot better understanding of where we are with the DWP after a lot of work by officials on both sides. But we aren't where we'd like to be still. It's very much ongoing. I've just agreed to extend the co-operation between the two departments—on both sides, that's been agreed—because we can see how beneficial it's been, but we absolutely agree we're not at the end of that journey.

Turning back, then, to the devolution issue, our view is that we've got the Smith process and the St David's Day process, and we want to see what's on the table with that. My position is, as it's always been—I've said this before in this place: it's obvious that we'd like to be able to be in control of large parts of the Work Programme, but it very much depends what's on the table. We want that process to go ahead. The First Minister has been very clear about his position on this; I absolutely agree with that, because there's an enormous amount to do around how that would be funded, what the mandation and conditionality things would be, and so on. It's under discussion at the moment. It's going to be discussed at future ministerial meetings here and so on, so that's very much still in play. But that's where we are with it at the moment.

In terms of the journey travelled, I think the best thing is for me to try and explain what we've been trying to do in terms of mapping. Officials have been looking to see if we can map an individual's journey through the various programmes, so that we can see where the overlaps occur, we can see whether we can make sure that there is additionality if they come into one of our programmes from the previous programme and, therefore, we can ensure that individuals can move into the best part of the programme that suits them. And that's what's proving to be the difficulty, because to do that, you've got to be absolutely certain what's in each programme, and it's about getting that clarity. That's what we talk about with this black-box approach, and I think that's where we've moved forward. We've moved forward because we've made people understand that, without that, we can't get the travelling.

Wel, rwyf am ddechrau drwy gytuno â'ch dwy frawddeg olaf. Cytunaf fod ffordd hir iawn i fynd o hyd, ond nid wyf yn meddwl bod hynny'n tynnu oddi ar y pellter yr ydym wedi'i deithio'n barod. Felly, byddwn yn dweud ein bod wedi dod yn bell iawn. Rydym yn deall ein sefyllfa'n well o lawer o ran yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ôl llawer o waith gan swyddogion ar y ddwy ochr. Ond nid ydym eto wedi cyrraedd lle'r hoffem fod. Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo i raddau helaeth iawn. Rwyf newydd gytuno i estyn y cydweithio rhwng y ddwy adran—ar y ddwy ochr, cytunwyd ar hynny—oherwydd gallwn weld pa mor fuddiol y mae wedi bod, ond rydym yn cytuno'n llwyr nad ydym wedi cyrraedd pen y daith honno.

A throi yn ôl, felly, at fater datganoli, ein barn ni yw fod gennym broses Smith a phroses Dydd Gŵyl Dewi, ac rydym am gael gweld beth sy'n cael ei gynnis o ran hynny. Dyma fy safbwynt i, a dyna fu fy safbwynt erioed—rwyf wedi dweud hyn o'r blaen yn y lle hwn: mae'n amlwg y byddem yn hoffi gallu rheoli rhannau helaeth o'r Rhaglen Waith, ond mae'n dibynnu i raddau helaeth iawn beth sy'n cael ei gynnis. Rydym am i'r broses honno fynd rhagddi. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi'n glir iawn ei safbwynt ynglŷn â hyn; cytunaf yn llwyr â hynny, oherwydd mae llawer iawn i'w wneud ynghylch sut y byddai hynny'n cael ei ariannu, beth fyddai'r elfennau mandadu ac amodoldeb, ac yn y blaen. Mae'n cael ei drafod ar hyn o bryd. Caiff ei drafod mewn cyfarfodydd gweinidogol yn y dyfodol yma ac yn y blaen, felly mae hynny i raddau helaeth yn dal i fynd rhagddo. Ond dyna lle'r ydym o ran hynny ar hyn o bryd.

O ran y siwrnai a deithiwyd, rwyf yn credu mai'r peth gorau imi ei wneud yw ceisio egluro'r hyn yr ydym wedi bod yn ceisio ei wneud o ran mapio. Mae swyddogion wedi bod yn edrych i weld a allwn fapio siwrnai unigolyn drwy'r gwahanol raglenni, fel y gallwn weld ble y mae'r gorgyffwrdd yn digwydd, gallwn weld a allwn wneud yn siŵr bod ychwanegedd os dônt i mewn i un o'n rhaglenni o'r rhaglen flaenorol ac, felly, gallwn sicrhau y gall unigolion symud i mewn i'r rhan orau o'r rhaglen sy'n addas iddynt hwy. A dyna'r anhawster, oherwydd i wneud hynny, mae'n rhaid ichi fod yn hollol sicr beth sydd yn mhob rhaglen, ac mae'n ymwneud â sicrhau'r eglurder hwnnw. Dyna'r hyn yr ydym yn sôn amdano o ran y dull blwch du, ac rwyf yn meddwl mai dyna lle'r ydym wedi symud ymlaen. Rydym wedi symud ymlaen oherwydd ein bod wedi sicrhau bod pobl yn deall na allwn, heb hynny, sicrhau bod y teithio'n digwydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It's unlikely, but not impossible, that somebody would move from Jobs Growth Wales into the Work Programme; it's much more likely to be the other way round. In fact, those are the individuals, as Mick Antoniw has highlighted, that actually we have the most trouble with, because there's a good opportunity for them, but we can't get them out of the Work Programme. So, that's where the work has been. I think we have progressed, but we're certainly not there yet.

In terms of mandation as well, we have got a programme at the moment to see what skills mandation looks like—that is to say, 'You have to do this; you have to undertake this skills programme'. But there are two sorts of mandation, and the other sort is, 'Mandation or you lose your benefits'. That I am completely opposed to, and that is what the Scottish Government has talked about, but that is a slightly different thing. So, we use the same word, but it means two different things. Our programme is looking at mandation onto essential skills programmes, but I would say that my position—and it's a very personal position—is that I am opposed to the devolution of welfare, because I think welfare is a distributive system across the United Kingdom, and that's why I'm not a nationalist. So, I think it's very important to say that. I think the break-up of the welfare system cannot be in our interests. At the same time, I think that mandation in terms of essential skills is a slightly different issue.

I think the last thing you asked me was about the apprenticeship programme. We've agreed with DWP officials what apprenticeship programmes contain, and then it's the same conversation about whether it's additional to what they've been getting on the Work Programme. I'm pleased to say that, in most cases, it is, and so that would be an acceptable shift from the Work Programme that wouldn't involve these terrible sanctions that I reiterate I am completely and utterly opposed to.

Mae'n annhebygol, ond nid yn amhosibl, y byddai rhywun yn symud o Twf Swyddi Cymru i mewn i'r Rhaglen Waith; mae'n llawer mwy tebygol o ddigwydd y ffordd arall. Yn wir, dyna'r unigolion, fel y mae Mick Antoniw wedi ei ddweud, sy'n peri'r drafferth fwyaf inni, oherwydd mae cyfle da iddynt, ond ni allwn eu cael allan o'r Rhaglen Waith. Felly, dyna lle mae'r gwaith wedi bod. Rwyf yn credu ein bod wedi symud ymlaen, ond yn sicr nid ydym yno eto.

O ran mandadu yn ogystal, mae gennym raglen ar hyn o bryd i weld sut beth yw mandadu sgiliau—hynny yw, 'Rhaid ichi wneud hyn; rhaid ichi gyflawni'r rhaglen sgiliau hon'. Ond mae dau fath o fandadu, a'r math arall yw, 'Mandadu neu fe gollwch eich budd-daliadau'. Dyna'r hyn yr wyf yn ei wrthwynebu'n llwyr, a dyna'r hyn y mae Llywodraeth yr Alban wedi sôn amdano, ond mae hynny'n rhywbeth ychydig yn wahanol. Felly, rydym yn defnyddio'r un gair, ond mae'n golygu dau beth gwahanol. Mae ein rhaglen yn edrych ar fandadu i raglenni sgiliau hanfodol, ond byddwn yn dweud mai fy safbwynt i—ac mae'n safbwynt personol iawn—yw fy mod yn gwrthwynebu datganoli lles, oherwydd credaf fod lles yn system ddogarthol ledled y Deyrnas Unedig, a dyna pam nad wyf yn genedlaetholwr. Felly, credaf ei bod yn bwysig iawn dweud hynny. Credaf na all chwalu'r system les fod o fudd inni. Ar yr un pryd, credaf fod mandadu o ran sgiliau hanfodol yn fater ychydig yn wahanol.

Credaf fod y peth olaf ichi ei ofyn imi'n ymwneud â'r rhaglen brentisiaeth. Rydym wedi cytuno â swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â'r hyn y mae rhaglenni prentisiaeth yn ei gynnwys, ac yna cawn yr un sgwrs ynghylch a yw'n ychwanegol i'r hyn y maent wedi bod yn ei gael ar y Rhaglen Waith. Rwyf yn falch o ddweud, yn y rhan fwyaf o achosion, ei fod, ac felly byddai hynny'n symudiad derbyniol oddi wrth y Rhaglen Waith na fyddai'n cynnwys y sancsiynau ofnadwy y dywedaf unwaith eto fy mod yn eu gwrthwynebu'n llwyr.

16:54

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank the Deputy Minister for her statement and very much welcome the improved relationship between the Welsh Government and the DWP, because ultimately it benefits jobseekers if we can ensure that the resources that we've got and the resources that they've got are effectively aligned. We do have a common goal, as you say.

I am glad to see that co-operation is bearing fruit and I look forward to seeing how that new approach works in practice. You suggest that Welsh jobseekers will see a difference from 1 April, and yet you say that you're not currently where you want to be in terms of making sure that that mapping exercise is complete. So, I wonder if you can tell us if there are any specific programmes or any specific areas where you believe that problems may persist beyond 31 March.

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad ac rwyf yn croesawu'n fawr iawn y berthynas well rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau, oherwydd yn y pen draw mae o fudd i geiswyr gwaith os gallwn sicrhau bod yr adnoddau sydd gennym ni a'r adnoddau sydd ganddynt hwy wedi'u cyd-drefnu'n effeithiol. Mae gennym nod cyffredin, fel y dywedwch.

Rwyf yn falch o weld bod y cydweithio'n dwyn ffrwyth ac edrychaf ymlaen at weld sut y mae'r dull newydd yn gweithio'n ymarferol. Rydych yn awgrymu y bydd ceiswyr gwaith Cymru'n gweld gwahaniaeth o 1 Ebrill, ac eto dywedwch nad ydych ar hyn o bryd yn lle'r ydych eisiau bod o ran gwneud yn siŵr bod yr ymarfer mapio hwnnw wedi ei gwblhau. Felly, tybed a allwch ddweud wrthym a oes unrhyw raglenni penodol neu unrhyw feysydd penodol lle'r ydych yn credu y gallai problemau barhau y tu hwnt i 31 Mawrth?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

You talk in your statement about the skills conditionality project being an outcome of the access to employment working group. I wonder if you can give us a little bit more information about what that actually is and what it means, and particularly what existing programmes fall within that project, who is eligible and how it operates.

You talked also in your answer to Simon Thomas about mandation onto skills programmes and trialling how mandation might work, but obviously being very clear that you don't see mandation as being something that is then to be at the risk of someone losing their benefits. Can you tell us what the penalty is, if you like, for failing to comply with a mandatory programme if someone chooses not to? If it is mandatory but there is no penalty, then it's not really terribly mandatory.

Finally, I wanted to talk about older jobseekers. The majority, obviously, of Welsh Government employment projects have been targeted at younger people. However, there is a growing body of research that's showing that people who lose their jobs over the age of 50 are highly likely to remain unemployed for very long periods of time, and that there are major challenges for this age group. I wonder if you can tell us whether the Welsh Government has plans for this particular group, and whether they've discussed those plans with the DWP in advance of implementation of any of those things, because, clearly, what we wouldn't want to see is a repeat of the issues that we've seen with the plans for younger people. You mention the adult employability programme in your statement. I wonder if you can confirm who that's for. I presume it's going to be available to all adults, including those aged 16 to 24, and, in which case, I'm just wondering if you can confirm what targeted action is available to the over-50s and what targeted action will remain for the younger people who we've been previously supporting. Thank you.

16:57

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Starting with that age point, other than those that specifically say they're targeted at under-24s—we do have some programmes like that—all the other programmes are open to all age groups. So, I think that's something I've emphasised before in this Chamber, and I'll emphasise it again now. So, it's the other way round; unless it specifically says it's for young people, it's open to all age groups.

We've also specifically targeted higher-level apprenticeships, for example; they're open to all age groups. And, actually, many older workers already have essential skills and varying levels of qualifications. So, they're much more likely to access level 3 and above, higher-level skills programmes.

Rydych yn sôn yn eich datganiad fod y prosiect amodoldeb sgiliau yn deillio o'r gweithgor mynediad i gyflogaeth. Tybed a allwch roi ychydig bach yn rhagor o wybodaeth am beth yw hynny mewn gwirionedd a'r hyn y mae'n ei olygu, ac yn enwedig pa raglenni sy'n bodoli eisoes sy'n rhan o'r prosiect hwnnw, pwy sy'n gymwys a sut y mae'n gweithredu.

Soniasoch hefyd yn eich ateb i Simon Thomas am fandadu i raglenni sgiliau a threialu sut y gallai mandadu weithio, ond roeddech yn amlwg yn glir iawn nad ydych yn gweld mandadu fel rhywbeth a allai olygu bod perygl i bobl gollu eu budd-daliadau. A allwch ddweud wrthym beth yw'r gosb, os hoffwch chi, am fethu â chydymffurfio â rhaglen orfodol os bydd rhywun yn dewis peidio? Os yw'n orfodol ond nad oes cosb, yna nid yw'n wirioneddol orfodol a dweud y gwir.

Yn olaf, roeddwn am sôn am geiswyr gwaith hŷn. Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o brosiectau cyflogaeth Llywodraeth Cymru wedi eu targedu at bobl iau. Fodd bynnag, mae corff cynyddol o ymchwil sy'n dangos bod pobl sy'n colli eu swyddi dros 50 oed yn debygol iawn o aros yn ddi-waith am gyfnodau hir iawn, a bod heriau mawr i'r grŵp oedran hwn. Tybed a allwch ddweud wrthym a oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau ar gyfer y grŵp penodol hwn, ac a yw wedi trafod y cynlluniau hynny â'r Adran Gwaith a Phensiynau cyn gweithredu unrhyw un o'r pethau hynny, oherwydd, yn amlwg, yr hyn na fyddem am ei weld yw ailadrodd y materion a welsom o ran y cynlluniau i bobl iau. Soniasoch am y rhaglen cyflogadwyedd oedolion yn eich datganiad. Tybed a allwch gadarnhau ar gyfer pwy y mae honno? Rwyf yn cymryd y bydd ar gael i bob oedolyn, gan gynnwys y rhai 16 i 24 oed, ac, os felly, tybed a allwch gadarnhau pa gamau gweithredu wedi'u targedu sydd ar gael i bobl dros 50 mlwydd oed a pha gamau gweithredu wedi'u targedu a fydd yn parhau i'r bobl iau yr ydym wedi bod yn eu cefnogi o'r blaen. Diolch yn fawr.

Dechreuaf â'r pwynt ynghylch oedran; ac eithrio'r rhai sy'n dweud yn benodol eu bod yn targedu pobl dan 24—mae gennym rai raglenni felly—mae'r holl raglenni eraill yn agored i bob grŵp oedran. Felly, rwyf yn credu bod hynny'n rhywbeth yr wyf wedi ei bwysleisio o'r blaen yn y Siambr hon, ac rwyf am ei bwysleisio eto yn awr. Felly, fel arall y mae hi; oni bai ei bod yn dweud yn benodol ei bod ar gyfer pobl ifanc, mae'n agored i bob grŵp oedran.

Rydym hefyd wedi targedu prentisiaethau lefel uwch yn benodol, er enghraifft; maent ar agor i bob grŵp oedran. Ac mewn gwirionedd, mae gan nifer o weithwyr hŷn eisoes sgiliau hanfodol a lefelau amrywiol o gymwysterau. Felly, maent yn llawer mwy tebygol o ddechrau ar raglenni sgiliau lefel uwch ar lefel 3 a throsodd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We've just, as you know, announced, courtesy of the finance Minister, an addition to our apprenticeship programmes once more, and, indeed, to our flexible skills programmes. All of those—the higher-level apprenticeships and the flexible skills programmes—are aimed at all age groups. So, the flexible skills programmes in particular we're very pleased about, because that allows us to satisfy the specific demands of sector-led training fields. So, the construction sector I was just talking about—I was meeting with the creative industries small business sector only this morning; they are taking a number of apprenticeships in, which is very specific. And we're able to do that through our future skills, flexible skills programme, and that's why we've targeted it in that way. So, it's actually because we are wanting to be able to look at smaller groups of individuals, and not have a programme so inflexible that we can't respond to it. So, I assure you that that's why we're putting the money where we're putting it.

In terms of mandation, it's just such a much more complicated—. I really can't go into it now, but I'd be more than happy to come and have a much longer conversation with you or your group or anything else about the way that we're approaching this. It's not possible to answer it in a four-minute question here. It's an extremely complex area, and that's why we've got a pilot running, to see exactly what happens and what effects it has. The Scottish Government has done something very similar. We all have an emotional response to it, but it's very difficult to get hard data out of the Work Programme at the moment, so that's what that programme is for. So, apologies for not answering you fully here, but it's a much longer problem than that.

And the last one is that, in terms of the ongoing programme with the DWP, what we've done is we've got them to extend their contract for one year and we've got some concessions for that, but we've got work to do about the continuing Work Programme, depending on the outcome of the general election. I've just realised that I didn't answer Simon Thomas on that, but I didn't actually say I was very enthusiastic about it; I said that we were told that the Work Programme would ramp up after the general election. So, I just wanted to correct that impression.

Rydym newydd gyhoeddi, fel y gwyrddoch, drwy garedigrwydd y Gweinidog cyllid, ychwanegiad i'n rhaglenni prentisiaethau unwaith eto, ac, yn wir, i'n rhaglenni sgiliau hyblyg. Mae pob un o'r rhain—y prentisiaethau lefel uwch a'r rhaglenni sgiliau hyblyg—wedi'u hanelu at bob grŵp oedran. Felly, rydym yn falch iawn o'r rhaglenni sgiliau hyblyg yn benodol, gan fod hynny'n ein galluogi i fodloni gofynion penodol meysydd hyfforddiant a arweinir gan y sector. Felly, o ran y sector adeiladu yr oeddwn yn sôn amdano—bûm yn cwrdd â sector busnesau bach y diwydiannau creadigol y bore yma; maent yn derbyn nifer o brentisiaethau, sydd yn benodol iawn. Ac rydym yn gallu gwneud hynny drwy ein rhaglen sgiliau'r dyfodol, sgiliau hyblyg, a dyna pam yr ydym wedi'i thargedu yn y ffordd honno. Felly, mae hyn mewn gwirionedd oherwydd ein bod yn awyddus i allu edrych ar grwpiau llai o unigolion, a pheidio â chael rhaglen mor anhyblyg fel na allwn ymateb iddi. Felly, rwyf yn eich sicrhau mai dyna pam yr ydym yn rhoi'r arian ble'r ydym yn ei roi.

O ran mandadu, mae'n llawer mwy cymhleth—. Ni allaf fanylu ar hynny yn awr, ond byddwn yn fwy na pharod i ddod i gael sgwrs hwy o lawer â chi neu â'ch grŵp neu unrhyw beth arall ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn ymdrin â hyn. Nid yw'n bosibl ei ateb mewn cwestiwn pedair munud yma. Mae'n faes hynod gymhleth, a dyna pam y mae gennym gynllun peilot ar waith, i weld yn union beth sy'n digwydd a beth yw ei effaith. Mae Llywodraeth yr Alban wedi gwneud rhywbeth tebyg iawn. Mae gennym i gyd ymateb emosïynol iddo, ond mae'n anodd iawn cael data caled o'r Rhaglen Waith ar hyn o bryd, felly dyna yw diben y rhaglen honno. Felly, ymddiheuriadau am beidio â'ch ateb yn llawn yma, ond mae'n broblem hwy o lawer na hynny.

A'r un olaf yw hyn: o ran y rhaglen sy'n parhau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, yr hyn yr ydym wedi ei wneud yw gofyn iddynt estyn eu cytundeb am flwyddyn ac mae gennym rai consesiynau am hynny, ond mae gennym waith i'w wneud ar barhad y Rhaglen Waith, yn dibynnu ar ganlyniad yr etholiad cyffredinol. Rwyf newydd sylweddoli nad atebais Simon Thomas ar hynny, ond ni ddywedais mewn gwirionedd fy mod yn frwdfrydig iawn yn ei gylch; yr hyn a ddywedais yw y dywedwyd wrthym y byddai'r Rhaglen Waith yn magu momentwm ar ôl yr etholiad cyffredinol. Felly, roeddwn am gywiro'r argraff honno.

17:00

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Deputy Minister for her statement today. It's been mentioned by the Deputy Minister and many other speakers about the overlap in areas of work between the Department for Work and Pensions' Work Programme and the Welsh Government's programmes, such as the flagship Jobs Growth Wales programme and, indeed, the more recent Lift programme for people living in workless households. I was very proud to introduce them during my time in the Welsh Government. Like her and Mick Antoniw, I have concerns about the impact of participation in the Work Programme on the eligibility of young people for Jobs Growth Wales placements and the potential that this has for their future employment prospects. You're absolutely right, as I can remember from my time, that there is only one direction that young people want to travel and that's from the Work Programme to the Jobs Growth Wales programme because of the much better likelihood of them having a positive outcome.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad heddiw. Mae'r Dirprwy Weinidog a nifer o siaradwyr eraill wedi crybwyll y gorgyffwrdd rhwng meysydd gwaith Rhaglen Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau a rhaglenni Llywodraeth Cymru, megis rhaglen flaenllaw Twf Swyddi Cymru ac, yn wir, rhaglen fwy diweddar Esgyn ar gyfer pobl sy'n byw ar aelwydydd di-waith. Roeddwn yn falch iawn o'u cyflwyno yn ystod fy nghyfnod yn Llywodraeth Cymru. Fel hithau a Mick Antoniw, mae gennyf bryderon am effaith cymryd rhan yn y Rhaglen Waith ar gymhwysra pobl ifanc ar gyfer lleoliadau Twf Swyddi Cymru a goblygiadau hynny o ran eu rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol. Rydych yn llygad eich lle, fel y cofiaf o'm cyfnod innau, mai dim ond un cyfeiriad y mae pobl ifanc yn awyddus i deithio iddo sef o'r Rhaglen Waith i raglen Twf Swyddi Cymru oherwydd ei bod yn fwy tebygol o lawer y bydd y canlyniad yn gadarnhaol iddynt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Deputy Minister, would you agree with me that we do need to get the best deal possible for people seeking employment or training opportunities and that this is indeed a shared responsibility—we are where we are on that matter—given that people seeking work are not too concerned about which Government is actually responsible for their opportunities? So, would you be able to tell us what your experience has been of the DWP's willingness at a political level and day-to-day level to co-operate in making sure these arrangements run smoothly?

Ddirprwy Weinidog, a fydddech yn cytuno â mi fod angen inni gael y fargen orau bosibl i bobl sy'n chwilio am gyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant a bod hwn yn wir yn gyfrifoldeb a rennir—rydym yn lle'r ydym ar hyn—o gofio nad yw pobl sy'n chwilio am waith yn poeni'n ormodol pa Lywodraeth sy'n gyfrifol am eu cyfleoedd? Felly, a allech ddweud wrthym beth fu eich profiad o fodlonrwydd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar lefel wleidyddol ac o ddydd i ddydd i gydweithredu i sicrhau bod y trefniadau hyn yn gweithio'n esmwyth?

17:02

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Jeff Cuthbert. I would wholeheartedly agree with you that we need to get the best possible deal for our people seeking employment and training in Wales and that they absolutely do not care which Government is funding it. I pay tribute to your earlier work with the DWP in this area. We've worked very hard to get that feeling across both Governments. We've had very good co-operation with officials in the DWP and, indeed, up until this weekend, we've had very good co-operation politically, and that's why I was voicing my disappointment earlier on.

Diolch am hynny, Jeff Cuthbert. Byddwn yn cytuno'n llwyr â chi fod angen inni gael y fargen orau bosibl i'n pobl sy'n chwilio am waith a hyfforddiant yng Nghymru ac nad ydych yn sicr yn poeni pa Lywodraeth sy'n ariannu hynny. Hoffwn roi teyrnged i'ch gwaith cynharach â'r Adran Gwaith a Phensiynau yn hyn o beth. Rydym wedi gweithio'n galed iawn i gael yr ymdeimlad hwnnw ar draws y ddwy Lywodraeth. Rydym wedi cydweithio'n dda iawn â swyddogion yn yr Adran Gwaith a Phensiynau ac, yn wir, tan y penwythnos hwn, rydym wedi cydweithio'n dda iawn yn wleidyddol, a dyna pam yr oeddwn yn lleisio fy siom yn gynharach.

Through the access to employment working group, which is at official level, we have thrashed through a large number of the details associated with the Work Programme and, again, you're absolutely right that the direction of travel for people is off the Work Programme onto our programmes, and not the other way round, because our programmes are so much more successful in delivering sustainable employment. But they have been very co-operative in wanting to allow that to happen and to understand the rules around ESF and the complex European funding difficulties about additionality that cause many of these difficulties. I will just reiterate that we are working closely with the DWP to review the current Work Programme contracts, given their intention to extend the current delivery up until 2017, because it's an excellent opportunity for us to understand the entire programme better and to work very well across Governments, but I will say once more that it's because they are so very envious of how successful our programmes have been.

Trwy'r gweithgor mynediad i gyflogaeth, sydd ar lefel swyddogol, rydym wedi gwyntyllu nifer fawr o'r manylion sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Waith ac, unwaith eto, rydych yn llygad eich lle mai o'r Rhaglen Waith i'n rhaglenni ni y mae pobl yn teithio, ac nid fel arall, gan fod ein rhaglenni ni gymaint yn fwy llwyddiannus o ran darparu cyflogaeth gynaliadwy. Ond maent wedi bod yn barod iawn eu cydweithrediad o ran eu hawydd i ganiatáu i hynny ddigwydd a deall y rheolau ynghylch Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r anawsterau ariannu Ewropeaidd cymhleth ynghylch ychwanegedd sy'n achosi llawer o'r anawsterau hyn. Rwyf am ailadrodd ein bod yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i adolygu contractau presennol y Rhaglen Waith, o ystyried ei bwriad i estyn y ddarpariaeth bresennol hyd at 2017, oherwydd mae'n gyfle gwych inni i ddeall y rhaglen gyfan yn well ac i weithio'n dda iawn ar draws Llywodraethau, ond dywedaf unwaith eto fod hynny oherwydd eu bod mor genfigennus o lwyddiant ein rhaglenni ni.

17:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And finally, Mark Isherwood.

Ac yn olaf, Mark Isherwood.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:03

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I'm just intrigued to know why you experience an inability to determine where you can demonstrate added value through integration between UK Government programmes and your programmes when we humble opposition Members can. I think Welsh Government figures of 10 November showed that 48.9% of people going through Jobs Growth Wales remained in employment for six months, and that's a programme with employers' subsidy on offer and dealing with job-ready customers, but figures readily available from Work Programme providers show that, working with long-term unemployed without any employer subsidy, 36% of those who'd completed two full years on the programme remained in employment for six months. They're two entirely different demographics that complement each other. Don't shake your head; it's a fact. If not, prove it. You're providing a subsidy for jobs-ready people. The Work Programme is only referred to by Jobcentre Plus for people who are furthest from the workplace, otherwise they're not referred for a two-year programme. Why won't you admit they complement each other and bring them together, as the Welsh Affairs Committee wanted, instead of continuing to find partisan reasons not to?

Diolch yn fawr. Hoffwn gael gwybod pam ichi fethu â phennu ymhle y gallwch ddangos gwerth ychwanegol drwy integreiddio rhwng rhaglenni Llywodraeth y DU a'ch rhaglenni chithau, a ninnau Aelodau gostyngedig y gwrthbleidiau'n gallu gwneud hynny'n iawn. Credaf fod ffigurau 10 Tachwedd Llywodraeth Cymru'n dangos bod 48.9% o bobl sy'n mynd drwy Twf Swyddi Cymru yn aros mewn gwaith am chwe mis, ac mae honno'n rhaglen â chymhorthdal cyflogwyr ar gael sy'n ymdrin â chwsmeriaid parod am swyddi, ond mae ffigurau sydd ar gael yn rhwydd gan ddarparwyr y Rhaglen Waith yn dangos, drwy weithio gyda'r di-waith hirdymor heb ddim cymhorthdal cyflogwr, fod 36% o'r rhai a oedd wedi cwblhau dwy flynedd lawn ar y rhaglen yn aros mewn gwaith am chwe mis. Maent yn ddwy ddemograffeg hollol wahanol sy'n ategu ei gilydd. Peidiwch ag ysgwyd eich pen; mae'n ffaith. Os nad yw, profwch hynny. Rydych yn darparu cymhorthdal i bobl sy'n barod am swyddi. Dim ond y rhai sydd bellaf o'r gweithle y mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn eu cyfeirio at y Rhaglen Waith, neu fel arall ni chânt eu cyfeirio ar gyfer rhaglen ddwy flynedd. Pam na wnewch chi gyfaddef eu bod yn ategu ei gilydd ac yn dod â hwy at ei gilydd, fel yr oedd y Pwyllgor Materion Cymreig ei eisiau, yn hytrach na pharhau i ddod o hyd i resymau pleidiol dros beidio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:04

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, that just simply isn't right. I don't recognise any of the statistics the Member has just given. The Jobs Growth Wales programme is 82% successful in sustainable growth, and the verified statistics on the Work Programme in Wales are 19.1%. He is more than welcome to pick those up off the website.

He has misunderstood entirely what I'm saying about the alignment. We're not saying, 'We don't want to'; we are saying that, because we have to demonstrate additionality and because the Work Programme will not reveal exactly what it is that they are delivering, we cannot demonstrate that additionality. Officials have been extremely helpful. I will reiterate again: we have worked very closely with them, we are not reluctant to do it, but it has been impossible unless the Work Programme is much more transparent than it is at the moment. We are very hopeful that we will get there and, as I say, the direction of travel is always one way from the Work Programme to Jobs Growth Wales. So, he's wrong on that point as well, I'm afraid.

Wel, nid yw hynny'n gywir. Nid wyf yn cydnabod yr un o'r ystadegau y mae'r Aelod wedi'u rhoi. Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru yn sicrhau cyfradd lwyddiant o 82% o ran twf cynaliadwy, ac mae'r ystadegau a wiriwyd ar y Rhaglen Waith yng Nghymru yn 19.1%. Mae croeso iddo ddarllen y rheini ar y wefan.

Mae wedi camddeall yn llwyr yr hyn yr wyf yn ei ddweud am gyd-drefnu. Nid ydym yn dweud, 'Nid oes arnom eisiau'; ond yn hytrach hyn: oherwydd bod yn rhaid inni ddangos ychwanegedd ac oherwydd na wnaiff y Rhaglen Waith ddatgelu beth yn union y mae'n ei ddarparu, ni allwn ddangos yr ychwanegedd hwnnw. Mae swyddogion wedi bod yn hynod barod eu cymwynas. Dywedaf unwaith eto: rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda hwy, nid ydym yn amharod i wneud hynny, ond mae wedi bod yn amhosibl oni bai bod y Rhaglen Waith yn fwy tryloyw o lawer nag y mae ar hyn o bryd. Rydym yn obeithiol iawn y byddwn yn cyrraedd yno ac, fel y dywedais, cyfeiriad teithio unffordd sydd bob amser o'r Rhaglen Waith i Twf Swyddi Cymru. Felly, mae'n anghywir ar y pwynt hwnnw hefyd, mae arnaf ofn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:05

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister.

Diolch, Ddirprwy Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:05

**7. Cynnig Cydsyniad
Deddfwriaethol mewn perthynas
â'r Bil Arloesi Meddygol**

Item 7 is the legislative consent motion on the medical innovation Bill. I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

**7. Legislative Consent Motion on
the Medical Innovation Bill**

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding
Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 7 yw'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil arloesedd meddygol. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Arloesi Meddygol sy'n ymwneud â thrin a lliniaru clefyd, salwch, anaf, anabledd ac anhwylder meddwl; darparu gwasanaethau iechyd; llywodraethu clinigol a safonau gofal iechyd i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Medical Innovation Bill, relating to treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder; provision of health services; clinical governance and standards of health care in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

17:06

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd.

Thank you for the opportunity to explain why the Welsh Government has brought this legislative consent motion before the National Assembly and why we will ask Members to vote against it. Before doing so, I would like to thank the Health and Social Care Committee for its consideration of this LCM. The committee concluded that the provisions of the medical innovation Bill lie within the competence of the National Assembly and was not yet persuaded that the Bill is an appropriate vehicle to achieve its stated aims. The Welsh Government shares both of these conclusions.

Diolch ichi am y cyfle i egluro pam y mae Llywodraeth Cymru wedi dod â'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a pham y byddwn yn gofyn i'r Aelodau bleidleisio yn ei erbyn. Cyn gwneud hynny, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Daeth y pwyllgor i'r casgliad fod darpariaethau'r Bil arloesedd meddygol o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol ac ni chafodd ei ddarbwylllo bod y Bil yn gyfrwng priodol i gyflawni ei nodau datganedig. Mae Llywodraeth Cymru'n rhannu'r ddau gasgliad hwnnw.

The UK Government's position is that the provisions in the medical innovation Bill relate to medical negligence claims and the common law of tort, as it applies across the legal system in England and Wales. The UK Government is of the view, therefore, that the Bill deals with non-devolved matters, will apply to both England and Wales and is not within the competence of the National Assembly. Therefore, in their view, that renders a legislative consent motion unnecessary.

Safbwynt Llywodraeth y DU yw bod y darpariaethau yn y Bil arloesedd meddygol yn ymwneud â hawliadau esgeulustod meddygol a'r gyfraith gamweddau gyffredin, fel y mae'n berthnasol ar draws y system gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth y DU o'r farn, felly, fod y Bil yn ymdrin â materion sydd heb eu datganoli, y bydd yn berthnasol i Gymru a Lloegr ac nad yw o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Felly, yn ei barn hi, mae hynny'n golygu bod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ddiangen.

I have said out repeatedly in correspondence with the Department of Health Ministers why this is plainly not the case. The purpose and effect of the Bill is not to amend the law of tort generally, or to protect doctors from negligence claims in order to benefit those doctors. Rather, it sits firmly within paragraph 9 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006, which identifies the treatment and alleviation of disease and illness, the provision of health services, clinical governance and standards of healthcare as all entirely within the devolved competence of this National Assembly. It's for these reasons, therefore, that the Government brings this legislative consent motion to the floor today.

Rwyf wedi dweud droeon mewn gohebiaeth â Gweinidogion yr Adran Iechyd pam nad dyna, yn amlwg, yw'r sefyllfa. Nid pwrpas ac effaith y Bil yw newid y gyfraith gamweddau yn gyffredinol, nac amddiffyn meddygon rhag hawliadau esgeulustod er budd i'r meddygon hynny. Yn hytrach, mae'n eistedd yn gadarn o fewn paragraff 9 o Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n nodi bod trin a lleddfu afiechyd a salwch, darparu gwasanaethau iechyd, llywodraethu clinigol a safonau gofal iechyd yn gyfan gwbl o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad Cenedlaethol hwn. Am y rhesymau hyn, felly, y mae'r Llywodraeth yn dod â'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn ger eich bron heddiw.

It's then necessary to consider whether, having brought the LCM, the Assembly should give its consent for the Westminster Parliament to legislate in a devolved area. I understand, of course, Lord Saatchi's concern that there should be no bar to responsible innovation in medical practice. At this point, Dirprwy Lywydd, it's important to emphasise that this has always been a backbench Bill—one not brought forward by the Government at Westminster—and with strong and differing views held by individual members of all political parties. But against Lord Saatchi's own test, the Bill is unnecessary, as there is no evidence that innovative care is prevented by doctors' fears of the current system of clinical negligence. An excellent recent example can be seen in the use of innovative treatments in the United Kingdom, Europe and Africa for the treatment of patients with ebola, all of which has been possible within the current arrangements. I therefore agree with the position taken by organisations such as the British Medical Association that the Bill is unnecessary and should not proceed.

Of course, Dprwy Lywydd, there are many organisations and individuals who go beyond the belief that the Bill is unnecessary to argue that it is positively harmful. The Royal College of Radiologists, for example, in its written evidence to the Health and Social Care Committee, raised specific concerns about the removal of protections for patients from inappropriate experimentation and doctors from pressure to innovate in ways that are potentially detrimental to their patients.

The royal college highlighted the risk of exposing vulnerable and desperate patients to false hope and futile and potentially harmful treatments, as a result of the relaxation in existing governance mechanisms. I share the concerns of the royal college and many others that the Bill does not sufficiently protect vulnerable patients. Indeed, in November last, more than 100 leading clinical oncologists signed a letter published in 'The Times' opposing the Bill. At an earlier stage in the process, Robert Francis QC, author of the Mid Staffordshire review, pointed to what he called:

'an alarming lack of accountability or scrutiny or other safeguard built into the Bill.'

He concluded, and this is what he said, the Bill

'increases the risk to vulnerable patients of mavericks with irrational or unjustifiable grounds for proposing a treatment and those with commercial interests in promoting dubious treatments.'

Above all, it will leave patients without a remedy when injured by treatments that many doctors would consider unacceptable, and at the mercy of the judgments made by individual practitioners who have no professional support or oversight. Nick Ross, a distinguished journalist and chair of the Wales Cancer Bank advisory board put it more pithily when he described the Bill as,

'a hammer to crack a non-existent nut'

Mae'n rhaid felly ystyried, ar ôl cyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol, a ddylai'r Cynulliad roi ei gydsyniad i Senedd San Steffan ddeddfu mewn maes datganoledig. Rwyf yn deall, wrth gwrs, bryder yr Arglwydd Saatchi na ddylai fod yr un rhwystr i arloesi cyfrifol mewn ymarfer meddygol. Yma, Dirprwy Lywydd, mae'n bwysig pwysleisio bod hwn bob amser wedi bod yn Fil meinciau cefn—nid un a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yn San Steffan—a bod safbwyntiau cryf a gwahanol gan aelodau unigol o bob plaid wleidyddol. Ond yn erbyn prawf yr Arglwydd Saatchi ei hun, mae'r Bil yn ddiangen, gan nad oes dim tystiolaeth bod ofnau meddygon ynglŷn â'r system esgeulustod clinigol bresennol yn rhwystr i ofal arloesol. Mae enghraifft ardderchog ddiweddar i'w gweld yn y defnydd o driniaethau arloesol yn y Deyrnas Unedig, Ewrop ac Affrica i drin cleifion ag ebola, pob un ohonynt wedi bod yn bosibl o fewn y trefniadau presennol. Felly, rwyf yn cytuno â safbwynt sefydliadau megis Cymdeithas Feddygol Prydain fod y Bil yn ddiangen ac na ddylai fynd yn ei flaen.

Wrth gwrs, Dirprwy Lywydd, mae llawer o sefydliadau ac unigolion sy'n mynd ymhellach na'r gred bod y Bil yn ddiangen ac yn dadlau ei fod mewn gwirionedd yn niweidiol. Cododd Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, er enghraifft, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bryderon penodol ynghylch cael gwared ar amddiffyniadau i gleifion rhag arbrofi amhriodol a meddygon rhag pwysau i arloesi mewn ffyrdd a allai fod yn niweidiol i'w cleifion.

Tynnodd y coleg brenhinol sylw at y risg o roi gobaiht ffug a thriniaethau ofer a allai fod yn niweidiol i gleifion sy'n agored i niwed ac mewn angen dirfawr, o ganlyniad i lacio'r mecanweithiau llywodraethu presennol. Rwy'n rhannu pryderon y coleg brenhinol a llawer o bobl eraill nad yw'r Bil yn amddiffyn cleifion agored i niwed yn ddigonol. Yn wir, ym mis Tachwedd y llynedd, llofnodwyd llythyr a gyhoeddwyd yn 'The Times' yn gwrthwynebu'r Bil gan fwy na 100 oncolegydd dinigol blaenllaw. Yn gynharach yn y broses, tynnodd Robert Francis QC, awdur adolygiad Canolbarth Swydd Stafford, sylw at yr hyn a alwodd yn:

ddiffyg atebolrwydd neu graffu neu gamau diogelu eraill yn y Bil, i raddau brawychus.

Daeth i'r casgliad, a dyma beth a ddywedodd, fod y Bil

yn cynyddu'r risg i gleifion sy'n agored i niwed yn sgil rebeliaid â sail afresymol neu na ellir ei chyfiawnhau dros gynnyg triniaeth a rhai sydd â buddiannau masnachol mewn hyrwyddo triniaethau amheus.

Yn anad dim, ni fydd camau unioni ar gael i gleifion pan gânt eu hanafu gan driniaethau y byddai llawer o feddygon yn eu hystyried yn annerbyniol, a byddent ar drugaredd y dyfarniadau a wnaed gan ymarferwyr unigol sydd heb unrhyw gymorth neu oruchwyliaeth broffesiynol. Dywedodd Nick Ross, newyddiadurwr o fri a chadeirydd bwrdd cyngori Banc Canser Cymru yn fwy cryno pan ddisgrifiodd y Bil fel,

morthwyl i dorri cneuen nad yw'n bodoli

and one that would 'entrench old-fashioned malpractice'.

Not only would the Bill risk real detriment to individual patients, but as the Academy of Medical Royal Colleges concludes, one of its unintended but adverse consequences could be to undermine the essential role of proper, scientifically rigorous clinical trials on which innovative treatments for the whole of our patient body are legitimately based.

Dirprwy Lywydd, at the very minimum, this Bill is unnecessary. At worst, as concluded by Dr Sarah Wollaston, a GP herself, of course, and Conservative Chair of the House of Commons Health Select Committee, the Bill would endanger patients, fail to advance innovation, undermine clinical trials and set up a quacks' charter.

Here in Wales we have a proud record of patient participation in clinical trials. People take part every day in responsible medical innovation, motivated, very often, by the hope that, in doing so, they might make a difference in the future to others. We should tamper with that system only when we are completely convinced that we have something even better to put in its place. I do not believe that that could fairly be said of the Medical Innovation Bill as drafted. It is a solution in search of a problem and not a very sound solution at that. I ask Members to vote against the legislative consent motion today.

ac yn un a fyddai'n ymwreiddio camarfer hen ffasiw'n.

Byddai'r Bil yn peri risg wirioneddol i gleifion unigol, ond fel y daeth yr Academi Colegau Meddygol Brenhinol i'r casgliad, un o'i ganlyniadau anfwriadol ond andwyol posibl hefyd fyddai tansellio rôl hanfodol treialon clinigol priodol, gwyddonol drylwyr y mae'n briodol seilio triniaethau arloesol ar gyfer ein cleifion i gyd arnynt.

Ddirprwy Lywydd, fan lleiaf, mae'r Bil hwn yn ddiangen. Ar y gwaethaf, fel y daeth y Dr Sarah Wollaston i'r casgliad, sy'n feddyg teulu ei hun, wrth gwrs, yn Gadeirydd Pwyllgor Dethol Iechyd Tŷ'r Cyffredin, ac yn Geidwadwr, byddai'r Bil yn peryglu cleifion, yn methu â hybu arloesedd, yn tansellio treialon clinigol ac yn sefydlu siarter ar gyfer doctoriaid cwac.

Yma yng Nghymru mae gennym hanes balch o weld cleifion yn cymryd rhan mewn treialon clinigol. Mae pobl yn cymryd rhan bob dydd mewn arloesedd meddygol cyfrifol, wedi'u hysgogi, yn aml iawn, gan y gobaith y gallent, wrth wneud hynny, wneud gwahaniaeth yn y dyfodol i eraill. Ni ddylem ond ymyrryd â'r system honno pan fyddwn yn gwbl argyhoeddedig bod gennym rywbeth gwell fyth i roi yn ei lle. Nid wyf yn credu y gellid dweud hynny'n deg am y Bil Arloesi Meddygol fel y'i drafftwyd. Mae'n ateb sy'n chwilio am broblem, ac nid yw'n ateb cadarn iawn ar ben hynny. Gofynnaf i Aelodau bleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw.

17:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:12

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I am pleased to contribute to this debate in my capacity as Chair of the Health and Social Care Committee. I'll try and avoid repeating some of the information on the LCM provided by the Minister, and focus upon our work as a committee. Our report, which Members will have had the opportunity to read, addresses two main issues: whether the provisions of the Medical Innovation Bill fall within the legislative competence of this Assembly; and whether the Bill is an appropriate legislative vehicle to actually achieve its stated aims here in Wales. I will address each of these in turn.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gyfrannu at y ddaid hon yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ceisiaf osgoi ailadrodd rhywfaint o'r wybodaeth am y cynnig cydsyniad deddfwriaethol a ddarparwyd gan y Gweinidog, a chanolbwyntio ar ein gwaith fel pwyllgor. Mae ein hadroddiad, y bydd yr Aelodau wedi cael cyfle i'w ddarllen, yn mynd i'r afael â dau brif fater: a yw darpariaethau'r Bil Arloesi Meddygol yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad hwn; ac a yw'r Bil yn gyfrwng deddfwriaethol priodol i gyflawni'r amcanion a ddatganwyd mewn gwirionedd yma yng Nghymru. Byddaf yn ymdrin â'r ddau bwynt yn eu tro.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

First, the issue of legislative competence. The Supreme Court, in its judgment on the Agricultural Sector (Wales) Bill in July 2014, clarified that the test of whether the provisions in a Bill fall within the legislative competence of the Assembly is whether those provisions relate to a devolved subject. We acknowledged the view of the UK Government that the provisions in the Bill relate to the law of tort. However, the view of the Health and Social Care Committee is that the provisions in the Bill relate to the subject of health, specifically the treatment and alleviation of disease, illness, disability and mental disorder; the provision of health services; and clinical governance and standards of health. Neither medical innovation nor the law of tort are exceptions under Schedule 7 to the Government of Wales Act. Therefore, as a committee, we are clear that the provisions in the Bill fall within the legislative competence of the Assembly and that the consent of the Assembly is required for the provisions in this Bill to apply in Wales.

Secondly, the question of whether the Bill is an appropriate legislative vehicle to achieve its stated aims. As is frequently the case with LCMs, the time available to us as a committee was limited and brief. We issued a call for evidence in December, and are grateful to the six organisations and individuals who responded within that short notice. A list of those who responded is set out in the report, and the responses are available on our website. The Minister has already referred to some of those responses.

While generally supportive of appropriate medical innovation where doctor and patient agree that it is in the patient's best interests, the majority of those who responded to our consultation opposed the Bill, either in principle or as it is currently drafted. Concerns raised included: the potential for the Bill to create confusion and delays; the accountability for decisions to innovate made under the Bill; and the risk of exposing vulnerable or desperate patients to false hope and potentially harmful or expensive treatments.

In his submission to the consultation, Lord Saatchi acknowledged that there had been some opposition to his Bill, but said that many of the concerns had been resolved through amendments.

The short timescales available to us, and the other work in our programme, have resulted in us not being able to actually undertake a detailed piece of work on this occasion. However, I think that it is important for Assembly Members to be aware that, while the committee believes that patients should be able to benefit from innovative treatments where it is in their best interests to do so, on the basis of the evidence available to date, we have yet to be persuaded that this Bill will actually achieve its stated aim of encouraging such innovation.

Yn gyntaf, cymhwysedd deddfwriaethol. Eglurodd y Goruchaf Lys, yn ei ddyfarniad ar y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) ym mis Gorffennaf 2014, mai'r prawf a yw'r darpariaethau mewn Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yw a yw'r darpariaethau hynny'n ymwneud â phwnc datganoledig. Rydym yn cydnabod barn Llywodraeth y DU bod y darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â'r gyfraith gamweddau. Fodd bynnag, barn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw bod y darpariaethau yn y Bil yn ymwneud ag iechyd, yn benodol trin a lleddfu afiechyd, salwch, anabledd ac anhwylder meddwl; darparu gwasanaethau iechyd; a llywodraethu clinigol a safonau iechyd. Nid yw arloesedd meddygol na'r gyfraith gamweddau yn eithriadau o dan Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Felly, fel pwyllgor, rydym yn glir bod y darpariaethau yn y Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a bod angen cydsyniad y Cynulliad i'r darpariaethau yn y Bil hwn fod yn gymwys yng Nghymru.

Yn ail, ai'r Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol priodol i gyflawni'r amcanion a ddatganwyd. Fel sy'n aml yn wir gyda chynigion cydsyniad deddfwriaethol, roedd yr amser a oedd ar gael inni fel pwyllgor yn gyfyngedig ac yn fyr. Gwnaethom alwad am dystiolaeth ym mis Rhagfyr, ac rydym yn ddiolchgar i'r chwe sefydliad ac unigolyn a ymatebodd yn y cyfnod byr hwnnw. Rhoddir rhestr o'r rhai a ymatebodd yn yr adroddiad, ac mae'r ymatebion ar gael ar ein gwefan. Mae'r Gweinidog eisoes wedi cyfeirio at rai o'r ymatebion hynny.

Er eu bod yn gyffredinol yn cefnogi arloesedd meddygol priodol lle mae meddyg a chlaf yn cytuno ei fod er pennaf les y claf, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'n hymgyngghoriad yn gwrthwynebu'r Bil, naill ai mewn egwyddor, neu fel y mae wedi cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys: y potensial i'r Bil greu dryswch ac oedi; yr atebolrwydd am benderfyniadau i arloesi a wneir o dan y Bil; a'r risg o roi gobaith ffug a thriniaethau a allai fod yn niweidiol neu'n ddrud i gleifion sy'n agored i niwed ac mewn angen dirfawr.

Yn ei gyflwyniad i'r ymgynghoriad, roedd yr Arglwydd Saatchi yn cydnabod y bu rhywfaint o wrthwynebiad i'w Fil, ond dywedodd fod llawer o'r pryderon wedi eu datrys drwy welliannau.

Oherwydd yr amserlenni byr a oedd ar gael inni, a'r gwaith arall yn ein rhaglen, nid ydym mewn gwirionedd wedi gallu ymgymryd â darn manwl o waith ar yr achlysur hwn. Fodd bynnag, credaf ei bod yn bwysig i Aelodau'r Cynulliad fod yn ymwybodol bod y pwyllgor yn credu y dylai cleifion allu elwa o driniaethau arloesol pan fo hynny er eu lles pennaf, ond nad ydym eto, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael hyd yn hyn, wedi cael ein darbwyllo y bydd y Bil hwn mewn gwirionedd yn cyflawni'r nod a ddatganwyd, sef annog arloesedd o'r fath.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I just want to make a very brief contribution to this debate. I have to say that, in terms of the Welsh Conservatives' view, we are of the opinion that we need to see innovation, of course we are, in terms of treatments, in terms of the availability of new innovation in the Welsh NHS, and, indeed, elsewhere. I think that the policy aims of the Bill, as put forward by Lord Saatchi, are things that we can support. However, is this Bill the appropriate vehicle, and does this lie within the competence of the National Assembly for Wales?

I have to say that I fully concur with the Welsh Government in terms of its view and the view of the Health and Social Care Committee in terms of the scope of this Bill falling absolutely within the competence of the Assembly. It is very clear that this is touching on issues that relate to the field of health in the Government of Wales Act 2006, and therefore it is entirely appropriate that we're having this debate in the Senedd today. We will be voting against the LCM on the basis that we do not feel that there is a need, frankly, for the provisions in this Bill in order to allow for appropriate medical innovation here in Wales. As the Minister has already said, and, as we received evidence to the health committee from a range of sources, there is innovation already taking place. Frankly, Wales and the rest of the United Kingdom are at the cutting edge, in many respects, of medical innovation, with new treatments coming online and upstream all of the time. We ought not to undermine that by tinkering with our legislative arrangements in a way that would undermine the accountability that's currently in the system, which allows for that innovation to take place.

So, we do feel that the provisions in this Bill are unnecessary, that the current law, and the ethical guidance that sits alongside that law, are sufficient and adequate to be able to allow for responsible medical innovation where there is a patient interest that clearly is going to be pursued. For that reason, we'll be supporting the Government's position today and encouraging Members in this Chamber to vote against this LCM.

Rwyf eisiau gwneud cyfraniad byr iawn at y ddatl hon. Mae'n rhaid imi ddweud, o ran safbwynt y Ceidwadwyr Cymreig, ein bod o'r farn bod angen inni weld arloesedd, wrth gwrs, o ran triniaethau, o ran sicrhau bod arloesedd newydd ar gael yn y GIG yng Nghymru, ac, yn wir, mewn mannau eraill. Rwy'n credu y gallwn gefnogi amcanion polisi'r Bil, fel y'i cyflwynwyd gan yr Arglwydd Saatchi. Fodd bynnag, ai'r Bil hwn yw'r cyfrwng priodol, ac a yw o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn cytuno'n llwyr â Llywodraeth Cymru o ran ei barn a barn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol bod cwmpas y Bil hwn yn gyfangwbl o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae'n amlwg iawn bod hwn yn cyffwrdd â materion sy'n ymwneud â maes iechyd yn Neddff Llywodraeth Cymru 2006, ac felly mae'n gwbl briodol ein bod yn cael y ddatl hon yn y Senedd heddiw. Byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y sail nad ydym yn teimlo bod angen y darpariaethau yn y Bil hwn, dweud y gwir, er mwyn caniatáu ar gyfer arloesi meddygol priodol yma yng Nghymru. Fel y dywedodd y Gweinidog eisoes, ac, fel y dangoswyd yn y dystiolaeth i'r pwyllgor iechyd o amrywiaeth o ffynonellau, mae arloesedd eisoes yn digwydd. A dweud y gwir, mae Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig ar flaen y gad, mewn sawl ffordd, o ran arloesi meddygol, gyda thriniaethau newydd yn dod ar-lein ac i fyny'r gadwyn drwy'r amser. Ni ddylem danseilio hynny drwy chwarae â'n trefniadau deddfwriaethol mewn modd a fyddai'n tansilio'r atebolrwydd sy'n rhan o'r system ar hyn o bryd, ac sy'n caniatáu i'r arloesi ddigwydd.

Felly, rydym yn teimlo bod y darpariaethau yn y Bil hwn yn ddiangen, bod y gyfraith bresennol, a'r canllawiau moesegol sy'n bodoli ochr yn ochr â'r gyfraith, yn ddigonol i allu caniatáu ar gyfer arloesi meddygol cyfrifol lle bydd lles cleifion yn amlwg yn mynd i gael ei hybu. Am y rheswm hwnnw, byddwn yn cefnogi safbwynt y Llywodraeth heddiw ac yn annog Aelodau yn y Siambr hon i pleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Bydd Plaid Cymru yn pleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yma, er ein bod ni fel plaid yn bendant iawn yn gefnogol o arloesedd meddygol, a'r arloesedd meddygol sydd yn digwydd o ddydd i ddydd yn yr NHS ac ym mhrifysgolion yma, yng Nghymru, a thu hwnt.

Yn gyntaf, fel y mae eraill wedi sôn eisoes, mae'r pwyllgor iechyd o'r farn bod y cymhwysedd i ddeddfu yn y maes yma yn gorwedd yn y Cynulliad Cenedlaethol, nid yn San Steffan. Nid yw arloesi meddygol yn eithriad i Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac felly mae'n fater iechyd i ni fod yn deddfu yn y lle yma, yn glir iawn.

Plaid Cymru will be voting against this LCM, although we as a party are certainly supportive of medical innovation and the medical innovation that happens on a day to day basis within the NHS and in the universities here, in Wales, and beyond.

First of all, as others have already mentioned, the health committee is of the view that competence to legislate in this area does lie here in the National Assembly rather than in Westminster. Medical innovation is not an exception to Schedule 7 of the Government of Wales Act and therefore it is clearly an issue related to health on which we should legislate in this place.

Yn yr ymgynghoriad byr a gyflawnodd y pwyllgor iechyd, fe gawsom ni ymateb clir a chryf iawn gan gynrychiolwyr meddygol Coleg Brenhinol y Ffisigwyr a Choleg Brenhinol y Radiolegwyr, yn gwrthwynebu ac yn nodi amheuan sylweddol iawn am rai o'r cymalau yn y Ddeddf, gan gynnwys a oedd y Mesur yn angenrheidiol yn y lle cyntaf. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod yna ddiffyg atebolrwydd ymchwil yn y Mesur fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, ac felly byddai rhywbeth sydd yn greiddiol iawn i arloesedd meddygol ar goll o'r drafodaeth pe bai'r Ddeddf yma'n cael ei phasio, sef yr angen i rannu arfer da—i rannu arfer drwg hefyd, o ran hynny—ac i ddysgu o'r gwersi sydd yn deillio allan o ymchwil ac arloesedd. Mae'r cyfan yna yn cael ei fethu o'r Mesur fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

Felly, am y rhesymau hynny, fe fydd Plaid Cymru heddiw yn gwrthod ac yn pleidleisio yn erbyn y cynnig yma.

In the brief consultation undertaken by the health committee, we received a clear and robust response from representatives from the Royal College of Physicians and the Royal College of Radiologists, expressing their objection and noting their very serious concerns about some clauses within the Act, including questions as to whether the Bill was necessary in the first place. They also highlighted the fact that there is a lack of research accountability inherent in the Bill as currently drafted, and therefore that something that is at the heart of medical innovation would be missing from the debate if this Bill were to be passed, and that is the need to share best practice—and worst practice also, if it comes to that—and to learn from the lessons that emerge from research and innovation. All of that is missing from the Bill as drafted as present.

So, for those reasons, Plaid Cymru will today be opposing and will vote against this motion.

17:20

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If I could add to the consensus that is clearly developing around the Chamber this afternoon, Lord Saatchi's Bill looks to modify the duty care doctors have for their patients, and I note the belief of Earl Howe from Westminster that these issues are tort. I don't disagree. They probably do relate to tort. The legislation does have all the wrappings of something that affects private law rights, however the Bill does suffer from hybridity in that it clearly also relates to health and public expenditure on health, and thus trespasses into devolved competence. Thus, I believe, it is a matter for the Welsh Government and this Chamber. Therefore, I support that the Government has felt it necessary to bring forward the LCM. It's right that it is on the order paper today.

I have every sympathy for Lord Saatchi's motivation. I know his own personal experience within his family has driven his thoughts behind this Bill, and all of us would have sympathy for that. But, as important as innovation is—and innovation in healthcare is something that I and my group feel very strongly about, something we have actively sought to promote and to deliver here in Wales—we cannot currently support this Bill as drafted. I don't believe that it would enhance innovation in medical care or enhance outcomes for patients. Indeed, as outlined by many of the responses that the health committee received, or, indeed, responses to Lord Saatchi's own consultation, there is a very genuine fear that patients could be harmed as a result of this legislation, and innovation stifled. Therefore, we, too, as a group will vote against the LCM this afternoon.

Pe gallwn i ychwanegu at y consensws sy'n amlwg yn datblygu o gwmpas y Siambr brynhawn heddiw, mae Bil yr Arglwydd Saatchi yn ceisio addasu'r ddyletswydd gofal sydd gan feddygon ar gyfer eu cleifion, a nodaf gred yr Iarlwr Howe o San Steffan fod y materion hyn yn gyfraith camweddau. Nid wyf yn anghytuno. Maent yn ôl pob tebyg yn ymwneud â'r gyfraith gamweddau. Mae'r ddeddfwriaeth yn ymddangos fel rhywbeth sy'n effeithio ar hawliau cyfraith breifat, ond mae'r Bil yn un hybrid gan ei fod yn amlwg hefyd yn ymwneud ag iechyd a gwariant cyhoeddus ar iechyd, ac felly mae'n symud i diriogaeth cymhwysedd datganoledig. Felly, rwy'n credu ei fod yn fater i Lywodraeth Cymru a'r Siambr hon. Felly, rwy'n cefnogi'r ffaith fod y Llywodraeth wedi teimlo ei bod yn angenrheidiol cyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Mae'n iawn ei fod ar y papur trefn heddiw.

Mae gennyf bob cydymdeimlad â chymhelliant yr Arglwydd Saatchi. Rwy'n gwybod bod ei brofiad personol ei hun yn ei sbarduno ei syniadau y tu ôl i'r Bil hwn, a byddai pob un ohonom yn cydymdeimlo â hynny. Ond, er mor bwysig yw arloesi—ac mae arloesi mewn gofal iechyd yn rhywbeth yr wyf i a'm grŵp yn teimlo'n gryf iawn yn ei gylch, yn rhywbeth yr ydym wedi ceisio mynd ati i'w hyrwyddo a'i gyflawni yma yng Nghymru—ni allwn ar hyn o bryd gefnogi'r Bil hwn fel y'i drafftwyd. Nid wyf yn credu y byddai'n gwella'r arloesedd mewn gofal meddygol nac yn gwella canlyniadau i gleifion. Yn wir, fel yr amlinellwyd gan lawer o'r ymatebion a dderbyniodd y pwyllgor iechyd, neu, yn wir, ymatebion i ymgynghoriad yr Arglwydd Saatchi ei hun, mae ofn gwirioneddol iawn y gallai'r ddeddfwriaeth hon arwain at niweidio cleifion a mygu arloesedd. Felly, byddwn ni, hefyd, fel grŵp, yn pleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol brynhawn heddiw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:22

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Bill is ill thought out. It also offers fewer guarantees and protections than currently exist in common law and therefore the legislation is unnecessary and also undesirable.

Mae'r Bil wedi cael ei ystyried yn wael. Mae hefyd yn cynnig llai o warantau ac amddiffyniadau nag sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y gyfraith gyffredin ac felly mae'r ddeddfwriaeth yn ddiangen ac mae hefyd yn annymunol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The only comment I want to make is, really, to raise with the Minister and with the Welsh Government the need, I believe, to actually make an approach to the law officers in Westminster on the fact that they still don't appear to understand the implication of the recent judgment on the Agricultural Sector (Wales) Bill. It is extremely concerning that there is still advice being given that clearly contradicts the position that's been outlined very clearly by the Supreme Court, and the amount of time that appears to be wasted in Westminster now as a consequence of that lack of understanding and lack of attention to decisions relating to Welsh devolution should concern us all. It's certainly my view that approaches should be made, either via the First Minister or via the Counsel General, to try and resolve that situation.

Yr unig sylw yr wyf am ei wneud, mewn gwirionedd, yw codi gyda'r Gweinidog a chyda Llywodraeth Cymru yr angen, yn fy marn i, i gysylltu â swyddogion y gyfraith yn San Steffan ynglŷn â'r ffaith ei bod yn ymddangos eu bod yn dal heb ddeall goblygiadau'r dyfarniad diweddar ar y Bil Sector Amaethyddol (Cymru). Mae'n destun pryder mawr bod cyngor yn dal i gael ei roi sy'n amlwg yn gwrthdweud y sefyllfa a amlinellwyd yn glir iawn gan y Goruchaf Lys, a dylai beri pryder inni i gyd faint o amser sydd i'w weld yn cael ei wastraffu yn San Steffan erbyn hyn o ganlyniad i'r diffyg dealltwriaeth hwnnw a'r diffyg sylw at benderfyniadau sy'n ymwneud â datganoli yng Nghymru. Fy marn i yn sicr yw y dylid cysylltu, naill ai drwy'r Prif Weinidog neu drwy'r Cwnsler Cyffredinol, er mwyn ceisio datrys y sefyllfa honno.

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Minister to respond.

A'r Gweinidog i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:23 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'd like to thank all those who have contributed to the debate. There's clearly an emerging consensus across the Chamber around three key issues. Firstly, it's common ground in this Chamber that this is a Bill that trespasses into areas of devolved competence. I've heard what Mick Antoniw has said about the need to draw the attention of certain departments in Whitehall to the settlement and to the latest judgments in relation to it. Secondly, we are all agreed here that responsible medical innovation is something we want to see and we strongly support, but, in the third point of consensus, our fear is that the Bill, far from adding to the capacity to do that, runs the risk of frustrating responsible innovation. I therefore ask Members to vote against the motion, confirming our view that the provisions within this Bill should not apply to Wales.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl. Mae consensws clir yn dod i'r amlwg ar draws y Siambr ynghylch tri mater allweddol. Yn gyntaf, mae'n dir cyffredin yn y Siambr hon bod hwn yn Fil sy'n symud i diriogaeth meysydd o gymhwysedd datganoledig. Rydw i wedi clywed yr hyn y mae Mick Antoniw wedi'i ddweud am yr angen i dynnu sylw rhai adrannau yn Whitehall at y setliad ac at y dyfarniadau diweddaraf mewn cysylltiad â hynny. Yn ail, rydym i gyd yn gytûn yma fod arloesedd meddygol cyfrifol yn rhywbeth yr ydym am ei weld ac yr ydym yn ei gefnogi'n gryf, ond, yn y trydydd pwynt o gonsensws, ein hofn yw bod y Bil, yn hytrach nag ychwanegu at y gallu i wneud hynny, yn peri risg y bydd arloesi cyfrifol yn cael ei lesteirio. Felly, gofynnaf i'r Aelodau bleidleisio yn erbyn y cynnig, gan gadarnhau ein barn na ddylai'r darpariaethau o fewn y Bil hwn fod yn gymwys i Gymru.

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

8. Dadl: Adolygiad o Addasiadau Byw'n Annibynnol

Deholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 3 yn enw Paul Davies, gwelliant 2 yn enw Elin Jones, a gwelliant 4 yn enw Aled Roberts.

8. Debate: The Review of Independent Living Adaptations

The following amendments have been selected: amendments 1 and 3 in the name of Paul Davies, amendment 2 in the name of Elin Jones, and amendment 4 in the name of Aled Roberts.

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 8 is a debate on the review of independent living adaptations, and I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Mae eitem 8 yn ddadl ar yr adolygiad o addasiadau byw'n annibynnol, a galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnal y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5682 Jane Hutt

Motion NDM5682 Jane Hutt

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau addasiadau a sut maent yn helpu pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain am gyhyd â phosibl.
2. Yn nodi canfyddiadau'r Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol, a gyhoeddwyd ar 23 Ionawr 2015.
3. Yn cefnogi gweithredu gan Lywodraeth Cymru i wella'r cymorth sydd ar gael i bobl sydd angen tai wedi'u haddasu.

Cynigiwyd y cynnig.

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Acknowledges the importance of adaptations services and how they help people to continue living independently in their own home for as long as possible.
2. Notes the findings of the Review of Independent Living Adaptations, which was published on 23rd January 2015.
3. Supports action by the Welsh Government to enhance the help available to people in need of adapted housing.

Motion moved.

17:24

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Deputy Presiding Officer.

I'm very pleased to open this debate on the important subject of helping people to live in their own homes for as long as possible. This follows the report I published recently on our major review of independent living adaptations. Enabling people to live independently in their own homes, in a safe environment, is important to their quality of life and their health and wellbeing. It also helps to reduce demand on our health and care services by preventing unnecessary admissions to hospital often through accident and emergency departments and long-term care. Over and above reducing demand on the services, this saves both financial and human costs too—for example, the £29,000 cost of a broken hip resulting from a fall, and the detrimental impact this would have on a person's life. The delivery of adaptations has improved over the last few years. The time taken to deliver disabled facilities grants has reduced. We've had notable success with additional programmes of action, such as the independent living grants, which made use of additional funding available at the time. More recently, adaptations programmes have been playing an important part in the delivery of the intermediate care fund. However, it is still not good enough. I share the Commissioner for Older People in Wales's concerns regarding delays in parts of the current system. There are unacceptable discrepancies across local authorities in Wales, with scope for considerable improvement, and I want to see that happen. This is why we commissioned the review, and the findings of our report will inform action that will lead to improvements.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

Rwy'n falch iawn o agor y ddatl ar y pwnc pwysig hwn, sef helpu pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd ag y bo modd. Mae hyn yn dilyn adroddiad a gyhoeddais yn ddiweddar ar ein hadolygiad mawr o addasiadau byw'n annibynnol. Mae galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, mewn amgylchedd diogel, yn bwysig i'w hansawdd bywyd a'u hiechyd a'u lles. Mae hefyd yn helpu i leihau'r galw ar ein gwasanaethau iechyd a gofal drwy atal pobl rhag cael eu derbyn yn ddiangen i'r ysbyty, yn aml drwy adrannau damweiniâu ac achosion brys, a gofal hirdymor. Yn ogystal â lleihau'r galw ar y gwasanaethau, mae hyn yn arbed costau ariannol a dynol hefyd—er enghraifft, y £29,000 sef cost torri clun o ganlyniad i syrthio, a'r effaith andwyol y byddai hyn yn ei chael ar fywlyd unigolyn. Mae'r broses o gyflwyno addasiadau wedi gwella dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r amser a gymerir i ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl wedi lleihau. Rydym wedi cael llwyddiant nodedig gyda rhaglenni gweithredu ychwanegol, megis y grantiau byw'n annibynnol, a ddefnyddiodd gyllid ychwanegol a oedd ar gael ar y pryd. Yn fwy diweddar, mae rhaglenni addasiadau wedi bod yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflwyno'r gronfa gofal canolraddol. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon da. Rwy'n rhannu pryderon Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ynghylch oedi mewn rhannau o'r system bresennol. Mae anghysondebau annerbyniol ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda lle i wella'n sylweddol, ac rwyf am weld hynny'n digwydd. Dyma pam y comisiynydd yr adolygiad gennym, a bydd canfyddiadau ein hadroddiad yn llywio camau a fydd yn arwain at welliannau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

At present, housing adaptations are delivered in different ways, across different tenures. While some people get a quicker service than others, trying to establish a universal system may have unintended consequences. I would not wish to make changes that meant people had to wait longer for the adaptations that they currently receive fairly quickly—for example, under the rapid response adaptations programme. This programme has been extremely successful since its introduction in 2002. It facilitates quicker hospital discharge and prevents people from entering more long-term care by providing relatively simple adaptations work. Disabled facilities grants are also important, and are available to people in all tenures. Waiting times, as I said, have drastically improved.

I was pleased to see that the local authority returns for 2013-14 showed all local authorities are now delivering their DFGs within the statutory timescale of six months to approve the grant, and six months to complete the works. However, this does not mean further improvement isn't required, and I recently wrote to all local authorities reminding them of their corporate responsibilities in relation to DFG provision. In order to speed up the service provided, the Welsh Government has, for some time, advised local authorities to provide non-means-tested adaptations up to a value of £3,000 outside the DFG system. It does not really make sense to provide minor adaptations through that system, as the review report acknowledges. The report calls for a move towards universalism in the provision of adaptations: that is, providing them free of charge to all who need them, irrespective of income. I have reservations about this in terms of best use of increasingly limited public money. The report suggests the tests of resources, or means tests, should be dispensed with in order to make the application process less complex. Clearly, we should make the process as simple and user-friendly as possible. However, at a time when resources are being cut, I do not agree it would be wise to scrap the means test altogether. The option of a move towards a single system for providing adaptations is attractive in some ways. However, the way in which they are funded in different tenures of housing presents a number of difficulties in achieving a workable solution.

Ar hyn o bryd, mae addasiadau tai'n cael eu darparu mewn gwahanol ffyrdd, ar draws gwahanol ddaliadaethau. Er bod rhai pobl yn cael gwasanaeth cyflymach nag eraill, gellid arwain at ganlyniadau anfwriadol trwy geisio sefydlu'r un system i bawb. Ni fyddwn yn dymuno gwneud newidiadau sy'n golygu bod pobl yn aros yn hwy ar gyfer yr addasiadau y maent yn eu derbyn yn weddol gyflym ar hyn o bryd, er enghraifft o dan y rhaglen addasiadau brys. Mae'r rhaglen hon wedi bod yn hynod lwyddiannus ers ei chyflwyno yn 2002. Mae'n ei gwneud yn haws rhyddhau cleifion yn gyflymach o ysbty ac yn atal pobl rhag mynd i ofal mwy hirdymor drwy ddarparu addasiadau cymharu syml. Mae grantiau cyfleusterau i'r anabl hefyd yn bwysig, ac maent ar gael i bobl ym mhob deiliadaeth. Mae amseroedd aros, fel y dywedais, wedi gwella'n sylweddol.

Roeddwn yn falch o weld bod ffriflenni awdurdodau lleol ar gyfer 2013-14 yn dangos bod pob awdurdod lleol bellach yn cyflwyno eu grantiau cyfleusterau i'r anabl o fewn yr amserlen statudol o chwe mis i gymeradwyo'r grant, a chwe mis i gwblhau'r gwaith. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes angen gwella mwy fyth, ac yn ddiweddar ysgrifennais at bob awdurdod lleol yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau corfforaethol mewn cysylltiad â darpariaeth grantiau cyfleusterau i'r anabl. Er mwyn cyflymu'r gwasanaeth, mae Llywodraeth Cymru, ers peth amser, wedi cynghori awdurdodau lleol i ddarparu addasiadau gwerth hyd at £3,000 heb brawf modd y tu allan i'r system grantiau cyfleusterau i'r anabl. Nid yw wir yn gwneud synnwyr i ddarparu mân addasiadau trwy'r system honno, fel y mae adroddiad yr adolygiad yn ei gydnabod. Mae'r adroddiad yn galw am symud tuag at gyffredinolïaeth wrth ddarparu addasiadau: hynny yw, eu darparu'n rhad ac am ddim i bawb sydd eu hangen, ni waeth faint yw eu hincwm. Mae gennyf amheuan am hyn o safbwynt y defnydd gorau o arian cyhoeddus, a hwnnw'n dod yn fwy a mwy cyfyngedig. Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylid cael gwared ar brofion adnoddau, neu brofion modd, er mwyn gwneud y broses ymgeisio'n llai cymhleth. Yn amlwg, dylem wneud y broses mor syml a hawdd â phosibl. Fodd bynnag, ar adeg pan fo adnoddau'n cael eu cwtogi, nid wyf yn cytuno y byddai'n ddoeth cael gwared ar y prawf modd yn gyfan gwbl. Mae'r opsiwn o symud tuag at un system ar gyfer darparu addasiadau yn ddeniadol mewn rhai ffyrdd. Fodd bynnag, mae'r ffordd y maent yn cael eu hariannu mewn gwahanol ddaliadaethau tai yn cyflwyno nifer o anawsterau o ran sicrhau ateb ymarferol.

Under the current arrangements, physical adaptation grants are funded out of social housing grant for tenants of housing associations. Council tenants receive adaptations through the housing revenue account and large-scale voluntary transfer bodies build in the cost of them into their dowry bids. Disabled facilities grants are funded out of unhypothecated local authority general capital funding. This allows local authorities to determine themselves how much they need to spend in response to demand. Pooling these different funding streams is far from straightforward and I am not convinced necessary. I am mindful of the situation in England where the funding for disabled facilities grants is ring-fenced. The money is often exhausted before the end of the financial year. Any change to the current funding arrangements will need careful consideration. We need to make sure any changes will improve the service. Despite the many complexities, a number of the recommendations contained in this report are clearly sensible. I am strongly attracted, for example, to recommendation 15 on accessible housing registers. I also support recommendation 18 on local authorities having multidisciplinary teams to carry out adaptations works. These are examples of good practice and I expect all local authorities to adopt them. This is something that I will be pursuing with them.

The report is also correct in pointing out there should be consistency across Wales in terms of occupational therapists' working methods. I see an important role for the College of Occupational Therapists in making sure adaptations work for anyone who needs them.

I'm sure today's debate will highlight other matters that will form part of our response to the review. I'm anxious to hear Members' views on these matters. However, we need to guard against thinking these issues are susceptible to easy solutions. Concerted action to enable older people to live independent lives wherever possible will require the participation of all agencies with an interest. Local authorities, the WLGA, registered social landlords, and Care and Repair will be at the vanguard of this action. However, I'm also conscious of the crucial role the NHS can play. I'm therefore pleased to announce today the Minister for Health and Social Services has agreed that he and I should jointly sponsor a taskforce charged with developing an integrated response to the report we published on 23 January.

I know many colleagues have strong views on the matters set out in this report. Although they are important, this is much more than just a debate about targets and performance indicators; this is a debate about providing crucial services for people so they can lead happy, healthy, safe, fulfilled lives. I very much look forward to Members' contributions.

O dan y trefniadau presennol, mae grantiau addasiadau ffisegol yn cael eu hariannu o'r grant tai cymdeithasol i denantiaid cymdeithasau tai. Mae tenantiaid y Cyngor yn derbyn addasiadau drwy'r cyfrif referniw tai ac mae cyrff trosglwyddo gwirfoddol ar raddfa fawr yn cynnwys eu cost yn eu ceisiadau gwaddoli. Mae grantiau cyfleusterau i'r anabl yn cael eu hariannu o arian cyfalaf cyffredinol awdurdodau lleol heb ei neilltuo. Mae hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol benderfynu eu hunain faint y mae angen iddynt ei wario mewn ymateb i alw. Nid peth syml o gwbl fyddai cronni'r gwahanol ffrydiau cyllid ac nid wyf wedi fy argyhoeddi bod angen gwneud hynny. Rwy'n ymwybodol o'r sefyllfa yn Lloegr lle mae'r cyllid ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl wedi ei glustnodi. Mae'r arian yn aml yn dod i ben cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd angen ystyried yn ofalus unrhyw newid i'r trefniadau cyllido presennol. Mae angen inni wneud yn siŵr y bydd unrhyw newidiadau yn gwella'r gwasanaeth. Er gwaethaf y llu o gymhlethdodau, mae nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn amlwg yn synhwyrol. Rwy'n cael fy nenu'n fawr, er enghraifft, gan argymhelliad 15 ar gofrestrau tai hygyrch. Rwyf hefyd yn cefnogi argymhelliad 18 y dylai awdurdodau lleol gael timau amlddisgyblaethol i wneud gwaith addasu. Mae'r rhain yn enghreifftiau o arfer da ac rwy'n disgwyl i bob awdurdod lleol eu mabwysiadu. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn mynd ar ei drywydd gyda nhw.

Mae'r adroddiad hefyd yn gywir wrth dynnu sylw y dylai fod cysondeb ledled Cymru o ran dulliau gweithio therapyddion galwedigaethol. Rwy'n gweld rôl bwysig ar gyfer y Coleg y Therapyddion Galwedigaethol wrth sicrhau bod addasiadau'n gweithio ar gyfer unrhyw un sydd eu hangen.

Rwy'n siŵr y bydd y ddadl heddiw yn tynnu sylw at faterion eraill a fydd yn rhan o'n hymateb i'r adolygiad. Rwy'n awyddus i glywed barn yr Aelodau am y materion hyn. Fodd bynnag, mae angen inni beidio â meddwl bod atebion hawdd i'r materion hyn. Bydd angen i'r holl asiantaethau sydd â buss weithredu ar y cyd er mwyn galluogi pobl hŷn i fyw bywydau annibynnol lle bynnag y bo modd. Bydd awdurdodau lleol, CLILC, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a Gofal a Thrwio ar flaen y gad yn hyn o beth. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol o'r rôl hanfodol y gall y GIG ei chwarae hefyd. Rwy'n falch felly o gyhoeddi heddiw bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno y dylai ef a minnau ar y cyd noddi tasglu i fod yn gyfrifol am ddatblygu ymateb integredig i'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym ar 23 Ionawr.

Rwy'n gwybod bod gan lawer o gydweithwyr farn gref ar y materion yn yr adroddiad hwn. Er eu bod yn bwysig, mae hyn yn llawer mwy na dim ond dadl am dargedau a dangosyddion perfformiad; mae hon yn ddadl am ddarparu gwasanaethau hollbwysig i bobl fel y gallant fyw bywydau hapus, iach, diogel, bodlon. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gyfraniadau Aelodau.

17:31

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the four amendments to the motion and I call on Mark Isherwood to move amendments 1 and 3, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliannau 1 a 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwelliant 1—Paul Davies

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i lunio siarter cwsmeriaid yn amlinellu ymrwymadau mewn perthynas â gwasanaethau addasiadau;

b) gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol i nodi safonau ar gyfer amseroedd darparu a sicrhau eu bod yn cael eu bodloni gan bob awdurdod lleol;

c) archwilio gwasanaethau addasiadau i ganfod arfer gorau a'i roi ar waith; a

d) rhoi mecanweithiau ar waith i fonitro boddhad cwsmeriaid a chanlyniadau tymor hwy.

Gwelliant 3—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi argymhellion allweddol yr ymgyrch Home Truths gan Leonard Cheshire Disability a'r adroddiad No Place Like Home.

Cynigiwyd gwelliannau 1 a 3.

Amendment 1—Paul Davies

Delete Point 3 and replace with:

Calls on the Welsh Government to:

a) ensure that local authorities work with social landlords to produce a customer charter setting out commitments in relation to adaptation services;

b) work with local authorities and social housing providers to set out delivery time standards and ensure that they are met by all local authorities;

c) audit adaptation services to identify best practice and its implementation; and

d) put in place mechanisms to monitor customer satisfaction and longer-term outcomes.

Amendment 3—Paul Davies

Add new point at the end of the motion:

Notes the key recommendations of the Leonard Cheshire Disability Home Truths campaign and No Place Like Home Report.

Amendments 1 and 3 moved.

17:31

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch. Well, the College of Occupational Therapists has welcomed this review of independent living adaptations, whilst noting that it is the latest in a long line. As they state, it's vital to move from regarding adaptations as a building task to properly considering them as an intervention designed to minimise the impact of disability, enhance independence and enable people to continue living in their own home. As they say, the current fragmented system is no longer fit for purpose, and they've consistently called for improvements to be made to the adaptation process to improve outcomes and reduce delays.

Care and Repair Cymru also welcomes the review findings and supports the recommendations to look at how cost-effective the means-testing provisions are for disabled facilities grant and to enable smaller adaptations to be undertaken in a quicker and more flexible way. As they say, this will help alleviate pressures on NHS Wales and help achieve independent living and better preventative services.

Diolch. Wel, mae Coleg y Therapyddion Galwedigaethol wedi croesawu'r adolygiad hwn o addasiadau byw'n annibynnol, gan nodi hefyd mai hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres hir. Fel y dywedant, mae'n hanfodol symud o ystyried addasiadau fel tasg adeiladu i'w hystyried yn briodol fel ymyriad wedi'i gynllunio i leihau effaith anabled, gwella annibyniaeth a galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartref eu hunain. Fel maent yn dweud, nid yw'r system dameidiog sy'n bodoli ar hyn o bryd bellach yn addas i'r diben, ac maen nhw wedi galw'n gyson am wneud gwelliannau i'r broses addasu er mwyn gwella canlyniadau a lleihau oedi.

Mae Gofal a Thrsio Cymru hefyd yn croesawu canfyddiadau'r adolygiad ac yn cefnogi'r argymhellion i edrych ar ba mor gosteffeithiol yw'r darpariaethau prawf modd ar gyfer y grant cyfleusterau i'r anabl ac i alluogi addasiadau llai i gael ei wneud mewn ffordd gyflymach a mwy hyblyg. Fel maent yn dweud, bydd hyn yn helpu i leihau'r pwysau ar y GIG yng Nghymru ac yn helpu i gyflawni gwell gwasanaethau ataliol a chynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We support amendment 4, reflecting the review's recommendation that local authorities should be required to exempt adaptations costing £1,000 or less from means testing. As the Communities, Equality and Local Government Committee inquiry into home adaptations reported in 2013, some stakeholders wanted to see the means test phased out, others saw a means to maintain it, to prevent the floodgates from opening, and others suggested that the means test should either be revised or abolished. We therefore recommended that Welsh Government should conduct a cost-benefit analysis of the means test and report back to the committee on its conclusions. The then Minister responded that Welsh Government deliberations might not specifically include a cost-benefit analysis, but they would carefully consider the means test to see if there was any scope for changes. Following this review, therefore, a responsible Welsh Government would now conduct a cost-benefits analysis.

During our committee inquiry, the real experts, the service users, told us about the problems that they'd experienced when trying to get adaptations made to their homes. It was they who said that the person should be at the centre of the system, with a say in what they want. There should be follow-up assessments to check whether the work was appropriate and to the right standard, and there should be better communication between services. Local authorities, they said, should commit to doing things within a certain amount of time and be accountable for this. Hence, our amendment 1 replaces point 3 in the Welsh Government's motion supporting its action to enhance the help available to people in need of adapted housing and instead calls on the Welsh Government to take action to achieve this, ensuring that local authorities work with social landlords to produce a customer charter, setting out commitments in relation to adaptation services, working with local authorities and social housing providers to set out delivery time standards and ensuring they're met by all local authorities, auditing adaptation services to identify best practice and its implementation, and putting in place mechanisms to monitor customer satisfaction and longer-term outcomes. These all represent recommendations made by the committee in 2013, which the then Minister rejected but which are now reflected in this review of independent living adaptations. As it states, we recommend collecting performance data in a consistent way from all delivery agencies. There is also potential for the development of more service-user-focused performance measures.

Our amendment 3 notes the key recommendations of the Leonard Cheshire Disability Home Truths campaign and 'No Place Like Home' report. Referring to their 2014 report, 'The Hidden Housing Crisis', which revealed the human misery from the lack of disabled-friendly homes, this found that 22% of disabled households in Wales are waiting for an adaptation to be made to their home, and that many Welsh councils have no estimate of the number of disabled-friendly homes they need, or of the impact the lack of disabled-friendly homes is having on health and care services. It therefore calls on all political parties to outline their plans to build more disabled-friendly lifetime homes in their 2016 manifestos.

Rydym yn cefnogi gwelliant 4, sy'n adlewyrchu argymhelliad yr adolygiad y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol eithrio addasiadau sy'n costio £1,000 neu lai rhag profion modd. Fel yr adroddodd ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i addasiadau cartref yn 2013, roedd rhai rhanddeiliaid am weld y prawf modd yn cael ei ddileu'n raddol, gwelodd eraill fodd i'w gynnal, er mwyn atal y llifddorau rhag agor, ac awgrymodd eraill y dylai'r prawf modd naill ai gael ei adolygu neu ei ddiddymu. Felly, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad cost a budd o'r prawf modd a chyflwyno adroddiad i'r pwyllgor ar ei chasgliadau. Ymatebodd y Gweinidog ar y pryd efallai na fyddai trafodaethau Llywodraeth Cymru'n cynnwys dadansoddiad cost a budd yn benodol, ond y byddent yn ystyried y prawf modd yn ofalus i weld a oedd unrhyw le ar gyfer newidiadau. Yn dilyn yr adolygiad hwn, felly, byddai Llywodraeth Cymru gyfrifol bellach yn cynnal dadansoddiad cost a budd.

Yn ystod ymchwiliad y pwyllgor, dywedodd yr arbenigwyr go iawn, defnyddwyr y gwasanaethau, wrthym am y problemau yr oeddynt wedi'u cael wrth geisio cael gwneud addasiadau i'w cartrefi. Nhw oedd yn dweud y dylai'r unigolyn fod yng nghanol y system, gyda llais yn yr hyn y mae arnynt ei eisiau. Dylid cynnal asesiadau dilynol i weld a yw'r gwaith yn briodol ac yn cyrraedd y safon gywir, a dylid cael gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau. Dylai awdurdodau lleol, meddent, ymrwymo i wneud pethau o fewn hyn a hyn o amser a bod yn atebol am hyn. Felly, mae gwelliant 1 yn disodli pwynt 3 yng nghynnig Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi ei chmau i wella'r cymorth sydd ar gael i bobl sydd angen tai wedi'u haddasu ac yn hytrach yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i gyflawni hyn, gan sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i baratoi siarter cwsmeriaid, nodi ymrwymadau mewn cysylltiad â gwasanaethau addasu, gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol i nodi safonau o ran amserlenni a sicrhau bod pob awdurdod lleol yn ei bodloni, archwilio gwasanaethau addasu i nodi arfer gorau a'i weithrediad, a rhoi mecanweithiau ar waith i fonitro boddhad cwsmeriaid a chanlyniadau tymor hwy. Mae'r rhain i gyd yn argymhellion a wnaed gan y pwyllgor yn 2013, a wrthodwyd gan y Gweinidog ar y pryd, ond sydd yn awr yn cael eu hadlewyrchu yn yr adolygiad hwn o addasiadau byw'n annibynnol. Fel y mae'n dweud, rydym yn argymhell y dylid casglu data perfformiad mewn ffordd gyson gan yr holl asiantaethau cyflenwi. Mae potensial hefyd ar gyfer datblygu mwy o fesurau perfformiad gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.

Mae ein gwelliant 3 yn nodi argymhellion allweddol yr ymgyrch Home Truths gan Leonard Cheshire Disability a'r adroddiad 'No Place Like Home'. Gan gyfeirio at eu hadroddiad o 2014, 'The Hidden Housing Crisis', a ddatgelodd y tralod y mae pobl yn ei ddiodef yn sgil prinder tai sy'n ystyriol o'r anabl, canfu hwn fod 22% o aelwydydd anabl yng Nghymru yn aros i gael gwneud addasiad i'w cartref, a bod llawer o gyngorau Cymru heb unrhyw amcangyfrif o nifer y cartrefi ystyriol o'r anabl sydd eu hangen arnynt, na'r effaith y mae diffyg cartrefi ystyriol o'r anabl yn ei chael ar wasanaethau iechyd a gofal. Felly, mae'n galw ar bob plaid wleidyddol i amlinellu ei chynlluniau i adeiladu mwy o gartrefi am oes sy'n ystyriol o'r anabl yn eu manifestos ar gyfer 2016.

When we debated the committee report 16 months ago, I referred to my meeting with Conwy's occupational therapist manager and housing renewals manager to discuss their good practice in adaptation services and therefore welcomed this review's recommendation that occupational therapists should be in local authority housing teams. Following this review, we now need action to deliver home adaptations with the people who need them.

Pan gawsom ddadl ar adroddiad y pwyllgor 16 mis yn ôl, cyfeiriais at fy nghyfarfod gyda rheolwr therapi galwedigaethol a rheolwr adnewyddu tai Conwy i drafod eu harfer da ym maes gwasanaethau addasu ac felly roeddwn yn croesawu argymhelliad yr adolygiad hwn y dylai therapyddion galwedigaethol fod mewn timau tai awdurdodau lleol. Yn dilyn yr adolygiad hwn, mae nawr angen gweithredu i gyflawni addasiadau cartref ar gyfer y bobl sydd eu hangen.

17:36

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Jocelyn Davies to move amendment 2 tabled in the name of Elin Jones.

Rwy'n galw ar Jocelyn Davies i gynynn gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 2—Elin Jones

Amendment 2—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu bod y profion modd ar gyfer addasiadau yn annheg ac yn hen ffasiwn.

Believes means testing for adaptations is inequitable and outdated.

Cynigiwyd gwelliant 2.

Amendment 2 moved.

17:36

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendment 2.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau welliant 2.

Now, I think it probably goes without saying how important the home adaptations are, and providing adaptations is a vital service that helps people live independently and safely, of course, in their own homes for as long as possible. So, I welcome the publication of the Government's review.

Yn awr, rwy'n credu nad oes angen dweud pa mor bwysig yw'r addasiadau cartref, ac mae darparu addasiadau yn wasanaeth hanfodol sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel, wrth gwrs, yn eu cartrefi eu hunain am gyn hired ag y bo modd. Felly, rwy'n croesawu'r ffaith bod adolygiad y Llywodraeth wedi ei gyhoeddi.

While there've been a number of inquiries carried out here to investigate the provision, I think it's now time to move the debate on. I think it's time to take action to build on the pockets of good practice that we know already exist, improve areas of service provision that need improvement and ensure that everyone who could benefit from an adaptation does so. The same themes emerge each time we revisit this issue.

Er bod nifer o ymholiadau wedi eu cynnal yma i ymchwilio i'r ddarpariaeth, rwy'n meddwl ei bod yn awr yn bryd symud y ddadl ymlaen. Rwy'n credu ei bod yn bryd cymryd camau i adeiladu ar y pocedi o arferion da y gwyddom eu bod eisoes yn bodoli, gwella meysydd darpariaeth gwasanaeth y mae angen eu gwella a sicrhau bod pawb a allai elwa o addasiad yn gwneud hynny. Mae'r un themâu'n dod i'r amlwg bob tro y byddwn yn edrych eto ar y mater hwn.

The housing sector is, of course, complex, and adaptations funding has developed in a piecemeal way over many years, so we need to see a system I think, that works for everyone. Individuals, as the Minister's already said, have a statutory right to adaptations being carried out in good time, and now we need a simplified system that is accessible and efficient to meet that legislative right. On this, I think there's much to be commended in Wales. For example, the review does praise the simplicity, speed and efficacy of the physical adaptations grant, the rapid response adaptations programme, and the independent living grant. Rapid response and ILG are carried out by Care and Repair, and I think we should thank them for the excellent work that they do, which they carry out with speed and expertise, and which seems to me to represent value for money.

Mae'r sector tai, wrth gwrs, yn gymhleth, ac mae cyllid ar gyfer addasiadau wedi datblygu mewn ffordd dameidiog dros flynyddoedd lawer, felly mae angen inni weld system, yn fy marn i, sy'n gweithio i bawb. Mae gan unigolion, fel y dywedodd y Gweinidog eisoes, yr hawl statudol i gael gwneud addasiadau mewn da bryd, ac yn awr mae angen system symlach sy'n hygyrch ac effeithlon er mwyn diwallu'r hawl deddfwriaethol honno. Ar y pwynt hwn, rwy'n credu bod llawer i'w ganmol yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r adolygiad yn canmol symlrwydd, cyflymder ac effeithlonrwydd y grant addasiadau ffisegol, y rhaglen addasiadau ymateb cyflym, a'r grant byw'n annibynnol. Gofal a Thrwsio sy'n cynnal y gwasanaeth ymateb cyflym a'r grant byw'n annibynnol, ac rwy'n meddwl y dylem ddiolch iddynt am y gwaith rhagorol y maent yn ei wneud, a hynny'n gyflym ac ag arbenigedd, gan roi gwerth am arian mae'n ymddangos imi.

So, I think that the review is right to recommend that the rapid response adaptations programme is expanded to cover all ages and all adaptations up to the value of £1,000, because obviously it shouldn't just be older people in need who benefit from a system that is delivered by a reliable organisation. We do know that Care and Repair delivers a high-quality service quickly, right across the country, and we have to acknowledge that this is something that local authorities cannot do. It seems to me that it is the disabled facilities grant that so clearly has room for improvement. It's the only funding scheme that involves the means test, and you will see from our amendment that we consider this inequitable and outdated. The cost of administration means that less money is available to actually provide adaptations, and, of course, it causes considerable delays. I hope the Government takes on board the review's recommendation to move towards universal provision of adaptations without means testing.

Now, all adaptations costing less than £1,000 should be removed from the means test as soon as possible. This would be far more in tune with the broader philosophy of public services in Wales, and it would speed up service delivery and simplify the system. While I understand and acknowledge that there are concerns about the greater demands caused by abolishing the means test, the benefits here probably outweigh the risks.

Now, without doubt, having a home adaptations system that works is in the interests of everyone. It is in the interests of those, of course, who need them because they benefit hugely from sometimes minor adaptations, which mean they can continue to live safely in their own homes. It's also in the interests of the health and social care services. Unsuitable housing can cause accidents and injury and leave people trapped in hospital or moved into supported accommodation before it is necessary. The savings to the public purse are impressive, and the knock-on effect on waiting lists is well documented. And, of course, it benefits the family who can then feel more confident about the ability of their loved one to cope.

So, I want to thank the Government for commissioning the review of the provision of the independent living adaptations work carried out in Wales, and ask them to move quickly to implement its recommendations. I think it's time to build a system that works for everyone, build on the good practice where we can find it, and eliminate the delays that currently exist. Thank you.

Felly, rwy'n meddwl bod yr adolygiad yn iawn i argymhell y dylid ymestyn y rhaglen addasiadau ymateb cyflym i gynnwys pob oedran a phob addasiad gwerth hyd at £1,000, oherwydd nad pobl hŷn mewn angen yn unig, yn amlwg, ddylai elwa o system sy'n cael ei darparu gan sefydliad dibynadwy. Rydym yn gwybod bod Gofal a Thrwisio'n darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyflym, ar draws y wlad, ac mae'n rhaid inni gydnabod bod hyn yn rhywbeth na all awdurdodau lleol ei wneud. Mae'n ymddangos imi mai'r grant cyfleusterau i'r anabl sydd angen ei wella'n amlwg. Dyma'r unig gynllun cyllido sy'n cynnwys y prawf modd, a byddwch yn gweld o'n gwelliant ein bod yn ystyried hyn yn annheg ac yn hen ffaswn. Mae'r costau gweinyddu'n golygu bod llai o arian ar gael i ddarparu'r addasiadau eu hunain, ac, wrth gwrs, mae'n achosi oedi sylweddol. Rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn derbyn argymhelliad yr adolygiad i symud tuag at ddarpariaeth gyffredinol heb prawf modd.

Yn awr, dylid cael gwared ar y prawf modd cyn gynted ag y bo modd ar gyfer pob addasiad sy'n costio llai na £1,000. Byddai hyn mewn llawer mwy o gytgord ag athroniaeth ehangach gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a byddai'n symleiddio'r system ac yn golygu bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyflymach. Er fy mod yn deall ac yn cydnabod bod pryderon ynghylch y galw ychwanegol a fyddai'n cael ei achosi wrth gan ddiddymu'r prawf modd, mae'r manteision yma yn ôl pob tebyg yn fwy na'r risgiau.

Yn awr, heb os, mae er budd pawb cael system addasiadau i gartrefi sy'n gweithio. Mae er budd y rhai y mae eu hangen arnynt, wrth gwrs, oherwydd eu bod yn elwa'n aruthrol o fân addasiadau weithiau, sy'n golygu y gallant barhau i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae hefyd er budd y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gall tai anaddas achosi damweiniau ac anafiadau a gadael pobl yn gaeth mewn ysbyty neu achosi iddynt gael eu symud i lety â chymorth cyn ei bod yn angenrheidiol. Mae'r arbedion i bwrs y wlad yn drawiadol, ac mae cofnod da o'r sgil-effaith ar restrau aros. Ac, wrth gwrs, mae o fudd i'r teulu a all wedyn deimlo'n fwy hyderus am allu eu hanwyliaid i ymdopi.

Felly, hoffwn ddiolch i'r Llywodraeth am gomisiynu adolygiad o'r ddarpariaeth o'r gwaith addasiadau byw'n annibynnol a gynhaliwyd yng Nghymru, a gofyn iddynt symud yn gyflym i weithredu ei argymhellion. Rwy'n credu ei bod yn bryd adeiladu system sy'n gweithio i bawb, ar sail arfer da lle y gallwn ddod o hyd iddo, a dileu'r oedi sy'n bodoli ar hyn o bryd. Diolch yn fawr.

17:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Peter Black to move amendment 4 tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Amendment 4—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol eithrio mân addasiadau o broffion modd, fel yr argymhellir yn yr adolygiad.

Calls on the Welsh Government to require local authorities to exempt minor adaptations from means testing, as recommended in the review.

17:41

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move amendment 4 and can I very much welcome this review, which picks up, I think, on a number of the themes that came out of the last committee review into adaptations? When we as a committee did that review, I think we swore that it would be the last one ever because it must've been about the third we've done into adaptations, and so this must count as the fourth. Really, having had so many reviews, it's about time we actually put some of this into effect and actually started delivering on a safer, simplified and more effective adaptations system. So, I hope that the Minister's action plan in terms of this review is able to be put into place very quickly so that some of the important recommendations in here are put in place—including recommendations that her predecessor rejected from the committee, I think, especially in terms of the performance indicators, which I think are absolutely crucial in terms of measuring the quality of the adaptations, but also how they're being delivered at different levels.

Previous speakers are absolutely right. The whole housing system is very complex, and the adaptations system reflects that in terms of who is responsible for what adaptations. Clearly, there are things that are working very well. Others, such as the disabled facility grant, are 'patchy', I think is the most charitable way of putting it, around Wales in terms of how they're being implemented, how effective they are, and also how quickly they're able to be put into place. Clearly, I think that recommendation 2 in this report is absolutely crucial in terms of creating a tiered system that is consistent across Wales, with the minor adaptations up to £1,000—in my view, and I think the view of this report as well, and the fourth amendment—being free of means testing, so it can be delivered quickly and as part of an enabling agenda to make sure that people are able to stay in their own homes, or go home after a hospital stay, et cetera.

On the other two tiers, in terms of the mid-level adaptations and the major adaptations, again, it's making sure we have some consistency across Wales, not just in terms of the type of adaptations but also how they're delivered and how they're assessed. Yes, I do agree that we should move towards the removal of means testing in the long term. I think the problem is of course that that is going to be very costly. My concern is if we do so immediately, we will find ourselves doing far fewer adaptations simply because of the cost of that. That has to be a gradual, planned process. So, we're not going to support that particular amendment by Plaid Cymru, but in general terms, I support the thrust of where we're going on that.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. A gaf i gynnig gwelliant 4 ac a gaf i groesawu'r adolygiad hwn yn fawr? Rwy'n meddwl ei fod yn codi nifer o themâu a ddaeth i'r amlwg yn yr adolygiad pwyllgor diwethaf i addasiadau. Pan wnaethom ni fel pwyllgor gynnal yr adolygiad hwnnw, rwy'n meddwl ein bod wedi tyngu mai hwnnw fyddai'r un olaf erioed oherwydd mae'n rhaid ei fod tua'r trydydd yr ydym wedi ei gynnal ar addasiadau, ac felly mae'n rhaid i hwn gyfrif fel y pedwerydd. Wir, ar ôl cael cymaint o adolygiadau, mae'n hen bryd inni fynd ati i weithredu rhywfaint o hyn a dechrau cyflawni system addasiadau fwy diogel, symlach a mwy effeithiol mewn gwirionedd. Felly, gobeithiaf y bydd modd rhoi cynllun gweithredu'r Gweinidog o ran yr adolygiad hwn ar waith yn gyflym iawn fel bod rhai o'r argymhellion pwysig yn cael eu rhoi ar waith—gan gynnwys argymhellion gan y pwyllgor a wrthodwyd gan ei rhagflaenydd, rwy'n meddwl, yn enwedig o ran y dangosyddion perfformiad, sy'n gwbl hanfodol yn fy marn i o ran mesur ansawdd yr addasiadau, ond hefyd sut y maen nhw'n cael eu cyflwyno ar wahanol lefelau.

Mae siaradwyr blaenorol yn llygad eu lle. Mae'r system dai gyfan yn gymhleth iawn, ac mae'r system addasiadau'n adlewyrchu hynny o ran pwy sy'n gyfrifol am ba addasiadau. Yn amlwg, mae rhai pethau sy'n gweithio'n dda iawn. Mae eraill, megis y grant cyfleusterau i'r anabl, yn 'anghyson', rwy'n meddwl yw'r ffordd fwyaf caredig o'i roi, o gwmpas Cymru o ran sut y maent yn cael eu gweithredu, pa mor effeithiol ydynt, a hefyd pa mor gyflym y mae modd eu rhoi ar waith. Yn amlwg, credaf fod argymhelliad 2 yn yr adroddiad hwn yn gwbl hanfodol o ran creu system haenog sy'n gyson ar draws Cymru, heb brawf modd ar gyfer mân addasiadau hyd at £1,000—yn fy marn i, a barn yr adroddiad hwn hefyd rwy'n credu, a'r pedwerydd gwelliant—fel y gellir eu cyflwyno'n gyflym ac fel rhan o agenda alluogi i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain, neu fynd adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, ac ati.

Ar y ddwy haen arall, o ran addasiadau canolig ac addasiadau mawr, unwaith eto, mae'n fater o sicrhau bod gennym rywfaint o gysondeb ledled Cymru, nid yn unig o ran y math o addasiadau, ond hefyd sut y maent yn cael eu darparu a sut y maent yn cael eu hasesu. Ydw, rwy'n cytuno y dylem symud tuag at gael gwared ar broffion modd yn y tymor hir. Rwy'n meddwl mai'r broblem wrth gwrs, yw bod hynny'n mynd i fod yn gostus iawn. Fy mhryder i yw y byddwn yn gwneud llawer llai o addasiadau, os ydym yn gwneud hynny ar unwaith, dim ond oherwydd y gost. Rhaid i honno fod yn broses raddol, wedi'i chynllunio. Felly, nid ydym yn mynd i gefnogi'r gwelliant penodol gan Blaid Cymru, ond yn gyffredinol, rwy'n cefnogi byrdwn ble rydym yn mynd yn hynny o beth.

Recommendation 5 in the report talks about an ILG-style fund available to triage urgent DFG cases—it's all jargon, isn't it?—for all tiers when means testing remains in place. I think what we found as a committee when we did our review was that the ILG, the independent living grant, was very, very effective and certainly worked very well. Certainly, I think that is something that does need to be taken forward as part of this.

Then, I just wanted to refer to recommendation 11, which does very much reflect a recommendation when the committee did this, in terms of the performance indicator. A lot of people who gave evidence to the committee said to us that the current performance indicator didn't really measure effectively how well local authorities were doing in delivering the disabled facilities grant. Effectively, it was measuring the time taken from inquiry to delivery of the grant without looking at the quality of the grant and of the work, and without looking at the various stages of it.

So, I very much welcome the fact that the report here recommends that we have a performance indicator separately measuring time taken from initial inquiry to assessment, and assessment to completion, and also on collecting performance data in a consistent way from all delivery agencies, which I think is another failing of the current system, which the committee report found as well. I think that we very much acknowledge the last part of that recommendation: that there is potential for the development of more service user-focused performance measures. Performance indicators should account separately for minor, mid-level and major adaptations. I think that's absolutely crucial. If we're going to measure the way these adaptations are delivered across Wales by various agencies in different ways among different client groups, we have to make sure that we can measure the quality of those adaptation works as well as the time it takes to deliver on it. I think everybody, whether they're a housing association, a local authority or some other organisation delivering these adaptations, such as Care and Repair, would then feel that they're on a level playing field in being assessed as to how well they're doing their job. We, as Assembly Members, and the Government and Government Ministers would also feel confident too in being able to carry out that assessment of how well things are being done.

So, I think, Deputy Presiding Officer, this is an excellent report and one that I hope can be put into place quickly and delivered across Wales. I think that, after so many reviews by committees and by the Government, it is about time we delivered on this particular agenda.

Mae argymhelliad 5 yn yr adroddiad yn sôn am gronfa o fath tebyg i'r ILG a fyddai ar gael i frysbennu achosion brys ar gyfer y DFG—mae'r cyfan yn jargon, onid yw e?—i bob haen pan fo profion modd yn parhau i fod ar waith. Rwy'n credu mai'r hyn a welsom fel pwyllgor wrth gynnal ein hadolygiad oedd bod yr ILG, y grant byw'n annibynnol, yn effeithiol iawn, iawn ac yn sicr yn gweithio'n dda iawn. Yn sicr, rwy'n meddwl bod hwnnw'n rhywbeth y mae angen ei ddwyn ymlaen fel rhan o hyn.

Yna, roeddwn i eisïau cyfeirio at argymhelliad 11, sydd wir yn adlewyrchu argymhelliad pan wnaeth y pwyllgor hwn, o ran y dangosydd perfformiad. Dywedodd llawer o bobl a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor nad oedd y dangosydd perfformiad presennol wir yn mesur yn effeithiol pa mor dda yr oedd awdurdodau lleol yn llwyddo i gyflwyno'r grant cyfleusterau i'r anabl. I bob pwrpas, roedd yn mesur yr amser a gymerir o'r ymholiad i gyflwyno'r grant heb edrych ar ansawdd y grant a'r gwaith, a heb edrych ar y gwahanol gamau.

Felly, rwy'n croesawu'n fawr y ffaith fod yr adroddiad hwn yn argymhell y dylai fod gennym ddangosydd perfformiad sy'n mesur ar wahân yr amser a gymerir rhwng yr ymholiad cychwynnol a'r asesiad, a rhwng asesu a chwblhau, a hefyd ar gasglu data perfformiad mewn ffordd gyson gan yr holl asiantaethau darparu, sef methiant arall y system bresennol, yn fy marn i, y canfu adroddiad y pwyllgor hefyd. Credaf ein bod yn cydnabod rhan olaf yr argymhelliad hwnnw yn fawr iawn: bod potensial ar gyfer datblygu mesurau perfformiad sy'n canolbwyntio mwy ar y defnyddiwr gwasanaeth. Dylai dangosyddion perfformiad gyfrif ar wahân am addasiadau bach, canolig a mawr. Rwy'n credu bod hynny'n hollol hanfodol. Os ydym am fesur y ffordd y caiff yr addasiadau hyn eu darparu ledled Cymru gan amrywiaeth o asiantaethau mewn gwahanol ffyrdd ymhlith gwahanol grwpiau o gleientiaid, mae'n rhaid inni wneud yn siŵr ein bod yn gallu mesur ansawdd y gwaith addasu yn ogystal â'r amser y mae'n ei gymryd. Rwy'n meddwl y byddai pawb wedyn, p'un a ydynt yn gymdeithas tai, awdurdod lleol neu ryw sefydliad arall sy'n cyflwyno'r addasiadau hyn, megis Gofal a Thrwsio, yn teimlo eu bod yn cael eu hasesu ar yr un sail o ran pa mor dda y maent yn gwneud eu gwaith. Byddem ni, fel Aelodau Cynulliad, a'r Llywodraeth a Gweinidogion y Llywodraeth hefyd yn teimlo'n hyderus o ran gallu asesu pa mor dda y mae pethau'n cael eu gwneud.

Felly, rwy'n meddwl, Ddirprwy Lywydd, bod hwn yn adroddiad ardderchog ac yn un yr wyf yn gobeithio y gellir ei roi ar waith yn gyflym a'i gyflwyno ledled Cymru. Credaf, ar ôl cymaint o adolygiadau gan bwyllgorau a chan y Llywodraeth, ei bod yn hen bryd i ni gyflawni'r agenda benodol hon.

The holy grail of social policy has always been, in my opinion, the intervention that will both improve the lives of our citizens and, at the same time, save public money. When budgets have been reduced, when every penny must be put to best use, this quest takes on even greater significance. I hope that in my time in ministerial office, I was able to find a number of policies that met these twin goals. On the basis of that experience, on the evidence of my casework files and, indeed, from the circumstances of my own family, I would argue that independent living adaptations are one of the simplest ways to make life better for our constituents and realise long-term savings for social and health services.

The first part of this motion acknowledges the importance of adaptation services, and it is to that I will speak. Without doubt, well-designed adaptations enhance independence, reduce fear and anxiety and improve a person's quality of life. Medical interventions now extend the term of lives far beyond the biblical threescore years and 10, but it is freedom and dignity that give meaning to that extra time. To put a financial value on that would be impossible. What can be measured is the impact that this independence has on our health budget.

Falls by older people in the UK cost millions and millions per annum. A single hip fracture costs on average £33,000 to treat. Back injuries, frequently suffered by carers, cost the NHS £602 million each year. The simplest of adaptations—the installation of handrails—helps to reduce the incidence of all of these. One report has estimated that adaptations put back entry into residential homes by, on average, four years. This saves approximately £80,000 per person. Many of the people who this statistic applies to will, of course, be elderly, but we must remember that this is not only an older person's issue. A member of my own family, my niece, was born with very severe disabilities. She will never live alone, but, because of the independent living fund and independent living adaptations, she is able to live within her family. Instead of being sent to the institutions of a previous age, she is at the heart of a household that loves and cares for her, and I know that there will be many stories like this throughout Wales.

When they are done right, adaptations make such a difference. It is because of this that it is incumbent on all of us to make sure that the system in Wales works as well as it possibly can. To do this, we need to work together, as has been said, with service users, with carers, with local government, with housing associations, and with organisations such as Care and Repair as equal partners, and I would like to take this opportunity to thank Care and Repair in particular for all the wonderful work they have done in my constituency of Neath.

Cydweithio yw'r ffordd orau i weithio.

Yes, working together is the best way of working, and I'm certain that, if we can build a consensus, then Wales can once again lead the way.

Greal sanctaidd polisi cymdeithasol erioed, yn fy marn i, yw'r ymyriad a fydd yn gwella bywydau ein dinasyddion ac, ar yr un pryd, yn arbed arian cyhoeddus. Pan fydd cyllidebau wedi cael eu lleihau, pryd y mae'n rhaid gwneud y defnydd gorau o bob ceiniog, mae'r nod hwn hyd yn oed yn fwy arwyddocaol. Rwy'n gobeithio fy mod, yn fy nghyfnod fel Gweinidog, wedi gallu canfod nifer o bolisiau oedd yn bodloni'r ddau nod hyn. Ar sail y profiad hwnnw, ar sail y dystiolaeth yn fy ffeiliau gwaith achos ac, yn wir, o amgylchiadau fy rheulu fy hun, byddwn yn dadlau mai addasiadau byw'n annibynnol yw un o'r ffyrdd symlaf i wneud bywyd yn well i'n hetholwyr ac i arbed arian yn y tymor hir ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd.

Mae rhan gyntaf y cynnig hwn yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau addasu, ac am hynny y byddaf yn siarad. Heb os, mae addasiadau wedi'u cynllunio'n dda yn cynorthwyo pobl i fod yn fwy annibynnol, yn lleihau ofn a phryder ac yn gwella ansawdd bywyd. Mae ymyriadau meddygol bellach yn ymestyn bywydau ymhell y tu hwnt i'r 10 mlwydd a thrigain Beiblaidd, ond rhyddid ac urddas sy'n rhoi ystyr i'r amser ychwanegol hwnnw. Byddai'n amhosibl rhoi gwerth ariannol ar hynny. Yr hyn y gellir ei fesur yw'r effaith y mae'r annibyniaeth hon yn ei chael ar ein cyllideb iechyd.

Mae achosion o bobl hŷn yn cwmpo yn y DU yn costio miliynau ar filiynau bob blwyddyn. Mae un achos o dorri clun ar gyfartaledd yn costio £33,000 i'w drin. Mae anafiadau i'r cefn, a ddiodeffir yn aml gan ofalwyr, yn costio £602 miliwn i'r GIG bob blwyddyn. Mae'r addasiadau symlaf—gosod canllawiau grisiau—yn helpu i leihau nifer yr achosion o bob un o'r rhain. Mae un adroddiad wedi amcangyfrif bod addasiadau'n gohirio'r angen i bobl fynd i gartrefi preswyl am bedair blynedd, ar gyfartaledd. Mae hyn yn arbed oddeutu £80,000 y pen. Bydd llawer o'r bobl y mae'r ystadegyn hwn yn berthnasol iddynt, wrth gwrs, yn oedrannus, ond rhaid inni gofio nad mater i bobl hŷn yn unig yw hwn. Cafodd aelod o fy rheulu fy hun, fy nith, ei geni ag anabledau difrifol iawn. Ni fydd hi byth yn byw ar ei phen ei hun, ond, oherwydd y gronfa byw'n annibynnol ac addasiadau byw'n annibynnol, mae hi'n gallu byw gyda'i theulu. Yn hytrach na chael ei hanfon i sefydliadau oes o'r blaen, mae hi wrth galon aelwyd sy'n ei charu ac sy'n gofalu amdani, a gwn y bydd llawer o straeon fel hyn ledled Cymru.

O'u gwneud yn iawn, mae addasiadau'n gwneud cymaint o wahaniaeth. Oherwydd hyn, mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i wneud yn siŵr bod y system yng Nghymru'n gweithio cystal ag y gall. Er mwyn gwneud hyn, mae angen inni weithio gyda'n gilydd, fel y dywedwyd, gyda defnyddwyr gwasanaethau, gyda gofalwyr, gyda llywodraeth leol, gyda chymdeithasau tai, a gyda sefydliadau megis Gofal a Thrwsio fel partneriaid cyfartal, a hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Gofal a Thrwsio yn arbennig am yr holl waith ardderchog y maent wedi'i wneud yn fy etholaeth i, Castell-nedd.

Collaboration is the best way to work.

Ie, cydweithio yw'r ffordd orau i weithio, ac rwy'n sicr y gall Cymru unwaith eto arwain y ffordd, os gallwn adeiladu consensws.

I was going to say that, of course, I think everybody in the Chamber would agree in principle with what we are talking about, and certainly I must pay tribute—how do you follow Gwenda Thomas and what she has said? Absolutely right, I think, sums it up for everybody, because what we're talking about here is giving people the opportunity to live independently in their own homes, but to live independently in different settings as well. Gwenda raised the issue that we're not just talking about older people here; we're talking about people of every age who may need support and their families. But I can tell you that, throughout my time in politics, which has been some time now, one of the great mysteries has always been how do you fund disability facility grants? How do you choose priorities? How long is a piece of string? Because the solutions are very hard to get to. So, I welcome the Welsh Government response to the review—it did, of course, commission it—as well as the recognition of the improvements that have been made to the service in recent years. But also, the recognition that, realistically, there is more to do.

Meeting the need fulfils a number of important functions. It allows people to be discharged from hospital so bedblocking can decrease, and it prevents some people having to enter long-term care. The College of Occupational Therapists—and I think everybody here recognises they are experts in this field—have made the point it's vital to move from regarding adaptations as a building task, but considering them as intervention which will minimise the impact of disability, provide opportunities for independent living that enable people to stay at home and that allow them to take part in social and leisure activities.

I'll go on then to talk about ExtraCare Charitable Trust, which I think is a wonderful programme that is now going across Wales. I've got one ExtraCare scheme newly built in my area, and two which are on the way. And do you know what they do? They don't only answer the difficulties that people find themselves in trying to live alone without some support; they also answer one of the most serious problems I think that people with any sort of disability or who are vulnerable or who are older face today, and that's loneliness. It gives them a community in which to live, and that is vitally important.

The Welsh Government's guidance that adaptations that cost less than £3,000 should lie outside the means-testing regime is sensible, and it will help to deliver the aspiration to timeliness that we really need. And we must remember that some adaptations are relatively minor; some problems can be solved quickly and at quite a low level. The rapid response adaptations programme has been mentioned; it's excellent. On Care and Repair, I think everybody here would value Care and Repair services, because probably we all have them working in our constituencies. They do work throughout Wales, and the work that they do is reassuring. The help and advice they give helps people to make good choices when they're looking for adaptations.

Roeddwn yn mynd i ddweud, wrth gwrs, fy mod yn credu y byddai pawb yn y Siambr yn cytuno mewn egwyddor â'r hyn yr ydym yn sôn amdano, ac yn sicr mae'n rhaid imi dalu teyrnged—sut rydych chi'n dilyn Gwenda Thomas a'r hyn y mae wedi'i ddweud? Hollol gywir, rwy'n meddwl, sy'n ei grynhoi i bawb, oherwydd yr hyn yr ydym yn sôn amdano yma yw rhoi'r cyfle i bobl fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, ond i fyw'n annibynnol mewn gwahanol leoliadau yn ogystal. Dywedodd Gwenda nad pobl hŷn yn unig rydym ni'n siarad amdanynt; rydym yn sôn am bobl o bob oed a'u teuluoedd a allai fod angen cefnogaeth. Ond gallaf ddweud wrthyh, trwy gydol fy amser mewn gwleidyddiaeth, sydd wedi bod yn beth amser bellach, un o'r dirgelion mawr bob amser fu sut mae ariannu grantiau cyfleusterau i bobl anabl. Sut mae dewis blaenoriaethau? Pa mor hir yw darn o linyr? Oherwydd mae'n anodd iawn dod o hyd i'r atebion. Felly, rwy'n croesawu ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad—hi, wrth gwrs, wnaeth ei gomisiynu—yn ogystal â'r gydnabyddiaeth o'r gwelliannau a wnaed i'r gwasanaeth yn y blynyddoedd diwethaf. Ond hefyd, y gydnabyddiaeth, yn realistig, bod mwy i'w wneud.

Mae diwallu'r angen yn cyflawni nifer o swyddogaethau pwysig. Mae'n caniatáu i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty fel y gellir blocio llai o welyau, ac mae'n atal rhai pobl rhag gorfod mynd i ofal hirdymor. Mae'r Coleg Therapdyddion Galwedigaethol—ac rwy'n meddwl bod pawb yma yn cydnabod eu bod yn arbenigwyr yn y maes hwn—wedi gwneud y pwynt ei bod yn hanfodol symud o ystyried addasiadau fel tasg adeiladu, a'u hystyried fel ymyriad a fydd yn lleihau effaith anabled, yn cynnig cyfleoedd i fyw'n annibynnol sy'n galluogi pobl i aros gartref ac sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden.

Fe af ymlaen felly i siarad am Ymddiriedolaeth Elusennol ExtraCare, sef rhaglen wych sydd bellach ar waith ar draws Cymru. Mae gennyf un cynllun ExtraCare a adeiladwyd o'r newydd yn fy ardal i, a dau arall ar y ffordd. Ac a ydych chi'n gwybod beth maent yn ei wneud? Yn ogystal â datrys anawsterau pobl wrth geisio byw ar eu pennau eu hunain heb rywfaint o gymorth; maent hefyd yn ateb un o'r problemau mwyaf difrifol a wynebir heddiw, rwy'n meddwl, gan bobl ag unrhyw fath o anabledd neu sy'n agored i niwed neu sy'n hŷn, sef unigrwydd. Mae'n rhoi cymuned iddynt i fyw ynnddi, ac mae hynny'n hanfodol bwysig.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru y dylai addasiadau sy'n costio llai na £3,000 fod y tu allan i'r drefn prawf modd yn synhwyrol, a bydd yn helpu i gyflawni'r dyhead am brydlondeb sydd wir ei angen arnom. A rhaid inni gofio bod rhai addasiadau'n gymharol fach; gellir datrys rhai problemau'n gyflym ac ar lefel eithaf isel. Mae'r rhaglen addasiadau ymateb cyflym wedi cael ei chrybwyll; mae'n wych. O ran Gofal a Thrwsio, rwy'n credu y byddai pawb yma'n gwerthfawrogi gwasanaethau Gofal a Thrwsio, oherwydd y bydd yn gweithio yn etholaethau pob un ohonom yn ôl pob tebyg. Maent yn gweithio ledled Cymru, ac mae'r gwaith y maent yn ei wneud yn galonogol. Mae'r cymorth a'r cyngor a roddant yn helpu pobl i wneud dewisiadau da pan fyddant yn chwilio am addasiadau.

Deputy Presiding Officer, all the things that have been talked about today are important pieces of a jigsaw. And, again, one of the things I welcome is the announcement by the Minister that you're going to work with the health Minister on a joint taskforce. And one of the things I think should be looked at is the cost of the more expensive adaptations. Peter Black expressed very well, I think, the problem with not means-testing, because some adaptations can be very expensive indeed.

They are needed very often, but I do remember a case in my constituency where a gentleman who was a builder was seeking an adaptation for a member of his family. The local authority came up with a gold-plated scheme. He said, 'They don't need to do that; they can do this, this and this, and it will meet our needs'. That was a member of the family saying that. Fortunately, the local authority agreed and it did meet the needs, so I do think that a task of the taskforce will be to look at the costs and see how they balance.

We've been talking about the different pieces of the jigsaw. Peter Black was saying he'd been talking about this in recent times at different committees. I've been talking about it since the 1980s. I don't think we can ever stop talking about it, because this is not a problem that will go away. With people living longer, as Gwenda has said, more and more people will need this sort of support in their homes. So, we must look to the future and always consider what we can do.

17:55

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The right to inclusion, to the dignity and maximisation of independence that an adaptation can bring, is just that—a right, not a privilege. Now, I wish those were my words, but they were the words of somebody who contributed to the committee inquiry that's been mentioned, in 2013, and those have stayed with me for quite some time. I do welcome the Welsh Government's report today, but I also agree with those who said we've had that many reports. I know Peter Black said that we thought the committee report was the last report and that we would go on to some actions. I do think that we are seeing actions, but the delivery of the adaptation service is patchy at best, and I think we owe it to those people who are on the lists waiting to go through the bureaucratic system—we owe it to them and their families—to actually do what we can.

Many of you will know—and I spoke in the last debate about this—about my personal circumstances and how I found it difficult to break through the bureaucracy of the system with the local authority. And, at the time, I think I said—and I still hold this dear, and many people have confirmed this—that Care and Repair were the oasis of calm in what was a very turbulent time for my family, but also for many more families as well. And so we have to realise that there are people who can find a way of doing adaptations that meet the needs of the people involved. Unfortunately, some of the local authorities are stuck by how you have to get the funding from the disabled facility grant. If you're not eligible, then you have to find another way around it. And all of that takes time and, often, with the person who needs the adaptations taking up occupancy of a hospital bed, which is not necessary.

Ddirprwy Lywydd, mae'r holl bethau y siaradwyd amdanynt heddiw yn ddarnau pwysig o jig-so. Ac, unwaith eto, un o'r pethau yr wyf yn ei groesawu'r yw'r cyhoeddiad gan y Gweinidog eich bod yn mynd i weithio gyda'r Gweinidog iechyd ar dasglu ar y cyd. Ac un o'r pethau yr wyf yn meddwl y dylid edrych arno yw cost yr addasiadau drutach. Mynegodd Peter Black yn dda iawn, rwy'n meddwl, y broblem gyda pheidio â chynnal prawf modd, oherwydd y gall rhai addasiadau fod yn ddrud iawn yn wir.

Mae ar bobl eu hangen yn aml iawn, ond rwy'n cofio achos yn fy etholaeth lle'r oedd gwŷr a oedd yn adeiladwr yn ceisio cael addasiad ar gyfer aelod o'i deulu. Cyflwynodd yr awdurdod lleol gynllun aruchel. Dywedodd, "Nid oes angen iddynt wneud hynny; gallant wneud hyn, hyn a hyn, a bydd yn bodloni ein hanghenion". Aelod o'r teulu oedd yn dweud hynny. Yn ffodus, cytunodd yr awdurdod lleol ac fe wnaeth ddiwallu'r anghenion, felly rwy'n meddwl mai tasg y tasglu fydd edrych ar y costau a gweld lle mae'r cydbwysedd.

Rydym wedi bod yn siarad am y gwahanol ddarnau o'r jig-so. Roedd Peter Black yn dweud ei fod wedi bod yn siarad am hyn yn ddiweddar ar wahanol bwyllgorau. Rydw i wedi bod yn siarad am y peth ers y 1980au. Nid wyf yn meddwl y gallwn ni fyth roi'r gorau i siarad am y peth, oherwydd nad yw hon yn broblem a fydd yn diflannu. Wrth i bobl fyw'n hirach, fel y mae Gwenda wedi dweud, bydd ar fwy o mwy o bobl angen y math hwn o gymorth yn eu cartrefi. Felly, mae'n rhaid inni edrych i'r dyfodol a bob amser ystyried yr hyn y gallwn ei wneud.

Dyna'n union yw'r hawl i gynhwysiant, i'r urddas a'r annibyniaeth y gall addasiad ei roi—hawl, nid baint. Hoffwn allwn dweud mai fy ngeiriau i oedd y rheiny, ond geiriau rhywun oeddent a gyfrannodd at ymchwiliad y pwyllgor sydd wedi'i grybwyll, yn 2013, ac maent wedi aros gyda mi ers peth amser. Rwy'n croesawu adroddiad Llywodraeth Cymru heddiw, ond rwyf hefyd yn cytuno â'r rhai a ddywedodd ein bod wedi cael llawer o adroddiadau. Rwy'n gwybod bod Peter Black wedi dweud ein bod yn credu mai adroddiad y pwyllgor oedd yr adroddiad olaf ac y byddem yn mynd ymlaen i weithredu. Rwy'n credu ein bod yn gweld camau gweithredu, ond bod darpariaeth y gwasanaeth addasu'n anghyson ar y gorau, ac rwy'n meddwl y dylem ni wneud yr hyn a allwn, er mwyn y bobl hynny sydd ar y rhestrau'n aros i fynd drwy'r system firocrataidd—er eu mwyn nhw a'u teuluoedd.

Bydd llawer ohonoch yn gwybod—a siaradais am hyn yn y ddadl ddiwethaf—am fy amgylchiadau personol a sut y cefais hi'n anodd torri drwy firocratiaeth y system gyda'r awdurdod lleol. Ac, ar y pryd, rwy'n meddwl fy mod i wedi dweud—ac rwy'n dal yn grediniol o hyn, ac mae llawer o bobl wedi cadarnhau hyn—mai Gofal a Thrwsio oedd yr hafan o dawelwch mewn cyfnod cythryblus iawn i fy rheulu, ond hefyd i lawer mwy o deuluoedd yn ogystal. Ac felly mae'n rhaid inni sylweddoli bod pobl sy'n gallu canfod ffordd o wneud addasiadau sy'n diwallu anghenion y bobl dan sylw. Yn anffodus, mae rhai o'r awdurdodau lleol yn gaeth oherwydd bod rhaid ichi gael yr arian trwy'r grant cyfleusterau i'r anabl. Os nad ydych yn gymwys, yna rhaid ichi ddod o hyd i ffordd arall. Ac mae hynny i gyd yn cymryd amser ac, yn aml, gyda'r sawl sydd angen yr addasiadau yn cymryd gwely mewn ysbyty, heb fod angen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There also needs to be, I think, some adequate training of occupational therapists within local authorities who can work with their colleagues in health so that one doesn't say one thing and then somebody says something else, which I found was the case. And also, we have to take into consideration what the person who is wanting to receive the adaptation really wants themselves. For example, not everybody wants a ramp to their front door. Not everybody wants to signal the fact that they may be a person who is dependent on a wheelchair or has mobility problems if they're living on their own, as was the case for my husband, as he lives on his own—I think he quite likes the idea of living on his own from Monday to Thursday [Laughter.]. But that's besides the point. They don't want to signal to the wider community—

Mae hefyd angen rhywfaint o hyfforddiant digonol i therapyddion galwedigaethol mewn awdurdodau lleol, rwy'n meddwl, er mwyn iddynt allu gweithio gyda'u cydweithwyr ym maes iechyd fel nad yw un yn dweud un peth ac yna rhywun arall yn dweud rhywbeth arall, fel a welais i'n digwydd. A hefyd, mae'n rhaid inni ystyried beth mae ar y sawl sy'n dymuno derbyn yr addasiad ei hun ei eisiau, mewn gwirionedd. Er enghraifft, nid yw pawb eisiau ramp at eu drws ffyrnt. Nid yw pawb yn awyddus i ddangos y gallant fod yn ddibynnol ar gadair olwyn neu â phroblemau symudedd os ydynt yn byw ar eu pen eu hunain, fel a ddigwyddodd gyda fy ngŵr, gan ei fod yn byw ar ei ben ei hun—rwy'n meddwl ei fod yn eithaf hoffi'r syniad o fyw ar ei ben ei hun o ddydd Llun hyd ddydd lau [Chwerthin.]. Ond mae hynny'n amherthnasol. Nid ydynt am ddangos i'r gymuned ehangach—

- 17:58 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will the Member give way? A wnaiff yr Aelod ildio?
- 17:58 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes, go on. Gwnaf, ewch yn eich blaen.
- 17:58 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for giving way—it wasn't to support your husband in any way on that point [Laughter.]— Diolch ichi am ildio—nid mod i am gefnogi eich gŵr mewn unrhyw ffordd ar y pwynt hwnnw [Chwerthin.]—
- 17:58 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Oh, I'm sure it was. [Laughter.] O, rwy'n siwr eich bod. [Chwerthin.]
- 17:58 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
[Continues.]—but to say that I visited a Care and Repair scheme in my constituency and I was really impressed by the way they provide a holistic, whole view of someone. Although the local authority are very good at looking at aspects of someone's life, I think that you'd agree with me that Care and Repair are very good at looking at the whole individual and deciding appropriate conditions for that person. [Yn parhau.]—ond i ddweud fy mod wedi ymweld â chynllun Gofal a Thrsio yn fy etholaeth a bod y ffordd y maent yn ystyried rhywun o safbwynt cyfannol, cyfan, wedi gwneud argraff fawr arnaf i. Er bod yr awdurdod lleol yn dda iawn am edrych ar agweddau ar fywyd rhywun, credaf y byddech yn cytuno â mi bod Gofal a Thrsio'n dda iawn am edrych ar yr unigolyn cyfan a phenderfynu amodau priodol ar gyfer y person hwnnw.
- 17:58 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yeah, absolutely, and that was my, sort of, experience of Care and Repair at a time when we were attempting to get my husband home, because I was conscious he was bedblocking, and so were the local health board, who kept telling me that my husband was still in a district general hospital bed. So, yes, Care and Repair were very good at moving in very quickly and assessing the whole situation, and I'm glad you didn't mention the fact that my husband likes to be on his own when I'm down here or I might have to take issue with you. All that's needed is a very simple— [Interruption.] All right then, okay, fine. That's okay. Ie, yn hollol, a dyna, mewn ffordd, oedd fy mhrofiad i o Gofal a Thrsio ar adeg pan oeddem yn ceisio cael fy ngŵr adref, oherwydd fy mod yn ymwybodol ei fod yn blocio gwely, a'r bwrdd iechyd lleol hefyd, a ddywedodd wrthyf droeon fod fy ngŵr yn dal mewn gwely ysbyty cyffredinol dosbarth. Felly, ie, roedd Gofal a Thrsio'n dda iawn am symud i mewn yn gyflym iawn ac asesu'r sefyllfa gyfan, ac rwy'n falch na wnaethoch sôn am y ffaith bod fy ngŵr yn hoffi bod ar ei ben ei hun pan rwyf i lawr yma neu efallai y byddai raid i mi fynd i ddadl â chi. Y cyfan sydd ei angen yw —[Torri ar draws.] Iawn felly, iawn, iawn. Mae hynny'n iawn.

Sometimes, all that's needed is a grab rail or an opportunity just for somebody to be able to have that independence, and I think we do miss the opportunity sometimes when we go in to do all the form-filling. You know, I filled in 20 pages of forms knowing full well that, given our circumstances, they would come to nothing, but they're sitting somewhere on somebody's file, and I'd be interested to know whether the gentleman who did say to me, 'Oh, Mrs Jones, I will come back to you within half an hour' nearly three years ago has had that cup of coffee that he was going to get while he was picking the forms up. I just wonder whether he's still in the same job, and, if he is and if he's listening, then, 'You owe me a phone call from nearly three years ago'. But, the important part of that is: don't promise what you can't deliver. I know that the Government will put into consideration now the recommendations, and I hope we will see some action for the people who need it most.

Weithiau, y cyfan sydd ei angen yw canllaw ar y wal neu ddim ond cyfle i rywun allu bod yn annibynnol, ac rwy'n credu ein bod yn colli'r cyfle weithiau pan fyddwn yn mynd i mewn i lenwi'r holl ffurflenni. Wyddoch chi, fe lenwais i 20 tudalen o ffurflenni gan wybod yn iawn, o ystyried ein hamgylchiadau, na fyddent yn arwain at ddim, ond maent yn eistedd yn rhywle ar ffeil rhywun, a byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod a yw'r gŵr a ddywedodd wrthyf, 'O, Mrs Jones, byddaf yn dod yn ôl atoch o fewn hanner awr' bron i dair blynedd yn ôl wedi cael y baned o goffi yr oedd yn mynd i'w chael pan oedd yn codi'r ffurflenni. Tybed a yw'n dal i fod yn yr un swydd, ac os felly ac os yw'n gwrando, yna, 'Mae arnoch chi alwad ffôn i mi ers bron i dair blynedd'. Ond, y peth pwysig yw: peidiwch ag addo'r hyn na allwch ei gyflawni. Gwn y bydd y Llywodraeth yn ystyried yr argymhellion bellach, ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gweld rhywfaint o weithredu er lles y bobl sydd angen hynny fwyaf.

18:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:00 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm very grateful to Members who've contributed to today's debate. I will address some of the points raised later.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar iawn i Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddaid heddiw. Byddaf yn rhoi sylw i rai o'r pwyntiau a godwyd yn ddiweddarach.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think what the debate today has done is serve to underline what a crucial aspect of public service delivery independent living adaptations represent, and I think all Members who spoke recognise the savings it can make, both to our health service and to someone's wellbeing of life. My focus is on people who need help; they need to be able to access the system easily and I think the system needs to respond effectively. From the perspective of the individual, the important thing is for timely and effective help to be available. People also need to know what sort of help is available out there, and it really doesn't matter to them who delivers it.

Rwy'n credu mai'r hyn y mae'r ddaid heddiw wedi ei wneud yw bod yn fodd i danlinellu agwedd mor hanfodol o wasanaethau cyhoeddus yw addasiadau byw'n annibynnol, ac rwy'n meddwl bod yr holl Aelodau a siaradodd yn cydnabod yr arian y gallant ei arbed i'n gwasanaeth ieuchyd, a'r ffordd y gallant wella lles pobl. Mae fy mhwyslais i ar bobl sydd ag angen cymorth; mae angen iddynt allu manteisio ar y system yn rhwydd ac rwy'n credu bod angen i'r system ymateb yn effeithiol. O safbwynt yr unigolyn, y peth pwysig yw bod cymorth amserol ac effeithiol ar gael. Mae angen i bobl wybod hefyd pa fath o help sydd ar gael, ac nid yw wir o bwys iddynt pwy sy'n ei ddarparu.

Some of the report's recommendations are for local authorities to consider, and I don't wish to cut across their statutory responsibilities. However, I do recognise that they must be at the heart of the implementation discussion that now needs to get under way.

Mater i awdurdodau lleol ei ystyried yw rhai o argymhellion yr adroddiad, ac nid wyf am dorri ar draws eu cyfrifoldebau statudol. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod yn rhaid iddynt fod wrth galon y drafodaeth y mae angen ei chael yn awr ynglŷn â gweithredu.

I think today's debate also has pointed very much to the need for change. However, as we introduce change, we mustn't damage parts of the current system that are already working well. As Jocelyn Davies said, there is a great deal of good work being undertaken across Wales and we've already demonstrated improvements can be made in a number of ways, including the introduction of independent living grants a couple of years ago—that was very successful. Local authorities have developed a number of innovative schemes with key partners, which provide small grants to meet local needs.

Rwy'n credu bod y ddaid heddiw hefyd wedi tynnu sylw gwirioneddol at yr angen am newid. Fodd bynnag, wrth inni gyflwyno newid, rhaid inni beidio â niweidio rhannau o'r system bresennol sydd eisoes yn gweithio'n dda. Fel y dywedodd Jocelyn Davies, mae llawer iawn o waith da'n cael ei wneud ledled Cymru ac rydym eisoes wedi dangos y gellir gwneud gwelliannau mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cyflwyno grantiau byw'n annibynnol gwpl o flynyddoedd yn ôl—roedd hynny'n llwyddiannus iawn. Mae awdurdodau lleol wedi datblygu nifer o gynlluniau arloesol gyda phartneriaid allweddol, sy'n darparu grantiau bach i ddiwallu anghenion lleol.

Several Members—Jocelyn Davies, Gwenda Thomas and Ann Jones—all spoke about Care and Repair. They've proved very successful and agencies carry out essential work, and I too would like to add my thanks to them. They've also responded constructively to the challenge of reducing the number of agencies in Wales in order to protect front-line services. There is more to be done to share these experiences and ensure the adaptation service across Wales is more uniform and successful. As I said earlier, home adaptations can make a great difference to people's lives, and I think today's debate did demonstrate that we all, right across the Chamber, understand their importance.

Just turning to the amendments, I'm supporting amendment 1, subject to the important qualification that these are areas where we can advise and encourage local authorities and registered social landlords, rather than direct them. It's very important that we have integrated working between all the partners involved.

I cannot accept amendment 2, which calls for the abolition of all means testing. As I explained earlier, we can't afford this in the current difficult financial circumstances, and we need to target limited resources at those who are least well off. I'm also happy to support amendment 3 on the Leonard Cheshire report. We always need to engage with the views of those people working in the field. I accept amendment 4 on the basis we are committed to continuing our efforts to encourage local authorities to exempt minor adaptations, although we don't have the power to require them to accept them.

Mark Isherwood referred to several amendments that he and his group will be supporting, and I've certainly heard what he says. In relation to the College of Occupational Therapists, what they say is actually reflected very much in the report, and a person-centred service has featured in guidance since 2007.

Peter Black, I can assure you that we will be responding to the report, obviously, fully, as quickly as possible. I think you made a very good point that we've had several reviews and it is now time to try and get that simplified and less bureaucratic system right across Wales. I will be having discussions with local authorities around this and I mentioned the taskforce that the Minister for Health and Social Services and I will be pulling together.

Around recommendation 11, you referred to the performance indicators and I certainly will look at it—Welsh Government's very happy to consider it—but it could need an amendment to current legislation. But, certainly, we're very happy to consider it. I think the level of satisfaction, in terms of outcomes is very high, and that's certainly something that I'm getting, particularly, from Care and Repair.

Gwenda Thomas reminded us very eloquently that interventions such as independent living adaptations are so important and they're not just for older people; some people, unfortunately, need them from birth in some cases to lead the sort of life that Gwenda Thomas referred to.

Mae nifer o Aelodau—Jocelyn Davies, Gwenda Thomas ac Ann Jones—i gyd wedi siarad am Gofal a Thrwsio. Maent wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae asiantaethau'n gwneud gwaith hanfodol, a byddwn innau hefyd yn hoffi ychwanegu fy niolch iddynt. Maent hefyd wedi ymateb yn adeiladol i'r her o leihau nifer yr asiantaethau yng Nghymru er mwyn amddiffyn gwasanaethau rheng flaen. Mae mwyr i'w wneud i rannu'r profiadau hyn a sicrhau bod y gwasanaeth addasiadau ar draws Cymru'n fwy unfurf a llwyddiannus. Fel y dywedais yn gynharach, gall addasiadau i'r cartref wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl, ac rwy'n credu bod y ddadl heddiw wedi dangos ein bod i gyd, ar draws y Siambr, yn deall eu pwysigrwydd.

Gan droi at y gwelliannau, rwy'n cefnogi gwelliant 1, yn amodol ar y pwynt pwysig bod y rhain yn feysydd lle y gallwn gynghori ac annog awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn hytrach na'u cyfarwyddo. Mae'n bwysig iawn bod gwaith yr holl bartneriaid sydd ynghlwm yn cael ei integreiddio.

Ni allaf dderbyn gwelliant 2, sy'n galw am ddiddymu'r holl brofion modd. Fel yr eglurais yn gynharach, ni allwn fforddio hyn yn yr amgylchiadau ariannol anodd presennol, ac mae angen targedu adnoddau prin at y rhai sydd iaif cefnog. Rwy'n hapus i gefnogi gwelliant 3 ar adroddiad Leonard Cheshire hefyd. Mae bob amser angen inni ymgysylltu â barn y bobl hynny sy'n gweithio yn y maes. Rwy'n derbyn gwelliant 4 ar y sail ein bod wedi ymrwymo i barhau â'n hymdrechion i annog awdurdodau lleol i eithrio mân addasiadau, er nad oes gennym y pŵer i'w gwneud yn ofynnol iddynt eu derbyn.

Cyfeiriodd Mark Isherwood at nifer o welliannau y bydd eiddo'n eu cefnogi, ac rwy'n sicrhau wedi dlywed yr hyn y mae'n ei ddweud. O ran y Coleg Therapyddion Galwedigaethol, mae'r hyn y maent yn ei ddweud yn cael ei adlewyrchu'n fawr iawn yn yr adroddiad, mewn gwirionedd, a chyfeiriwyd at wasanaeth sy'n canolbwyntio ar y person mewn canllawiau ers 2007.

Peter Black, gallaf eich sicrhau y byddwn yn ymateb i'r adroddiad, yn amlwg, yn llawn, cyn gynted ag y bo modd. Rwy'n credu eich bod wedi gwneud pwynt da iawn ein bod wedi cael sawl adolygiad a'i bod yn bryd ceisio sefydlu'r system symlach a llai biwrocrataidd honno ar draws Cymru gyfan. Byddaf yn cael trafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch hyn a soniais am y tasglu y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau'n ei lunio.

Ynghylch argymhelliad 11, fe wnaethoch gyfeirio at y dangosyddion perfformiad a byddaf yn sicrhau yn edrych ar hynny—mae Llywodraeth Cymru'n hapus iawn i'w ystyried—ond gallai fod angen diwygio deddfwriaeth gyfredol. Ond, yn sicrhau, rydym yn hapus iawn i'w ystyried. Rwy'n meddwl bod lefel y boddhad, o ran canlyniadau, yn uchel iawn, ac mae hynny'n sicrhau yn rhywbeth yr wyf i'n ei gael gan Gofal a Thrwsio yn arbennig.

Cawsom ein hatgoffa yn huawdl iawn gan Gwenda Thomas bod ymyriadau fel addasiadau byw'n annibynnol mor bwysig ac nad ydynt ar gyfer pobl hyn yn unig; mae rhai pobl, yn anffodus, eu hangen o'u genedigaeth mewn rhai achosion i fyw'r math o fywyd y cyfeiriodd Gwenda Thomas ato.

Sandy Mewies referred to the need for timely and appropriate adaptations to make sure we don't have those delayed transfers of care, and also referred to extra-care facilities, which are, of course, a new way of living. People consider that as they go through choices of housing through their lives. Local authorities and RSLs certainly should look at the costs of major adaptations, and I thought that was a very good point that you made for the taskforce, and, perhaps, that will be their first task.

Ann Jones, right to inclusion—that expresses exactly what we all want. Ann reminded us again of her personal experience. You are quite right: it needs to be as simple and as least bureaucratic as possible to ensure that people are able to access that help, at a time that can be very difficult and very traumatic in their lives.

I think there's been a great deal of consensus in this debate today, and I think we have shown over recent years it is possible to make significant improvements. I do hope the action that the Minister for Health and Social Services and I are taking will provide us with more improvements very quickly, going forward. So, I thank the Members very much for their contributions.

Cyfeiriodd Sandy Mewies at yr angen am addasiadau amserol a phriodol i wneud yn siŵr nad ydym yn cael achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, a chyfeiriodd hefyd at gyfleusterau gofal ychwanegol, sydd, wrth gwrs, yn ffordw newydd o fyw. Mae pobl yn ystyried hynny wrth fynd drwy ddewisiadau tai trwy eu bywydau. Dylai awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn sicr edrych ar gostau addasiadau mawr, ac roeddwn yn meddwl bod hwnnw'n bwynt da iawn ar gyfer y tasglu, ac efallai mai dyna fydd ei dasg gyntaf.

Ann Jones, hawl i gynhwysiant—mae hynny'n mynegi'n union beth yr ydym i gyd ei eisiau. Atgoffwyd ni gan Ann eto am ei phrofiad personol. Rydych yn llygad eich lle: mae angen i'r drefn fod mor syml a chynnwys cyn lleied o firocratiaeth ag y bo modd er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gofal ar y cymorth hwnnw, ar adeg sy'n gallu bod yn anodd iawn a thrawmatig iawn yn eu bywydau.

Rwy'n meddwl y bu llawer iawn o gonsensws yn y ddadl hon heddiw, ac rwy'n meddwl ein bod wedi dangos dros y blynyddoedd diwethaf ei bod yn bosibl gwneud gwelliannau sylweddol. Rwy'n gobeithio y bydd y camau y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau'n eu cymryd yn rhoi mwy o welliannau inni yn gyflym iawn, wrth symud ymlaen. Felly, diolch i'r Aelodau yn fawr iawn am eu cyfraniadau.

18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 1 felly yn cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36

18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? [Objection.] I defer the rest of the voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf weddill y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio

Voting deferred until voting time.

18:06 **9. Cyfnod Pleidleisio**
Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. We will, therefore, vote on the legislative consent motion on the Medical Innovation Bill. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Mark Drakeford. Open the vote. Close the vote. There were no votes in favour of the motion. There were 54 votes against. Therefore, the motion is not agreed.

Mae amser pleidleisio yn awr yn dilyn. Cyn imi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes. Byddwn, felly, yn pleidleisio ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Arloesi Meddygol. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Mark Drakeford. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Nid oedd unrhyw bleidleisiau o blaid y cynnig. Cafwyd 54 o bleidleisiau yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 0, Yn erbyn 54, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 0, Against 54, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5680](#)

[Result of the vote on motion NDM5680](#)

18:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We'll now vote on the review of independent living adaptations. We have dealt with amendment 1. I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 32. There were 11 abstentions. Therefore, amendment 2 is not agreed.

Byddwn yn pleidleiso yn awr ar yr adolygiad o addasiadau byw'n annibynnol. Rydym wedi delio â gwelliant 1. Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 32 yn erbyn. Roedd 11 yn ymatal. Felly, nid yw gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 32, Ymatal 11.

Amendment not agreed: For 11, Against 32, Abstain 11.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5682](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5682](#)

18:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 54. There were no votes against. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 54 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5682](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5682](#)

18:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 54. There were no votes against. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 54 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis welliant 4 i gynnis NDM5682](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5682](#)

Cynnis NDM5682 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5682 as amended:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau addasiadau a sut maent yn helpu pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain am gyhyd â phosibl.

1. Acknowledges the importance of adaptations services and how they help people to continue living independently in their own home for as long as possible.

2. Yn nodi canfyddiadau'r Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol, a gyhoeddwyd ar 23 Ionawr 2015.

2. Notes the findings of the Review of Independent Living Adaptations, which was published on 23rd January 2015.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

3. Calls on the Welsh Government to:

a) sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i lunio siarter cwsmeriaid yn amlinellu ymrwymadau mewn perthynas â gwasanaethau addasiadau;

a) ensure that local authorities work with social landlords to produce a customer charter setting out commitments in relation to adaptation services;

b) gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol i nodi safonau ar gyfer amseroedd darparu a sicrhau eu bod yn cael eu bodloni gan bob awdurdod lleol;

b) work with local authorities and social housing providers to set out delivery time standards and ensure that they are met by all local authorities;

c) archwilio gwasanaethau addasiadau i ganfod arfer gorau a'i roi ar waith; a

c) audit adaptation services to identify best practice and its implementation; and

d) rhoi mecanweithiau ar waith i fonitro boddhad cwsmeriaid a chanlyniadau tymor hwy.

d) put in place mechanisms to monitor customer satisfaction and longer-term outcomes.

4. Yn nodi argymhellion allweddol yr ymgyrch Home Truths gan Leonard Cheshire Disability a'r adroddiad No Place Like Home.

4. Notes the key recommendations of the Leonard Cheshire Disability Home Truths campaign and No Place Like Home Report.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol eithrio mân addasiadau o brofion modd, fel yr argymhellir yn yr adolygiad.

5. Calls on the Welsh Government to require local authorities to exempt minor adaptations from means testing, as recommended in the review.

18:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 54. There were no votes against. Therefore, the motion as amended is agreed.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 54 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, mae'r cynnig fel y'i diwygiwyd yn cael ei dderbyn.

Derbyniwyd cynnig NDM5682 fel y'i diwygiwyd: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Motion NDM5682 as amended agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5682 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5682 as amended](#)

18:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:08.

The meeting ended at 18:08.